

**Aseiad rhanbarthol o dwf a mudo yn y  
dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth  
Caerdydd  
SEWPOS / SEWSPG**

Mai 2024

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	i
1. Rhagymadrodd	1
2. Proses a methodoleg yr ymchwil	6
3. Amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar duedd wedi'u diweddarau	13
4. Amcangyfrif twf cyflogaeth gwaelodlin	28
5. Ystyried strategaeth economaidd a buddsoddiad	41
6. Goblygiadau ar gyfer mudo a thwf poblogaeth	51
7. Ystyriaethau polisi	70

Atodiad 1: Proffiliau demograffig Awdurdodau	77
Atodiad 2: Proffiliau economaidd ar lefel awdurdod	88
Atodiad 3: Allbynnau Senario Awdurdod POPGROUP	171
Atodiad 4: Nodyn Tybiaethau POPGROUP	178

# Crynodeb Gweithredol

1. Penodwyd Turley, SQW ac Edge Analytics gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru (SEWPOS) a Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG)<sup>1</sup> i gynnal asesiad rhanbarthol o dwf a mudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC).
2. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi llawer o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fel un o'r tair Ardal Dwf Genedlaethol o dan *Bolisi 1: Ble bydd Cymru yn tyfu*<sup>2</sup>. Er bod yr astudiaeth hon wedi mabwysiadu dull 'oddi ar bolisi' ar gyfer asesu twf posibl, mae dynodiad yr ardaloedd mewn polisi cenedlaethol a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu cydnabod fel cyd-destun pwysig, sydd â goblygiadau o ran sut mae awdurdodau unigol yn datblygu eu tystiolaeth eu hunain ac ymatebion polisi lleol. Yn yr un modd, mae'r asesiad hwn wedi'i ddatblygu gyda gwerthfawrogiad o raddfa'r buddsoddiad hanesyddol a'r buddsoddiad arfaethedig sydd wedi'i gyfeirio at Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddyfarniad Bargen Ddinesig, a lofnodwyd yn 2016, gyda'r nod datganedig o gyflawni 25,000 o swyddi newydd.
3. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ymchwil yn ymateb i gyfres o amcanion astudiaeth a osodwyd gan y grŵp comisiynu, sy'n gofyn am asesu'r canlynol:
  - Sut y gallai pob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) gyfrannu at gynyddu nifer y swyddi ar draws y rhanbarth erbyn 2040.
  - Sut mae'r cynnydd mewn swyddi yn cyfateb i'r twf a ragwelir ym mhoblogaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
  - Y tybiaethau mudo sy'n sail i lefel arfaethedig y twf yn y boblogaeth/swyddi.
  - Goblygiadau posibl dosbarthiad gofodol swyddi a phobl ar batrymau teithio.
  - Sut mae'r twf a ragamcanir yn y boblogaeth a swyddi yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol 2040 a strategaethau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd yn ddiweddar neu sydd ar ddod.
4. Bwriedir i allbynnau'r astudiaeth hon gyd-fynd â ac ategu'r astudiaethau unigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gan yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'r astudiaeth yn cynnig cyfle pwysig i gyflwyno darlun cyfansawdd a chyson, gan ddefnyddio'r data diweddaraf oedd ar gael ar adeg ei chomisiynu, ond ni fwriedir iddi gymryd lle na disodli'r ystyriaeth fanwl o botensial twf na'r rhyngweithiad rhwng ysgogwyr twf poblogaeth a chyflogaeth a baratowyd gan awdurdodau unigol.

---

<sup>1</sup> Mae'r rhain yn grwpiau cydweithredol rhanbarthol sydd wedi'u ffurfio gan gynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol cyfansoddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bro Morgannwg a Bannau Brycheiniog (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynt).

<sup>2</sup> Nodir bod holl ardal awdurdod Sir Fynwy y tu allan i'r dynodiad.

5. Yn fras, mae'r dull methodolegol a fabwysiadwyd yn yr asesiad wedi dilyn proses debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar lefel awdurdodau unigol i asesu potensial twf a'r berthynas rhwng ysgogwyr pwysig newid demograffig a chreu swyddi. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio'r prif setiau data a'r modelau llywio canlynol:
- Rhagolygon econometrig gwaelodlin. Prynwyd y rhagolygon mwyaf diweddar a oedd ar gael ar yr adeg y cynhaliwyd y dadansoddiad gan y tri phrif dŷ rhagamcanu - Experian (Medi 2023), Oxford Economics (Rhagfyr 2023) a Cambridge Econometrics (Ebrill 2023).
  - Modelu demograffig. Defnyddiodd Edge Analytics feddalwedd POPGROUP<sup>3</sup> i ddatblygu rhagamcanion demograffig ar draws PRC wedi'u hadeiladu o fodelau lefel awdurdod lleol cyfansoddol. Roedd y gwaith modelu'n defnyddio setiau data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sydd ar gael, sy'n cynnwys Amcangyfrif Canol-blwyddyn (MYE) 2022 a set ddata poblogaeth MYE hanesyddol wedi'i hail-sylfaenu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2023, i sicrhau aliniad â chanlyniadau Cyfrifiad 2021.
6. Yn bwysig, ac yn wahanol i lawer o'r astudiaethau ar lefel awdurdodau unigol, nid yw'r ymchwil hwn wedi ceisio trosi'r rhagamcanion hyn yn ofynion o ran tai neu dir ar gyfer awdurdodau nac ar lefel PRC.

#### **Amcangyfrif twf swyddi yn y dyfodol**

7. Er mwyn llywio asesiad o'r potensial ar gyfer twf cyflogaeth ar draws PRC, mae'r astudiaeth yn adolygu perfformiad hanesyddol diweddar i ddechrau. Mae hyn yn dangos, er gwaethaf heriau hirdymor sylweddol, bod economi PRC wedi perfformio'n dda o ran cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf.
8. Dros y cyfnod 1999–2019, mae twf o tua 4,250 o swyddi y flwyddyn wedi'i ysgogi ar draws PRC gan wasanaethau busnes a phroffesiynol a gan weithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ym maes gofal iechyd. Bu twf hefyd ym maes gwybodaeth a chyfathrebu ac mewn gwasanaeth lletya a bwyd. Fodd bynnag, mae'r twf hwn wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan grebachiad mewn gweithgynhyrchu, a oedd yn arbennig o llym ar ddechrau'r 2000au.
9. Yna mae'r astudiaeth yn ystyried y tri rhagolwg gwaelodlin. Mae'r rhain yn rhagweld y bydd PRC yn parhau i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd hyd at 2040. Mae cyfartaledd o'r tri rhagolwg yn awgrymu twf swyddi o bron i 2,500 o swyddi y flwyddyn, ac ystyrir bod hyn yn sefyllfa waelodlin resymol ar gyfer ystyried wedyn y potensial ar gyfer twf swyddi uwch. Mae'r lefel hon o dwf swyddi yn fwy cymedrol na'r hyn a gofnodwyd yn hanesyddol, yn gyson â barn y tai rhagamcanu ar lefel genedlaethol.
10. Er bod y waelodlin hon yn allosodiad seiliedig ar fodel o duddiadau a thybiaethau ledled y DU, nid yw'n ystyried cyfleoedd twf lleol penodol na buddsoddiad arfaethedig a nodwyd. Er mwyn canfod y potensial ar gyfer twf cryfach, yn hytrach na defnyddio model econometrig sy'n arwain at ragolwg amgen mae'r astudiaeth wedi mabwysiadu

---

<sup>3</sup> Nodir bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio meddalwedd POPGROUP a'i bod wedi'i defnyddio'n helaeth mewn adroddiadau sylfaen tystiolaeth presennol yr awdurdodau cyfansoddol yn CCR.

dull sy'n ceisio creu 'naratif' twf yn y dyfodol. Mae hyn yn ceisio sefydlu a oes, ac i ba raddau, lwybr credadwy i dwf swyddi yn y dyfodol hyd at 2040 a sut y gellid dosbarthu hyn ar lefel awdurdod lleol. Mae hyn yn ceisio ystyried tueddiadau hanesyddol ac arwyddion o fuddsoddiad yn y dyfodol yn seiliedig ar ddehongli'r wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau unigol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r ymchwil wedi ceisio triongli:

- Tystiolaeth o strategaeth ranbarthol a buddsoddiadau mawr sy'n dod ymlaen ar lefel ranbarthol (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Bargen Ddinesig PRC)
- Tystiolaeth o fuddsoddiadau lleol 'hysbys' sylweddol a chyfleoedd twf eraill
- Dadansoddiad pellach o ddata tuedd hanesyddol a rhagolygon ar lefel leol (gan gynnwys deunydd a baratowyd ar gyfer astudiaethau ac adolygiadau cyflogaeth leol ac astudiaethau eraill) i ystyried twf mewn sectorau ac ardaloedd penodol

11. Gan ddilyn y dull hwn, mae'r astudiaeth wedi datblygu senario potensial uwch twf swyddi, sy'n rhagweld y bydd 85,086 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu rhwng 2022 a 2040, neu 4,727 o swyddi y flwyddyn, ar draws PRC. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras (ar lefel ranbarthol) â thafllwybr twf 1999-2019 ac yn gynydd sylweddol ar lefel gwaelodlin twf. Wrth gyflwyno'r asesiad hwn o dwf posibl swyddi yn y dyfodol, mae'n bwysig cydnabod nad yw'n gyfystyr â 'therfyn uchaf': efallai y bydd gan awdurdodau unigol amcanion polisi ehangach a allai osod uchelgeisiau ar gyfer lefelau twf sy'n fwy na'r hyn a aseswyd.

#### **Goblygiadau posibl ar gyfer twf poblogaeth**

12. Wrth asesu'r goblygiadau posibl y gallai'r senarios gwahanol o dwf swyddi eu cael ar y boblogaeth, mae Edge Analytics wedi cynhyrchu cyfres o senarios demograffig tuedd y gorffennol ac a arweinir gan gyflogaeth. Mae'r rhain wedi integreiddio ystod o ragdybiaethau ymddygiad y gweithlu ochr yn ochr â'r wybodaeth ddemograffig ddiweddaraf sydd ar gael. Gyda'i gilydd, mae'r senarios hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r graddau y gallai lefelau gwahanol o dwf swyddi a ragwelir effeithio ar lefelau mudo, o'u cyferbynnu â pharhad mewn tueddiadau hanesyddol.

13. Mae hyn wedi nodi'r canlynol:

- Byddai parhad twf poblogaeth yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol tymor byr neu hirdymor yn cefnogi PRC i gyflawni lefel twf swyddi a awgrymir gan y rhagolwg gwaelodlin hyd at 2040.
- Mae'n bosibl y byddai angen lefel gryfach o dwf yn y boblogaeth, sef ychydig dros 130,000 o bobl erbyn 2040, i gefnogi'r lefel uwch o dwf swyddi a nodir drwy'r astudiaeth. Byddai'r lefel hon o dwf yn y boblogaeth yn gyfystyr â thua dyblu'r hyn a ragamcanwyd yn seiliedig ar dueddiadau hirdymor ac yn awgrymu'r angen am lefel uwch o fudo net i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd nag a welwyd ar gyfartaledd yn hanesyddol. Nid yw'r lefelau mudo net a awgrymir yn flynyddol, fodd bynnag, heb gynsail, gan fod y data diweddaraf yn awgrymu bod lefelau mudo sy'n fwy na'r cyfartaledd blynyddol gofynnol wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf.

### **Goblygiadau gofodol**

14. Yn hanesyddol, mae twf swyddi o fewn PRC wedi bod ar ei gryfaf yng Nghaerdydd ac (yn fwy diweddar) yng Nghasnewydd, gyda chyfran cyflogaeth Caerdydd yn cynyddu'n raddol dros amser. Mae'r rhagolygon gwaelodlin yn awgrymu, ar wahân i Flaenau Gwent, y disgwylir i'r holl awdurdodau barhau i weld cynnydd mewn cyflogaeth hyd at 2040. Mae'r rhagolwg gwaelodlin hefyd yn awgrymu y bydd Caerdydd a Chasnewydd yn gweld cyfraddau twf cryfach o gymharu â rhannau eraill PRC, a fyddai'n gweld eu cyfran o gyfanswm swyddi yn y rhanbarth yn cynyddu.
15. Er y disgwylir i bob awdurdod weld cynnydd sylweddol ar y ffigur twf gwaelodlin o dan y senario potensial uwch twf swyddi, mae'r cynnydd mwyaf dros y waelodlin ym Mlaenau Gwent (lle mae'r waelodlin yn negyddol), Caerffili a Thorfaen.
16. Mae'r senario potensial uwch twf swyddi yn rhagweld twf cyflogaeth sy'n cyd-fynd yn agosach â chreu swyddi ychwanegol net gwirioneddol yn y cyfnod 1999-2019 ar draws PRC. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau ar lefel leol rhwng twf posibl a nodir a'r duedd hanesyddol:
  - Mae twf tuedd hanesyddol ym Mlaenau Gwent a Thorfaen yn negyddol, gan adlewyrchu'n bennaf grebachiad gweithgynhyrchu. Mae'r senario potensial uwch twf swyddi yn awgrymu gwrthdroi'r duedd hon yn sylweddol.
  - Mae twf tuedd hanesyddol ym Mro Morgannwg hefyd yn negyddol, er bod y senario potensial uwch twf swyddi yn rhagweld twf o tua 370 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu presenoldeb buddsoddiadau 'hysbys' sylweddol yn y Fro, y mae rhai ohonynt yn rhanbarthol arwyddocaol o ran maint.
  - Yn Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd, mae'r senario potensial uwch twf swyddi yn awgrymu cyfradd twf cyflogaeth sy'n uwch na'r hyn a awgrymwyd gan y duedd hanesyddol. Yn achos Casnewydd, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y duedd 20 mlynedd yn isel oherwydd colledion gweithgynhyrchu sylweddol (e.e. Llanwern) ar ddechrau'r 2000au: mae'r duedd ar ôl 2009 wedi bod yn llawer cryfach a gellir dadlau ei bod yn adlewyrchu economi'r ddinas yn well.
  - Mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan dwf tuedd hanesyddol sydd ychydig yn is mewn mannau eraill yn y rhanbarth.
17. Yn gyffredinol, mae'r senario potensial uwch twf swyddi yn rhagweld y bydd dosbarthiad cymesur swyddi yn weddol debyg i'r hyn a geir ar hyn o bryd. O ganlyniad, wrth ystyried y berthynas â newid posibl yn y boblogaeth, mae'n dal yn wir y disgwylir i Gaerdydd barhau i dyfu ei chyfran gymesur o'r boblogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, o'i chyferbynnu â'r newidiadau goblygedig sy'n gysylltiedig â pharhad tueddiadau hanesyddol hirdymor. Mae gwahaniaethau cymharol fach ar draws yr awdurdodau eraill, gyda chryfder goblygedig o ran twf swyddi yn awgrymu cyfran boblogaeth gymesur uwch nag o dan barhad o dueddiadau hanesyddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Blaenau Gwent.
18. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn parhau i gadarnhau bod PRC yn allforiwr net llafur, gyda bron i 30,000 yn fwy o bobl yn teithio allan o'r rhanbarth i weithio nag sy'n teithio i mewn. Galluogir llif o'r fath gan seilwaith trafnidiaeth sy'n bodoli eisoes ac

agosrwydd cyfleoedd cyflogaeth mewn canolfannau economaidd megis Bryste, Castell-nedd Port Talbot a'r trefi cyfagos yn Ne Swydd Gaerloyw. Mae'r modelu sy'n sail i'r canfyddiadau uchod wedi tybio bod llifoedd o'r fath yn cael eu cynnal, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â rhagweld a chyfiawnhau tybiaethau amgen. Rhoddwyd ystyriaeth i senario ddamcaniaethol lle mae PRC yn gweld hunangynhwysiant o ran llafur, gan adlewyrchu'n rhannol o leiaf y dyheadau a nodir yn y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol i weld newidiadau i ymddygiadau teithio sy'n gysylltiedig â buddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth o fewn PRC. Mae'r dadansoddiad 'hunangynhwysiant' hwn wedi amlygu y gallai'r rhagolygon potensial uwch twf swyddi yn ddamcaniaethol gael eu cynnwys drwy lefel fwy cymedrol o dwf yn y boblogaeth, gan dybio bod mwy o'r gweithlu preswyl yn cael ei ddefnyddio mewn swyddi o fewn PRC (yn hytrach nac allgymudo o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd). Nodir, fodd bynnag, o fewn PRC ei hun y byddai disgwyl, yn fras, i batrymau cymudo presennol gael eu cynnal, gyda llifoedd yn parhau i gyfeiriad Caerdydd a Chasnewydd i adlewyrchu'r gwahaniaethau sylfaenol yng nghydbwysedd swyddi a gweithlu o fewn awdurdodau unigol.

### **Ystyriaethau polisi**

19. Fel y nodwyd uchod, wrth fynd i'r afael ag amcanion yr astudiaeth mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn seiliedig ar ragdybiaethau 'oddi-ar bolisi'. Nid yw felly wedi ceisio cynnwys amcanion polisi y tu hwnt i nodi neu dargedu buddsoddiad neu ddynodiadau economaidd. O ganlyniad, nid yw'r taflwybrau twf a awgrymir yn ceisio rhoi cyfrif am ffactorau sy'n ymwneud â gallu posibl awdurdodau i ymdopi â'r twf yn nifer y bobl neu swyddi a ragamcanir, ac nid ydynt chwaith yn ceisio adlewyrchu uchelgeisiau ar wahân yr awdurdodau neu'n wir PRC i ddefnyddio cyflenwad fel lifer ar gyfer cyflawni canlyniadau amgen. Bydd ffactorau o'r fath yn cael eu hystyried a'u dangos fel rhan o ddatblygiad polisi, boed hynny ar ffurf adolygiadau i Gynlluniau Datblygu Lleol neu, yn y dyfodol, cynllun isranbarthol Prifddinas Ranbarth Caerdydd.
20. Yn y cyd-destun hwn, rhoddir ystyriaeth lefel uchel i'r aliniad cymharol â pholisi cenedlaethol ar ffurf Cymru'r Dyfodol ac yna Cynlluniau Datblygu Lleol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws PRC.
21. Gan edrych yn gyntaf ar Gymru'r Dyfodol, deallir bod y targedau isranbarthol a nodwyd ar gyfer twf tai wedi'u hategu gan Brif Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018. Wrth gymharu'r gwahanol lefelau o dwf poblogaeth rhagamcanol a gyflwynir yn yr ymchwil hwn â'r set ddata gynharach hon, mae'n amlwg y byddai cefnogi'r lefel uwch o dwf swyddi posibl a nodwyd yn golygu bod angen lefel gryfach o dwf yn y boblogaeth, ac o ganlyniad mudo net i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mewn cyferbyniad, byddai disgwyl i lefel y twf goblygedig yn y boblogaeth o dan yr amcanestyniadau swyddogol gefnogi twf yn fras ar lefel sy'n cyd-fynd yn fwy â'r hyn a gyflwynir gan y rhagolwg swyddi gwaelodlin.
22. Ar lefel awdurdod lleol, mae lefel uwch y twf swyddi posibl a nodwyd yn cyd-fynd yn gymharol agos, er ychydig yn is, â'r lefelau twf swyddi cronol y cyfeirir atynt mewn cynlluniau datblygu sy'n dod i'r amlwg. Mae rhoi cyfrif am y setiau data demograffig diweddaraf a'r gwaith modelu a wnaed gan Edge Analytics yn awgrymu yn yr un modd y byddai lefel ychydig yn is o dwf yn y boblogaeth na'r hyn a nodwyd yn y dystiolaeth

sy'n llywio'r cynlluniau datblygu sy'n dod i'r amlwg yn cefnogi'r ystod lawn o dwf swyddi posibl a nodir yn yr astudiaeth hon.

# 1. Rhagymadrodd

- 1.1 Penodwyd Turley, SQW ac Edge Analytics gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru (SEWPOS) a Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (SEWSPG)<sup>4</sup>, a elwir wedi hyn yn grŵp comisiynu, i gynnal asesiad rhanbarthol o dwf a mudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC).

## **Cwmpas y gwaith ac amcanion yr astudiaeth**

- 1.2 Mae'r ymchwil yn ymateb i gyfres o amcanion astudiaeth a osodwyd gan y grŵp comisiynu, sy'n gofyn am asesu'r canlynol:
- Sut y gallai pob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) gyfrannu at gynyddu nifer y swyddi ar draws y rhanbarth erbyn 2040.
  - Sut mae'r cynnydd mewn swyddi yn cyfateb i'r twf a ragwelir ym mhoblogaeth Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.
  - Y tybiaethau mudo sy'n sail i lefel arfaethedig y twf yn y boblogaeth/swyddi.
  - Goblygiadau posibl dosbarthiad gofodol swyddi a phobl ar batrymau teithio.
  - Sut mae'r twf a ragamcanir yn y boblogaeth a swyddi yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol 2040 a strategaethau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd yn ddiweddar neu sydd ar ddod.


## **Daearyddiaeth ardal yr astudiaeth**

- 1.3 Mae allbynnau ymchwil wedi'u dadansoddi a'u cyflwyno ar lefel PRC a'u dadgyfuno i'r deg ardal awdurdod, sy'n cynnwys rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyfagos. Dangosir y daearyddiaethau hyn yn Ffigur 1.1.

---

<sup>4</sup> Mae'r rhain yn grwpiau cydweithredol rhanbarthol sydd wedi'u ffurfio gan gynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol cyfansoddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Bro Morgannwg a Bannau Brycheiniog (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynt).

**Ffigur 1.1: Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfansoddol**




*Ffynhonnell: Turley*

- 1.4 Mae PRC yn cyfrannu at oddeutu 50% o economi Cymru ac mae ganddo boblogaeth o tua 1.5 miliwn, sydd eto'n cyfateb i tua hanner poblogaeth y wlad.
- 1.5 Mae Ffigur 1.1 hefyd yn dangos y seilwaith trafndiaeth strategol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Lle mae'r ymchwil yn ystyried dosbarthiad twf presennol ac yn y dyfodol a'r berthynas rhwng lleoliad cyflogaeth a man preswyl gweithlu mae'r seilwaith presennol yn rhoi cyd-destun pwysig.

**Cyd-destun polisi**


- 1.6 Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 yn gosod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer twf a datblygiad yng Nghymru hyd at 2040. Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol o hyn ymlaen) yw'r cynllun datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru ac mae'n rhan o'r cynllun datblygu statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.
- 1.7 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi llawer o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fel un o dair Ardal Dwf Genedlaethol o dan *Bolisi 1: Lle bydd Cymru'n tyfu*. Dangosir hyn yn Ffigur 1.2, sydd wedi'i gymryd o Cymru'r Dyfodol, sydd hefyd yn dangos y gydberthynas strategol â rhannau eraill o Gymru, gan gynnwys Ardal Dwf Bae Abertawe ac Ardal Dwf Llanelli i'r gorllewin. Mae Diagram Rhanbarthol y De-ddwyrain hefyd yn cael ei ailadrodd yn Ffigur 1.3, gyda hwn yn rhoi lefel fwy gronynnog o fanylder. Mae hyn yn dangos, er bod mwyafrif PRC yn dod o fewn yr Ardal Dwf ddynodedig, mae ardal awdurdod Sir Fynwy y tu allan i'r dynodiad.

**Ffigur 1.2: Cymru'r Dyfodol: Strategaeth Ofodol**



*Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol*

**Ffigur 1.3: Diagram Rhanbarthol Stratregol y De-ddwyrain**



*Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol*

1.8 Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn cadarnhau:

*'Mae cydleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau yn golygu canolbwyntio ar ddinasoedd a threfi mawr fel y prif ardaloedd datblygu... Bydd ardaloedd trefol sy'n tyfu ledled Cymru yn creu crynoadau o swyddi, gwasanaethau ac amwynderau a màs critigol o bobl i gynnal gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus da ac amrywiaeth o weithgareddau economaidd.'* (Cymru'r Dyfodol, tudalen 60)

1.9 O fewn y cyd-destun hwn mae'r Polisi yn cadarnhau:

*'Mewn tair Ardal Dwf Genedlaethol gwelir twf cyflogaeth a thai a buddsoddi mewn seilwaith'* (Cymru'r Dyfodol, tudalen 62)

1.10 Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi ei disgwyliadau ar gyfer twf drwy amcangyfrif yr angen am 66,400 o gartrefi ychwanegol dros gyfnod o ugain mlynedd hyd at 2039. Mae'r raddfa hon o angen yn deillio'n uniongyrchol o'r Amcanestyniadau Is-genedlaethol Poblogaeth ac Aelwydydd (SNPP/SNHP) ar sail 2018 yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru sy'n cadarnhau y disgwylir i'r amcanestyniadau demograffig diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel awdurdod fod 'yn rhan sylfaenol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu.<sup>5</sup>

1.11 Yn bwysig, mae Dyfodol Cymru yn cydnabod o dan Bolisi 7:

*'Nid yw'r amcangyfrifon cenedlaethol na rhanbarthol o angen yn adlewyrchu polisïau na digwyddiadau yn y dyfodol ac nid ydynt yn nodi Gofyniad Tai i Gymru na'r rhanbarthau. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon yn rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio polisi a gofynion tai arnynt. Dylai'r amcangyfrifon o'r angen am dai marchnad a thai fforddiadwy lywio'r gofynion tai a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a disgwylir i'r gofynion tai fod yn wahanol i'r amcangyfrifon o'r angen am dai.'*<sup>6</sup>

1.12 Yng nghyd-destun yr ymchwil hwn, cydnabyddir bod Polisi Cynllunio Cymru yn mynd ymlaen i ddatgan, yng nghyd-destun datblygu tystiolaeth gynllunio:

*'Mae angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i'w hardal, ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen.'*<sup>7</sup>

1.13 Wrth gynnal asesiad o'r fath, mae'n datgan y dylai'r amcanestyniadau swyddogol:

*'...ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau 57 rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun.'*<sup>8</sup>

---

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2024) Polisi Cynllunio Cymru, Cyhoeddiad 12, paragraff 4.2.6

<sup>6</sup> Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)

<sup>7</sup> *Ibid*, paragraff 4.2.7

<sup>8</sup> *Ibid*, paragraff 4.2.6

- 1.14 Yn genedlaethol, amlygodd Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru (2017) fodolaeth amrywiadau gofodol mewn canlyniadau economaidd ledled Cymru, yng nghyd-destun diffyg cynhyrchiant parhaus yn gyffredinol. Ymrwymodd i ddull rhanbarthol gwell o ymdrin â strategaeth economaidd, a adlewyrchir yn *Cymru'r Dyfodol* a llywio dulliau rhanbarthol strategol. Roedd y strategaeth hon hefyd yn adlewyrchu dyfarniad Bargen Ddinesig ar gyfer PRC, a lofnodwyd yn 2016, a sefydlodd y nod ddatganedig i ddarparu 25,000 o swyddi newydd.
- 1.15 Yng nghyd-destun yr uchod, yn ddiweddar cynhaliodd Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd adolygiadau o'u Cynlluniau Datblygu Lleol, neu maent wrthi'n gwneud hynny. Mae eu paratodau wedi cynnwys cynhyrchu asesiadau manwl unigol o senarios twf rhesymol posibl gan roi ystyriaeth i ddealltwriaeth o'r rôl y bydd twf poblogaeth a chyflogaeth yn ei chwarae ym mhob un. Mae'r ymchwil hwn yn cydnabod y sylfaen tystiolaeth bresennol hon, a ystyrir yn fanylach mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn, ac ni fwriedir iddo ddisodli'r ystyriaeth fanwl o'r agweddau hyn gan awdurdodau unigol.

### **Strwythur yr adroddiad**

- 1.16 Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro yn y modd canlynol:

- Adran 2: Proses a methodoleg yr ymchwil
- Adran 3: Amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar duedd wedi'u diweddarau
- Adran 4: Amcangyfrif twf cyflogaeth gwaelodlin
- Adran 5: Ystyried strategaeth economaidd a buddsoddiad
- Adran 6: Goblygiadau ar gyfer mudo a thwf poblogaeth
- Adran 7: Ystyriaethau polisi

## 2. Proses a methodoleg yr ymchwil

- 2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o broses a methodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil i fynd i'r afael ag amcanion yr astudiaeth. Trwy wneud hynny mae'n cydnabod ac yn darparu crynodeb lefel uchel o'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol i lywio polisi cynllunio sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn cydnabod, fel yr eglurir yn Adran 1, nad yw'r ymchwil hwn yn ymdrin â'r pwnc o asesu twf rhanbarthol mewn poblogaeth neu gyflogaeth ar wahân i'r gwaith a wneir ar lefel awdurdodau cyfansoddol.
- 2.2 Fodd bynnag, mae'r defnydd o'n dull wedi bod yn amserol gan iddo symud ymlaen i ryddhau data demograffig wedi'i ddiweddarau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sydd wedi ystyried canlyniadau Cyfrifiad 2021. Mae hyn wedi galluogi'r modelu demograffig i ddarparu asesiad cyson a chyfredol o'r data demograffig diweddaraf sydd ar gael ac a ddefnyddir wrth gyhoeddi'r iteriad nesaf o SNPP/SNHP gan Lywodraeth Cymru, na ragwelir fydd yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd 2024.

### **Adeiladu o'r sylfaen tystiolaeth bresennol**

- 2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfansoddol, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi comisiynu a/neu baratoi darnau cymharol o ddadansoddiad i asesu rhagolygon swyddi rhesymol ac felly rhagolygon twf 'wedi'u harwain gan gyflogaeth' ac amcanestyniadau 'wedi'u harwain gan ddemograffeg' ar sail tuedd. Wrth ddatblygu senarios twf rhesymol mae'r astudiaethau hyn hefyd wedi ystyried ysgogwyr twf posibl eraill, gan gynnwys lefelau posibl o ddarpariaeth tai a'r angen am dai fforddiadwy (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel wedi'u harwain gan anheddau).
- 2.4 Edge Analytics, a ddarparodd y mewnbynnau modelu demograffig i'r ymchwil hwn, sydd wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu cyfran fawr o ymchwil yr awdurdodau cyfansoddol. Mae'r astudiaethau hyn i gyd wedi'u cynnal ar lefel awdurdod unigol.
- 2.5 Er mai gwaith yr ymchwil hwn yw asesu'n gyson lefel resymol o dwf cyflogaeth posibl ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i ddosbarthiad rhwng awdurdodau, mae'n ddefnyddiol ystyried sut mae pob awdurdod wedi dehongli ei sylfaen tystiolaeth ar hyn o bryd wrth gyflwyno lefel ddisgwyliedig o dwf swyddi yn y dyfodol. Er bod hyn yn rhoi cyd-destun pwysig, nodir bod yr ymchwil hwn wedi ystyried yn annibynnol y wybodaeth ddiweddaraf am amcanestyniadau demograffig. Mae Tabl 2.1 yn rhoi crynodeb o'r dogfennau sy'n rhoi esboniadau llawnach ac yn cynnwys hyperddolenni i'r rhai mwyaf perthnasol.
- 2.6 Mae'n amlwg mewn llawer o achosion mai graddfa'r twf swyddi a dargedir yw canlyniad lefel ragamcanol o gyflenwad llafur, sy'n aml yn gysylltiedig â tharged penodedig wedi'i arwain gan anheddau. Deallir bod yr holl awdurdodau wedi ystyried yn fanwl sut y gallai twf swyddi a phoblogaeth newid a sut y byddant yn alinio â'i gilydd dros gyfnod y Cynllun. Mae'n amlwg, yn yr un modd, nad oes un dull cyson wedi'i fabwysiadu a bod awdurdodau wedi ceisio mewn llawer o achosion integreiddio strategaethau 'ar bolisi' wrth nodi cynllunio ar gyfer angen a galw yn y dyfodol.

**Tabl 2.1: Trosolwg o’r asesiad diweddaraf seiliedig ar dystiolaeth o dwf swyddi yn y dyfodol fesul ACLI**

Awdurdod	Twf swyddi cyfartalog a ragfynegir y flwyddyn <sup>9</sup>	Trosolwg o resymeg ac esboniad ar sail tystiolaeth
Blaenau Gwent	100	Mae’r <a href="#">Papur Cefndir Opsiynau Twf</a> (2020) yn cadarnhau bod y targed lleiafswm o 1,500 o swyddi wedi’i seilio ar ymrwymiad y Cymoedd Technoleg i ddarparu 1,500 o swyddi (Ardal Fenter Glynebwy). Mae hyn wedi’i osod yng nghyd-destun rhagolwg gwaeldolin Oxford Economics a gyflwynwyd yn yr astudiaeth Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) yn 2019. <a href="#">Cyfeirir hefyd at darged twf swyddi dyheadol uwch ar gyfer 3,375 o swyddi newydd (225 o swyddi y flwyddyn) yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd</a> (2020) o dan Bolisi Strategol 1: Twf Economaidd Cynaliadwy, yn seiliedig ar y senario ‘ar bolisi’ yn yr ELR. Cadarnheir bod y lefel twf swyddi a ddymunir yn seiliedig ar leihau allgymudo, cynyddu’r gyfradd gweithgarwch economaidd a lleihau diweithdra, sy’n wrthdroad sylweddol o’r taflwybr hanesyddol a’r rhagolygon galw am lafur. <a href="#">Darparodd awduron yr ELR asesiad o effaith digwyddiadau economaidd ehangach ar yr astudiaeth yn 2023 gan ddod i’r casgliad bod y casgliadau’n dal yn briodol.</a>
Pen-y-bont ar Ogwr	500	Mae’r <a href="#">Papur Cefndir 2: Opsiynau Twf Strategol (SD35)</a> yn tynnu ar <a href="#">Ddiweddariad y Sylfaen Tystiolaeth Economaidd (2021, SD70)</a> sy’n esbonio bod y targed swyddi yn deillio o amcangyfrif o dwf yn y gweithlu sy’n gysylltiedig â rhagamcaniad a arweinir gan ddemograffeg sy’n tybio parhad tueddiadau mudo tymor byr. Mae hyn wedi’i fodelu o fewn model Experian sydd hefyd yn awgrymu y byddai’r twf rhagamcanol hwn yn y gweithlu yn llawer mwy na’r twf swyddi a ragwelir ganddo. Mae’r Strategaeth felly yn mabwysiadu dull cyflenwi tir cyflogaeth i greu swyddi ar gyfer gweithlu sy’n tyfu.
Caerffili	258	Rhoddir esboniad o’r ‘targed swyddi’ yn y <a href="#">Papur Tystiolaeth Cefndir Cyflogaeth</a> (2022) a phapur <a href="#">Opsiynau Twf Poblogaeth a Thai PS4</a> (2022). Mae’r rhain yn cadarnhau ei fod yn adlewyrchu lefel y llafur y rhagwelir fydd angen ei gefnogi lle mae twf yn cyd-fynd â phwynt canol o ddau senario ‘a arweinir gan anheddau’ (CDLI mabwysiedig a chyflawniad cyfartalog 15 mlynedd). Gwelir hefyd y bydd y twf a ragwelir yn hwyluso

<sup>9</sup> Noder: Mae’r rhain yn cael eu cyfrifo ar sail ffigwr cyfanswm y swyddi dros nifer y blynnyddoedd yng nghyfnod penodedig y cynllun. Mae cyfnodau cynllun yn amrywio o ran eu dyddiadau dechrau a gorffen

		twf yn y boblogaeth oedran gweithio ar gyfradd (4.2% y flwyddyn) a fyddai'n cefnogi uchelgeisiau twf Bargen Ddinesig PRC, lle mae'r targed o 25,000 o swyddi yn cyfateb i gynnydd o 3.76% mewn cyflogaeth ar draws y rhanbarth.
Caerdydd	2,153	Mae dogfen y Strategaeth a Ffefrir yn cadarnhau bod y targed swyddi yn deillio o lefel twf gweithlu / cyflogaeth y gellir ei gefnogi gan ofyniad anheddau a arweinir gan bolisi o 1,600 o gartrefi'r flwyddyn. Mae hon yn un o nifer o senarios a ystyriwyd mewn astudiaeth hysbysu gan <a href="#">Edge Analytics i ragamcanion demograffig</a> (2021). Mae maint twf swyddi hefyd yn dod o fewn yr ystod a ystyriwyd yn yr <a href="#">Astudiaeth Tir Cyflogaeth</a> (2022) sydd wedi'i modelu gan ddefnyddio POPGROUP a deallir ei fod wedi'i gyfiawnhau ar y sail ei fod yn tybio dychwelyd i ragolygon mwy cadarnhaol o ran cwblhau tai ar gyfer y ddinas.
Merthyr Tudful	125	Mae'r CDLI Newydd mabwysiedig yn nodi y gellir cyfiawnhau'r targed swyddi yn seiliedig ar dybio cynnydd ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol i adlewyrchu lefelau cryfach o dai a gwblhawyd yn hanesyddol yn unol â chyfraddau adeiladu yn y gorffennol (yn seiliedig ar anheddau). Cyflwynir y modelu ategol ym <a href="#">mhapur cefndir y Boblogaeth a Gofynion Tai 2017</a> .
Sir Fynwy	416	Mae'r targed swyddi wedi'i nodi fel senario 'ar bolisi' a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau demograffig a fforddiadwyedd sy'n wynebu'r Sir. Mae'n seiliedig ar ragamcaniad ar sail ddemograffig a gyflwynir yn astudiaeth <a href="#">Diweddarau Tystiolaeth Ddemograffig y CDLI Newydd</a> (2021). Mae'r senario a ddewiswyd yn tybio nifer o addasiadau i lefelau mudo sylfaenol (tuedd 19 mlynedd gydag addasiadau sy'n rhagdybio mewn fudo uwch o Fryste a De Swydd Gaerloyw i gyfrif am ddileu Toll Pont Hafren) ac ymddygiadau'r gweithlu, gan gynnwys gostyngiad mewn allgymudo net, er mwyn cael twf cadarnhaol yn y boblogaeth a tharged cyflogaeth cysylltiedig. Mae'r <a href="#">Adolygiad Tir Cyflogaeth</a> (2022) yn cadarnhau bod y targed swyddi'n cael ei ysgogi gan ymyriadau polisi a fwriedir i gefnogi twf tai a chyflogaeth i gyflawni canlyniad sy'n rhagori ar barhad tueddiadau.
Casnewydd	576	Mae <a href="#">Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd</a> (2023) yn esbonio bod y strategaeth twf a ffefrir yn cael ei thynnu o faint y twf llafur a gefnogir ar sail parhad cyfraddau cyflawni'r gorffennol dros gyfnod o 10 mlynedd (2010/11 – 2019/20), sy'n yn eithrio blynyddoedd covid. Fe'i disgrifir fel y mwyaf priodol lle bydd yn cefnogi twf parhaus ac yn caniatáu iddi gyfrannu at brif rôl Casnewydd gydag Ardal Dwf Genedlaethol De-ddwyrain Cymru a darparu cyfleoedd ar gyfer twf swyddi mewn sectorau presennol a diwydiannau newydd.

Rhondda Cynon Taf	266	Mae <a href="#">Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd</a> (2024) yn nodi lefel o dwf swyddi sy'n gysylltiedig ag amcanestyniadau poblogaeth sy'n deillio o Brif Amcanestyniadau Poblogaeth 2018 Llywodraeth Cymru. Cyflwynir y lefel hon o dwf swyddi fel rhywbeth sy'n adlewyrchu safle RhCT yn yr Ardal Dwf Genedlaethol, er bod y Cynllun Drafft yn cydnabod bod rhagamcanion demograffig uwch wedi'u modelu sy'n gysylltiedig â rhagamcanion twf cyflogaeth uwch, yn ogystal â rhagamcanion sy'n awgrymu twf is. Mae'r <a href="#">Adolygiad Tir Cyflogaeth</a> (Gorffennaf 2023) yn cyflwyno rhagolwg economaidd sylfaenol sy'n dangos twf cyflogaeth cymedrol. Cyfeirir at senario polisi ar wahân a arweinir gan gyflogaeth yn y Cynllun Drafft sy'n awgrymu twf o 168 o swyddi y flwyddyn, gyda'r ddau yn awgrymu gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio pan y'i mewnbynnir i fodelu demograffig.
Torfaen	179	Er y cydnabyddir bod y Cynllun yn cael ei dynnu'n ôl a bod tystiolaeth newydd yn cael ei chasglu, seiliodd y Cynllun drafft blaenorol ei ragamcan o dwf ar senario a arweinir gan anheddau o 320 o gartrefi'r flwyddyn, ac esbonnir hyn yn <a href="#">ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y CDLI Newydd</a> fel wedi'i seilio ar y 'Safleoedd Strategol Ymgeisio ac a Ffefrir preswyl sy'n perfformio'n well' a 50ha o dir cyflogaeth yn datblygu o fewn cyfnod y cynllun. Defnyddiwyd modelu demograffig i ragamcanu graddfa twf y gweithlu ac felly cyflogaeth y gellid ei chefnogi. Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth drafft (2024) wedi'i baratoi. Mae hyn yn cynnwys pedair senario twf cyflogaeth, sy'n awgrymu amrywiaeth o dwf swyddi y flwyddyn o -107 i +322, gyda'r olaf yn cael ei nodi fel senario 'ar bolisi' gyda'r nod o geisio hybu twf o fewn sectorau allweddol yn yr awdurdod.
Y Fro	356	Mae <a href="#">Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd</a> (Tachwedd 2023) yn esbonio bod y targed swyddi wedi'i nodi yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth diweddaraf sy'n argymhell y dylid gwneud darpariaeth, yn seiliedig ar y defnydd hanesyddol, ar gyfer 67.80ha o dir a fyddai'n creu'r gallu i gynnal 5,338 o swyddi dros gyfnod y cynllun. Mae'r CDLI hefyd yn cadarnhau bod y Cyngor wedi dewis 'Senario 10 Mlynedd a Arweinir gan Anheddau' fel yr opsiwn twf a ffefrir ganddo, gyda'r sylfaen tystiolaeth hysbysu yn defnyddio modelu demograffig i gadarnhau y byddai'r twf a gefnogir yn y boblogaeth yn galluogi'r hyn a ddisgrifir yn y papur <a href="#">Opsiynau Twf Tai a Chyflogaeth</a> (Medi 2023) fel lefel 'debygol' o dwf swyddi.

**Cyfanswm PRC 4,929**

*Ffynhonnell: Adolygiad Turley*

## Dull methodolegol

- 2.7 Mae'r dull methodolegol a fabwysiadwyd wedi dilyn yn fras broses debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar lefel awdurdodau unigol i asesu potensial twf a'r berthynas rhwng ysgogwyr pwysig newid demograffig a chreu swyddi. Yn bwysig, ac yn wahanol i lawer o'r astudiaethau ar lefel awdurdodau unigol, nid yw'r ymchwil hwn wedi ceisio trosi'r rhagamcanion hyn yn ofynion o ran tai neu dir ar gyfer awdurdodau nac ar lefel PRC.
- 2.8 Yn gyffredin i lawer o'r astudiaethau y cyfeirir atynt yn Nhabl 2.1 mae'r fethodoleg wedi defnyddio'r prif setiau data a modelau llywio canlynol:
- Rhagolygon econometrig gwaelodlin. Prynwyd y rhagolygon mwyaf diweddar a oedd ar gael ar yr adeg y cynhaliwyd y dadansoddiad gan y tri phrif dŷ rhagamcanu – Experian (Medi 2023), Oxford Economics (Rhagfyr 2023) a Cambridge Econometrics (Ebrill 2023).
  - Modelu demograffig. Defnyddiodd Edge Analytics feddalwedd POPGROUP<sup>10</sup> i ddatblygu rhagamcanion demograffig ar draws PRC wedi'u hadeiladu o fodelau lefel awdurdod lleol cyfansoddol. Roedd y gwaith modelu'n defnyddio setiau data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sydd ar gael, sy'n cynnwys Amcangyfrif Canol-blwyddyn (MYE) 2022 a set ddata poblogaeth MYE hanesyddol wedi'i hail-sylfaenu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2023, i sicrhau aliniad â chanlyniadau Cyfrifiad 2021.
- 2.9 Er mwyn adeiladu ar y setiau data gwybodaeth waelodlin allweddol, defnyddiwyd proses o ymgysylltu mewnol i brofi ac ehangu dealltwriaeth o botensial economaidd a chyfranwyr at ddsbarthiad posibl twf economaidd. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn bennaf yn cynnwys cyfres o drafodaethau gyda'r canlynol:
- Timau datblygu economaidd ym mhob un o awdurdodau PRC
  - Cynrychiolwyr PRC sydd â chylch gorchwyl i ystyried twf economaidd, cyllid a'r sylfaen tystiolaeth sy'n llywio hynny
  - Cyfarwyddwyr De-ddwyrain Cymru dros yr Economi ac Adfywio (SEWDER)
  - Trafnidiaeth Cymru
  - Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru
- 2.9 Roedd y broses ymchwil, a gynhaliwyd dros gyfnod o tua 6 mis, yn dilyn yn fras y camau dadansoddol a nodir isod:
- (a) Casglodd a rhannodd y grŵp comisiynu y metrigau allweddol sy'n ffocws i'r ymchwil, sef twf cyflogaeth a phoblogaeth a ragwelir yn y dyfodol. Cynhaliwyd adolygiad o'r dull seiliedig ar dystiolaeth presennol a ddefnyddiwyd gan bob

---

<sup>10</sup> Nodir bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r feddalwedd POPGROUP ac fe'i defnyddiwyd yn helaeth yn adroddiadau sylfaen tystiolaeth presennol awdurdodau cyfansoddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

awdurdod a oedd yn llywio'r metrigau hyn er mwyn deall tebygrwydd a gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddiwyd.

- (b) Integreiddiad ôl-gyfres hanesyddol poblogaeth MYE (2012–2021) ac MYE diweddaraf ar gyfer 2022 SYG mewn modelau POPGROUP newydd ar gyfer pob awdurdod. Cynhaliwyd set gychwynnol o amcanestyniadau seiliedig ar duedd i ddeall taflwybrau cymaradwy i set ddata swyddogol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018.
- (c) Archwiliad ac adolygiad beirniadol o ragdybiaethau ymddygiad y gweithlu, yn bennaf diweithdra, cymudo, cyfraddau gweithgarwch economaidd a swyddi dwbl. Mae angen y rhain i ddeall y berthynas bosibl yn y dyfodol rhwng cyflogaeth / twf swyddi a graddfa a phroffil newidiol y boblogaeth yn y model POPGROUP.
- (d) Dadansoddiad o'r tri rhagolwg economaidd gwaelodlin a chymhariaeth fanwl, ar lefel awdurdod lleol, â lefelau perfformiad hanesyddol ar lefel sector. Defnyddiwyd y broses hon i greu amcangyfrif gwaelodlin resymol o'r twf swyddi posibl yn PRC a'i ddsbarthiad ar draws yr awdurdodau.
- (e) Caffael amcangyfrifon wedi'u harwain gan y cyflenwad llafur o dwf swyddi posibl gan ddefnyddio model POPGROUP yn ymwneud â rhagamcanion demograffig seiliedig ar duedd a nodwyd. Datblygwyd hefyd senario wedi'i harwain gan swyddi gan ddefnyddio'r rhagolwg economaidd gwaelodlin a argymhellir. Roedd y senarios hyn yn cymhwyso tybiaethau ymddygiad gweithlu yn seiliedig ar yr adolygiad o setiau data llywio ac yn tybio darlun sefydlog o ran parhad cymarebau cymudo presennol ac felly perthynas rhwng awdurdodau unigol.
- (f) Aseiad cychwynnol o'r berthynas bosibl rhwng twf swyddi a ragwelir ar lefel PRC a thwf posibl yn y gweithlu gan dybio y bydd tueddiadau demograffig yn parhau. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i werthfawrogi'r graddau yr oedd 'hyblygrwydd' yn bodoli i gefnogi twf swyddi pellach. Archwiliwyd dosbarthiad gofodol yr 'hyblygrwydd' hwn a'r goblygiadau ar gyfer patrymau cymudo posibl yn y dyfodol gan ddefnyddio'r model POPGROUP.
- (g) Datblygu naratif buddsoddiad economaidd a thwf posibl ar gyfer PRC. Roedd hwn yn ystyried rhaglenni buddsoddi ar draws PRC, gan gynnwys y Fargen Ddinesig a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a strategaethau a buddsoddiadau ar lefel awdurdodau lleol yn ogystal ag ystyriaeth o dystiolaeth sectoraidd o arbenigeddau a pherfformiad economaidd lleol, wedi'u meincnodi yn erbyn tybiaethau yn y rhagolygon economaidd gwaelodlin. Defnyddiwyd y naratif hwn i ddatblygu taflwybr twf cyflogaeth mwy dyheadol, a gafodd ei fewnbynnu hefyd i fodel POPGROUP i asesu'r goblygiadau posibl ar gyfer mudo a thwf poblogaeth yn y dyfodol.
- (h) Meincnodi ac arfarnu'r dosbarthiad gofodol o'r twf swyddi a thwf poblogaeth goblygedig a ddeilliodd o'r allbynnau modelu uchod. Archwiliwyd y potensial ar gyfer twf yn seiliedig ar symudiadau presennol y gweithlu (cymudo) ac amrywiadau o hyn i gyfrif am wahaniaethau rhagamcanol posibl yn y graddau o hunangynhaliaeth swyddi a gweithwyr preswyl.

## **Adborth ac adolygiad**

- 2.10 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn dangos cyfeiriad clir gan y grŵp comisiynu a Llywodraeth Cymru mai bwriad yr ymchwiler oedd datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth lefel uchel o'r rhagolygon rhesymol ar gyfer twf economaidd yn PRC a'i ddsbarthiad posibl ar draws yr awdurdodau cyfansoddol. Yn unol â briff yr astudiaeth, nid yw'r fethodoleg wedi ceisio adeiladu model econometrig a demograffig integredig. Gellir datblygu modelau o'r fath yn y dyfodol i gynorthwyo gydag arfarnu rhaglenni ariannu PRC neu i sefydlu achos busnes ar gyfer cyllid yn y dyfodol neu yn wir fel rhan o sylfaen tystiolaeth Cynllun isranbarthol.
- 2.11 Mae'r dull hwn wedi caniatáu ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd a barn o fewn y mewnbynnau modelu a dehongliad allbynnau dadansoddol. Gan gydnabod y mewnwleidiad a'r dull seiliedig ar naratif i'r ymchwiler, mae trafod a dilysu'r wybodaeth a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad wedi bod yn rhan ganolog o'r dull.
- 2.12 Ym mhob cam allweddol o'r broses ymchwiler mae allbynnau'r ymchwiler wedi'u rhannu gyda a'u cyflwyno i'r grŵp comisiynu ar gyfer ei fewnbwn a'i adborth. Yn yr un modd, cafodd Llywodraeth Cymru a SEWDER eu briffio yn gynnar yn y broses ymchwiler ac wrth i'r ymchwiler gyrraedd y cam o ddatblygu canfyddiadau drafft. Defnyddiwyd adborth gan bawb a gymerodd ran i fireinio a dilysu'r dull methodolegol a'r tybiaethau mewnbwn a ddefnyddiwyd.

### 3. Amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar duedd wedi'u diweddarau

- 3.1 Mae'r amcanestyniadau poblogaeth swyddogol diweddaraf ar gyfer PRC yn cael eu darparu gan gylch amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2018. Mae'r amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar duedd, gan wneud eu rhagdybiaethau twf yn y dyfodol o'r data genedigaethau, marwolaethau a mudo hanesyddol (mudo domestig a thramor) hyd at ganol blwyddyn 2018.
- 3.2 Ers i'r amcanestyniadau hyn gael eu cynhyrchu cafwyd sawl diweddariad demograffig pwysig, gan gynnwys amcangyfrifon poblogaeth o Gyfrifiad 2021, amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ychwanegol rhwng cyfrifiadau ar gyfer 2022, ac, yn bwysig, cyfres amser hanesyddol ddiwygiedig o ddata poblogaeth ar gyfer cyfnod rhwng cyfrifiadau 2012 a 2021.
- 3.3 Cyn rhyddhau amcanestyniadau is-genedlaethol swyddogol newydd, mae'r data hwn yn rhoi sail bwysig wedi'i diweddarau er mwyn deall sut mae poblogaeth PRC a'r awdurdodau cyfansoddol wedi newid ac y gallai newid yn seiliedig ar barhad tueddiadau hanesyddol.
- 3.4 Fel yr amlinellwyd yn yr adran flaenorol, mae Edge Analytics wedi defnyddio technoleg rhagamcanu POPGROUP i ddatblygu cyfres o amcanestyniadau demograffig wedi'u diweddarau er mwyn gallu integreiddio'r setiau data diweddaraf hyn. Cyflwynir allbwn y modelu hwn yn yr adran hon. Wrth gyflwyno'r ymchwil, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar lefel PRC, gyda dim ond dadansoddiad lefel uchel o awdurdodau unigol i egluro'r goblygiadau ar gyfer dosbarthiad poblogaeth sy'n newid. Ceir cyflwyniad llawnach o'r data demograffig sy'n llywio ar lefel awdurdod drwy broffiliau awdurdodau unigol yn Atodiad 1.
- 3.5 Fel yr esboniwyd yn Adran 2, mae'r amcanestyniadau seiliedig ar duedd wedi'u diweddarau hyn wedyn yn cael eu defnyddio mewn adrannau dilynol fel cymhariaeth i'r lefelau twf poblogaeth wedi'u modelu y nodwyd sy'n ofynnol ar draws PRC ac ar lefel awdurdodau unigol i gefnogi lefelau amrywiol o dwf swyddi a ragwelir.


#### **Rhoi cyfrif am Gyfrifiad 2021**

- 3.6 Mae Cyfrifiad 2021 wedi rhoi diweddariad pwysig mewn darparu dealltwriaeth o faint a strwythur poblogaeth Cymru a Lloegr a'r awdurdodau lleol cyfansoddol. Yng Nghyfrifiad 2021 amcangyfrifwyd bod poblogaeth PRC dros 1.52 miliwn, sef cynnydd gan 2.9% ers 2001. Roedd poblogaeth Cyfrifiad 2021, fodd bynnag, yn is na'r hyn a amcanestynwyd o dan amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 yn 2021 (1.53 miliwn), ac yn is nag amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2020 (1.55 miliwn).
- 3.7 Cynhyrchir amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn flynyddol gan y SYG drwy 'rolio ymlaen' amcangyfrif poblogaeth y flwyddyn flaenorol, gan ystyried genedigaethau a marwolaethau a gofnodwyd, ac amcangyfrifon mudo mewnol a rhyngwladol. Disgwyllir elfen o 'ddriff' rhwng yr amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u rholio ymlaen a'r Cyfrifiad, yn enwedig o ran yr amcangyfrifon mudo i ac o ardaloedd awdurdodau lleol yn

y DU ac i/o dramor. Felly, yn dilyn Cyfrifiad, mae'r SYG yn adolygu'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn rhwng cyfrifiadau, a, lle bo angen, yn addasu ('ail-sylfaenu') y rhain i sicrhau bod amcangyfrifon y Cyfrifiad wedi'u halinio'n ddigonol.

- 3.8 Rhyddhawyd yr amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u hail-sylfaenu ar gyfer cyfnod rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021 ym mis Tachwedd 2023, gan ddarparu cyfres amser hanesyddol ddiwygiedig ar gyfer llunio rhagdybiaethau ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mudo yn y dyfodol.
- 3.9 Ar lefel genedlaethol, priodolir y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn 'blaenorol' ac wedi'u hail-sylfaenu i fudo rhyngwladol, sef yn gyson yr elfen fwyaf heriol ar newid yn y boblogaeth i'w hamcangyfrif. Yn ei diwygiadau i fudo rhyngwladol yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn, mae SYG wedi cysoni ei methodoleg â'r hyn a ddefnyddiwyd yn ei hamcangyfrifon mudo rhyngwladol hirdymor, sy'n defnyddio setiau data gweinyddol yn bennaf o ddata Ffiniau a Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, data budd-daliadau ac enillion yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a data'r IPS (Arolwg Teithwyr Rhyngwladol) wedi'u hategu â Chyfrifiad 2021 ar gyfer Gwladolion Prydeinig.
- 3.10 Ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol, bydd cam-amcanu mudo mewnol hefyd wedi cyfrannu at y gwahaniaethau a welir. Mae newid naturiol fel arfer yn cael ei ddiwygio yn ystod yr ymarfer ail-sylfaenu gan fod genedigaethau a marwolaethau yn cael eu cofnodi bob blwyddyn, er bod rhai addasiadau wedi'u gwneud i roi cyfrif am oedi wrth gofrestru genedigaethau oherwydd y pandemig COVID-19, a chofrestru rhai marwolaethau'n hwyr gan iddynt gael eu cyfeirio at grwneriaid.
- 3.11 Unwaith y rhoddir cyfrif am yr holl addasiadau i elfennau newid, erys rhai gwahaniaethau gweddilliol rhwng yr amcangyfrifon poblogaeth sy'n cael ei rollo ymlaen ac amcangyfrif y Cyfrifiad. Ar lefel genedlaethol, mae hyn yn cyfateb i -40,400 o bobl, h.y. ar ôl cymhwyso'r elfennau newid sydd wedi'u hail-sylfaenu, roedd 40,400 yn fwy o bobl yn yr amcangyfrifon o'r boblogaeth wedi'u rholio ymlaen nac a amcangyfrifwyd yn y Cyfrifiad. Mae'r SYG o'r farn ei bod yn debygol bod y 'newid poblogaeth na ellir ei briodoli' (UPC) yn gysylltiedig â mudo, naill ai'n fewnol a/neu'n rhyngwladol, er nad yw'n ei neilltuo i unrhyw lif yn benodol.
- 3.12 Ar draws PRC, nododd amcangyfrif poblogaeth Cyfrifiad 2021 nad oedd y boblogaeth wedi tyfu i'r graddau a amcangyfrifwyd yn flaenorol yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn swyddogol. O ganlyniad, mae'r SYG wedi addasu'r amcangyfrifon hanesyddol tuag at i lawr i roi tafllwybr wedi'i ail-sylfaenu o dwf hanesyddol yn ôl i Gyfrifiad 2011. Dangosir hyn yn Ffigur 3.1 yng nghyd-destun newid yn y boblogaeth ers 2001. Fel pwynt cyfeirio, mae'r siart hefyd yn cynnwys amcanestyniadau Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 i ddangos i ba raddau yr oedd y rhain yn tybio parhad o dueddiadau hanesyddol cyn eu dyddiad sylfaen.

**Ffigur 3.1: Cymhariaeth o gyfrif Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn wedi'u hail-sylfaenu a'r setiau data blaenorol**



*Ffynhonnell: SYG / Llywodraeth Cymru / dadansoddiad Edge Analytics*

- 3.13 Mae'r modelu a gyflwynir yn yr ymchwil hwn yn defnyddio'r dystiolaeth poblogaeth canol blwyddyn ddiweddaraf, gan gynnwys yr amcangyfrifon canol blwyddyn wedi'u hail-sylfaenu ar gyfer 2011–21 ac amcangyfrif canol blwyddyn 2022. Yn achos yr olaf, mae'n amlwg o Ffigur 3.1 bod hyn yn rhoi cyfrif am amcangyfrif o dwf sylweddol yn y boblogaeth o fewn PRC o flwyddyn Cyfrifiad 2021.

### Y boblogaeth bresennol


- 3.14 Mae amcangyfrif canol blwyddyn 2022 yn rhoi darlun wedi'i ddiweddarau o broffil y boblogaeth bresennol ar draws PRC.
- 3.15 O edrych ar ddisbarthiad gofodol y boblogaeth yn gyntaf, mae'n wir bod gwahaniaethau eithaf sylweddol ym maint poblogaeth pob awdurdod. Dangosir hyn yn Ffigur 3.2.

**Ffigur 3.2: Maint poblogaeth pob awdurdod**

**Distribution of existing population in CCR**

CCR authorities

Population in 2022




Contains OS data © Crown copyright and database right (2024)

**Turley**  
Economics

*Ffynhonnell: SYG / Llywodraeth Cymru*

- 3.16 Mae hyn yn dangos bod poblogaeth Caerdydd fwy na dwywaith maint poblogaeth unrhyw un o'r awdurdodau eraill, ac eithrio RhCT. Serch hynny, gellir ffurfio ail haen o awdurdodau yn seiliedig ar faint y boblogaeth sy'n cynnwys, ynghyd â RhCT, Caerffili, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Mae gan bob un o'r rhain boblogaethau sy'n fwy na, neu'n agos at, 150,000. Mae gan y pedwar awdurdod arall (Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen) boblogaethau o lai na 100,000.
- 3.17 Ar draws PRC mae llai o wahaniaeth rhwng proffil oedran awdurdodau unigol. Mae Ffigur 3.4 yn dangos hyn drwy ddangos proffil pob awdurdod, wedi'i feincnodi yn erbyn sefyllfa PRC. Er bod yna debygrwydd cryf ar draws llawer o'r awdurdodau, mae'n dangos bod gan Gaerdydd, er enghraifft, boblogaeth fwy ifanc gyda'r rhai 15 – 64 oed (oedran gweithio craidd) yn cynrychioli cyfran uwch o'r boblogaeth gyfan. Mewn cyferbyniad, datgelir bod gan Sir Fynwy gyfran lawer uwch o bobl 65+ oed.

**Ffigur 3.3: Poblogaeth yn ôl grŵp oedran, 2022**




Ffynhonnell: SYG / Llywodraeth Cymru / dadansoddiad Edge Analytics

**Tueddiadau hanesyddol**

- 3.18 Mae'n amlwg o Ffigur 3.1 bod poblogaeth PRC, ers 2011, wedi parhau i dyfu, er ar gyfradd arafach nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol ac, oni bai am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ar gyfradd sy'n arafach na'r hyn a welwyd rhwng 2001 a 2011.
- 3.19 Mae cyfradd newid awdurdodau unigol wedi bod yn hynod amrywiol, fel y dangosir yn Ffigur 3.4.

**Ffigur 3.4: Mynegai Twf Poblogaeth Awdurdodau PRC 2001 – 2022**




Ffynhonnell: SYG / Llywodraeth Cymru / dadansoddiad Edge Analytics

- 3.20 Mae hyn yn dangos darlun cyferbyniol ar draws PRC, gyda Chaerdydd, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr i gyd yn cofnodi taflwybrau twf cymharol gryf. Yn achos

Casnewydd yn benodol mae'r twf hwn wedi cyflymu'n sylweddol dros y 7 mlynedd diwethaf. Yn y cyd-destun hwn nodir bod Bro Morgannwg hefyd wedi gweld twf cryf dros gyfnod tebyg, er bod cyfnod o ddiffyg twf yn y boblogaeth cyn hynny. Mae Blaenau Gwent yn sefyll allan fel un sy'n gweld ei phoblogaeth yn gostwng yn ôl i 2001, gyda'r duedd hon yn gweld cyflymiad ers 2011 ond wedyn yn ymddangos fel pe bai'n gwastatáu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd tuedd debyg yn ddiweddar hefyd yng Nghaerffili, er nad yw hyn yn gwrthbwysu'n llwyr y twf cymharol gryf yn ei phoblogaeth rhwng 2001 a 2011. Dros y blynyddoedd diwethaf mae RhCT, Torfaen a Merthyr Tudful i gyd wedi gweld poblogaethau sefydlog gydag ychydig iawn, neu fawr ddim, twf. Mewn cyferbyniad, er i Sir Fynwy weld poblogaeth gymharol sefydlog ers 2011, mae wedi gweld tuedd twf cadarnhaol amlwg ers 2019.

- 3.21 Ar lefel PRC mae newid ym maint y boblogaeth wedi arwain at newid yn y proffil oedran hefyd. Fel y mae Ffigur 3.5 yn dangos, mae'r cynnydd yn y boblogaeth wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd yn y rhai 65+ oed, gyda'r grwpiau oedran 15 – 64 a 0 – 16 yn gweld fawr ddim newid yn eu maint cyffredinol dros y cyfnod hwn.

**Ffigur 3.5: Twf poblogaeth yn ôl grŵp oedran ar draws PRC**




*Ffynhonnell: SYG / Llywodraeth Cymru / dadansoddiad Edge Analytics*

- 3.22 Mae newidiadau yn y boblogaeth yn digwydd naill ai o ganlyniad i gydbwysedd net rhwng genedigaethau a marwolaethau (newid naturiol) neu fudo (mewnol neu ryngwladol). Mae Ffigur 3.6 yn dangos cyfraniadau priodol yr elfennau hyn yn flynyddol ar draws PRC. Nodir bod hyn yn cynnwys elfen a nodir ar wahân wedi'i labelu'n UPC neu Newid Poblogaeth Na ellir ei Briodoli, h.y. twf poblogaeth na ellir rhoi cyfrif amdano gan unrhyw un o'r elfennau newid. Fel yr amlinellir uchod, mae hyn yn deillio o ymarfer ail-sylfaenu ar ôl y Cyfrifiad. Nodir bod UPC wedi bod yn addasiad cadarnhaol rhwng 2001 a 2011 - h.y. roedd y boblogaeth wedi'i thanamcangyfrif dros y cyfnod hwn - gyda'r gwrthwyneb yn wir rhwng 2011 a 2021. Gan nad oes unrhyw elfen UPC yn 2022 tan y Cyfrifiad nesaf ni ellir gwneud addasiad o'r fath. Nodir hefyd na chynhaliwyd ystyriaeth fanwl o'r ffactorau cyfrannol yr awdurdodau unigol at addasiadau i setiau data hanesyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'r astudiaeth hon. Cydnabyddir y gallai'r awdurdodau hynny sydd wedi gweld y newidiadau mwyaf

arwyddocaol archwilio ffactorau o'r fath wrth ddatblygu eu sail dystiolaeth, er y cydnabyddir mai'r data a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yw'r data a gyhoeddwyd fel rhan o setiau data swyddogol.


**Ffigur 3.6: Elfen mewn newid poblogaeth PRC 2001 – 2022**



*Ffynhonnell: SYG / dadansoddiad Edge Analytics*

- 3.23 Hyd at y tair blynedd diwethaf, mae newid naturiol wedi bod yn gyfrannwr cadarnhaol at dwf. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae marwolaethau wedi rhagori ar enedigaethau yn flynyddol, er bod y flwyddyn ddiweddaraf wedi gweld darlun a oedd bron yn gytbwys. Mae'r newidiadau diweddar hyn wedi'u hysgogi gan gynnydd yn nifer y marwolaethau (yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 parhaus) a gostyngiad yn nifer y genedigaethau ers hynny, yn unol â thuueddiadau cenedlaethol.
- 3.24 Dangosir bod mudo wedi chwarae rhan bwysicach wrth gyfrannu at dwf y boblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, gyda llif mudo mewnol a rhyngwladol net cymharol gryf i'w weld dros y 6 blynedd diwethaf. Cyn hyn, roedd mudo mewnol net yn llai arwyddocaol, gan ddangos fel negyddol ar ddechrau'r degawd diwethaf.
- 3.25 Gan edrych ar 2022, amcangyfrifir mai mudo rhyngwladol net yw prif ysgogwr twf y boblogaeth. Mae'n bwysig nodi y dylid edrych ar y twf hwn yng nghyd-destun amcangyfrif ehangach o fudo rhyngwladol net cryf ar draws y DU yn y blynyddoedd diwethaf, gyda'r SYG yn amcangyfrif cynnydd net o 672,000 o ymfudwyr rhyngwladol yn 2022/23, cynnydd ar yr hyn a oedd yn dwf cymharol gryf yn 2021/22 (607,000). Deallir mai ffactorau arwyddocaol yn y twf hwn yw cynnydd mewn fisas cysylltiedig â gwaith, gyda fisas iechyd a gofal ar gyfer ymfudwyr o'r tu allan i'r UE, ac astudio, gyda charfannau diweddar o fyfyrwyr yn aros yn hirach ac yna'n trosi i fisas gwaith. Mae edrych ar gofrestrïadau Rhifau Yswiriant Gwladol (Nino) yn cadarnhau'r cynnydd sylweddol a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a dangosir hyn yn Ffigur 3.7. Mae hyn yn dangos mai Caerdydd yw'r derbynydd mwyaf nodedig o bell ffordd o fewnfudwyr rhyngwladol newydd, gyda'r awdurdodau eraill, ac eithrio RhCT a Chasnewydd, yn gweld lefelau isel iawn o ymfudo rhyngwladol net.

**Ffigur 3.7: Cofrestriadau Nino ar draws PRC 2018/19 – 2022/23**



*Ffynhonnell: Stat-Xplore Yr Adran Gwaith a Phensiynau*

3.26 Er mwyn cynorthwyo i feincnodi cyfraniad priodol mudo i newid poblogaeth, mae Tabl 3.1 yn dangos cyfartaleddau hirdymor a thymor byr ar gyfer yr elfennau unigol ac yn gronnol. Mae UPC wedi'i nodi'n benodol yma gan ei bod yn rhesymol tybio, o ystyried cywirdeb data genedigaethau a marwolaethau, y gellir priodoli rhan fawr o hyn i fudo o ryw fath.

**Tabl 3.1: Cyfartaleddau mudo hanesyddol ar draws y PRC**

	Cyfartaledd hirdymor (2001/–2021/22)	Cyfartaledd 5 mlynedd (2017/18–2021/22)
Mudo mewnol net	2,098	4,931
Mudo rhyngwladol net	3,137	5,771
UPC (yn berthnasol i 2001/02 i 2020/21 yn unig)	-531	-3,328
<b>Cyfanswm (ac eithrio UPC)</b>	<b>5,235</b>	<b>10,702</b>
Cyfanswm (yn cynnwys UPC yn y mudo rhyngwladol)	4,729	8,039

*Ffynhonnell: SYG, Edge Analytics*

3.27 Mae hyn yn dangos yn glir y rôl gynyddol y tybir bod mudo wedi'i chwarae mewn twf poblogaeth yn y cyfnod mwy diweddar. Mae'n bwysig cyfeirio at y ffaith bod prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 yn rhagdybio cyfraniad net o 5,095 o fudwyr y flwyddyn (2018 – 2043) ar gyfartaledd. Mae'r lefel hon yn cyd-fynd yn agosach â'r lefelau a welwyd dros y tymor hwy ac yn is na'r rheini a welwyd yn fwy diweddar. Mae'n bwysig nodi bod cryn ansicrwydd ynghylch lefelau mudo rhyngwladol yn y dyfodol, gyda llywodraeth y DU yn cyflwyno newidiadau i reoliadau fisa ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr tramor yn 2024. Nod y newidiadau hyn yn y pen draw yw lleihau lefel y mewnfudo i'r DU.<sup>11</sup>

### **Amcanestyniadau ar sail tuedd**


3.28 Mae Edge Analytics wedi defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir uchod i ddatblygu dwy senario seiliedig ar duedd wahanol ar gyfer pob un o awdurdodau PRC. Fel gydag amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru, mae'r rhain yn cymhwyso nifer o ragdybiaethau demograffig, gan gynnwys parhad mewn tueddiadau mudo yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol. Mae'r ddwy senario a ddatblygwyd yn cael eu gwahaniaethu gan y cyfnod hanesyddol y mae'r tybiaethau ynghylch mudo yn deillio ohono:

- Senario Tymor Byr Twf y Gorffennol (PG): Rhagdybiaethau mudo wedi'u cymryd o hanes MYE tymor byr (5 mlynedd) (2017/18–2021/22)
- Senario Hirdymor Twf y Gorffennol (PG): Rhagdybiaethau mudo wedi'u cymryd o hanes MYE hirdymor (21 mlynedd) (2001/02–2021/22)

<sup>11</sup> Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Senedd y DU (Mawrth 2024) [Newidiadau i reolau mudo cyfreithiol ar gyfer fisas teulu a gwaith yn 2024](#).

- 3.29 Yn y ddwy senario, rhoddir cyfrif am yr elfen UPC hanesyddol yn y rhagdybiaethau mudo rhyngwladol. Mae tybiaethau cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau wedi'u seilio ar duedd pum mlynedd (2017/18–2021/22), gyda newidiadau hirdymor i'r cyfraddau hyn wedi'u tynnu o amcanestyniadau Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018.
- 3.30 Mae Ffigur 3.8 yn dangos y twf a amcanestynir yn y boblogaeth ym mhob un o'r senarios hyn.

**Ffigur 3.8: Rhagamcanion twf poblogaeth wedi'u diweddarau ar sail tuedd – PRC**



*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 3.31 Mae'n amlwg bod y ddau amcanestyniad yn rhagweld y bydd poblogaeth PRC yn tyfu. Mae'r senario tuedd hirdymor yn rhagweld twf o bron i 66,000 o bobl rhwng 2022 a 2040, neu tua 3,370 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r senario tuedd tymor byr yn tybio lefel gryfach o dwf yn y boblogaeth, gan gynnal tueddiadau cadarnhaol mwy diweddar, gan roi twf poblogaeth o ychydig dros 91,000 o bobl, neu ychydig dros 5,000 o bobl y flwyddyn.
- 3.32 Mae Tabl 3.2 yn dadansoddi'r twf a amcanestynir o dan bob senario fesul awdurdod.

**Tabl 3.2: Twf poblogaeth a amcanestynir fesul awdurdod o dan y senarios tuedd hirdymor a thymor byr: 2022 - 2040**

2022 - 2040	Senario tuedd hirdymor twf y gorffennol		Senario tuedd tymor byr twf y gorffennol	
	Newid mewn poblogaeth	%	Newid mewn poblogaeth	%
Blaenau Gwent	-404	-0.6%	-1,690	-2.5%
Pen-y-bont ar Ogwr	8,976	6.1%	7,680	5.3%
Caerffili	2,840	1.6%	-4,443	-2.5%
Caerdydd	20,065	5.4%	32,912	8.8%
Merthyr Tudful	1,664	2.8%	-1,099	-1.9%
Sir Fynwy	6,042	6.4%	6,045	6.4%
Casnewydd	12,662	7.8%	22,875	14.2%
Rhondda Cynon Taf	5,169	2.2%	8,745	3.7%
Torfaen	930	1.0%	6,704	7.2%
Bro Morgannwg	7,914	5.9%	13,298	10.0%
<b>Cyfanswm PRC</b>	<b>65,858</b>	<b>4.3%</b>	<b>91,027</b>	<b>5.9%</b>

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 3.33 Mae edrych ar yr awdurdodau unigol yn dangos bod rhywfaint o amrywiaeth yn y cyfraddau twf cymharol. O dan y senario tuedd hirdymor, rhagwelir y bydd twf ym mhob awdurdod ac eithrio Blaenau Gwent, ond mae cyfradd y twf yn amrywio o 1.0% yn Nhorfaen i 7.8% yng Nghasnewydd. Lle defnyddir tueddiadau tymor byr, er y rhagamcanir y bydd PRC yn gweld cyfradd llawer uwch o dwf yn y boblogaeth, mae'n werth nodi y rhagwelir y bydd tri awdurdod (Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful) yn gweld gostyngiad yn y boblogaeth o dan y senarios seiliedig ar duedd hyn. Ar ben arall y sbectrwm, rhagwelir y bydd Casnewydd a'r Fro yn gweld cynnydd gan 10% neu uwch. Nodir y rhagwelir y bydd Caerdydd yn gweld twf cymharol gryf o dan y ddwy senario, sy'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth yn PRC.
- 3.34 Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig deall sut y gallai'r amcanestyniadau o dan y ddwy senario arwain at newidiadau bach yn nosbarthiad cyfrannol y boblogaeth erbyn 2040. Dangosir hyn yn Nhabl 3.3.

**Tabl 3.3: Cyferbynnu dosbarthiad cymesur rhagamcanol y boblogaeth o dan y ddwy senario seiliedig ar dueddiadau**

	2040 mewn senario tuedd hirdymor	2022 ↓	2040 mewn senario tuedd tymor byr
Caerdydd	24.4%	24.1%	24.8%
Rhondda Cynon Taf	15.2%	15.5%	15.2%
Caerffili	11.1%	11.4%	10.5%
Casnewydd	10.8%	10.5%	11.3%
Pen-y-bont ar Ogwr	9.7%	9.5%	9.4%
Y Fro	8.8%	8.7%	9.0%
Sir Fynwy	6.2%	6.1%	6.1%
Torfaen	5.8%	6.0%	6.1%
Blaenau Gwent	4.1%	4.3%	4.0%
Merthyr Tudful	3.8%	3.8%	3.5%


*Ffynhonnell: Turley / dadansoddiad Edge Analytics*

- 3.35 Mae hyn yn dangos o dan y ddwy senario bod Caerdydd, y Fro a Chasnewydd yn gweld eu maint cymesur yn cynyddu, gyda hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer Casnewydd o dan y senario tuedd tymor byr. Mewn cyferbyniad, rhagamcanir y bydd Blaenau Gwent, RhCT a Chaerffili i gyd yn gweld eu cyfran gymesur o'r boblogaeth yn disgyn o dan y ddwy senario, er bod hyn yn llai amlwg yn achos Blaenau Gwent a Chaerffili o dan y senario tuedd hirdymor. Mae darlun mwy cymysg yng ngweddill yr awdurdodau ar draws y senarios, neu newidiadau cymharol gyfyngedig.

### **Y berthynas ag amcanestyniadau Llywodraeth Cymru 2018**

- 3.36 Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 yw'r amcanestyniad swyddogol olaf o dwf poblogaeth. Cyfeirir yn uniongyrchol at yr amcanestyniadau aelwydydd is-genedlaethol seiliedig ar 2018 yn Cymru'r Dyfodol, gydag amcanestyniad priodol o dwf aelwydydd ar gyfer pob un o'r isranbarthau.
- 3.37 Felly, mae deall sut mae'r data demograffig a ddiweddarwyd a nodir uchod yn berthnasol i'r amcanestyniadau swyddogol yn rhoi ystyriaeth a chyd-destun pwysig. Mae'n bwysig nodi yn hyn o beth y dylanwadir ar unrhyw amcanestyniadau tueddiadau o'r fath gan y cyfnod hanesyddol y maent wedi'i seilio arno. Mae'r dadansoddiad uchod yn cadarnhau bod y boblogaeth ar draws PRC wedi tyfu ar gyfradd arafach nag a ragwelwyd gan amcanestyniadau seiliedig ar 2018, gan adlewyrchu israddio twf yn y boblogaeth ers Cyfrifiad 2011. Fodd bynnag, bu amrywiad sylweddol yn lefelau twf poblogaeth mwy diweddar wedi'i ysgogi gan newidiadau i'r darlun mudo net. Mae Ffigur 3.9 yn cyferbynnu'r ddau amcanestyniad tueddiadau twf blaenorol wedi'u diweddarau ag amcanestyniadau Llywodraeth Cymru 2018 (prif amcanestyniad).

**Ffigur 3.9: Twf poblogaeth a ragamcanir ar draws PRC: prif amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 yn erbyn senarios tueddiadau twf y gorffennol wedi'u diweddarau<sup>12</sup>**



*Ffynhonnell: Edge Analytics, Llywodraeth Cymru*

- 3.38 Mae hyn yn dangos bod y senario hirdymor seiliedig ar duedd yn rhagamcanu lefel is o dwf yn y boblogaeth o gymharu â'r amcanestyniad tymor byr seiliedig ar duedd, sy'n awgrymu cyfradd twf uwch dros gyfnod yr amcanestyniad. Yn achos yr olaf, mae hyn yn adlewyrchu'r cyfraddau uwch o dwf yn y boblogaeth (wedi'i ysgogi gan fudo net) a welwyd dros y 5 mlynedd diwethaf (gweler Ffigur 3.6 uchod), o gymharu â'r cyfartaledd hirdymor.
- 3.39 Mae Tabl 3.4 yn cymharu'r mudo net cyfartalog blynyddol a ragamcanir (mewnol a rhyngwladol) o dan y tair senario, gan atgyfnerthu'r sylw hwn.

**Tabl 3.4: Mudo net cyfartalog blynyddol a ragdybir o dan yr amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau 2022–2040 - PRC**

Senario	Mudo net cyfartalog blynyddol (2022–2040)
Tuedd hirdymor twf y gorffennol	5,140
Tuedd tymor byr twf y gorffennol	6,437
Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 (Prif)	5,168

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 3.40 Mae'n bwysig nodi bod y lefelau mudo net yn uwch na chyfanswm y twf yn y boblogaeth a ragamcanir bob blwyddyn o dan yr holl senarios. Mae hyn yn cydnabod

<sup>12</sup> Mae'r llinell doredig yn dangos amcangyfrifon poblogaeth hanesyddol, fel y'u cyhoeddwyd pan ddatblygwyd amcanestyniad Llywodraeth cymru seiliedig ar 2018, cyn iddynt gael eu diwygio yn dilyn Cyfrifiad 2021.

bod y senarios yn tybio bod newid naturiol (genedigaethau llai marwolaethau), ar gyfartaledd, yn gyfraniad negyddol at newid yn y boblogaeth dros gyfnod yr amcanestyniad.

## **Crynodeb**

3.41 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon wedi ystyried yn fanwl gyfres o amcanestyniadau demograffig wedi'u diweddarau ar sail tueddiadau. Mae'r senarios hyn yn allosod amcanestyniadau posibl o dwf poblogaeth gan ddefnyddio tueddiadau hanesyddol ac felly nid ydynt yn cael eu dylanwadu gan ysgogwyr newid posibl eraill, megis lefelau cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, gyda hyn wedyn yn cael ei ystyried yn yr adrannau dilynol. Mae'r dadansoddiad a gyflwynwyd wedi nodi'r canlynol:

- Nododd Cyfrifiad 2021 fod poblogaeth PRC wedi tyfu ar gyfradd arafach nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol. Mae hyn wedi'i gwneud yn ofynnol i'r SYG addasu'r amcangyfrifon canol blwyddyn hanesyddol ar gyfer 2012–2021 a gyhoeddwyd yn flaenorol i gyfrif am y newid llai rhwng Cyfrifiadau. Mae wedi gwneud hyn drwy adolygu pob elfen yn ei thro a'i haddasu lle bo'n briodol, yn ogystal â nodi elfen a labelir gan y SYG yn Newid Poblogaeth Na ellir ei Briodoli (UPC) nad oes modd ei phriodoli i unrhyw un elfen. Nodir na chynhaliwyd ystyriaeth fanwl o'r ffactorau sy'n cyfrannu at lefel awdurdodau unigol at addasiadau i setiau data hanesyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhan o'r astudiaeth hon. Cydnabyddir y gallai'r awdurdodau hynny sydd wedi gweld y newidiadau mwyaf arwyddocaol archwilio ffactorau o'r fath wrth ddatblygu eu sylfaen tystiolaeth, er y cydnabyddir bod y data a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn ffigurau swyddogol.
- Mae edrych ar boblogaeth PRC yn 2022 yn cadarnhau bod Caerdydd yn gymesur ddwywaith maint unrhyw un o'r awdurdodau eraill, ac eithrio RhCT. Mae gan bedwar o'r awdurdodau (Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen) boblogaethau o lai na 100,000. Mae rhai gwahaniaethau ym mhroffil oedran poblogaeth awdurdodau gyda Chaerdydd, er enghraifft, â phoblogaeth ieuengach a Sir Fynwy â chyfran llawer uwch o grwpiau oedran hŷn (65+). Ar draws PRC mae proffil oedran y boblogaeth wedi gweld heneiddio cyffredinol.
- Mae PRC, er iddo'n gyson weld twf yn y boblogaeth yn ôl i 2001, wedi gweld cyflymder y twf yn arafu dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae data poblogaeth yn awgrymu dychweliad i lefelau twf cymharol gryf, gyda hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan lefelau uchel o fudo net. O edrych ar awdurdodau unigol, mae Caerdydd, Casnewydd a Phen-y-bont ar Ogwr wedi gweld y lefelau twf cryfaf yn hanesyddol. Mae Blaenau Gwent yn sefyll allan fel awdurdod sy'n gweld ei boblogaeth yn gostwng yn ôl i lefel 2001, gyda thuedd yn gweld cyflymiad ers 2011 ond yna'n ymddangos fel pe bai'n gwastatáu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae Edge Analytics wedi modelu dwy senario yn seiliedig ar duedd twf y gorffennol. Mae'r cyntaf o'r rhain yn rhagdybio parhad mewn tueddiadau mudo a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf (2017/18-2021/22) ac fe'i labelir yn senario tuedd 'tymor byr'. Mae'r ail senario yn rhagdybio tueddiad tymor hwy, a

thrwy hynny wedi'i labelu'n senario tuedd 'hirdymor', gyda hyn yn tynnu ar gyfnod hanesyddol o 21 o flynyddoedd (2001/02 - 2021/22). Mae'r duedd hirdymor yn rhagamcanu y bydd poblogaeth PRC yn tyfu gan bron i 66,000 rhwng 2022 a 2040. Mae hyn ychydig yn is na'r twf yn y boblogaeth a ragamcanir gan amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 (prif amrywiad) dros gyfnod amser tebyg. Mae'r senario tymor byr yn rhagweld lefel llawer cryfach o dwf yn y boblogaeth, gan weld poblogaeth PRC yn cynyddu gan 91,000 rhwng 2022-2040.

- Mae rhagdybiaethau amrywiadol ynghylch lefelau cyfartalog mudo net yn benderfynydd allweddol yn y gwahaniaethau a gyflwynir gan yr amcanestyniadau hyn. Tra bod y duedd hirdymor ac amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 yn tybio lefel debyg o fudo net cyfartalog blynyddol (tua 5,150 y flwyddyn), dylanwadir ar y duedd tymor byr gan lefelau mudo net cryfach mwy diweddar ac yn tybio y bydd lefel mudo net uwch o tua 6,400 o bobl y flwyddyn.
- Mae'r twf a ragamcanir yn y boblogaeth yn amrywio ar lefel awdurdod gan arwain at newidiadau bach posibl i ddsbarthiad gofodol cymesurol y boblogaeth. O dan y ddwy senario, serch hynny, rhagamcanir y bydd maint cymesurol Caerdydd, y Fro a Chasnewydd yn cynyddu, gyda hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer Casnewydd o dan y senario tuedd tymor byr. Mewn cyferbyniad â hyn, rhagwelir y bydd Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn gweld eu cyfran gymesur o'r boblogaeth yn disgyn o dan y ddwy senario, er bod hyn yn llai amlwg yn achos Blaenau Gwent a Chaerffili o dan senario tuedd hirdymor twf y gorffennol.

## 4. Amcangyfrif twf cyflogaeth gwaelodlin

- 4.1 Er mwyn llywio persbectif rhesymol ynglŷn â'r potensial ar gyfer twf economaidd ar draws PRC mae angen sefydlu mewnwelediad gwaelodlin i sut y disgwylir i'r economi newid. Fel y disgrifir yn Adran 2, i lywio'r broses hon prynodd y Grŵp Comisiynu dri rhagolwg econometrig cyfoes gan y prif dai rhagamcanu.
- 4.2 Mae'r rhagolygon hyn yn cael eu hystyried gan SQW yn yr adran hon, yn dilyn trosolwg o sut mae economi PRC, o ran lefelau cyflogaeth a'r gweithlu, wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd â'r dadansoddiad a gyflwynir yn Adran 3, mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar PRC, er bod ystyriaethau dosbarthiad gofodol allweddol wedi'u nodi. Cyflwynir dadansoddiad pellach ar lefel awdurdodau unigol ar ffurf proffiliau ardaloedd economaidd unigol yn Atodiad 2.
- 4.3 Mae'r adran yn cloi drwy nodi senario resymol o dwf cyflogaeth gwaelodlin hyd at 2040 ar lefel PRC a gyda dosbarthiad gofodol.
- 4.4 Mae'n werth nodi dau gafeat ar y dechrau:
- Yn gyntaf, er bod ffocws yr astudiaeth hon ar gyflogaeth, nid creu swyddi cyfanredol o reidrwydd yw unig amcan y strategaeth economaidd: yn wir, mae *Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol* PRC yn rhoi pwyslais cryf ar gynhyrchiant, arloesedd a chynhwysiant economaidd, y mae gan bob un ohonynt oblygiadau ar gyfer gwerth ac ansawdd cyflogaeth, yn ogystal â rhifau pennawd.
  - Yn ail, er bod yr adran hon yn nodi senario gwaelodlin ar gyfer twf cyflogaeth, dylid ystyried hyn yn ddangosol. Bydd sawl cylch economaidd cyn 2040 ac (fel yr eglurir ymhellach isod) mae rhagamcanwyr yn amrywio yn eu tybiaethau. Felly, mae'r safbwynt hanesyddol a'r waelodlin yn fan cychwyn ar gyfer dadansoddi, i'w archwilio ymhellach yn yr adran nesaf.

### Cyflogaeth – Perfformiad a chyd-destun hanesyddol

- 4.5 Yn 2021, roedd tua 717,000 o swyddi yn PRC, gyda thua thraean ohonynt yng Nghaerdydd. Oherwydd newidiadau methodolegol dros amser, dim ond o 2009 mae data swyddogol ar lefel leol ar gael<sup>13</sup>. Fodd bynnag, mae'r tai rhagamcanu yn cynhyrchu eu hamcangyfrifon eu hunain ynghylch niferoedd swyddi hanesyddol, fel y gellir ystyried perfformiad y gorfennol dros gyfnod hwy<sup>14</sup>. O ystyried anwadalarwydd

<sup>13</sup> Arolwg *Cofrestr Busnes a Chyflogaeth* SYG yw'r ffynhonnell amcangyfrifon swyddogol allweddol o gyflogaeth a gweithwyr ar lefel leol a sector diwydiannol ac mae'n mynd yn ôl i 2009 (gyda newid methodolegol yn 2015). Fodd bynnag, gan ei fod yn cynnwys busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a/neu TWE, nid yw'n cynnwys rhai swyddi. Mae'r *set ddata Dwysedd Swyddi*, sydd hefyd wedi'i chyhoeddi gan SYG, yn rhoi amcangyfrif wedi'i dalgrynnu o gyfanswm y swyddi ar lefel awdurdod lleol, gan roi amcangyfrif cyffredinol o gyfanswm swyddi uwch na'r amcangyfrif BRES o gyflogaeth. Mae'r gyfres amser Dwysedd Swyddi yn mynd yn ôl i 2001, er bod data ar gael ar gyfer PRC yn gyffredinol o 2011 yn unig.


<sup>14</sup> Sylwer nad yw'r amcangyfrifon hanesyddol a ddarparwyd gan y tri thŷ rhagamcanu yn union yr un fath. Er hwylustod, rydym wedi defnyddio'r cyfartaledd cymedrig yn yr adroddiad hwn.

data diweddar, canolbwyntir yn yr isadran hon ar berfformiad swyddi hyd at 2019, y flwyddyn olaf o ddata cyn pandemig Covid-19.

### Twf cyflogaeth cyffredinol

- 4.6 O edrych ar yr hirdymor, gwelodd PRC ddadleoliad economaidd sylweddol yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, i ddechrau oherwydd crebachiad diwydiant trwm ac yn ddiweddarach oherwydd bod y DU wedi colli cystadleurwydd mewn rhai sectorau gweithgynhyrchu ysgafnach. Gostyngodd cyflogaeth yn ystod dirwasgiad y 1980au cynnar, ac er i'r sefyllfa wella rhywfaint cyn dirwasgiad 1992, sefydlog oedd y niferoedd i raddau helaeth ar lefel y rhanbarth tan ganol y 1990au.
- 4.7 Roedd twf cyflogaeth yn gryfach o ddiwedd y 90au hyd at argyfwng ariannol diwedd y 2000au. Rhwng 1999 a 2009 tyfodd cyfanswm cyflogaeth gan tua 42,300 (amcangyfrif o 4,226 o swyddi y flwyddyn). Er gwaethaf cwmp yn dilyn dirwasgiad 2009/10, adlamodd y galw am lafur yn gryf, gyda 4,288 o swyddi ychwanegol y flwyddyn yn cael eu creu yn y cyfnod 2009-19. Mae cyfanswm cyflogaeth hefyd wedi codi ers y pandemig:

**Ffigur 4.1: Cyfanswm cyflogaeth, PRC, 1997-2021**



*Ffynhonnell: Experian, Cambridge Econometrics, Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

- 4.8 Mae patrwm tebyg, o dwf cyson mewn cyflogaeth yr amharwyd arno gan yr argyfwng ariannol a'i ganlyniadau, i'w weld ar draws y DU. Fodd bynnag, roedd twf cyffredinol y DU yn gryfach, gyda chyfradd twf blynyddol cyfansawdd (CAGR) rhwng 1999 a 2019 o 0.9%, o gymharu â 0.6% yn rhanbarthol. Rhoddwyd cyfrif am y gwahaniaeth mewn cyfraddau twf yn bennaf yn ail hanner y cyfnod hwn gyda thwf cyflymach yn y DU yn dilyn y dirwasgiad.
- 4.9 Yn y rhanbarth, tyfodd cyflogaeth yn gyflymach yng Nghaerdydd nag mewn mannau eraill, gyda CAGR 20 mlynedd o 1.3%, o gymharu â 0.6% yn rhanbarthol. O ganlyniad, mae cyfran Caerdydd o gyfanswm cyflogaeth ranbarthol wedi cynyddu dros amser: o 29% yn 1999, i 32% yn 2009 a 33% yn 2019. Er gwaethaf crebachiad yn y 2000au

cynnar, mae Casnewydd hefyd wedi gweld twf cymharol gryf yn fwy diweddar (gyda CAGR o 1.0% yn 2009-19).

- 4.10 Mewn cyferbyniad, gwelodd Blaenau Gwent, Torfaen a Bro Morgannwg golled cyflogaeth net dros y cyfnod o 20 mlynedd, er yn achos y ddau olaf, colledion yn y 2000au cynnar oedd yn bennaf i gyfrif am hyn:

**Tabl 4.1: Newid hanesyddol mewn cyflogaeth, 1999-2019**

	Amcanfygrif cyflogaeth (2021)	Newid (swyddi y flwyddyn)		
		1999-2009	2009-2019	1999-2019
Blaenau Gwent	<b>21,050</b>	-273	-13	-143
Pen-y-bont ar Ogwr	<b>63,500</b>	1,076	-29	523
Caerffili	<b>62,800</b>	315	410	362
Caerdydd	<b>238,800</b>	3,191	2,046	2,618
Merthyr Tudful	<b>25,100</b>	412	46	229
Sir Fynwy	<b>42,600</b>	454	269	362
Casnewydd	<b>85,400</b>	-196	816	310
Rhondda Cynon Taf	<b>90,700</b>	68	235	151
Torfaen	<b>39,500</b>	-327	160	-83
Y Fro	<b>47,300</b>	-494	350	-72
<b>PRC</b>	<b>716,900</b>	4,226	4,288	4,257

*Ffynhonnell: Experian, Cambridge Econometrics, Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

#### **Newid sectoraidd**

- 4.11 Wrth edrych ar draws y prif sectorau diwydiannol, gwelodd blynyddoedd cynnar y mileniwm ddirywiad sydyn mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu. Ym 1999 roedd gweithgynhyrchu yn cyfrif am tua 19% o'r holl swyddi yn y rhanbarth (cyfran o gyfanswm cyflogaeth a oedd wedi bod yn gyson fwy neu lai ers dechrau'r 1980au). Erbyn 2009, roedd ei gyfran wedi gostwng i 11%, gyda cholled net o tua 45,000 o swyddi a chrebachu sylweddol yn yr ardaloedd awdurdodau lleol (megis Blaenau Gwent, Caerffili, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) oedd yn hanesyddol wedi dibynnu fwyaf ar weithgynhyrchu ar gyfer cyflogaeth. Parhaodd cyflogaeth gweithgynhyrchu i ostwng yn y degawd dilynol, er ar gyfradd llawer arafach.
- 4.12 Dylid nodi, er bod rhywfaint o'r crebachiad mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu yn gysylltiedig â cholli cyflogaeth absoliwt (gan gynnwys o fewn rhai sectorau 'proffil uchel' iawn, megis y diwydiant dur yng Nghasnewydd ar ddechrau'r 2000au a Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ddiwedd y cyfnod), roedd hefyd yn gysylltiedig ag enillion o ran cynhyrchiant. Rhwng 1999 a 2019 tyfodd gwerth ychwanegol gros gweithgynhyrchu mewn termau real PRC yn gyflymach na gwerth ychwanegol gros pob diwydiant, gyda'r canlyniad bod cyfran gweithgynhyrchu yng nghyfanswm allbwn

rhanbarthol yn uwch mewn gwirionedd yn 2019 nag yr oedd ugain mlynedd yn flaenorol<sup>15</sup>. Mae gweithgynhyrchu felly'n parhau i fod yn rhan bwysig o'r economi ranbarthol, er gwaethaf y gostyngiad yn ei gyfran o gyflogaeth, gyda'r goblygiad bod galw cynyddol yn y sector yn debygol o fod am lai o swyddi, ond swyddi 'gwerth uwch'.

- 4.13 Mae colledion cyflogaeth mewn gweithgynhyrchu wedi'u gwrthbwysio gan enillion cyflogaeth mewn:
- Gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes, a welodd dwf o tua 41,700 o swyddi rhwng 1999-2019 (h.y. bron â gwrthbwysio'r golled gweithgynhyrchu). Roedd bron i hanner y twf hwn yng Nghaerdydd, sydd wedi atgyfnerthu ei safle fel canolfan gwasanaethau proffesiynol rhanbarthol bwysig. O fewn y sector eang hwn, roedd y twf cyflogaeth cryfaf mewn gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol ac eiddo tiriog. Tyfodd gwasanaethau ariannol yn arafach a gwelwyd ychydig o grebachu ym mlynnyddoedd olaf y cyfnod.
  - Gwybodaeth a chyfathrebu, sector cymharol fach, ond un a welodd dwf parhaus dros y cyfnod (CAGR o 2.7% dros 20 mlynedd)
  - Gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelodd gweinyddiaeth gyhoeddus hefyd dwf cryf yn y 2000au cynnar, er bod cyflogaeth gyffredinol wedi disgyn yng nghyd-destun cyni ar ôl 2010.
  - Llety a gwasanaeth bwyd a chelfyddydau, adloniant a hamdden, yn enwedig yn 2009-2019
- 4.14 Gwelodd gweithgarwch cyfanwerthu a manwerthu hefyd dwf cryf dros y cyfnod o 20 mlynedd, gyda thua 9,000 yn fwy o swyddi yn 2019 o gymharu â 1999. Fodd bynnag, digwyddodd y rhan fwyaf o'r twf yn gynnar yn y cyfnod, ac yna crebachu yn y blynyddoedd diweddarach, gan adlewyrchu'r newidiadau strwythurol yn y diwydiant manwerthu.
- 4.15 Yn gyffredinol, mae'r darlun wedi bod yn un o drawsnewid parhaus o economi ddiwydiannol i economi seiliedig ar wasanaethau. Er bod patrymau lleol yn amrywio, mae cysylltiad rhwng deinameg gofodol a sectoraidd twf cyflogaeth, gyda thwf swyddi cryfach (yn fras) ar y cyfan yn y lleoedd hynny ag economïau sy'n canolbwyntio mwy ar sectorau seiliedig ar wasanaethau sy'n tyfu. Ystyrir hyn yn fanylach mewn perthynas â thwf posibl yn y dyfodol yn Adran 5.

### **Deall y gweithlu**

- 4.16 Prif ddi-ddordeb yr ymchwil hwn yw asesu a deall y rhyngberthynas rhwng rhagolygon twf cyflogaeth PRC yn y dyfodol a'i oblygiadau ar gyfer mudo ac felly newid mewn poblogaeth.

---

<sup>15</sup> SYG (2023), Gwerth ychwanegol gros (GVA) rhanbarthol (cytbwys) fesul diwydiant. Roedd gweithgynhyrchu yn cyfrif am 14% o gyfanswm GVA rhanbarthol yn 1999 a 15% yn 2019

- 4.17 Mae ymddygiadau'r gweithlu yn gysylltiad allweddol rhwng argaeledd swyddi yn PRC a'r gweithlu preswyl. Mae'r isadran hon felly yn rhoi trosolwg o'r gweithlu presennol a dealltwriaeth o sut mae wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.
- 4.18 Mae'r data diweddaraf (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) yn awgrymu mai tua 723,000 oedd y gweithlu preswyl (gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig) yn PRC ym mis Ionawr-Rhagfyr 2023<sup>16</sup>. Dengys Ffigur 4.2 sut y dosberthir y gweithlu preswyl hwn ar draws y deg awdurdod.

**Ffigur 4.2: Dosbarthiad gofodol y gweithlu preswyl ar draws PRC, Ionawr-Rhagfyr 2023**


	Cyflogeion	Hunangyflogedig	Cyfanswm
Blaenau Gwent	28,900	1,700	<b>30,600</b>
Pen-y-bont ar Ogwr	54,800	6,900	<b>61,700</b>
Caerffili	81,500	4,700	<b>86,200</b>
Caerdydd	171,800	20,500	<b>192,300</b>
Merthyr Tudful	25,100	3,200	<b>28,300</b>
Sir Fynwy	37,600	5,900	<b>43,500</b>
Casnewydd	65,000	4,700	<b>69,700</b>
Rhondda Cynon Taf	94,600	10,300	<b>104,900</b>
Torfaen	40,400	3,400	<b>43,800</b>
Bro Morgannwg	56,900	5,400	<b>62,300</b>
<b>PRC</b>	<b>656,500</b>	<b>66,700</b>	<b>723,200</b>

*Ffynhonnell: APS, dadansoddiad SQW*

- 4.19 Lle mae'r uchod wedi ystyried cyflogaeth yn y gweithle a gweithlu preswyl, mae'n bwysig yng nghyd-destun yr ymchwil hwn i gydnabod bod y ddau yn cael eu pontio gan lifoedd cymudo. Cydnabyddir bod gan Gyfrifiad 2021 gyfyngiadau posibl fel ffynhonnell gwybodaeth am gymudo gan iddo gael ei gynnal yn ystod y pandemig Covid, ac felly mae angen bod yn ofalus wrth ei ddefnyddio. Yn y cyd-destun hwn, mae dadansoddiad wedi'i wneud o'r data cymudo a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau unigol (yn seiliedig ar ddata Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) SYG), gan feicnodi'r data diweddaraf ar gyfer 2022 yn erbyn Cyfrifiad 2011 yn Ffigur 4.3. Mae hyn yn awgrymu bod allgymudo net cymedrol ar lefel PRC gyda chymhareb o 1.04, sy'n golygu yr amcangyfrifir bod tua 30,000 net o drigolion yn allgymudo o'r brifddinas-ranbarth ac yn gweithio yn rhywle arall.

<sup>16</sup> Nodir bod y ffigur hwn yn wahanol yn y modelu POPGROUP lle mae'n allbwn o gymhwyso tybiaethau gweithlu i'r boblogaeth ragamcanol.


**Ffigur 4.3: Cyfraddau cymudo ar draws PRC**



*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2022, SYG.*

4.20 Mae'r uchod yn awgrymu y bu rhai newidiadau mewn llifoedd cymudo yn ôl o 2011. Mae newidiadau mwy nodedig yn amlwg ym Mlaenau Gwent sydd wedi gweld ei gyfradd yn cynyddu'n eithaf sylweddol, gan olygu bod cyfran uwch o'i weithlu yn allgymudo ar gyfer gwaith. Mae RhCT hefyd wedi gweld cynnydd eithaf nodedig, gyda Phen-y-bont ar Ogwr hefyd yn cofnodi cynnydd. Mewn cyferbyniad, mae cyfraddau Caerffili, y Fro a Sir Fynwy wedi gostwng, gan gynyddu lefelau hunangynhwysiant o fewn pob un. Mae'n werth nodi mai dim ond Caerdydd a Chasnewydd sy'n fewnforwyr llafur net, a dangosir hyn yn ofodol yn Ffigur 4.4.

**Ffigur 4.4: Dosbarthiad gofodol llifoedd cymudo**



*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2022*

- 4.21 Wrth ystyried y cydbwysedd rhwng swyddi a phoblogaeth mae bodolaeth gweithlu nas canfyddwyd posibl hefyd yn bwysig ochr yn ochr â dealltwriaeth o sut y gallai hyn newid. Mae'n wir bod marchnadoedd llafur ledled Cymru a Lloegr wedi dod yn fwyfwy tyn oherwydd twf cyflogaeth sy'n fwy na thwf demograffig. Mae hyn i'w weld wrth edrych ar gyfraddau diweithdra cyfredol, fel y dangosir yn Nhabl 4.2, sy'n dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer 2023.

**Tabl 4.2: Cyfraddau diweithdra – awdurdodau PRC**

Awdurdod	Cyfradd diweithdra (2023)
Blaenau Gwent	3.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	3.2%
Caerffili	3.4%
Caerdydd	4.0%
Merthyr Tudful	3.9%
Sir Fynwy	2.4%
Casnewydd	4.3%
Rhondda Cynon Taf	3.4%
Torfaen	3.3%
Y Fro	2.8%


*Ffynhonnell: Amcangyfrifon diweithdra seiliedig ar fodel SYG (APS, 2023)*

- 4.22 Er bod rhywfaint o amrywiad ar draws y rhanbarth, mae Sir Fynwy yn nodedig am fod ganddi gyfradd gymharol isel, sef 2.4%, gyda hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â maint llai ei phoblogaeth oedran gweithio, fel yr ystyrir yn Adran 3. Casnewydd sydd â'r gyfradd uchaf, sef 4.3%, ond nodir bod cyfraddau ar draws pob un o'r awdurdodau yn gymharol isel o'u gosod yng nghyd-destun cyfartaleddau hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf. Pan fo ansicrwydd ynghylch perfformiad economaidd ehangach, a ystyrir isod, yng nghyd-destun y poblogaethau sy'n heneiddio a nodir mae'n rhesymol tybio y bydd cyfraddau'n parhau i fod yn isel ar gyfartaledd dros gyfnod mwy hirdymor.
- 4.23 Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd pobl o oedran gweithio yn ystyriaeth bwysig arall. Mae'r rhain yn amlwg yn amrywio yn ôl rhyw a grŵp oedran, gan adlewyrchu'r berthynas â gwaith ar wahanol adegau ym mywyd person. Yn yr un modd â chymudo, cydnabyddir bod angen ystyried gyda gofal wybodaeth o Gyfrifiad 2021, a fyddai fel arfer yn rhoi meincnod ystadegol pwysig. Mae hyn yn cydnabod bod data wedi'i gasglu yng nghanol pandemig, a gafodd effaith sylweddol ar ymddygiadau gwaith. Mae dadansoddiad manwl wedi'i wneud i archwilio'r hyn y mae data'r Gyfrifiad yn ei awgrymu, gan feincnodi hyn yn erbyn data mwy diweddar a chyfoes yr APS, er bod gan hyn ynddo'i hun gyfyngiadau nodedig lle mae'n seiliedig ar sampl yn hytrach nag arolwg cenedlaethol. Mae gan hyn oblygiadau penodol i'r awdurdodau hynny y mae eu poblogaethau yn llai o ran maint. Wrth ystyried y setiau data hyn gwnaed sawl sylw:

- Mae Cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod cyfrannau uwch o garfannau hŷn yn y gweithlu yn parhau'n economaidd weithgar na'r rhai a welwyd yng Nghyfrifiad 2011. Mae hyn yn arbennig o wir am fenywod.
- Awgrymodd Cyfrifiad 2021 fod cyfraddau gweithgarwch economaidd carfannau iau, mewn cyferbyniad, wedi gostwng. Wrth edrych ar ddata APS mwy diweddar, fodd bynnag, heriwyd i ba raddau yr oedd hyn wedi parhau i fod yn wir gyda charfannau iau fel petaent yn gweld adferiad cadarnhaol, tra'n cydnabod y gallai newidiadau i oedran ymadawyr ysgol hefyd fod wedi cael effeithiau ehangach mewn lleihau cyfraddau gweithgarwch yn y garfan hon.
- Ar draws grwpiau oedran gwaith craidd o'r ddau ryw, parhaodd y ddwy set ddata i ddangos cyfraddau cymharol gryf o weithgarwch economaidd, fel y gellid disgwyl. Adlewyrchir hyn hefyd yn nata APS.

4.24 Dangosir y tueddiadau hyn yn fras yn Ffigur 4.5, sy'n cyflwyno cyfraddau gweithgarwch o dan ffigurau'r Cyfrifiad ar draws PRC a chyfraddau cyfartalog sy'n defnyddio'r APS (2018 – 2023).

**Ffigur 4.5: Cyfraddau gweithgarwch economaidd yn ôl rhyw ac oedran yn 2011 o gymharu â Chyfrifiad 2021**



*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 / APS / dadansoddiad Edge Analytics*

### Rhagamcanu twf cyflogaeth gwaelodlin yn y dyfodol

- 4.25 Er mwyn rhoi 'man cychwyn' ar gyfer ystyried twf cyflogaeth yn y dyfodol hyd at 2040, cymerir tri rhagolwg gwaelodlin, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddata lefel y DU, wedi'u dadgyfuno fesul diwydiant a rhanbarth ac yn darparu rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol fesul sector lefel uchel ac awdurdod lleol. Prynwyd y tri rhagolwg ar ddiwedd 2023 ac roeddent yn ystyried yr adferiad o bandemig Covid-19 ac effaith digwyddiadau rhyngwladol diweddar, gan gynnwys y rhyfel yn yr Wcráin a'r argyfwng ynni a ddilynodd hynny<sup>17</sup>.
- 4.26 Mae pob un o'r tri rhagolwg yn cynnwys gwahanol ragdybiaethau ynghylch twf economaidd yn y dyfodol. Maent hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, felly bydd pob un yn ystyried ffynonellau data ychydig yn wahanol.

<sup>17</sup> Er nad yr argyfwng presennol yn y Dwyrain Canol gan ei fod wedi datblygu ers mis Hydref.

Yn y tymor byr (hyd at 2025), nid oes consensws rhwng y tri rhagolwg, sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd presennol<sup>18</sup>.

- 4.27 Fodd bynnag, yn y tymor hwy, ceir mwy o aliniad. Rhwng 2025 a 2040, mae'r tri rhagolwg yn rhagweld twf o rhwng 1,773 a 3,023 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 2,439 o swyddi. Yn gyson â rhagolygon mewn manau eraill, amcanestyniadau Oxford Economics yw'r isaf o'r tri (a ddeallir yn rhannol i fod yn adlewyrchu rhagdybiaethau demograffig mewn bwn o fewn model Oxford), er bod pob un yn rhagweld twf gwaelodlin llawer arafach na thuedd hanesyddol 1999-2019:

**Tabl 4.3: Rhagolygon gwaelodlin**

Rhagolygwr	Swyddi y flwyddyn (2025-40)
Cambridge Econometrics (Ebrill 2023)	3,023
Experian (Medi 2023)	2,520
Oxford Economics (Rhagfyr 2023)	1,773
Cyfartaledd	2,439

*Ffynhonnell: Cambridge Econometrics, Experian, Oxford Economics*

- 4.28 O gymryd cyfartaledd y tri rhagolwg hirdymor a chymhwyso hyn i'r cyfnod 2022-40 (h.y. llyfnhau'r anwadalrwydd tymor byr yn y rhagolygon) mae cyfanswm twf cyflogaeth o 43,895. Defnyddir y rhif hwn fel gwaelodlin resymol, er ei fod, wrth gwrs, yn ddangosol am y rhesymau a nodir ar ddechrau'r adran hon.
- 4.29 Gan ddefnyddio cyfartaledd y rhagolygon, mae Tabl 4.4 yn dangos dosbarthiad gwaelodlin twf cyflogaeth ar draws awdurdodau lleol y rhanbarth. Gan adlewyrchu'r duedd hanesyddol (er ar lefel is), mae'r twf a ragwelir ar ei uchaf yng Nghaerdydd a Chasnewydd ac ar ei isaf ym Mlaenau Gwent (sy'n dangos crebachiad bach), Caerffili a Thorfaen. O ganlyniad, mae cyfran Caerdydd o gyfanswm cyflogaeth ranbarthol yn parhau i godi o fewn y rhagolwg gwaelodlin, i tua 35% erbyn 2040. Adlewyrchir y darlun eang hwn ym mhob un o'r tri rhagolwg, er bod Oxford Economics yn rhagweld mwy o amrywiaeth mewn taflwybrau twf rhwng yr awdurdodau lleol.

<sup>18</sup> Mae Experian yn rhagweld crebachiad tymor byr mewn cyflogaeth yn 2022-25; Mae Oxford Economics a Cambridge Econometrics yn rhagweld twf.

**Tabl 4.4:** Twf cyflogaeth gwaelodlin, 2022-40 (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)

Awdurdod	Swyddi ychwanegol	Swyddi y flwyddyn	CAGR
Blaenau Gwent	-34	-2	-0.01
Pen-y-bont ar Ogwr	2,615	145	0.22
Caerffili	1,192	66	0.10
Caerdydd	23,405	1,300	0.50
Merthyr Tudful	1,090	61	0.23
Sir Fynwy	2,341	130	0.29
Casnewydd	5,953	331	0.37
Rhondda Cynon Taf	4,016	223	0.24
Torfaen	982	55	0.13
Bro Morgannwg	2,336	130	0.26
<b>PRC</b>	<b>43,896</b>	<b>2,439</b>	<b>0.32</b>


*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ragolygon gwaelodlin*

4.30 Mae Ffigur 4.6 yn dangos y dosbarthiad hwn ar draws y rhanbarth:

**Ffigur 4.6:** Rhagolwg twf swyddi gwaelodlin fesul awdurdod o fewn PRC

**Baseline job growth scenario**

- CCR authorities
- Job growth 2022-40



Contains OS data © Crown copyright and database right (2024)

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW*

- 4.31 O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector bras, rhagwelir gostyngiad pellach mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, wedi'i wrthbwysu gan dwf mewn gwasanaethau:

**Table 4.5: Twf cyflogaeth gwaelodlin yn ôl sector lefel uchel, 2022-40**

Sector	Swyddi ychwanegol	Swyddi y flwyddyn	CAGR
Gweithgynhyrchu	-12,156	-675	-1.04
Adeiladu	2,841	158	0.36
Trafnidiaeth a storio	1,783	99	0.39
Cyfanwerthu a manwerthu	2,954	164	0.17
Gwybodaeth a chyfathrebu	2,393	133	0.49
Gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes	18,398	1,022	0.63
Gwasanaethau cyhoeddus	16,446	914	0.40
Arall	11,236	624	0.57
<b>Cyfanswm</b>	<b>43,896</b>	<b>2,439</b>	<b>0.32</b>

*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ragolygon gwaelodlin*

- 4.32 Dylid nodi bod gwahaniaeth gweddol eang rhwng y tri thŷ rhagamcanu yn eu disgwyliadau o newid sectoraidd. Er bod y tri yn rhagweld crebachiad mewn gweithgynhyrchu, mae Oxford Economics yn rhagweld y bydd hyn *deirgwaith* yn fwy nag Experian neu Cambridge Econometrics. Mae Oxford hefyd yn rhagweld twf cryfach na'r ddau arall mewn gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes.
- 4.33 Mewn llawer o achosion, mae adolygiadau tir cyflogaeth lleol ac astudiaethau cysylltiedig a baratowyd gan awdurdodau unigol wedi defnyddio iteriadau hanesyddol gwahanol o'r rhagolygon a gynhyrchwyd gan un o'r tri thŷ rhagamcanu a ddefnyddiwyd i lywio'r ymchwil hwn. Ystyrir y rhain yn y dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol yn Atodiad 2. Ynghyd â'r rhagolygon a ddefnyddiwyd uchod, maent yn amlygu i ba raddau y mae amcanestyniadau'r dyfodol yn amrywio rhwng tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn ac yn dangos yr angen i driongli data rhagolygon gyda ffynonellau deallusrwydd eraill.

### **Crynodeb**

- 4.34 Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon wedi nodi:

- Er gwaethaf heriau hirdymor sylweddol, mae economi PRC wedi perfformio'n dda o ran cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Gwelodd dwf cryf mewn cyflogaeth o ddiwedd y 1990au hyd at yr argyfwng ariannol, gyda'r economi'n dod yn agos at ddarparu 700,000 o swyddi erbyn 2006. Yn dilyn y dirwasgiad, gwelwyd adferiad yn yr economi i ragori ar y lefel hon o swyddi yn y 2010au,

gyda dros 716,000 o swyddi yn PRC yn 2019. Dros y degawd 2009 - 2019 cyflawnwyd cyfradd twf blynyddol cyfansawdd (CAGR) o 0.62% ar gyfartaledd, sy'n fras yn gyson â'r gyfradd twf 20 mlynedd. Ers y pandemig mae'r economi wedi parhau i greu swyddi.

- Mae twf o tua 4,250 o swyddi y flwyddyn rhwng 1999-2019 wedi'i ysgogi gan wasanaethau proffesiynol a busnes a gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ym maes gofal iechyd. Bu twf hefyd ym meysydd gwybodaeth a chyfathrebu ac mewn llety a gwasanaeth bwyd. Fodd bynnag, mae'r twf hwn wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan grebachiad mewn gweithgynhyrchu, a oedd yn arbennig o sydyn ar ddechrau'r 2000au. Mae twf hanesyddol wedi bod ar ei gryfaf yng Nghaerdydd ac (yn fwy diweddar) Casnewydd, gyda chyfran cyflogaeth Caerdydd yn cynyddu'n raddol dros amser.
- Mae twf cyflogaeth cryf, er ei fod yn cydnabod y cylchoedd gwahanol sy'n gysylltiedig â thwf, dirwasgiad ac adferiad, wedi arwain at oblygiadau i'r gweithlu. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod y gweithlu'n cael ei ddefnyddio'n dda gyda lefelau diweithdra yn gyson isel a thystiolaeth o gyfraddau gweithgarwch economaidd cryf ar draws yr oeddrannau gwaith craidd. Mae awdurdodau Sir Fynwy a'r Fro yn nodedig am fod â chyfraddau isel o ddiweithdra, sy'n awgrymu marchnadoedd llafur cymharol dynn. Mae tystiolaeth bod cyfraddau gweithgarwch economaidd carfannau hŷn y gweithlu, yn enwedig menywod, wedi parhau i gynyddu ers 2011. Mae llai o sicrwydd o ran cyfraddau gweithgarwch pobl iau, lle ceir rhywfaint o awgrym bod cyfraddau wedi gostwng o gymharu â'r rheini a welwyd dros yr un cyfnod o amser, gyda'r garfan hon yn cael ei heffeithio'n arbennig gan y pandemig a'r newid yn y dyheadau ynghylch astudio.
- Mae perthynas ddaearyddol amlwg rhwng lleoliad cyflogaeth a llafur preswyl. Ar draws PRC mae Caerdydd a Chasnewydd yn fewnforwyr llafur sylweddol, yn enwedig Caerdydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r crynodiad swyddi yn y ddau le. Mewn cyferbyniad mae RhCT a Blaenau Gwent yn allforwyr sylweddol llafur. O ystyried maint y gweithlu yn RhCT, mae maint y llif yn sylweddol iawn gyda chyfran fawr o lafur yn yr awdurdod yn gwasanaethu swyddi yng Nghaerdydd. Mae'r un peth yn wir hefyd, er i raddau llai, yn y Fro sydd hefyd â chyfradd uchel o allgymudo. Yn gyffredinol, mae'n bwysig nodi bod PRC yn allforiwr llafur net, hyd yn oed gyda thynfa gref cyflogaeth yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llwybrau trafniadaeth cryf i ganolfannau cyflogaeth eraill y tu allan i PRC, gan gynnwys Abertawe / Castell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a Bryste / De Swydd Gaerloyw i'r dwyrain i Loegr.
- Mae dadansoddiad o ragolygon cyfredol tri o'r prif dai rhagamcanu yn cadarnhau bod disgwyliad rhesymol y bydd PRC yn parhau i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Mae cyfartaledd o'r tri rhagolwg yn awgrymu twf swyddi gan bron i 2,500 o swyddi y flwyddyn, sy'n rhoi gwaelodlin resymol hyd at 2040. Mae'r lefel hon o dwf swyddi yn fwy cymedrol na'r hyn a gofnodwyd yn hanesyddol.
- Mae'r rhagolwg gwaelodlin, sydd fel y nodir uchod yn seiliedig ar gyfartaledd o'r tri rhagolwg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon, yn awgrymu y bydd pob

awdurdod, ac eithrio Blaenau Gwent, yn gweld cynnydd mewn cyflogaeth rhwng 2022 a 2040. Cydnabyddir lle ffafriwyd cyfartaledd bod y rhagolygon yn rhoi ystod eang o newid o ran cyflogaeth posibl ar lefel awdurdod.

- Wrth ystyried y raddfa gymharol o dwf rhwng awdurdodau mae'r sefyllfa waelodlin yn parhau i awgrymu y bydd Caerdydd a Chasnewydd yn gweld cyfraddau twf cryfach na rhannau eraill PRC a fyddai'n gweld eu cyfran o gyfanswm swyddi'r rhanbarth yn cynyddu.
- O ran sector, mae'r rhagolwg gwaelodlin yn awgrymu dirywiad parhaus mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, wedi'i wrthbwysu gan dwf mewn gweithgareddau busnes, proffesiynol a gwasanaethau cyhoeddus.
- Sylweddolir, fodd bynnag, er bod y waelodlin yn allosodiad seiliedig ar fodel o dueddiadau a rhagdybiaethau ledled y DU, nid yw'n ystyried cyfleoedd twf lleol penodol na buddsoddiad arfaethedig a nodwyd. Ystyrir y rhain ymhellach wrth ddatblygu 'senario potensial uwch twf swyddi' yn Adran 5.

## 5. Ystyried strategaeth economaidd a buddsoddiad

5.1 Er bod y senario cyflogaeth gwaelodlin a nodir yn Adran 4 yn dangos sgôp ar gyfer twf swyddi yn yr hirdymor, mae'n seiliedig ar gyfres o fodelau rhagamcanu economaidd, yn hytrach na dadansoddiad o botensial twf lleol. Yn unol ag amcanion yr astudiaeth, mae'r adran hon felly yn ystyried y sgôp ar gyfer twf cyflogaeth pellach uwchlaw'r waelodlin gan ystyried y wybodaeth economaidd leol ddiweddaraf sydd ar gael a ddarparwyd gan awdurdodau unigol a PRC.

5.2 Yn hytrach na defnyddio model econometrig sy'n arwain at ragolwg amgen, mae'r dull a fabwysiadwyd yn ceisio adeiladu 'naratif' twf yn y dyfodol, Nod hyn yw sefydlu a oes llwybr credadwy i dwf swyddi yn y dyfodol hyd at 2040, ac i ba raddau, a sut y gallai hwn gael ei ddsbarthu ar lefel awdurdod lleol. Mae hyn yn ceisio ystyried tueddiadau hanesyddol ac arwyddion o fuddsoddiad yn y dyfodol yn seiliedig ar ddehongliad o'r wybodaeth a ddarparwyd. Mae hyn wedyn yn llywio 'senario potensial uwch twf swyddi', ac ystyrir goblygiadau demograffig hyn yn Adran 6.

5.3 Wrth adeiladu'r naratif twf, mae'r ymchwil wedi ceisio triongli:

- Tystiolaeth o strategaeth ranbarthol a buddsoddiadau mawr sy'n datblygu ar lefel ranbarthol (gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â Bargen Ddinesig PRC)
- Tystiolaeth o fuddsoddiadau lleol 'hysbys' sylweddol a chyfleoedd twf eraill
- Dadansoddiad pellach o ddata tuedd hanesyddol a rhagolygon ar lefel leol (gan gynnwys deunydd a baratowyd ar gyfer cyflogaeth leol ac adolygiadau ac astudiaethau eraill) i ystyried twf mewn sectorau ac ardaloedd penodol.

**Ffigur 5.1: Cymhathu gwybodaeth am ychwaneged cyflogaeth posibl**



*Ffynhonnell: SQW*

5.4 Wrth ddatblygu'r naratif twf, mae tri phwynt yn bwysig i'w hystyried:

- Yn gyntaf, i gefnogi astudiaeth ranbarthol lefel uchel, cafwyd tystiolaeth o ffynonellau eilaidd ac o drafodaethau gyda'r timau polisi cynllunio a datblygu economaidd yn yr awdurdodau lleol. Nid yw wedi cynnwys ymgynghori â buddsoddwyr, asiantau a rhanddeiliaid eraill, ac nid yw chwaith wedi cynnwys

dadansoddiad o allu ffisegol ar gyfer twf cyflogaeth. Felly, er ei fod yn defnyddio deunydd a baratowyd ar gyfer adolygiadau tir cyflogaeth ac astudiaethau lleol eraill, nid yw wedi cynnwys ymchwil *newydd* ar y lefel hon o ronynnedd.

- Yn ail, mae'r ffocws ar gyfleoedd *cadarnhaol* ar gyfer twf uwchlaw'r waelodlin. Cydnabyddir y bydd enghreifftiau o ddadfuiddsoddi hefyd: gallai rhai o'r rhain gael canlyniadau arwyddocaol, er ei bod yn anodd eu rhagweld gydag unrhyw lefel o gadernid.
- Yn drydydd, ni ddylid ystyried bod niferoedd swyddi posibl y cyfeirir atynt yn y 'senario potensial uwch twf swyddi' yn adlewyrchu polisi. Efallai y bydd gan awdurdodau lleol ddyheadau strategol ar gyfer lefelau uwch neu is o dwf swyddi, wedi'u llywio gan ystod ehangach o dystiolaeth wrth i'r cyd-destun economaidd a pholisi ddatblygu.

- 5.5 Mae'r naratif twf wedi'i adeiladu'n sylweddol o'r 'gwaelod i fyny', gan ystyried y cyfleoedd a'r dystiolaeth o fewn pob awdurdod lleol. Felly, mae rhagor o fanylion am bob awdurdod cydrannol wedi'u cynnwys mewn cyfres o bapurau naratif lleol yn Atodiad 2.

### Uchelgeisiau economaidd rhanbarthol

- 5.6 Fel y nodwyd ym Mhennod 1, mae *Cymru'r Dyfodol* yn diffinio'r rhan fwyaf o PRC fel rhan o Ardal Dwf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Mae'r naratif yn *Cymru'r Dyfodol* yn adlewyrchu cydnabyddiaeth o fuddsoddiad presennol (a'r cyfle am fwy), a'r angen am adfywio. Yn benodol, mae *Cymru'r Dyfodol* yn cydnabod cefnogaeth i "*statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol a dinas graidd [a'r]... brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos a chyllid; ... rôl strategol gynyddol ar gyfer Casnewydd fel ffocws twf a buddsoddiad cynaliadwy a hirdymor; ... [ac] adfywio a buddsoddi cydgysylltiedig yn ardal y Cymoedd*"<sup>19</sup>.
- 5.7 O fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mabwysiadodd bartneriaid *Gynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol* (REIP) yn 2019. Nod hwn oedd "*gwneud Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn un o'r rhanbarthau mwyaf gwerth chweil i fuddsoddi ynddo yn y Deyrnas Unedig*", gan gynnwys ffocws cryf ar gynyddu cynhyrchiant drwy dwf a arweinir gan arloesi. Adfywiwyd y REIP yn 2023, gyda'r Cynllun newydd yn gosod uchelgais i fod yn "*Brifddinas-Ranbarth Caerdydd falch lle mae pawb wedi'i gysylltu'n lleol ac yn fyd-eang, yn mwynhau cyfleoedd gwaith, busnes a bywyd sydd yn ein gwneud yn lle i wireddu potensial*"<sup>20</sup>.
- 5.8 Mae'r REIP yn ceisio mynd i'r afael â phedair her allweddol, a ddiffinnir fel tacro gwahaniaethau economaidd a hybu twf; gwella gallu a chynhwysedd arloesi; gwella'n seilwaith ffisegol a digidol; a datgarboneiddio'n heconomi erbyn 2050. O fewn y themâu cyffredinol hyn, mae pwyslais ar gynhyrchiant ac arloesedd (gan adlewyrchu ffocws ar ansawdd a gwerth cyflogaeth, yn hytrach na niferoedd swyddi cyfanredol, er bod hynny yng ngoleuni'r targed o 25,000 o swyddi) ac ar

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru (2021), [Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040](#), Polisi 33

<sup>20</sup> PRC (2023), [Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol 2023-28](#)

“wneud llai o bethau’n well”, gan ganolbwyntio adnoddau ar nifer gyfyngedig o feysydd blaenoriaeth lle mae manteision rhanbarthol amlwg.

## Blaenoriaethau sectoraidd rhanbarthol

5.9 Yn y cyd-destun hwn, mae gan REIP ffocws ar feithrin galluoedd mewn pum ‘clwstwr’ blaenoriaeth, lle mae cyfleoedd ar gyfer twf. Diffinnir y rhain fel:

- **Technoleg ariannol**, gan gynnwys nifer o gwmnïau gwasanaethau ariannol presennol (megis Admiral a Principality), yn ogystal â buddsoddwyr newydd yn y rhanbarth (e.e. Starling Bank a PwC), a busnesau technoleg lleol<sup>21</sup>. Mae’n anodd mesur maint y sector technoleg ariannol yn gywir, gan nad oes diffiniad cod SIC wedi’i sefydlu. Fodd bynnag, yn 2022, roedd cyllid ac yswiriant yn cyflogi tua 27,000 o bobl yn PRC (63% ohonynt yng Nghaerdydd). Bu twf cymharol gryf yn y sector yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae’r data diweddaraf yn dangos bod gan y sector gynrychiolaeth uchel o’i gymharu â gweddill y DU, gyda chyniferydd lleoliad o 1.3<sup>22</sup>.
- **Technoleg feddygol a gwyddorau bywyd**. Yn hanesyddol mae De Cymru wedi bod â chryfderau ym maes gweithgynhyrchu fferyllol a dyfeisiau meddygol. Mae stoc o ran cwmnïau wedi’i dosbarthu’n eithaf eang o amgylch y rhanbarth, ac mae’n cynnwys buddsoddwyr allanol mwy (e.e. BBI Solutions a PCI) yn ogystal â chwmnïau technoleg sy’n gysylltiedig â’r brifysgol. Mae cyfanswm cyflogaeth gwyddor bywyd yn eithaf bach (tua 5,000 o weithwyr yn 2022, er gyda thwf dros amser), er y bydd y nifer a gyflogir mewn meysydd megis iechyd digidol a chymhwyso technoleg yn y Gwasanaeth Iechyd yn sylweddol uwch. Mae buddsoddiadau posibl allweddol yn y rhanbarth yn cynnwys datblygu safle ymchwil a datblygu gwyddorau bywyd Ymyl Caerdydd yn Coryton, a’r Parc Meddygol arfaethedig ger Ysbyty Athrofaol y Faenor newydd yng Nghwmbrân.
- **Lled-ddargludyddion cyfansawdd**. Wedi’u canoli’n arbennig ar Gasnewydd ac yn gysylltiedig â galluoedd Prifysgol Caerdydd, mae crynodiad o fusnesau lled-ddargludyddion uwch yn y rhanbarth sydd wedi ehangu ers y 1970au. Mae’r rhain yn cynnwys Nexperia (a brynwyd yn ddiweddar gan Vishay Intertechnology), IQE a KLA, gyda Chasnewydd hefyd yn cynnal y Catapult Compound Semiconductor Applications cenedlaethol. Amcangyfrifir bod cyflogaeth uniongyrchol yn tua 1,600 o swyddi cyfwerth ag amser llawn<sup>23</sup>, ac mae buddsoddiadau sector cyhoeddus sylweddol wedi bod yn y sector yn y blynyddoedd diwethaf.
- **Seiberddiogelwch**. Mae hwn yn sector cymharol fach (a amcangyfrifir ei fod yn cynnwys tua 70 o gwmnïau yng Nghymru<sup>24</sup>), er bod cymwysiadau seiberddiogelwch yn hollbresennol ac yn draws-sector. Mae asedau rhanbarthol allweddol yn cynnwys rhannau o’r sector gweithgynhyrchu (e.e. Airbus yng Nghasnewydd a Thales yng Nglynebwy), gweithrediad seiberddiogelwch PwC yng

<sup>21</sup> Fintech Cymru (2023), [Adroddiad Blynyddol 2022/23](#)

<sup>22</sup> SYG, BRES.

<sup>23</sup> Max Munday, Robert Huggins ac Annette Roberts ar gyfer UKRI/ CSCConnected (2022), [Annual Report: Compound Semiconductor Cluster in South Wales](#)

<sup>24</sup> PRC

Nghaerdydd a galluoedd academiaidd ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru.

- **Diwydiannau creadigol.** Wedi'u cydnabod ers tro fel cryfder rhanbarthol, gyda'r BBC yn angori diwydiant darlledu a chynhyrchu mawr yn ardal Caerdydd, presenoldeb prifysgol perthnasol cryf a chyfres o raglenni datblygu sector mawr (gan gynnwys hen raglen Ymchwil a Datblygu Clwstwr ac, ar hyn o bryd, Media Cymru).
- 5.10 Gan nad oes gan y sectorau hyn ddiffiniadau safonol, mae cyfrifo cyfanswm cyflogaeth yn eithaf heriol, er bod codau SIC bras a'r diffiniadau pwrpasol y cyfeirir atynt uchod yn awgrymu tua 45,000 o swyddi, a fyddai'n cyfateb i tua 6% o gyfanswm y stoc cyflogaeth. Er bod hyn yn gymharol fach, mae'r cyfle twf hirdymor yn ymwneud yn rhannol â'r potensial ar gyfer cysylltiadau rhwng sectorau (er enghraifft, y sgôp ar gyfer cymwysiadau lled-ddargludyddion cyfansawdd mewn technoleg feddygol) ac effeithiau gorlifo i'r economi ehangach (e.e. i ba raddau y gallai mabwysiadu technolegau arloesol effeithio ar y sylfaen weithgynhyrchu ehangach).
- 5.11 Y tu hwnt i'r blaenoriaethau sectoraidd a nodwyd, mae cyfleoedd hefyd yn cael eu hamlygu mewn perthynas â **datgarboneiddio diwydiannol**. I ryw raddau, mae'r rhain yn debygol o gael eu hadlewyrchu mewn rhannau eraill o'r wlad. Fodd bynnag, mae'r gweithredwr porthladdoedd ABP wedi cyhoeddi 'prif gynlluniau' yn ddiweddar ar gyfer y Barri a Chasnewydd gyda'r bwriad o gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n gysylltiedig â datblygiad diwydiannol<sup>25</sup>.

### **Buddsoddiadau rhanbarthol strategol**

- 5.12 Ar hyn o bryd mae rhaglen sylweddol o fuddsoddiad cyhoeddus mewn mentrau i gefnogi twf economaidd, sy'n cynnwys:
- Datblygu **Metro De Cymru**. Rhaglen drawsnewidiol sy'n cynnwys gwelliannau yn ansawdd, amllder a dibynadwyedd rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau'r Cymoedd, fel rhan o system drafnidiaeth ranbarthol fodern ac integredig. Mae llwybrau allweddol i effeithiau cyflogaeth ychwanegol yn cynnwys rôl y cynllun Metro Canolog mewn cyflwyno cyfres o safleoedd mawr yng nghanol y ddinas yng Nghaerdydd, a'r posibilrwydd o agor man cyflogaeth ychwanegol o amgylch cyfnewidfeydd rheilffordd allweddol.
  - **Cronfa Fuddsoddi Ehangach** Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Pecyn buddsoddiad gwerth £495 miliwn mewn gallu arloesi a seilwaith. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol wedi'i gwblhau yn y clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd, yn ogystal â chyfres o gronfeydd i gefnogi buddsoddiadau mewn busnesau arloesol ac i gyflwyno safleoedd strategol, a chynlluniau hirdymor ar gyfer ailddatblygu hen orsaf bŵer Aberddawan yn barc ynni gwyrdd.
  - **Parth Buddsoddi Caerdydd-Casnewydd** newydd. Pecyn gwerth £160 miliwn o gymhellion treth seiliedig ar safle a buddsoddiad mewn seilwaith yw hwn a

---

<sup>25</sup> Gweler ABP (Chwefror 2024), [Future Ports: Newport](#)

gynlluniwyd i ddenu cyflogaeth gwerth uwch ac arloesedd, gyda chynnig diwydiannol sy'n canolbwyntio ar y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd.

- Buddsoddiad strategol gan **Lywodraeth Cymru**, gan gynnwys safleoedd yr Ardaloedd Menter ym Mro Tathan ym Mro Morgannwg ac yng Nglynebwy a safle cyflogaeth strategol Brocastell ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae buddsoddiad mawr mewn trafndiaeth gan Lywodraeth Cymru i gwblhau gwaith deuli ffordd yr A465 Blaenau'r Cymoedd hefyd yn bwysig i gyflwyno cyfleoedd cyflogaeth yng ngogledd Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili a Blaenau Gwent.
- **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** gwerth £236 miliwn i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n ategu'r Gronfa Buddsoddi Ehangach a ffrydiau ariannu eraill.

5.13 Mae ychwanegiad potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod sgôp ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Nid yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, a gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), ond mae'n nodi bod llwybr at dwf cyflogaeth ychwanegol.

### Cyfleoedd lleol

5.14 Mae'r buddsoddiadau rhanbarthol hyn wedi'u hystyried ochr yn ochr â chyfleoedd twf lleol eraill a thystiolaeth ym mhob un o'r deg awdurdod lleol i lywio cyfres o naratifau lleol. Crynhoir y rhain isod a rhoddir rhagor o fanylion amdanynt yn Atodiad 2. Ym mhob achos, ystyrir bod llwybr rhesymol at dwf cyflogaeth uwchlaw'r waelodlin, yn seiliedig ar fuddsoddiadau hysbys neu debygol, neu barhad credadwy o dueddiadau hanesyddol ar lefel leol.

**Tabl 5.1: Cyfleoedd twf sylweddol fesul awdurdod lleol**

Awdurdod	Cyfleoedd twf
Blaenau Gwent	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canfyddiadau o dwf cymharol gryf mewn busnesau bach a microfusnesau (efallai yn wahanol i'r rhagolwg waelodlin negyddol)</li> <li>• Tystiolaeth barhaus o alw diwydiannol, gyda sgôp i arallgyfeirio'r sylfaen ddiwydiannol</li> <li>• Gwell cysylltedd trwy'r A465 yn fantais allweddol o ran lleoliad (yn debygol o gael ei ehangu ymhellach wrth i rannau eraill o welliannau'r A465 gael eu cwblhau)</li> <li>• Ardaloedd mawr i'w hehangu yn gysylltiedig â safleoedd strategol yng Nghoridor Gogleddol Glynebwy ac yn Y Gweithfeydd, gan adlewyrchu parhad gweledigaeth y Cymoedd Technoleg</li> <li>• Buddsoddiad PRC parhaus megis Menter y Cymoedd Gogleddol gwerth £50 miliwn i fuddsoddi mewn seilwaith ac annog twf yn y sector preifat</li> </ul>

Pen-y-bont ar Ogwr	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhai achosion o ‘sioc’ sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf – e.e. Ford, yn fwy diweddar Zimmer Biomet, canlyniadau posibl ailstrwythuro’r gadwyn gyflenwi ym Mhort Talbot</li> <li>• Fodd bynnag, tystiolaeth o alw diwydiannol cryf, er o farchnad fwy amrywiol sy’n canolbwyntio ar BBaChau nag yn y gorffennol – heriau wrth gydbwysu’r galw <i>presennol</i> â’r ymdrech i sicrhau buddsoddiadau mewn sectorau ‘blaenoriaeth’</li> <li>• Safleoedd strategol mawr wedi’u mynegi’n glir – Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr, Brocastell, Waterton, hen safle Ford a Pharc Technoleg Pencoed, gydag asesiad cyfredol y Strategaeth Datblygu Economaidd o’r sgôp i ddarparu at 7,500 o swyddi</li> </ul>
Caerffili	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Soniwyd am ymholiadau cryf, yn enwedig am fannau diwydiannol, ond wedi’i gyfyngu gan brinder cyflenwad. Ond tystiolaeth o stoc hŷn yn cael ei adnewyddu/isrannu yn dod i’r amlwg yn fasnachol, yn enwedig yng nghanol a de’r sir.</li> <li>• Buddsoddiad mewn seilwaith i gefnogi datblygiad pellach yn Oakdale, lle’r oedd y galw yn cael ei ystyried yn gadarn</li> <li>• Budd sylweddol tebygol o’r Metro, er ei fod yn cael ei ystyried yn debygol o fod yn fudd i breswylwyr yn bennaf (allgymudo) nag yn ygsogwr ar gyfer lleoliad. Fodd bynnag, buddsoddiadau pwysig yn cael eu cyflwyno yng nghanol y dref, e.e. Cyfnewidfa Caerffili</li> </ul>
Caerdydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd cynlluniau mawr yn cael eu cyflwyno yn canolbwyntio ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>➢ Raglen Gwella Canol Caerdydd (CCEP), yn canolbwyntio ar gyflwyno cyfres o safleoedd mawr, yn gysylltiedig â’r Metro Canolog</li> <li>➢ Prif Gynllun Glanfa’r Iwerydd ac ailddatblygu tir diwydiannol i’r De-ddwyrain o ganol y ddinas</li> <li>➢ Parcfordd Dwyrain Caerdydd / Llynnoedd Hendre, gyda photensial cyflogaeth sylweddol</li> <li>➢ Ymyl Caerdydd (‘gwerth uwch’ tebygol o fod yn gysylltiedig â sectorau blaenoriaeth PRC, yn hytrach na swm cyflogaeth)</li> </ul> </li> <li>• Galw a adroddwyd gan feddianwyr cysylltiedig â thechnoleg a galw cynyddol am warysau a safleoedd diwydiannol ysgafn</li> </ul>
Merthyr Tudful	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleoliad sy’n ysgogwr allweddol a hygyrchedd i’r A465 a’r A470, er bod y rhan fwyaf o’r twf yn cael ei ystyried yn gynhenid</li> <li>• Arwyddion o bresenoldeb bywiog yn y celfyddydau creadigol a thechnoleg – cymharol fach mae’n debyg o ran cyflogaeth yn gyffredinol, ond lle ar gyfer twf organig</li> <li>• Twf a ragwelir mewn lletygarwch / twristiaeth / economi gyda’r nos, wedi’i anelu at ddatblygu prif gynllun ar gyfer canol y dref.</li> </ul>

Sir Fynwy	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfran uchel o ficrofusnesau (fel mewn mannau eraill, ond gyda dwysedd busnes cymharol uchel), yn ysgogi'r galw am le, yn enwedig o amgylch Trefynwy a de'r sir.</li> <li>• Twf mewn gwasanaethau proffesiynol/gweithgarwch gweithio gartref, yn gysylltiedig â chysylltiadau â chanolfannau mwy (gan gynnwys Bryste)</li> <li>• Peth dadfuddsoddiadau diweddar (cynhyrchu bwyd yn y Fenni, dosbarthu ym Magwyr). Teimlir bod y rhagolygon buddsoddi ar y safleoedd hyn yn gadarnhaol, er bod ymholiadau mewnfuddsoddi yn gymharol dawel.</li> </ul>
Casnewydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Teimlir bod y rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol yn gadarnhaol, yn gysylltiedig â chyfleoedd mawr gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Ehangu'r clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd</li> <li>➤ Twf yn y sector 'technoleg' yn fwy cyffredinol – cyfeirir at y deorydd technoleg yng nghanol dinas Casnewydd, sefydliadau sefydledig fel Alacrity, lle i dyfu ym maes seiberddiogelwch</li> <li>➤ Cyfleoedd ehangach yng nghanol y ddinas, gan gynnwys yr Ardal Wybodaeth a Phorth y Gogledd</li> <li>➤ Adfywio Dociau Casnewydd, er bod cynlluniau ABP ar lefel gymharol uchel ar hyn o bryd</li> </ul> </li> <li>• Wedi'i ehangu gan y Parth Buddsoddi, er bod manylion ac effaith economaidd posibl yn dal i'w datblygu</li> </ul>
Rhondda Cynon Taf	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwahaniaeth sylweddol rhwng gwahanol rannau o'r sir: galw mawr yn y de ar hyd coridor yr M4, yn gymharol wan yn y Rhondda; rhwng y ddau begwn yng Nghwm Cynon</li> <li>• Cyfleoedd mawr gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Coed Elái</li> <li>➤ Safle strategol yn Hirwaun, yn elwa gan fuddsoddiad HotV (a Metro posibl)</li> </ul> </li> <li>• Lle i ailddatblygu ar safleoedd cyflogaeth mawr presennol yn Nhrefforest a Llantrisant</li> <li>• Bydd RhCT yn un o brif fuddiolwyr y Metro, ond bydd yr effaith yn "anodd ei mesur" o ran denu cyflogaeth ychwanegol</li> <li>• Cyfraddau eiddo gwag y stoc bresennol yn gyffredinol isel. Ond mae ansawdd gwael yn aml yn ysgogiad i ddadfuddsoddi a darfodedigrwydd, yn enwedig yn y Rhondda a lle mae'r seilwaith yn wan</li> </ul>
Torfaen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhagolygon gwaelodlin gwan, ond teimlir bod y rhain yn amrywio gyda lefelau ymholiadau buddsoddi a'r cysylltedd da y mae'r sir yn ei gynnig, yn enwedig o amgylch Cwmbrân. Yn gyffredinol, mae'r galw wedi'i gyfyngu gan y diffyg stoc sydd ar gael</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prif ffocws y galw (a'r angen am gyflenwad yn y dyfodol) yng Nghwmbrân a'r de, yn enwedig yn gysylltiedig â gweithgynhyrchu a chysylltiadau â'r sector technoleg o amgylch Casnewydd</li> <li>• Mae'r ardal o amgylch Dwyrain Cwmbrân ac Ysbyty Athrofaol y Faenor hefyd yn parhau i fod yn lleoliad strategol ar gyfer defnyddiau gwerth uwch posibl</li> </ul>
Bro Morgannwg	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd twf sylweddol iawn yn gysylltiedig â safleoedd mawr, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Aberddawan, a brynwyd yn ddiweddar gan PRC (er nad yw amcangyfrifon swyddi yn hysbys eto)</li> <li>➤ Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan</li> <li>➤ Tir gerllaw safle Renishaw (J34) a fwriedir ar gyfer datblygu gweithgareddau cadwyn gyflenwi</li> <li>➤ Cyfleoedd hydrogen/ygni gwyrdd yn Nociâu'r Barri</li> </ul> </li> </ul>

*Ffynhonnell: SQW*

- 5.15 Ar draws y rhanbarth roedd partneriaid awdurdodau lleol (a rhanddeiliaid ehangach yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o astudiaethau tir cyflogaeth lleol) hefyd o'r farn bod galw mawr yn gyffredinol gan fusnesau bach a microfusnesau, a oedd mewn rhai achosion yn aml yn fwy na'r cyflenwad.

### Twf cyflogaeth posibl yn y dyfodol ar draws PRC

- 5.16 Yn seiliedig ar yr adolygiad o fuddsoddiadau rhanbarthol, cyfleoedd lleol a deunydd sylfaen tystiolaeth leol, mae 'senario potensial uwch twf' wedi'i deillio ar ragamcanir o lefel resymol o dwf cyflogaeth posibl ar lefel pob awdurdod lleol. Mae hyn yn rhagweld **4,727 o swyddi y flwyddyn** rhwng 2022 a 2040
- 5.17 Mae dadansoddiad gofodol o hyn fesul awdurdod lleol i'w weld yn Nhabl 5.2:

**Tabl 5.2: Senario potensial uwch twf, 2022-40**

Awdurdod	Cyfanswm swyddi	Swyddi y flwyddyn
Blaenau Gwent	1,800	100
Pen-y-bont ar Ogwr	7,200	400
Caerffili	4,284	238
Caerdydd	39,114	2,173
Merthyr Tudful	2,160	120
Sir Fynwy	4,860	270
Casnewydd	9,162	509
Rhondda Cynon Taf	6,786	377

Torfaen	3,060	170
Bro Morgannwg	6,660	370
<b>PRC</b>	<b>85,086</b>	<b>4,727</b>

*Ffynhonnell: SQW*

- 5.18** Ym mhob achos, mae'r senario potensial uwch twf yn cynrychioli cynnydd sylweddol ar y ffigur twf gwaelodlin. Mae'r cynnydd mwyaf dros y waelodlin ym Mlaenau Gwent (lle mae'r waelodlin yn negyddol), Caerffili a Thorfaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai'r tri awdurdod hyn sydd â'r economïau gweithgynhyrchu-ganolog fwyaf ac o ganlyniad yn cael eu heffeithio fwyaf gan y crebachiad parhaus yn y sector gweithgynhyrchu a ragdybiwyd yn y rhagolygon gwaelodlin:

**Tabl 5.3: Cymharu'r senario potensial uwch twf â'r waelodlin (swyddi y flwyddyn, 2022-40)**

Awdurdod	Gwaelodlin	Twf posibl uwch	% cynnydd dros y waelodlin
Blaenau Gwent	-2	100	-
Pen-y-bont ar Ogwr	145	400	275
Caerffili	66	238	359
Caerdydd	1,300	2,173	167
Merthyr Tudful	61	120	198
Sir Fynwy	130	270	208
Casnewydd	331	509	154
Rhondda Cynon Taf	223	377	169
Torfaen	55	170	312
Bro Morgannwg	130	370	285
<b>PRC</b>	<b>2,439</b>	<b>4,727</b>	<b>194</b>

*Ffynhonnell: SQW*

- 5.19** Mae'r senario potensial uwch twf swyddi yn rhagweld twf cyflogaeth sy'n cyd-fynd yn agosach â'r swyddi ychwanegol net a gaiff eu creu yn y cyfnod 1999-2019 ar draws PRC. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn unffurf ar draws pob ardal awdurdod lleol:

- Mae twf tuedd hanesyddol ym Mlaenau Gwent a Thorfaen yn negyddol, sy'n bennaf yn adlewyrchu crebachiad gweithgynhyrchu. Mae'r senario twf swyddi potensial uwch yn awgrymu gwrthdroi'r duedd hon yn sylweddol.
- Mae twf tuedd hanesyddol ym Mro Morgannwg hefyd yn negyddol, er bod y senario potensial uwch twf swyddi yn rhagweld twf o tua 370 o swyddi y flwyddyn.

Mae hyn yn adlewyrchu presenoldeb buddsoddiadau 'hysbys' sylweddol yn y Fro, y mae rhai ohonynt yn arwyddocaol o ran maint i'r rhanbarth.

- Yn Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd mae'r senario potensial uwch twf swyddi yn awgrymu cyfradd twf cyflogaeth sy'n uwch na'r hyn a awgrymwyd gan y duedd hanesyddol. Yn achos Casnewydd, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y duedd 20 mlynedd yn isel oherwydd colledion gweithgynhyrchu sylweddol (e.e. Llanwern) ar ddechrau'r 2000au: mae'r duedd ar ôl 2009 wedi bod yn llawer cryfach a gellir dadlau ei bod yn adlewyrchu economi'r ddinas yn well.
- Mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan dwf ychydig yn is na thuedd hanesyddol mewn mannau eraill yn y rhanbarth.

5.20 Yng nghyd-destun niferoedd swyddi sylweddol uwch ym mhob ardal o dan y senario potensial uwch twf, mae dosbarthiad cymesur swyddi ar draws y rhanbarth erbyn 2040 fwy neu lai yr un fath yn y waelodlin a'r senario potensial uwch twf. Rhagwelir y bydd Caerdydd, a oedd yn cyfrif am 33.5% o swyddi yn y rhanbarth yn 2022, yn cyfrif am 33.4% o swyddi yn 2040 yn y senario waelodlin, a 34.6% yn y senario potensial uwch twf. Bydd Bro Morgannwg hefyd yn gweld cynnydd bach yn ei gyfran o gyfanswm swyddi yn y senario potensial uwch twf, gyda chyfrannau'n aros yn sefydlog neu'n dangos gostyngiad bach mewn mannau eraill.

### **Crynodeb**

5.21 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon wedi nodi'r canlynol:

- Mae amgylchedd polisi rhanbarthol cefnogol ar gyfer twf cyflogaeth. Mae'r *Cynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol* yn nodi dull o ymdrin â thwf sy'n canolbwyntio ar arloesi a chynhyrchiant: er bod hyn yn pwysleisio ansawdd a gwerth cyflogaeth yn hytrach na chreu swyddi cyfanredol, yn gyffredinol mae agwedd uchelgeisiol at dwf, sy'n canolbwyntio'n arbennig ar dyfu galluoedd y rhanbarth mewn cyfres o sectorau blaenoriaeth.
- Cefnogir hyn gan nifer o raglenni buddsoddi, gan gynnwys Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargaen Ddinesig PRC a'r Parth Buddsoddi newydd. Er nad yw'r rhain o reidrwydd yn ychwanegol at y waelodlin, maent yn darparu llwybr i greu swyddi ychwanegol.
- Gan gymryd buddsoddiadau rhanbarthol i ystyriaeth a'u triogli â buddsoddiadau lleol 'hysbys' a gwybodaeth leol arall, mae cyfres o naratifau twf wedi'u datblygu ar lefel awdurdodau lleol. Mae'r rhain wedi'u defnyddio i ddatblygu senario potensial uwch twf swyddi, sy'n rhagweld y bydd 85,086 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu rhwng 2022 a 2040, neu 4,727 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras (ar lefel rhanbarthol) â thafllwybr twf 1999-2019, ac mae'n cynrychioli cynnydd sylweddol ar lefel waelodlin resymol y twf a gwblhawyd yn Adran 4 ar draws PRC ac ar gyfer pob awdurdod cyfansoddol.
- Nid oes llawer o amrywiaeth yn y dosbarthiad cymesur a ragwelir o swyddi ar draws y rhanbarth rhwng y senarios gwaelodlin a photensial uwch twf, gyda Chaerdydd yn dangos cynnydd cymedrol yn ei chyfran o swyddi rhanbarthol.

## 6. Goblygiadau ar gyfer mudo a thwf poblogaeth

- 6.1 Mae'r adran hon yn ystyried y goblygiadau ar gyfer mudo, a, thrwy gysylltiad, newid poblogaeth y cyfeiriad teithio posibl a nodwyd ar gyfer y naratif cyflogaeth yn yr adran flaenorol.
- 6.2 Mae'r adran hon i ddechrau yn ystyried lefel y twf llafur sydd wedi'i fodelu fel un y gellir ei gefnogi yn seiliedig ar broffil oedran newidiol ac ymddygiad y gweithlu lle mae tuedd ddemograffig yn cael ei chynnal. Yna caiff hyn ei gymharu â maint y llafur, a thrwy gysylltiad twf yn y boblogaeth, y tybir sydd ei angen i gydbwysu â'r amrywiaeth o dwf cyflogaeth a ddisgrifir yn Adran 5.
- 6.3 Gwnaed dadansoddiad i archwilio beth allai goblygiadau twf cyflogaeth cryfach fod ar lefelau mudo, gan feincnodi hyn yn erbyn y tueddiadau hanesyddol a ystyriwyd yn Adran 3.
- 6.4 Rhoddir ystyriaeth i oblygiadau'r cyfyngiadau annibynnol hyn lle cydnabyddir y gallai dosbarthiad gofodol economaidd newidiol yn ei dro effeithio ar lifoedd llafur y tu hwnt i gyberthnasoedd presennol.

### **Amcangyfrif y gallu demograffig i gefnogi twf cyflogaeth**

- 6.5 Mae Edge Analytics wedi defnyddio technoleg rhagamcanu POPGROUP i bennu sut y gallai'r amcanestyniadau ar sail tuedd a gyflwynwyd yn Adran 3 ddarparu ar gyfer gweithlu sy'n newid. Wrth wneud hynny, mae wedi datblygu rhagdybiaethau ynghylch ymddygiadau'r gweithlu, gan adeiladu ar y wybodaeth a gyflwynwyd yn Adran 4.
- 6.6 Yn benodol, mae'r senarios a gyflwynir yn yr isadran hon yn tybio y bydd cyfraddau cymudo presennol (rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru) yn parhau ac y bydd cyfraddau diweithdra presennol yn cael eu cynnal ar gyfartaledd dros gyfnod y Cynllun. Gan adlewyrchu'r ansicrwydd yn y data ynghylch cyfraddau gweithgarwch economaidd, mae'r modelu wedi penderfynu cadw cyfraddau Cyfrifiad 2011, lle mae'r rhain ar gael mewn modd cyson yn ôl grŵp oedran a rhyw ac yn cynrychioli sefyllfa gymharol gadarnhaol ar gyfer grwpiau oedran iau. Gan gydnabod y cynnydd goblygedig yng nghyfraddau'r carfannau hŷn, yn enwedig ymhlith menywod, a galluogi cysondeb â llawer o'r astudiaethau a gynhaliwyd yn flaenorol gan awdurdodau unigol, mae addasiadau wedi'u gwneud i'r grwpiau hyn sy'n cyd-fynd â rhagolygon a wnaed gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) i adlewyrchu newidiadau parhaus i oedrannau pensiwn.<sup>26</sup> Mae hyn yn sicrhau y rhagdybir bod y carfannau hŷn hyn yn chwarae rhan fwy gweithredol a chyfraniad yn y gweithlu dros gyfnod yr amcanestyniad.

---

<sup>26</sup> Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol 2018.

- 6.7 Dangosir allbynnau'r modelu yn Nhabl 6.1, o'u cymharu â'r senario twf swyddi gwaelodlin. Mae hyn yn dangos bod, o dan y ddwy senario demograffig, ar draws PRC capasiti posibl cryf i gefnogi nifer cynyddol o swyddi<sup>27</sup> yn seiliedig ar duedd barhaus o dwf yn y boblogaeth.

**Tabl 6.1: Amcanestyniad nifer y swyddi a gefnogir gan ragamcanion tuedd twf y gorffennol – PRC**

	Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018 (Prif)	Tuedd hirdymor twf y gorffennol	Tuedd tymor byr twf y gorffennol	Twf swyddi gwaelodlin
Twf swyddi 2022-40	45,656	47,625	62,766	43,896
Cyfartaledd swyddi y flwyddyn	2,536	2,646	3,487	2,439

*Ffynhonnell: Edge Analytics*


- 6.8 O dan yr holl senarios demograffig seiliedig ar duedd, tybir bod graddfa twf y gweithlu yn fwy na digon i ddarparu ar gyfer y twf cyflogaeth gwaelodlin a gyflwynir yn Adran 3. Mae hyn yn awgrymu, os bydd poblogaeth PRC yn parhau i dyfu fel y mae wedi gwneud yn y gorffennol, gan nodi'r amrywiadau mewn cyfraddau twf deilliadol, bydd yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i gefnogi economi sy'n tyfu yn unol â lefel twf 'gwaelodlin' resymol. Yn wir, yn amodol ar y gyfradd y mae'r boblogaeth yn tyfu, mae posibilrwydd y byddai capasiti llafur ychwanegol yn cael ei gynhyrchu, pe bai tueddiadau mudo diweddar yn cael eu cynnal. Gallai'r llafur ychwanegol hwn o bosibl fod o gymorth i ddenu buddsoddiad economaidd pellach neu os na fydd hyn yn digwydd fel casgliad byddai disgwyl y byddai mwy o weithwyr yn allgymudo i ganolfannau economaidd eraill. Ystyrir hyn ymhellach ar ddiwedd yr adran hon.
- 6.9 Mae Ffigurau 6.1 a 6.2 yn dangos dosbarthiad gofodol y capasiti amcanestynedig i gefnogi swyddi ar lefel awdurdod unigol o dan bob un o'r amcanestyniadau seiliedig ar duedd presennol. Mae'r rhain yn cyfateb i'r ffigurau a gyflwynir yn Nhabl 6.1. Mae hyn yn adlewyrchu maint y boblogaeth oedran gweithio yn bennaf, gyda hyn yn ei dro yn dibynnu ar broffil oedran rhagamcanol awdurdodau unigol.

<sup>27</sup> Mae model POPGROUP yn creu capasiti i gefnogi cyflogaeth yn seiliedig ar weithlu sy'n newid ac sy'n cyfrif am lifau cymudo. Troswyd hwn yn swyddi i ganiatáu ar gyfer cymhariaeth uniongyrchol â'r allbynnau yn adran 5 drwy ganiatáu rhagdybiaeth 'swyddi dwbl'. Mae hyn yn cydnabod bod cyfran fach (2.5-5.5% ar draws yr awdurdodau CCR) o bobl yn gweithio mwy nag un swydd sy'n golygu bod nifer y swyddi a gefnogir gan y gweithlu ychydig yn uwch na'r capasiti cyflogaeth sydd wedi'i fodelu.

**Ffigur 6.1: Dosbarthiad gofodol y swyddi a gefnogir o dan senario Tuedd hirdymor twf y gorffennol**

**Job growth supported in Past Growth Long-Term scenario**

- CCR authorities
- Job growth supported 2022-40



Contains OS data © Crown copyright and database right (2024)


*Ffynhonnell: Edge Analytics / Turley*

**Turley**  
Economics

**Ffigur 6.2: Dosbarthiad gofodol swyddi a gefnogir o dan senario Tuedd tymor byr twf y gorffennol**

**Job growth supported in Past Growth Short-Term scenario**

- CCR authorities
- Job growth supported 2022-40



Contains OS data © Crown copyright and database right (2024)

*Ffynhonnell: Edge Analytics / Turley*

**Turley**  
Economics

- 6.10 Oni bai am Flaenau Gwent rhagamcanir y bydd yr holl awdurdodau yn gweld twf yn nifer y swyddi y gallant eu cefnogi dros gyfnod yr amcanestyniad mewn o leiaf un o'r ddwy senario demograffig twf y gorffennol (gan nodi bod Caerffili a Merthyr Tudful hefyd yn awgrymu gostyngiad yn y swyddi a gefnogir yn seiliedig ar y duedd tymor byr). Gan adlewyrchu maint cymesur eu poblogaeth a'u poblogaethau cymharol ifanc, mae nifer y swyddi a gefnogir o bosibl yn arbennig o gryf yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

### Cefnogi senarios twf cyflogaeth a ragwelir

- 6.11 Gan ddefnyddio methodoleg gyffredin, mae Edge Analytics wedi defnyddio'r model POPGROUP i asesu goblygiadau posibl twf swyddi ar draws PRC ar dwf y boblogaeth a'r lefelau mudo sydd ymhlyg. Mewn senario 'a arweinir gan gyflogaeth', caiff twf poblogaeth ei bennu gan y lefelau diffiniedig o dwf cyflogaeth; defnyddir mudo mewnol net i gydbwysu rhwng twf poblogaeth a chyflogaeth. Felly, pan fo'r boblogaeth breswyl yn annigonol o ran maint a strwythur i gefnogi'r twf cyflogaeth diffiniedig, bydd lefel uwch o fudo net yn deillio o hynny.
- 6.12 Fel y crybwyllwyd uchod, mae'r holl ragamcanion demograffig yn awgrymu y bydd y twf a ragwelir yn y gweithlu yn cefnogi lefel o dwf swyddi sy'n fwy na'r hyn a ystyrir yn rhagolwg cyflogaeth gwaelodlin rhesymol. Mae Tabl 6.2 yn cadarnhau y byddai, ar lefel PRC, gan gefnogi lefel gwaelodlin twf cyflogaeth (a thybio bod lefel cyflogaeth yn cyfyngu ar dwf y boblogaeth), lefel is o dwf yn y boblogaeth a mudo yn codi. Er gwybodaeth, mae'r metrigau cymaradwy ar gyfer senario Tuedd Hirdymor Twf y Gorffennol wedi'u cynnwys.

**Tabl 6.2: Goblygiadau ar gyfer newid demograffig o gefnogi'r senario twf swyddi gwaelodlin – PRC**

Senario	Twf poblogaeth 2022 - 2040	Cyfartaledd mudo blynyddol	Cyfartaledd swyddi blynyddol
Twf swyddi gwaelodlin	57,214	4,729	2,439
Tuedd hirdymor twf y gorffennol	65,858	5,140	2,646

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 6.13 Er bod y modelu ar lefel PRC yn gronnol yn dangos mwy na digon o gapasiti i gefnogi'r lefel waelodlin o swyddi a nodwyd o dan y senarios demograffig, mae, fel y byddech yn ei ddisgwyl, amrywiadau ar lefel awdurdod. Blaenau Gwent yw'r enghraifft amlycaf, lle mae'r amcanestyniad demograffig yn awgrymu llai o gapasiti i gefnogi swyddi, ond mae'r rhagolygon gwaelodlin yn awgrymu y bydd yr economi yn parhau i dyfu a chreu swyddi. Mae'r modelu, sy'n cael ei adeiladu o lefel yr awdurdod, felly yn yr achos hwn yn addasu'r boblogaeth yn yr awdurdod i sicrhau bod digon o lafur i gefnogi'r twf swyddi a ragwelir. Gwneir hyn drwy ragdybio lefel fwy cadarnhaol o fudo net i'r awdurdod i sicrhau bod digon o bobl o oedran gweithio y tybir eu bod yn economaidd weithgar yn y gweithlu. Mae Tabl 6.3 yn cymharu'r twf amcanestyniedig yn y boblogaeth fesul awdurdod dros y cyfnod 2022 – 2040 rhwng Tuedd hirdymor twf y gorffennol a'r senario Twf swyddi gwaelodlin.

**Tabl 6.3: Cymharu twf poblogaeth a ragdybir o dan senario Tuedd hirdymor twf y gorffennol a'r senario Twf swyddi gwaelodlin**

Awdurdod	Newid mewn Poblogaeth 2022 – 2040		
	Tuedd hirdymor twf y gorffennol	Twf swyddi gwaelodlin	Gwahaniaeth
Blaenau Gwent	-404	161	564
Pen-y-bont ar Ogwr	8,976	5,969	-3,008
Caerffili	2,840	1,417	-1,423
Caerdydd	20,065	24,148	4,084
Merthyr Tudful	1,664	1,321	-343
Sir Fynwy	6,042	4,265	-1,777
Casnewydd	12,662	8,216	-4,446
Rhondda Cynon Taf	5,169	7,479	2,310
Torfaen	930	419	-511
Y Fro	7,914	3,821	-4,093
<b>Cyfanswm PRC</b>	<b>65,858</b>	<b>57,215</b>	<b>-8,643</b>

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 6.14 Fel y nodir uchod, o fewn y modelu defnyddir mudo fel y ffactor cydbwysu wrth addasu'r boblogaeth yn y senario twf swyddi gwaelodlin. Mae Tabl 6.4 yn cymharu'r mudo tybiedig wedi'i fodelu o dan y senario twf swyddi gwaelodlin a senario tuedd hirdymor twf y gorffennol ar gyfer pob awdurdod.

**Tabl 6.4:** Cymharu rhagdybiaethau mudo wedi'u modelu fesul awdurdod o dan y senario twf swyddi gwaelodlin a senario tuedd hirdymor twf y gorffennol

Awdurdod	Cyfartaledd mudo net blynyddol 2022–2040		
	Tuedd hirdymor twf y gorffennol	Twf swyddi gwaelodlin	Gwahaniaeth
Blaenau Gwent	208	234	25
Pen-y-bont ar Ogwr	973	822	-152
Caerffili	570	501	-69
Caerdydd	209	427	218
Merthyr Tudful	181	163	-17
Sir Fynwy	835	741	-94
Casnewydd	432	220	-212
Rhondda Cynon Taf	728	846	118
Torfaen	268	243	-25
Y Fro	736	533	-203
<b>Cyfanswm PRC</b>	<b>5,140</b>	<b>4,729</b>	<b>-411</b>

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 6.15 Mae Tabl 6.4 yn cadarnhau y byddai cefnogi lefel waelodlin o dwf swyddi, yn seiliedig ar gyberthnasoedd cymudo parhaus, yn arwain at lefel gryfach o fudo, ac felly twf poblogaeth, yng Nghaerdydd a RhCT yn ogystal ag ym Mlaenau Gwent. Byddai'r holl awdurdodau eraill yn gweld lefel mwy cymedrol o dwf demograffig lle byddai lefel waelodlin y twf swyddi a ragamcanir, o fewn y modelu, yn cyfyngu ar eu gallu i ddenu pobl oherwydd cyfleoedd cyflogaeth.
- 6.16 Mae'n werth nodi, serch hynny, y byddai alinio'r twf a awgrymir yn y boblogaeth o dan y senario twf swyddi gwaelodlin yn cael effaith gymharol fach ar ddosbarthiad cymesur y boblogaeth ar draws PRC, o'i gymharu â'r hyn a amcanestynir o dan y senario tuedd hirdymor twf y gorffennol. Dangosir hyn yn Ffigur 6.5. Mae hyn yn dangos y ddau awdurdod sydd â'r cyfrannau mwyaf o dan senario tuedd hirdymor twf y gorffennol, Caerdydd a RhCT, yn cynyddu eu cyfran gymesur o'r boblogaeth ymhellach o dan y senario twf swyddi gwaelodlin. Lle gwelodd Blaenau Gwent ostyngiad yn y boblogaeth seiliedig ar duedd o dan senario twf hirdymor y gorffennol, cyflwynir darlun mwy cadarnhaol o dan y senario twf swyddi gwaelodlin, gyda swyddi a ragamcanir yn denu mwy o bobl ac mae ei chyfran gymesur o'r boblogaeth hefyd yn cynyddu.

**Tabl 6.5: Gwahaniaeth yn nosbarthiad gofodol y boblogaeth o dan y senarios Twf swyddi gwaelodlin a Thuedd hirdymor twf y gorffennol**

Awdurdod (yn nhrefn % cyfran)	Cyfran o'r boblogaeth 2040	
	Tuedd hirdymor twf y gorffennol	Twf swyddi gwaelodlin
Caerdydd	24.4%	24.8%
Rhondda Cynon Taf	15.2%	15.4%
Caerffili	11.1%	11.1%
Casnewydd	10.8%	10.6%
Pen-y-bont ar Ogwr	9.7%	9.5%
Bro Morgannwg	8.8%	8.6%
Sir Fynwy	6.2%	6.1%
Torfaen	5.8%	5.8%
Blaenau Gwent	4.1%	4.2%
Merthyr Tudful	3.8%	3.8%

*Ffynhonnell: Edge Analytics / Turley*

- 6.17 Yn wahanol i lefel waelodlin twf swyddi, mae'n amlwg bod y naratif posibl a awgrymir o dwf cyflogaeth cryfach o fewn PRC i adlewyrchu dyheadau strategol a buddsoddiad, fel y nodir yn Adran 5, o bosibl yn uwch na lefel y twf swyddi a allai gael eu cefnogi o dan y senarios demograffig.
- 6.18 Mae Tabl 6.6 yn cyflwyno allbynnau cymharol ar gyfer y rhai a gyflwynir yn Nhabl 6.2, gan ychwanegu'r goblygiadau wedi'u modelu o gefnogi'r lefel uwch o dwf mewn swyddi goblygedig.

**Tabl 6.6: Goblygiadau ar newid demograffig o gefnogi'r senario potensial uwch twf swyddi – PRC**

Senario	Twf poblogaeth 2022 - 2040	Cyfartaledd mudo blynyddol	Cyfartaledd swyddi blynyddol
Potensial uwch twf swyddi	130,901	8,406	4,727
Twf swyddi gwaelodlin	57,215	4,729	2,439
Tuedd twf hirdymor y gorffennol	65,858	5,140	2,646
Tuedd tymor byr twf y gorffennol	91,027	6,437	3,487

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

6.19 Fel gyda'r senarios eraill, mae'r twf cymharol yn y boblogaeth yn wahanol ar draws y deg awdurdod o dan y senario potensial uwch twf swyddi. Dangosir hyn mewn fformat tebyg i'r hyn a gyflwynir yn Nhabl 6.3 gyda graddfa gymharol y twf yn y boblogaeth a dybir o dan senario Tuedd hirdymor twf y gorffennol yn cael ei defnyddio fel meincnod. Mae hyn yn dangos bod y modelu'n awgrymu y byddai angen lefel sylweddol uwch o dwf yn y boblogaeth ar draws PRC i gefnogi'r lefel uwch o dwf swyddi goblygedig. Yn wir, mae'n awgrymu y byddai angen i boblogaeth PRC dyfu gan fwy na 130,000 o bobl, tua dwbl yr hyn a amcanestynwyd ar sail senario Tuedd hirdymor twf y gorffennol. Byddai lefel twf o'r fath yn arwain at gynnydd cyfartalog blynyddol o tua 7,272 o bobl y flwyddyn, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd blynyddol a amcanestynir hyd yn oed o dan senario tuedd tymor byr twf y gorffennol (5,057 o bobl y flwyddyn).

**Tabl 6.7: Cymharu twf poblogaeth a ragdybir o dan senario Tuedd hirdymor twf y gorffennol a'r senario Potensial uwch twf swyddi**

Awdurdod	Newid yn y Boblogaeth 2022 – 2040		
	Tuedd hirdymor twf y gorffennol	Tuedd tymor byr twf y gorffennol	Gwahaniaeth
Blaenau Gwent	-404	5,216	5,620
Pen-y-bont ar Ogwr	8,976	15,290	6,313
Caerffili	2,840	8,034	5,194
Caerdydd	20,065	45,422	25,357
Merthyr Tudful	1,664	3,370	1,706
Sir Fynwy	6,042	8,601	2,559
Casnewydd	12,662	13,538	876
Rhondda Cynon Taf	5,169	14,211	9,042
Torfaen	930	4,192	3,263
Y Fro	7,914	13,027	5,113
<b>Cyfanswm PRC</b>	<b>65,858</b>	<b>130,901</b>	<b>65,043</b>

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

6.20 Lle mae gwahaniaethau cymharol yn y cynnydd tebygol a awgrymir yn y swyddi o'r waelodlin i'r senario potensial uwch twf swyddi, fel y disgrifir yn Adran 5, mae hyn yn effeithio ar ddosbarthiad posibl y boblogaeth. Mae Tabl 6.8 yn cymharu'r ddwy senario a arweinir gan swyddi, gan ddangos sut mae'r potensial uwch twf swyddi yn effeithio ar gyfran gymesur o'r boblogaeth ar draws PRC. Mae hyn yn dangos bod Caerdydd yn cynyddu ei chyfran gymesur o'r boblogaeth ymhellach, gyda Phen-y-bont ar Ogwr, y Fro a Blaenau Gwent hefyd yn gweld eu cyfran gymesur yn cynyddu. Mae'n bwysig sylwi bod newidiadau ym mhob achos yn weddol gymedrol.

**Tabl 6.8: Gwahaniaeth yn nosbarthiad gofodol y boblogaeth o dan y senario Twf swyddi gwaelodlin a'r senario Potensial uwch twf swyddi**


Awdurdod (wedi'u trefnu yn ôl % cyfran)	Cyfran o'r boblogaeth yn 2040	
	Twf swyddi gwaelodlin	Potensial uwch twf swyddi
Caerdydd	24.8%	25.0%
Rhondda Cynon Taf	15.4%	15.1%
Caerffili	11.1%	11.0%
Casnewydd	10.6%	10.5%
Pen-y-bont ar Ogwr	9.5%	9.7%
Bro Morgannwg	8.6%	8.8%
Sir Fynwy	6.1%	6.1%
Torfaen	5.8%	5.8%
Blaenau Gwent	4.2%	4.3%
Merthyr Tudful	3.8%	3.7%

*Ffynhonnell: Edge Analytics / Turley*

### **Strwythur oedran y boblogaeth**

- 6.21 Mae'r dadansoddiad uchod wedi nodi y gallai cefnogi'r lefel gryfach o dwf swyddi a awgrymir wrth roi cyfrif am allbynnau Adran 5 gael goblygiadau ar gyfer poblogaeth PRC a'i awdurdodau cyfansoddol. Un o'r effeithiau posibl pwysig fyddai newid proffil oedran, lle byddai angen mwy o drigolion o oedran gweithio i gefnogi twf cyflogaeth.
- 6.22 Mae Ffigur 6.3 yn cyferbynnu'r proffil oedran a awgrymir o dan y senario Twf posibl uwch, o'i gymharu â'r rhagamcan o Duedd hirdymor twf y gorffennol.

**Ffigur 6.3: Cymharu'r proffil oedran o dan y senario potensial uwch twf swyddi a senario tuedd hirdymor twf y gorffennol**




*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 6.23 Er bod y proffil oedran cymharol yn parhau i fod yn weddol debyg o dan y ddwy senario, gan adlewyrchu tueddiadau tymor hwy ynghylch poblogaeth yn heneiddio yn yr ardal, mae'r twf cryfach a awgrymir mewn swyddi o dan y senario potensial uwch twf yn arwain at y boblogaeth 'oedran gweithio' (16 – 64 oed) yn gwneud cyfran ychydig yn fwy erbyn 2040 nag a fyddai'n wir pe bai'r duedd ddemograffig yn parhau.

### **Meincnodi mudo**

- 6.24 Fel y crybwyllwyd uchod, lle rhagdybir bod lefel uwch o dwf yn y boblogaeth yn cefnogi lefel uwch o dwf swyddi, mae'r model yn mynd i'r afael ag unrhyw fwch yn y gweithlu drwy ragdybio llif mudo net cryfach.
- 6.25 Cyflwynir y mudo net blynyddol cyfartalog a awgrymir o dan yr ystod o senarios cyflogaeth yn Ffigur 6.4, wedi'i feincnodi yn erbyn lefelau hanesyddol blynyddol yn ôl i 2001.

**Ffigur 6.4:** Cymharu mudo net cyfartalog blynyddol rhagamcanol o dan yr ystod o ragolygon cyflogaeth yn erbyn cyfraddau blynyddol hanesyddol – PRC



*Ffynhonnell: Edge Analytics / Turley*

6.26 I gynorthwyo i gymharu'r lefelau mudo blynyddol a awgrymir, mae Tabl 6.9 yn cymharu mudo hanesyddol y flwyddyn (gan gynnwys UPC) yn erbyn y lefelau a ragdybir o dan y senario twf swyddi gwaelodlin a'r senario potensial uwch twf swyddi.

**Tabl 6.9: Cymharu mudo net cyfartalog blynyddol rhagamcanol o dan yr ystod o ragolygon cyflogaeth yn erbyn cyfraddau blynyddol gan gynnwys UPC – PRC**


Awdurdod	Mudo Net Cyfartalog Blynyddol 2022 - 2040		Mudo Net Cyfartalog Blynyddol	
	Twf swyddi gwaelodlin	Potensial uwch twf swyddi	2001 – 2022 (yn cynnwys UPC)	2017 – 2022 (yn cynnwys UPC)
Blaenau Gwent	234	488	-45	13
Pen-y-bont ar Ogwr	822	1,294	828	847
Caerffili	501	833	122	-74
Caerdydd	427	1,464	1,573	2,677
Merthyr Tudful	163	266	80	-40
Sir Fynwy	741	970	576	764
Casnewydd	220	482	711	1,300
Rhondda Cynon Taf	846	1,176	215	814
Torfaen	243	433	67	565
Y Fro	533	1,001	624	1,148
<b>Cyfanswm PRC</b>	<b>4,729</b>	<b>8,406</b>	<b>4,751</b>	<b>8,013</b>

*Ffynhonnell: Edge Analytics*

- 6.27 Mae'n amlwg o'r uchod, er bod lefel y mudo net a awgrymir o dan y senario potensial uwch twf swyddi yn gymharol uchel i'r hyn a amcanestynir o dan senarios demograffig tuedd y gorffennol, nid yw heb gynsail. Yn wir, dros y 5 mlynedd diwethaf, sydd wedi gweld lefelau cymharol uchel o fudo net, mae'r gyfradd net gyfartalog o tua +8,013 o bobl (gan gynnwys UPC) yn debyg i'r cyfartaledd net tybiedig o dan y senario. Byddai hyn, fodd bynnag, yn awgrymu parhad o'r lefel gymharol gryf hyn o fudo net y flwyddyn dros gyfnod hwy. Nodir yn y cyd-destun hwn fod y cyfartaledd dros yr hirdymor (2001/02 – 2021/22) yn sylweddol is na'r hyn a dybiwyd, gyda chyfartaledd o tua 4,751 y flwyddyn (eto yn cynnwys UPC).
- 6.28 Mae'n rhesymol tybio y gallai newidiadau i lefelau mudo, y tu hwnt i'r rhai a welwyd dros y tymor hwy, gael goblygiadau ar gyfer ardaloedd eraill y mae llifoedd mudo wedi bod yn gryfach ohonynt yn hanesyddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn, fel y disgrifir yn Adran 3, bod llifoedd net ymfudwyr rhyngwladol wedi bod yn elfen sylweddol o fudo yn gyffredinol. Nid yw'n bosibl rhagweld sut y bydd mudo rhyngwladol yn newid dros y tymor hwy, lle gallai polisi cenedlaethol yn ogystal â'r darlun economaidd byd-eang ehangach ddylanwadu ar hyn, ond mae'n rhesymol tybio y bydd yn chwarae rhywfaint o rôl dros gyfnod yr amcanestyniad.

6.29 Gan edrych ar lifoedd mudo gydag awdurdodau eraill yn y DU, mae Ffigur 6.5 yn dangos yr awdurdodau hynny sydd â'r llifoedd mwyaf i mewn ac allan o PRC, yn seiliedig ar bobl yn cofrestru eu bod wedi symud yn y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2021.

**Ffigur 6.5: Llifoedd mudo mwyaf i mewn ac allan o PRC**



*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 (\*Sir Gaerfyrddin)*


6.30 Mae hyn yn dangos bod y llifoedd mwyaf i mewn ac allan o PRC yn dod o/i ardaloedd trefol agos iawn Bryste ac Abertawe, gyda'r llif mwyaf i mewn o Fryste ond y llif mwyaf allan i Abertawe. Mae llifoedd sylweddol eraill unwaith eto gydag awdurdodau cyfagos naill ai i'r dwyrain i Loegr i Dde Swydd Gaerloyw, neu i'r gorllewin i Gastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin. Mae'r llifoedd mwyaf allan, ac eithrio Bryste, i gyd i'r gorllewin o fewn Cymru. Er mwyn i llifoedd net fod yn gryfach a pharhaus mae'n rhesymol tybio y byddai llifoedd yn cynyddu o'r awdurdodau hynny y maent wedi tarddu ynddynt yn hanesyddol ac y byddai llifoedd o bosibl yn cael eu lleihau allan i'r awdurdodau hynny sydd wedi bod yn gyrchfan yn hanesyddol. Yn amlwg byddai tueddiadau o'r fath yn parhau i gael eu heffeithio arnynt gan gryfder cymharol y ffactorau sy'n dylanwadu ar symudiadau pobl, a fydd yn cynnwys argaeledd cyfleoedd cyflogaeth a ffactorau ansawdd bywyd cymharol ehangach.

### **Y berthynas rhwng cyflogaeth seiliedig ar breswylwyr a chyflogaeth seiliedig ar weithle**

6.31 Mae'r holl senarios a gyflwynir yn yr adran hon ac adrannau blaenorol wedi rhagdybio bod y cyfraddau cymudo presennol yn cael eu cynnal. Yn hyn o beth, fel y cyfeirir ato yn Adran 4, mae'n bwysig cydnabod bod PRC, ar hyn o bryd, yn allforiwr llafur net; rhagdybir bod hyn yn parhau i fod yn wir yn y senarios sydd wedi'u modelu.

6.32 Lle mae'r modelu'n defnyddio cyfraddau cymudo tybiedig ar gyfer pob awdurdod, mae'r *gymhareb* yn cael ei chynnal o dan yr holl senarios, ond mae'r lefelau *absoliwt* tybiedig yn newid, oherwydd cymhwyso cyfradd i boblogaeth o wahanol faint. Mae graddfa'r gwahaniaeth ar lefel PRC, fodd bynnag, yn gymharol fach rhwng y gwahanol senarios, gyda phob un o'r senarios a gyflwynir yn yr adran hon yn parhau i dybio bod mwy na 28,500 o bobl yn cymudo net allan o PRC i weithio yn rhywle arall. Gan ddefnyddio setiau data Llywodraeth Cymru a ystyriwyd yn Adran 4 mae'n ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn i ddeall ble mae'r prif fannau gwaith ar gyfer PRC, y tu hwnt i'w symudiadau cymudo mewnol ei hun. Dangosir hyn yn Ffigur 6.6.

**Ffigur 6.6: Prif fannau gwaith ar gyfer preswylwyr PRC, ac eithrio PRC**



*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2022*

6.33 Mae hyn yn dangos bod y llifoedd mwyaf arwyddocaol eto gydag ardaloedd sy'n agos i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r llifoedd ar eu cryfaf gyda Chastell-nedd Port Talbot i'r gorllewin ac yna De Swydd Gaerloyw a Bryste i'r Dwyrain. Gwelir llifoedd cymharol gryf hefyd gydag Abertawe a Phowys ond, y tu hwnt i hynny, mae'r llif yn gymharol gymedrol.

6.34 Yn unol ag amcanion yr ymchwil, mae dadansoddiad wedi'i wneud i ystyried goblygiadau posibl PRC yn dod yn fwy hunangynhwysol o ran cydbwysedd swyddi a llafur. Cydnabyddir bod y gallu i effeithio'n uniongyrchol ar lifoedd cymudo yn heriol iawn, gan eu bod yn cynrychioli rhyngberthynas llawer o ffactorau gan gynnwys tynfa gymharol y cynnig cyflogaeth, fforddiadwyedd tai, yn ogystal ag ansawdd y seilwaith trafndiaeth sy'n cysylltu lleoedd.

6.35 Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, mae Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn datgan bod '*angen inni newid y ffordd rydym yn teithio. Mae angen inni*

*leihau nifer y ceir ar ein ffyrdd, a sicrhau bod rhagor o bobl yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn cerdded neu'n beicio.*<sup>28</sup>

- 6.36 Mae'n nodi tair blaenoriaeth i gyflawni'r nod hwn, a'r gyntaf o'r rhain yw 'dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio'. Nodir y bydd gan cynyddu gweithio gartref a gweithio o bell rôl i'w chwarae, gyda'r olaf yn cynnwys cymorth i alluogi 'pobl weithio mewn swyddfa yn agos i'w cartref un diwrnod yr wythnos neu fwy, yn hytrach na chymudo pellteroedd hir, yn unol â tharged ehangach Llywodraeth Cymru i weld 30% o'r gweithlu yn gweithio o bell yn rheolaidd.'<sup>29</sup>
- 6.37 Mae'r ail flaenoriaeth yn canolbwyntio ar greu gwasanaeth a seilwaith trafndiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon. O fewn PRC bydd hyn yn cynnwys uwchraddio'r Metro ynghyd â Chynlluniau Buddsoddi eraill Trafndiaeth Cymru.
- 6.38 Gallai'r ymrwymiad hwn, ar y cyd ag economi leol sy'n perfformio'n gryfach, fel y rhagwelwyd o dan y senario potensial uwch twf swyddi, arwain at newidiadau i lifoedd cymudo. Nid yw'n bosibl rhagweld newidiadau o'r fath ac nid yw'r ymchwil hwn wedi ceisio ymgymryd â modelu o'r fath nac yn wir eirioli y gellid cyflawni sefyllfa o'r fath. Rhoddir ystyriaeth isod, serch hynny, i ganlyniadau posibl symud tuag at hunangynhwysiant o fewn PRC lle byddai hyn yn amlwg yn galluogi'r twf swyddi cryfach a ragwelir i gael ei wireddu trwy gadw a denu lefel is o dwf yn y boblogaeth. Wrth ystyried senario o'r fath mae'n hollbwysig nodi bod unrhyw effeithiau a wireddir ar lifoedd cymudo yn cael effaith nid yn unig ar PRC ond hefyd ar yr awdurdodau hynny lle mae llafur wedi teithio iddynt yn hanesyddol, gan gynnwys y rhai a nodir uchod.
- 6.39 Mewn termau sylfaenol o dan y senario gwaelodlin, mae'r cyflenwad llafur a amcanestynir o dan yr amcanestyniadau demograffig wedi'i nodi fel un sy'n rhagori ar y cyflenwad gwaelodlin rhesymol a ragwelir o swyddi erbyn 2040. Byddai hyn yn awgrymu pe bai'r economi'n tyfu ar y llwybr a awgrymir gan y waelodlin ac y byddai'r boblogaeth yn parhau i dyfu y byddai nifer y bobl sy'n allgymudo o PRC i ganolfannau cyflogaeth cyfagos eraill yn cynyddu. Felly dim ond o dan senario lle mae potensial uwch twf swyddi yn cael ei gynhyrchu o fewn PRC y disgwylir cyflawni lleihad yn llif net y cymudwyr allan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- 6.40 Mae'n rhesymol rhagweld y byddai'r cyfleoedd sy'n deillio o gyflawni lefel gryfach o swyddi yn rhoi lefelau uwch o weithio a byw yn y PRC. Byddai hyn yn adlewyrchu'r buddion ariannol ac o ran lles sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn bod yn fwy agos at fan preswyl.
- 6.41 Yn ddamcaniaethol, fel y crybwyllwyd uchod, pe bai PRC yn cyflawni cydbwysedd net agosach rhwng cymudwyr i mewn ac allan byddai hyn yn cynhyrchu gweithlu damcaniaethol mwy gan tua 30,000 o bobl (h.y. yr allbwn net tybiedig presennol yn seiliedig ar barhad y cyfraddau presennol erbyn 2040<sup>30</sup>). Pe tybir bod yr holl bobl hyn yn cymryd un o'r swyddi ychwanegol a ragdybiwyd o dan y senario potensial uwch twf

<sup>28</sup> Llwybr Newydd – Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021, tudalen 3

<sup>29</sup> *Ibid*, tudalen 15

<sup>30</sup> Dyma allbwn y modelu o fewn POPGROUP ar gyfer y senario potensial uwch twf swyddi. Nodir bod y lefel absoliwt o allgymudwyr net tybiedig o'r PRC yn amrywio o dan bob senario lle caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau a gymhwysir i wahanol feintiau o boblogaeth ar lefel awdurdod unigol.

swyddi byddai hyn, yn ddamcaniaethol, yn lleihau'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth sydd ei angen i gefnogi twf swyddi.

- 6.42 Dangosir yr aliniad cymharol rhwng nifer y bobl gyflogedig a ragwelir yn PRC erbyn 2040 o dan y ddau ragamcan demograffig a gyflwynwyd yn Adran 3 a'r cyflogaeth a ragwelir yn 2040 o dan y senario potensial uwch twf swyddi yn Nhabl 6.10.

**Tabl 6.10: Goblygiadau posibl i'r boblogaeth o dybio senario cymudo PRC mwy hunangynhwysol**

Senario	2040		Newid mewn poblogaeth 2022 – 2040	
	Pobl gyflogedig	Cyflogaeth		Poblogaeth
Tuedd tymor byr twf y gorffennol	<b>796,360</b>		1,632,041	91,027
Potensial uwch twf swyddi	820,090	<b>790,078</b>	1,671,915	130,901
Tuedd hirdymor twf y gorffennol	<b>783,534</b>		1,606,872	65,858

*Ffynhonnell: Turley / dadansoddiad Edge Analytics*

- 6.43 Mae hyn yn dangos y gallai swm y cyflogaeth a ragwelir yn y senario potensial uwch twf swyddi (790,078) yn PRC, er y tybir bod angen gweithlu preswyl o tua 820,090 yn y model POPGROUP i gynnal y cyfraddau cymudo presennol, gael ei gefnogi gan lafurllu preswyl y tybir fydd yn bodoli erbyn 2040 rhwng y ddau amcanestyniad demograffig (783,534 – 796,360 o bobl) os oedd cydbwysedd agosach o 1:1 rhwng y ddau. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r twf amlycach mewn swyddi gael ei gefnogi gan lefel is o dwf yn y boblogaeth, rhywle yn fras yng nghanol y ddwy senario, o dan set o amgylchiadau o'r fath.
- 6.44 Byddai effaith newidiadau i lifoedd cymudwyr allan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael effeithiau amrywiol ar awdurdodau unigol, gyda newidiadau yn debygol o fod yn fwyaf amlwg ar y rhai ar yr ymylon ac ar goridorau trafndiaeth cryfach sy'n cysylltu â chanolfannau cyflogaeth allanol. Mae'r model sylfaenol a gyflwynir drwy gydol yr adroddiad hwn yn parhau i amlygu y byddai cryfder cymharol economi Caerdydd yn golygu y byddai disgwyl i lifoedd gryfhau i galon PRC, er yn cydnabod cryfder cymharol twf cryfach mewn nifer o awdurdodau eraill lle mae lefelau yn sylweddol uwch na'r rhai a dybiwyd o dan y rhagolygon gwaelodlin.
- 6.45 Mae'r uchod yn amlygu canlyniadau pwysig llifoedd cymudo tu fewn a thu allan i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar y cydbwysedd rhwng twf swyddi a newid yn y boblogaeth. Bydd ystyriaethau o'r fath a goblygiadau buddsoddi yn y Metro, er enghraifft, yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol ar lefel PRC.

## Crynodeb

6.46 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon wedi nodi:

- Byddai disgwyl i'r twf yn y boblogaeth a awgrymwyd o dan senarios Twf y gorffennol, yn yr hirdymor a'r tymor byr, arwain at weithlu cynyddol a fyddai ar raddfa i ddarparu ar gyfer y lefel sylfaen o dwf swyddi (tua 2,500 o swyddi y flwyddyn) a ragwelir ar draws PRC. Mae hyn yn cydnabod bod y ddwy senario yn tybio parhad mewn lefel gymharol gryf mudo net i PRC, a fydd yn ei dro yn parhau i dyfu maint y boblogaeth oedran gweithio gyda chynnydd cymedrol parhaus yn cael ei ragweld yng nghyfraddau gweithgarwch economaidd aelodau hŷn y gweithlu hefyd yn helpu i gefnogi sylfaen gyflogaeth gynyddol.
- Mae amrywiadau ar lefel awdurdod lleol, sy'n cydnabod canlyniadau a chyfyngiadau posibl parhau i allosod ymlaen dueddiadau'r gorffennol o ran twf poblogaeth o dan y senarios hyn. Er enghraifft, lle mae poblogaeth Blaenau Gwent wedi gweld gostyngiad yn ei phoblogaeth dros gyfnod hir a thymor byr, caiff y duedd hon ei hallosod ymlaen gan awgrymu felly y bydd ei weithlu yn dirywio ac felly ei allu i ymdopi â thwf pellach mewn swyddi. Mewn cyferbyniad, byddai disgwyl hefyd i Gaerdydd, sydd wedi gweld ei phoblogaeth yn tyfu dros y ddau gyfnod, weld ei gweithlu'n tyfu o dan y senarios hyn. Mae hyn yn arbennig o wir o dan y senario tuedd tymor byr, sy'n adlewyrchu'r lefel hynod gryf o dwf yn y boblogaeth a welwyd yn y blynyddoedd diweddaraf a thybiaeth y cynhelir cyfraddau twf cryfach. Gwelir darlun tebyg ar gyfer y Fro, Casnewydd a Thorfaen ac i raddau llai yn RhCT, gyda phob un o'r rhain yn gweld twf cadarnhaol diweddar yn y boblogaeth gyda hyn yn awgrymu y byddent, pe bai tueddiadau diweddar yn cael eu cynnal, yn gallu darparu ar gyfer twf cymharol gryf mewn swyddi. Mae allosod ymlaen, y duedd tymor hwy, mewn cyferbyniad yn rhoi darlun potensial mwy cadarnhaol ar gyfer nifer y swyddi y gellid eu cefnogi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Merthyr Tudful a Chaerffili. Yn achos y ddau olaf, nodir mai dim ond o dan senario hirdymor seiliedig ar duedd yr awgrymir twf cadarnhaol mewn cyflogaeth fel un y gellir ei gefnogi. Cydnabyddir, fel y nodir yn Adran 3, nad yw'r rhagamcanion demograffig hyn sy'n seiliedig ar duedd yn ystyried effeithiau ysgogwyr eraill, megis creu cyflogaeth sy'n deillio o fuddsoddiad a gwireddu cyfleoedd twf lleol.
- Lle mae'n wir bod y duedd hirdymor yn ei hanfod yn llai agored i effaith amrywiadau tymor byr posibl, fe'i defnyddiwyd i ddangos yr amrywiad posibl yn y newid yn y boblogaeth ar draws yr awdurdodau PRC lle mae'r boblogaeth yn cyd-fynd â'r rhagolygon gwaelodlin ar gyfer twf swyddi. Mae hyn yn nodi, ar gyfer Caerdydd, RhCT a Blaenau Gwent, y byddai lefelau twf swyddi gwaelodlin a ragwelir yn arwain at dwf yn y boblogaeth, sy'n uwch na'r hyn a allosodwyd yn seiliedig ar duedd hirdymor, gan olygu bod angen lefelau uwch o fudo net. Mae hyn yn cydnabod, yn achos Caerdydd yn arbennig, y rhagolygon twf swyddi gwaelodlin cymharol gryf. Nodir y byddai, mewn cyferbyniad, parhad mewn tuedd poblogaeth tymor byr ar gyfer Caerdydd yn cynhyrchu lefel o dwf yn y boblogaeth ac felly llafur a fyddai'n sylweddol uwch na'r rhagolygon twf swyddi gwaelodlin. Mae'r un peth yn wir am Gasnewydd, Torfaen a'r Fro hefyd. Nodir o dan y duedd hirdymor y byddai'r awdurdodau eraill i gyd yn gweld twf yn y

boblogaeth a fyddai'n fwy na'r hyn sydd ei angen i gefnogi twf swyddi gwaelodlin. Byddai hyn o bosibl yn effeithio ar batrymau cymudo'r gweithlu gyda'r llafur dros ben yn teithio i'r ardaloedd hynny sydd â phrinderau llafur posibl (yn enwedig Caerdydd). Fel arall, byddai'r gwaith modelu'n awgrymu, os yw cyflogaeth yn un o brif ysgogwyr mudo i ardal, y byddai'r awdurdodau hyn yn profi lefelau is o dwf yn y boblogaeth nag a welwyd yn hanesyddol.

- Lle tybir bod creu swyddi yn effeithio'n uniongyrchol ar newid yn y boblogaeth, mae'r modelu'n awgrymu, o dan y senario twf swyddi gwaelodlin, y byddai Caerdydd yn cynyddu ei chyfran gymesur o'r boblogaeth yn PRC. Byddai'r un peth hefyd yn wir am RhCT o'i gymharu â'r senario twf hirdymor y gorffennol. Fodd bynnag, mae maint y gwahaniaeth yn gymharol fach.
- Er mwyn cefnogi'r lefel uwch o dwf swyddi posibl a nodwyd, yn seiliedig ar yr un tybiaethau ymddygiad gweithlu, byddai angen i boblogaeth PRC dyfu ar gyfradd sy'n uwch na'r hyn a awgrymwyd hyd yn oed o dan senario tuedd tymor byr twf y gorffennol ar draws PRC. Byddai hyn yn ei dro yn awgrymu lefel uwch o fudo net yn cael ei gynnal yn flynyddol, i'r hyn a dybiwyd dan y naill senario demograffig neu'r llall. Nid yw'r mudo net tybiedig, sef 8,406 o bobl y flwyddyn, heb gysail ac yn wir mae islaw'r lefelau mudo net a welwyd yn y blynyddoedd diweddaraf. Sylwir, fodd bynnag, nad yw cynnal y lefel hon o fudo yn rhywbeth a welwyd yn gyson yn PRC dros y cyfnod hanesyddol a ystyriwyd.
- Wrth ystyried goblygiadau posibl lefel uwch o fudo net i PRC mae'n bwysig sylwi bod lefelau cryfach a welwyd yn fwy diweddar wedi'u hysgogi'n sylweddol gan lif net cryf o fewnfudwyr o'r tu allan i'r DU. Mewn senario o'r fath mae'n rhesymol tybio y byddai hyn yn parhau i gynrychioli ffynhonnell bosibl sylweddol o bobl ychwanegol, er gan gydnabod y gellid dylanwadu ar hyn gan gyfarwyddiadau gwleidyddol i gyfyngu ar ymfudo i'r wlad. Lle byddai cyfraniad mwy cadarnhaol i'w wneud o rannau eraill o'r DU mae'n rhesymol eto edrych ar yr ardaloedd hynny sydd wedi bod yn brif ffynhonnell neu gyrchfan i'r rhai sy'n mudo i mewn neu allan o PRC. Bryste ac Abertawe sydd â'r llifoedd cryfaf o bobl i mewn i PRC a dyma'r cyrchfannau mwyaf arwyddocaol i'r rhai sy'n symud allan. Byddai disgwyl felly i gynydd net mewn mudo i mewn i PRC gael effaith amlycach ar y cytrefi cyfagos mwy hyn a'u twf poblogaeth posibl priodol.
- Fel y nodwyd yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn parhau i gadarnhau bod PRC yn allforiwr net llafur, gyda bron i 30,000 yn fwy o bobl yn teithio allan ohono i'w gwaith nag sy'n teithio i mewn. Galluogir llifoedd o'r fath gan y seilwaith trafndiaeth presennol ac agosrwydd cyfleoedd cyflogaeth mewn canolfannau economaidd fel Bryste, Castell-nedd Port Talbot a'r trefi cyfagos yn Ne Swydd Gaerloyw. Mae'r modelu sy'n sail i'r canfyddiadau uchod wedi tybio bod llifoedd o'r fath yn cael eu cynnal, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â rhagweld a chyfiawnhau tybiaethau amgen. Rhoddwyd ystyriaeth i senario damcaniaethol lle mae PRC yn gweld hunangynhwysiant o ran llafur, gan adlewyrchu'n rhannol o leiaf y dyheadau a nodir yn y Strategaeth Drafndiaeth Genedlaethol i weld newidiadau i ymddygiadau teithio sy'n gysylltiedig â buddsoddi yn y rhwydwaith trafndiaeth o fewn PRC. Mae'r dadansoddiad 'hunangynhwysol' hwn wedi dangos y gallai'r

rhagolygon potensial uwch twf swyddi yn ddamcaniaethol gael eu cynnal trwy lefel fwy cymedrol o dwf yn y boblogaeth, gan dybio bod mwy o'r gweithlu preswyl yn cael ei ddefnyddio mewn swyddi o fewn PRC (yn hytrach nac allgymudo o PRC). Nodir, fodd bynnag, y byddai disgwyl i batrymau cymudo presennol o fewn PRC ei hun gael eu cynnal yn fras, gyda llifoedd yn parhau i gyfeiriad Caerdydd a Chasnewydd i adlewyrchu'r gwahaniaethau sylfaenol yng nghydbwysedd swyddi a gweithlu o fewn awdurdodau unigol.

## 7. Ystyriaethau polisi


- 7.1 Mae angen ystyried amcanion yr ymchwil o ran aliniad posibl y canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr adrannau blaenorol â pholisi cenedlaethol a lleol. Wrth gymharu'r allbynnau modelu, mae'n bwysig cydnabod bod yr holl ddadansoddiad a gyflwynwyd wedi'i wneud yn seiliedig ar ragdybiaethau 'oddi-ar bolisi'. Nid yw felly wedi ceisio cynnwys amcanion polisi y tu hwnt i nodi neu dargedu buddsoddiad neu ddynodiadau economaidd. O ganlyniad, nid yw'r taflwybrau twf a awgrymir yn ceisio rhoi cyfrif am ffactorau sy'n ymwneud â gallu posibl awdurdodau i ymdopi â'r twf yn nifer y bobl neu swyddi a ragamcanir, ac nid ydynt chwaith yn ceisio adlewyrchu uchelgeisiau ar wahân yr awdurdodau neu'n wir PRC i ddefnyddio cyflenwad fel lifer ar gyfer cyflawni canlyniadau amgen. Bydd ffactorau o'r fath yn cael eu hystyried a'u dangos fel rhan o ddatblygiad polisi, boed hynny ar ffurf adolygiadau i Gynlluniau Datblygu Lleol neu, yn y dyfodol, cynllun isranbarthol Prifddinas Ranbarth Caerdydd.
- 7.2 Yn y cyd-destun hwn, rhoddir ystyriaeth lefel uchel i'r aliniad cymharol â pholisi cenedlaethol ar ffurf Cymru'r Dyfodol ac yna Cynlluniau Datblygu Lleol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg ar draws PRC. Rhoddir ystyriaeth ar wahân hefyd i aliniad cymharol y modelu â chyfrifiadau o angen tai fforddiadwy ar draws PRC, gyda hyn yn ofyniad penodol yn y briff.

### **Cymru'r Dyfodol**

- 7.3 Wrth ystyried yr aliniad posibl â Chymru'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd yn Adran 1, mae angen meincnodi yn erbyn y rhagamcanion twf a lywiodd ddatblygiad y targedau isranbarthol a gyflwynwyd ar gyfer twf tai. Lle nad yw'r ymchwil hwn wedi cael y dasg o drosi twf yn y boblogaeth yn angen tai posibl, rhaid i ymarfer meincnodi o'r fath gymharu â'r amcanestyniadau poblogaeth gwaelodlin, sef Prif Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2018.
- 7.4 Amlygodd y dadansoddiad yn Adran 3 fod y rhagamcanion swyddogol hyn nawr yn seiliedig ar fewnbynnau demograffig sydd wedi'u disodli gan wybodaeth fwy diweddar a gynhyrchwyd o ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, dangosodd, yn fras, bod y taflwybr twf a awgrymwyd gan y rhagamcanion swyddogol yn cyd-fynd â pharhad tueddiadau demograffig hirdymor ar draws PRC a, pe bai cyfraddau twf poblogaeth cryfach yn cael eu cynnal, byddai'r rhagolwg poblogaeth terfynol yn 2040 hefyd yn cael ei gyflawni. Mae'r rhagamcanion hyn felly'n awgrymu twf yn y boblogaeth sy'n eistedd y naill ochr i'r hyn a ragamcanwyd o dan y rhagamcanion swyddogol. Felly, mewn termau pennawd ystyrir bod aliniad cyffredinol yn parhau o ran y modelu demograffig wedi'i ddiweddarau a'r goblygiadau ar gyfer twf a awgrymir yn Cymru'r Dyfodol ar gyfer PRC.
- 7.5 Lle mae ffocws yr ymchwil hwn wedi bod yn edrych ar effeithiau cymharol gwahanol ddyfodol economaidd PRC ar dwf poblogaeth, mae'n bwysig cydnabod bod rhannau helaeth o'r ardal yn cael eu cydnabod fel Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol.

- 7.6 Wrth edrych yn gyntaf ar gasgliadau'r astudiaeth ar y twf swyddi gwaelodlin, mae'n rhesymol sylwi y byddai'r twf posibl a nodwyd o tua 2,500 o swyddi y flwyddyn yn llai na'r twf demograffeg a nodwyd yn Cymru'r Dyfodol. Mae hyn yn cydnabod bod y senario twf swyddi gwaelodlin yn awgrymu lefel o dwf yn y boblogaeth (57,214 o bobl) dros y cyfnod 2022 – 2040, sy'n is na'r hyn a ragamcanwyd o dan y rhagamcanion swyddogol (77,489 o bobl). Mae'n bosibl y byddai canlyniad o'r fath hefyd yn awgrymu diffyg aliniad â'r uchelgeisiau sy'n gysylltiedig â dynodiad PRC yn 'Ardal Dwf Genedlaethol'.
- 7.7 Fodd bynnag, mae'r ymchwil wedi nodi gobaith rhesymol y bydd twf swyddi llawer cryfach yn gallu cael ei gefnogi o fewn PRC. Mae hyn yn cydnabod buddsoddiadau a nodwyd megis y Fargen Ddinesig, prosiectau buddsoddi a arweinir gan awdurdodau lleol a chyfleoedd economaidd, yn ogystal â chydabyddiaeth o berfformiad hanesyddol cymharol gryfach sectorau a rhannau o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd o'i gyferbynnu â'r tybiaethau rhagolwg gwaelodlin. Gallai'r lefel gryfach hon o dwf swyddi fod yn fwy cymesur â'r dyheadau a awgrymir gan y dynodiad Ardal Dwf Genedlaethol ac fel y nodwyd mae'n ceisio rhoi cyfrif am yr ychwaneged a ragwelir sy'n gysylltiedig â chyllid a ddyfernir yn genedlaethol.
- 7.8 Wrth ystyried goblygiadau cefnogi potensial uwch twf swyddi, fel y dangosir yn Ffigur 7.1, mae'r modelu wedi dangos, yn seiliedig ar barhad o dybiaethau cymudo presennol, y byddai lefel sylweddol uwch o dwf yn y boblogaeth, ac felly mudo i PRC, yn debygol o fod ei angen i gynnal y lefel gryfach hon o dwf cyflogaeth. Byddai lefel twf poblogaeth o'r fath yn uwch na'r hyn a ragamcanwyd o dan yr amcanestyniadau swyddogol, gyda goblygiadau posibl i hyn o ran darparu seilwaith ategol i ddarparu ar gyfer y twf hwn yn y boblogaeth yn gynaliadwy.

**Ffigur 7.1: Cymharu'r twf a awgrymir yn y boblogaeth o dan y senarios a arweinir gan swyddi a'r rhagamcanion poblogaeth seiliedig ar 2018**



Ffynhonnell: Edge Analytics

- 7.9 Mae allbynnau'r amcanestyniad uchod, fel yr eglurwyd yn Adran 6, i gyd wedi rhagdybio y bydd y gydberthynas gymudo bresennol yn parhau o fewn awdurdodau unigol ac felly ar gyfer PRC. Mae modelu pellach wedi'i gyflwyno ar ddiwedd Adran 6 i ddangos sut y byddai sefyllfa bosibl lle byddai rôl bresennol PRC fel allforiwr llafur yn newid, y byddai goblygiadau i hyn o ran y cydbwysedd tybiedig rhwng twf swyddi a thwf poblogaeth.
- 7.10 Lle cyflwynir y dadansoddiad fel enghraifft yn unig, mae'n cadarnhau y gallai lefelau llai o dwf yn y boblogaeth, yn nes at y rhagamcanion swyddogol, gefnogi'r lefelau uwch o dwf swyddi posibl lle mae rhagdybiaeth bod mwy o bobl yn byw ac yn gweithio o fewn PRC. Byddai disgwyl i unrhyw newidiadau o'r fath, fel yr eglurir, fod â goblygiadau i economïau lleol eraill y mae lefelau cymharol uchel o gymudwyr o PRC yn teithio iddynt ar hyn o bryd, lle y rhagwelir y bydd llifoedd llafur o'r fath yn lleihau. Fel y nodwyd ar ddechrau'r adran hon, nid diben yr ymchwil hwn yw asesu pa mor rhesymol yw newidiadau o'r fath ac ystyrir y byddai disgwyl i bolisi gael dylanwad cyfyngedig yn unig lle mae'r ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar batrymau cymudo yn gymhleth.

### **Cynlluniau Datblygu Lleol presennol ac sy'n cael eu datblygu**

- 7.11 Nododd yr adolygiad o ragdybiaethau twf swyddi a dogfennau sylfaen tystiolaeth sy'n eu llywio ar gyfer pob un o'r Adolygiadau CDLI a fabwysiadwyd yn ddiweddar, neu sy'n cael eu datblygu, y cyfeiriwyd atynt yn Adran 2 fod y twf a ragwelir, yn gronol ar draws PRC, yn tua 4,929 o swyddi y flwyddyn.
- 7.12 Mae'n bwysig cydnabod, fel yr amlygwyd drwy'r adolygiad yn Adran 2, bod yr arfarniad hwn o dwf swyddi posibl neu dwf a geisir, er ei fod yn cael ei gyflwyno fel ffigur cyfunol, yn seiliedig ar ffigurau awdurdodau unigol a gynhyrchir ar gyfer cyfnodau cynllun gwahanol ac sy'n defnyddio methodolegau gwahanol. Mewn sawl achos, mae'n adlewyrchu defnydd yr hyn y gellid ei alw'n dybiaethau 'ar bolisi'. Felly mae angen ystyried unrhyw gymhariaeth ag allbynnau'r asesiad o dwf swyddi rhesymol posibl a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn y cyd-destun hwn ac at ddibenion enghreifftiol yn unig.
- 7.13 Yn hyn o beth, yn Nhabl 7.2 caiff y ffigurau swyddi blynyddol a gyflwynir yn Nhabl 2.1 eu cyferbynnu â'r lefelau twf swyddi blynyddol rhagdybiedig sy'n deillio o'r modelu a gyflwynir yn Adrannau 4 a 5 yr adroddiad hwn, gan amlygu lle mae pob un yn uwch neu'n is.

**Tabl 7.2: Disgwyliadau twf swyddi CDLI o gymharu â'r ystod o senarios swyddi a gynhyrchwyd**

Awdurdod	Rhagolwg cyfartaledd twf swyddi y flwyddyn <sup>31</sup>	Senario twf swyddi gwaelodlin	Senario potensial uwch twf swyddi
Blaenau Gwent	100	-2	100
Pen-y-bont ar Ogwr	500	145	400
Caerffili	258	66	238
Caerdydd	2,153	1,300	2,173
Merthyr Tudful	125	61	120
Sir Fynwy	416	130	270
Casnewydd	576	331	509
Rhondda Cynon Taf	266	223	377
Torfaen	179	55	170
Y Fro	356	130	370
<b>Cyfanswm PRC</b>	<b>4,929</b>	<b>2,439</b>	<b>4,727</b>

*Ffynhonnell: SQW / Turley*

- 7.14 Mae'n amlwg o'r tabl uchod fod gan bob awdurdod, o dan y senario gwaelodlin, ffigur twf swyddi posibl y flwyddyn a ragwelir, sy'n is na'r hyn a bennwyd yn eu sefyllfaedd polisi newydd. Mae'r sefyllfa hon yn cyd-fynd â'r ffaith bod yr awdurdodau ym mhob achos wedi cyrraedd eu sefyllfa twf swyddi drwy ragdybiaethau neu ddyheadau cadarnhaol i sicrhau twf uwchlaw lefel gwaelodlin. Mae hyn, fodd bynnag, yn ystyriaeth bwysig wrth atgyfnerthu'r casgliad a nodir uchod y byddai cefnogi lefel waelodlin o dwf swyddi yn unig yn disgyn yn sylweddol is na disgwyliadau a dyheadau awdurdodau unigol yn ogystal â PRC o'i fframio yng nghyd-destun nodau polisi Cymru'r Dyfodol.
- 7.15 Mae datblygu naratif o dwf cyflogaeth posibl uwch wedi bod yn fodd i nodi llwybr rhesymol ar gyfer twf cryfach i bob awdurdod. Yn gyfanredol ar lefel ranbarthol mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r lefelau twf a ragwelir yn seiliau tystiolaeth awdurdodau lleol. Gan edrych ar lefel awdurdodau lleol unigol:
- Mae'r senario twf cyflogaeth posibl uwch yn rhagweld twf sy'n cyfateb i neu o fewn 10% i lefelau twf a fynegir yn seiliau tystiolaeth y CDLI perthnasol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Torfaen<sup>32</sup> a Bro Morgannwg.

<sup>31</sup> Noder: Mae'r rhain yn cael eu cyfrifo ar sail ffigur cyfanswm y swyddi dros nifer y blynyddoedd yng nghyfnod penodedig y cynllun. Mae cyfnodau cynllun yn amrywio o ran eu dyddiadau dechrau a gorffen.

<sup>32</sup> Mae ffigur y CDLI Newydd a ddyfynnwyd ar gyfer Torfaen yn ymwneud â'r CDLI Newydd sydd bellach wedi'i dynnu'n ôl, er bod Adolygiad Tir Cyflogaeth pellach wedi'i baratoi'n ddiweddar.

- Mewn dau awdurdod lleol mae'r senario twf cyflogaeth posibl uwch yn sylweddol is na'r hyn a nodwyd yn sail dystiolaeth y CDLI Newydd: Sir Fynwy a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn y ddau achos, mae'r targed swyddi o fewn sylfaen tystiolaeth y CDLI Newydd yn adlewyrchu tybiaethau 'ar bolisi' penodol fel sail i lefelau twf swyddi tybiedig i adlewyrchu uchelgeisiau a arweinir gan bolisi, nad ydym wedi ceisio eu hailadrodd yn yr ymchwil hwn. Mae'r senario hefyd ychydig yn is na'r lefel a nodwyd gan y CDLI Newydd yng Nghasnewydd.
  - Yn Rhondda Cynon Taf mae'r lefel twf a ddyfynnir yn sylfaen tystiolaeth y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu yn agos at y lefel waelodlin, ac mae'r senario twf cyflogaeth posibl uwch yn sylweddol uwch.
- 7.16 Mae'r awdurdodau hefyd wedi cynnal archwiliad o'r twf poblogaeth goblygedig a ragdybiwyd yn eu dogfennau sylfaen tystiolaeth i gyfiawnhau'r dull a ddefnyddir i gefnogi twf sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth (niferoedd tai yn bennaf) yn eu Cynlluniau a fabwysiadwyd yn ddiweddar ac sy'n cael eu datblygu. Mae cymhariaeth wedi'i gwneud rhwng y disgwyliadau twf poblogaeth hyn a'r lefelau goblygedig a fodelwyd fel rhai sydd eu hangen i gefnogi'r senario potensial uwch twf swyddi<sup>33</sup>.
- 7.17 Ar lefel PRC, nododd adolygiad yr awdurdodau fod y Cynlluniau Datblygu Lleol, yn gronnol, yn rhagdybio twf poblogaeth o tua 8,463 o bobl y flwyddyn, gyda'r awdurdodau'n rhagamcanu yn gyffredinol dros gyfnod o 15 mlynedd. Nodir bod y cyfnodau rhagamcanu mewn sawl achos wedi ymestyn yn ôl i 2018, gyda ffigur un awdurdod yn mynd yn ôl i 2016. Mae'r rhain yn gyfnodau amcanestyniad tra gwahanol i'r rhai a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn. Gan gydnabod y gwahaniaeth hwn, mae'n amlwg, fodd bynnag, bod y twf blynyddol goblygedig yn y boblogaeth, hyd yn oed o dan y senario potensial uwch twf swyddi, fel y nodir yn Adran 6, ychydig yn is na'r hyn a awgrymir yn gronnol ar draws y Cynlluniau Datblygu Lleol, sef tua 7,272 o bobl y flwyddyn.
- 7.18 Wrth gymharu'r modelu yn yr adroddiad hwn â'r lefelau goblygedig o dwf yn y boblogaeth a geir o fodelu cymaradwy a baratowyd i gefnogi cynlluniau awdurdodau unigol, mae'n bwysig nodi ei fod wedi integreiddio'r tybiaethau demograffig diweddaraf sydd ar gael. Mae hyn wedi cynnwys, fel y nodwyd yn Adran 3, defnyddio cyfraddau ffrwythlondeb a marwolaethau wedi'u diweddarau yn ogystal â phroffiliau mudo hanesyddol. Mae hyn yn gwneud cymhariaeth uniongyrchol yn fwy heriol lle nodir bod y newidiadau tybiedig i gyfraddau ffrwythlondeb yn cael effaith am i lawr ar y twf a ragwelir yn y boblogaeth. Nodir, fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, er y bydd cyfraddau ffrwythlondeb is yn cael effaith ar faint cyffredinol y boblogaeth breswyl, dros gyfnod yr amcanestyniad hyd at 2040 dim ond o fewn y carfannau ieuengaf y gwelir yr effeithiau ac felly nid yw'r newidiadau i ffrwythlondeb yn dylanwadu ar faint grŵp oedran y gweithlu.
- 7.19 Mae hefyd, fel y nodir uchod, yn bwysig cydnabod bod y modelu yn yr adroddiad hwn yn ymestyn i 2040 ac o'i gymharu â'r amcanestyniadau swyddogol mae'n awgrymu lefel sylweddol gryfach o dwf. Mae'n bwysig felly ei ystyried yn amcanestyniad cymharol gadarnhaol, hyd yn oed pan fydd yn is na'r hyn a

<sup>33</sup> Ar gyfer yr ymarfer hwn, dim ond gyda'r senarios sy'n rhagdybio y bydd y cyfraddau cymudo presennol o fewn y modelu yn parhau y gwnaed cymhariaeth.

fodelwyd yn flaenorol fel un sy'n ofynnol yn seiliedig ar allbynnau modelu awdurdodau unigol.

### Tai fforddiadwy

- 7.20 Mae briff yr ymchwil yn cyfeirio'n benodol at y ffaith y dylid ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf o'r angen am dai fforddiadwy ar draws PRC. Mae hyn yn cydnabod bod darparu niferoedd digonol o dai fforddiadwy i fynd i'r afael yn gadarnhaol ag anghenion tai yn ddyhead polisi pwysig o fewn Cymru'r Dyfodol ac agweddau eraill ar gynllunio a strategaethau cenedlaethol.
- 7.21 Mae Tabl 7.3 yn cyflwyno gwybodaeth o'r asesiadau diweddaraf o'r angen am dai fforddiadwy a gynhaliwyd gan bob un o'r awdurdodau, gan nodi bod y rhain yn parhau i fod yn ffigurau drafft mewn rhai achosion. Mae'n dangos cyfanswm yr angen ar draws PRC a'r gyfran y mae ffigur pob awdurdod yn ei gwneud i'r cyfanswm hwnnw. Mae hyn yn cyferbynnu â chyfran gymharol y boblogaeth y mae pob awdurdod yn ei chynrychioli yn 2040 o dan y senario potensial uwch twf swyddi. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r asesiadau hyn wedi'u cynnal gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) Llywodraeth Cymru.

**Tabl 7.3: Cyfrifiadau diweddaraf o'r angen am dai fforddiadwy fesul awdurdod**

Awdurdod	Dyddiad yr LHMA	Canran angen fforddiadwy LHMA y flwyddyn dros 5 mlynedd gyntaf o gyfanswm PRC	Canran angen fforddiadwy LHMA y flwyddyn dros 10 mlynedd nesaf o gyfanswm PRC	Canran o'r boblogaeth yn 2040 o dan y senario potensial uwch twf swyddi
Blaenau Gwent	2024	0.9%	2.2%	4.3%
Pen-y-bont ar Ogwr	2021	6.8%	13.5%	9.7%
Caerffili <sup>34</sup>	2023	3.3%	8.9%	11.0%
Caerdydd	2023	24.9%	37.7%	25.0%
Merthyr Tudful	2024	4.8%	0.8%	3.7%
Sir Fynwy	2024	7.5%	4.2%	6.1%
Casnewydd	2023	19.3%	11.3%	10.5%
Rhondda Cynon Taf	2024	11.2%	9.1%	15.1%
Torfaen	2023	4.7%	3.1%	5.8%
Y Fro	2023	16.7%	9.2%	8.8%

<sup>34</sup> Nododd Cyngor Caerffili yn benodol fod ei LHMA yn parhau ar ffurf drafft ar adeg ysgrifennu hwn.

Cyfanswm PRC	amh	6,669	2,132	amh
--------------	-----	-------	-------	-----


*Ffynhonnell: Dogfennau sylfaen tystiolaeth Awdurdodau*

- 7.22 Mae'r uchod yn nodi angen sylweddol am dai fforddiadwy dros y 5 mlynedd nesaf, angen cronol am bron i 6,700 o dai fforddiadwy ar draws PRC. Lle bo hyn yn ganlyniad mynd i'r afael â graddfa sylweddol o angen presennol nas diwallwyd o fewn y gorwel amser hwn mae'r angen cymharol yn disgyn yn sylweddol wrth edrych ar y cyfnod deng mlynedd. Mae graddfa'r angen hyd yn oed ar y lefel is hon yn dal yn sylweddol ar draws PRC, sef dros 2,100 o gartrefi'r flwyddyn.
- 7.23 Gan edrych ar y dosbarthiad cymesur o angen mae'n amlwg, dros y tymor byr o leiaf, bod cyfrannau cymharol uchel i'w gweld yn Sir Fynwy, Casnewydd, y Fro a Thorfaen o'u cymharu â'r gynrychiolaeth gymesur o'r boblogaeth yn 2040 o dan yr allbynnau senario potensial uwch twf swyddi. Mae'r darlun ychydig yn wahanol o dan y cyfrifiad angen deng mlynedd gyda chyfrannau cymharol uchel yn amlwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Casnewydd a'r Fro.
- 7.24 Nodir, wrth ddefnyddio'r pecyn cymorth i gynhyrchu'r lefelau o angen tai fforddiadwy a gyflwynir uchod, fod pob awdurdod wedi mewnbwnu rhagdybiaeth ynghylch twf poblogaeth a ragwelir. Mewn sawl achos dyma un o amcanestyniadau swyddogol Llywodraeth Cymru, er y nodir mai dim ond 3 awdurdod sydd wedi defnyddio'r prif amcanestyniad ar sail 2018 (y cyfeirir ato yn Cymru'r Dyfodol). Mae nifer o'r awdurdodau wedi defnyddio amcanestyniadau poblogaeth mewnbwn uwch sy'n gysylltiedig â lefelau twf a arweinir gan bolisi.
- 7.25 Yn y cyd-destun hwn nid yw'n briodol cymharu'n uniongyrchol â'r amcanestyniadau twf poblogaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n berthnasol dweud bod y dadansoddiad wedi nodi'r potensial ar gyfer lefelau uwch o dwf yn y boblogaeth y tu hwnt i'r hyn a ragwelwyd o dan yr amcanestyniadau swyddogol i gefnogi twf swyddi uwch. Lle bydd cyfran o'r twf hwn yn golygu bod angen tai fforddiadwy, mae'n rhesymol tybio y byddai'r lefelau uchel o angen a awgrymir gan yr uchod hefyd yn codi pe bai poblogaeth PRC yn tyfu fel y rhagamcanwyd yn y senario uwch a arweinir gan swyddi a bod hyn yn cael ei fewnbwnu i'r pecyn cymorth. Cydnabyddir hefyd y bydd mynd i'r afael yn gadarnhaol â lefelau mor uchel o angen am dai fforddiadwy yn gofyn am hwb mewn cyflenwad tai yn fwy eang, lle mae'r ddarpariaeth yn uniongyrchol gysylltiedig â gallu mewn llawer o achosion i groes-gymorthdal trwy ddarparu tai ar bris y farchnad. Bydd cydnabod bod yr angen am dai fforddiadwy yn uchel ym mhob un o'r awdurdodau yn ffactor pwysig a arweinir gan bolisi ar gyfer adolygiadau CDLI unigol ochr yn ochr ag ystyried lefelau cyflogaeth a thwf poblogaeth posibl.


## **Atodiad 1: Proffiliau demograffig Awdurdodau**

## Blaenau Gwent / Blaenau Gwent: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Blaenau Gwent / Blaenau Gwent


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	747	844	-97	1,831	1,828	4	91	66	25	-78
2011-2022	738	840	-102	2,061	1,993	68	99	64	34	-280
2017-2022	708	884	-176	2,120	1,909	211	100	85	15	-266

## Labour Force Summary: Blaenau Gwent / Blaenau Gwent


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Bridgend / Pen-y-bont ar Ogwr: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




## Components Summary: Bridgend / Pen-y-bont ar Ogwr


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	1,511	1,510	1	4,616	3,956	661	270	241	29	145
2011-2022	1,479	1,600	-121	5,099	4,336	764	270	259	10	-46
2017-2022	1,403	1,694	-291	5,135	4,275	860	292	286	7	-25

## Labour Force Summary: Bridgend / Pen-y-bont ar Ogwr


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Caerphilly / Caerffili: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Caerphilly / Caerffili


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	2,003	1,811	192	4,844	4,732	112	173	184	-11	22
2011-2022	1,912	1,863	49	5,275	5,172	103	196	160	36	-472
2017-2022	1,745	1,967	-222	5,279	5,035	244	208	175	33	-439

## Labour Force Summary: Caerphilly / Caerffili


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Cardiff / Caerdydd: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Cardiff / Caerdydd


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	4,202	2,823	1,380	21,443	21,793	-350	6,158	3,681	2,477	-582
2011-2022	4,235	2,855	1,380	24,534	25,250	-716	7,413	4,153	3,260	-1,652
2017-2022	3,836	2,964	872	25,230	25,522	-292	8,461	3,912	4,549	-1,976

## Labour Force Summary: Cardiff / Caerdydd


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Merthyr Tydfil / Merthyr Tudful: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Merthyr Tydfil / Merthyr Tudful


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001–2022	686	639	47	1,530	1,582	-51	168	85	83	51
2011–2022	691	652	40	1,730	1,730	0	177	98	79	-127
2017–2022	642	693	-51	1,678	1,644	34	175	145	31	-131

## Labour Force Summary: Merthyr Tydfil / Merthyr Tudful


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Monmouthshire / Sir Fynwy: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Monmouthshire / Sir Fynwy


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	794	946	-152	4,842	4,254	588	211	238	-27	15
2011-2022	750	1,003	-253	5,288	4,574	713	250	258	-8	-260
2017-2022	712	1,057	-345	5,440	4,480	960	274	273	1	-247

## Labour Force Summary: Monmouthshire / Sir Fynwy


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Newport / Casnewydd: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




## Components Summary: Newport / Casnewydd


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	1,863	1,437	426	5,805	5,667	138	989	693	297	289
2011-2022	1,922	1,491	432	6,520	6,314	207	1,158	727	432	395
2017-2022	1,916	1,562	354	6,616	6,121	494	1,325	828	496	388

## Labour Force Summary: Newport / Casnewydd


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Rhondda Cynon Taf / Rhondda Cynon Taf: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Rhondda Cynon Taf / Rhondda Cynon Taf


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001-2022	2,698	2,575	123	7,134	7,015	118	960	685	275	-187
2011-2022	2,607	2,597	10	7,868	7,754	115	1,132	696	436	-152
2017-2022	2,422	2,704	-282	7,884	7,561	323	1,304	696	607	-146

## Labour Force Summary: Rhondda Cynon Taf / Rhondda Cynon Taf


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Torfaen / Torfaen: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




## Components Summary: Torfaen / Torfaen


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001–2022	1,016	991	26	2,709	2,540	169	82	81	1	-108
2011–2022	995	1,025	-30	3,082	2,707	375	75	58	18	-232
2017–2022	949	1,070	-121	3,302	2,584	718	88	64	24	-221

## Labour Force Summary: Torfaen / Torfaen


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate




Commuting Ratio Comparison




## Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg: Population Profile

MYE Population




Population Growth Index by Age Group




## Components of Change


Components of Change




Natural Change



Internal Migration



International Migration




Components Summary: Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg


Time period	Births	Deaths	Natural Change	Internal in-migration	Internal out-migration	Net Internal Migration	International in-migration	International out-migration	Net International Migration	UPC
2001–2022	1,326	1,273	52	5,683	4,953	730	326	338	-12	-99
2011–2022	1,301	1,305	-3	6,137	5,199	939	337	370	-33	-311
2017–2022	1,245	1,369	-125	6,332	4,979	1,353	384	377	8	-266

## Labour Force Summary: Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg


Economic Activity Rates: Males




Economic Activity Rates: Females



Unemployment Rate



Commuting Ratio Comparison



## Atodiad 2: Proffiliau economaidd ar lefel awdurdod

Mae adroddiad naratif wedi'i baratoi ar gyfer pob ardal awdurdod lleol sy'n nodi 'lefel resymol o dwf'. Mae pob papur yn gweithio trwy'r camau canlynol:

- (i) Ystyried y duedd hanesyddol, yn gyffredinol ac yn ôl sector diwydiannol
- (ii) Nodi lefel 'gwaelodlin' twf, trwy ddull cyson ar draws y rhanbarth
- (iii) Ystyried buddsoddiad mawr sy'n datblygu ar lefel ranbarthol
- (iv) Nodi unrhyw ffactorau pellach sy'n debygol o fod yn berthnasol i'r sir
- (v) Cysoni'r uchod i nodi ystod eang o gonsensws

Fel y nodir ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, wrth ganfod "lefel resymol" o dwf, dylid nodi pedwar pwynt:

- Yn gyntaf, nid darparu lefel twf a *ragwelir*, wedi'i datblygu trwy fodel econometrig, yw'r nod. Yn hytrach, mae'r ymarfer yn ceisio sefydlu a oes llwybr credadwy i dwf swyddi yn y dyfodol, ac i ba raddau, gan ystyried tuedd hanesyddol ac arwyddion o fuddsoddiad yn y dyfodol.
- Yn ail, mae hon yn astudiaeth lefel uchel ar lefel ranbarthol. Nid yw'n ystyried asesiad manwl o gapasiti, ac mae'n dibynnu ar ddata eilaidd a thrafodaethau gyda'r awdurdodau lleol a thîm Bergen Ddinesig PRC.
- Yn drydydd, ni ddylai niferoedd swyddi posibl a nodir drwy'r astudiaeth hon gael eu gweld fel "ar bolisi". Efallai y bydd gan awdurdodau lleol ddyheadau strategol ar gyfer lefelau uwch neu is o dwf swyddi, wedi'u llywio gan ystod ehangach o dystiolaeth.
- Yn bedwerydd, ffocws yr ymarfer yw twf swyddi cyfanredol. Bydd strategaeth economaidd hefyd yn ymwneud â chynhyrchiant, tâl ac ansawdd cyflogaeth (a gall y ffactorau hyn fod yn bwysicach yn economaidd). Ond mae hyn y tu allan i gwmpas y gwaith presennol.

# Blaenau Gwent

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, roedd twf swyddi ar draws PRC yn sylweddol gryfach na'r amcanestyniad gwaelodlin. Roedd y darlun ym Mlaenau Gwent yn wannach, gyda chrebachiad sylweddol yn y 2000au cynnar a lleihad mwy cymedrol wedi hynny:

**Tabl 1: Newid mewn swyddi, 1999-2019 (cyfartaledd amcangyfrifon CE/ Experian/ Oxford)**

	Blaenau Gwent		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	-273	-1.2	4,226	0.6
Newid 2009-2019	-13	-0.1	4,288	0.6
Newid 1999-2019	-143	-0.6	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	23,036		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar y ddeinameg o ran sectorau yn y farchnad swyddi yn ddiweddar, yn seiliedig ar ddata swyddogol. Yng nghyd-destun twf cyflogaeth cyffredinol, bu colledion mewn gweithgynhyrchu (sector lle mae'r sir yn cadw 'gor-gynrychiolaeth' gymharol o gyflogaeth), wedi'i wrthbwysu gan enillion mewn gweithgareddau gwasanaethau sector cyhoeddus a phreifat:

**Tabl 2: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-379	13	-183
Adeiladu	-58	-48	-53
Trafnidiaeth a dosbarthu	38	-33	2
Cyfanwerthu a manwerthu	-18	-39	-28
Gwybodaeth a chyfathrebu	3	2	2
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	43	33	38
Gwasanaethau cyhoeddus	180	-25	78
Arall	-85	76	-5

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Cyfanswm	-273	-13	-143

Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd

## Nodi lefel waelodlin twf

Prynwyd tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae'r ystod ar gyfer Blaenau Gwent rhwng twf o 53 o swyddi y flwyddyn a cholled o 92, gyda chyfartaledd sydd yn y bôn yn sefydlog:

**Tabl 3: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Blaenau Gwent	PRC
Cambridge Econometrics	53	3,023
Experian	33	2,520
Oxford Economics	-92	1,773
Cyfartaledd	-2	2,439

Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW

Nododd trafodaeth flaenorol gydag SEWPG fod y pwynt canol y cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad parhaus mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda thwf cymedrol mewn sectorau eraill:

**Tabl 4: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin**

	Blaenau Gwent, cyfanswm swyddi, 2022	Blaenau Gwent, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	4,626	-51	-675
Adeiladu	960	0	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	535	2	99

	Blaenau Gwent, cyfanswm swyddi, 2022	Blaenau Gwent, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Cyfanwerthu a manwerthu	3,183	-1	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	133	1	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	4,040	16	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	6,397	21	914
Arall	3,095	9	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>22,969</b>	<b>-2</b>	<b>2,439</b>

Ffynhonnell: Cambridge Econometrics, Experian, Oxford Economics

Gellir cymharu'r rhagolygon gwaelodlin hyn â rhagolygon cynharach a gafwyd gan Oxford Economics fel rhan o *Astudiaeth Tir Cyflogaeth* 2019. Roedd y rhain yn rhagweld colled net o 63 o swyddi y flwyddyn rhwng 2018 a 2033, yn bennaf oherwydd colledion yn y sector gweithgynhyrchu. Er eu bod bellach wedi dyddio braidd, maent yn adlewyrchu'r rhagolwg pesimistaidd rhagolygon mwy diweddar Oxford Economics (tra'n nodi mai Oxford yn gyffredinol yw'r mwyaf pesimistaidd o'r tri thŷ rhagamcanu).

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

### Dadansoddiad yn llywio'r CDLI Newydd

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ddyhead polisi i ddarparu 3,375 o swyddi rhwng 2018 a 2033, sy'n cyfateb i 225 o swyddi y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o'r angen i oresgyn heriau economaidd sylweddol a hirsefydlog y sir, a amlygir mewn anweithgarwch economaidd cymharol uchel a diffyg cyfleoedd cyflogaeth o safon<sup>35</sup>. Mae'r dyhead o 225 o swyddi y flwyddyn felly yn seiliedig ar leihau allgymudo, cynyddu'r gyfradd gweithgarwch economaidd a lleihau diweithdra, sy'n wrthdroad sylweddol o'r taflwybr hanesyddol a'r rhagolygon galw am lafur. Mae hyn hefyd yn gyson ag uchelgeisiau cynllun *Ein Cymoedd Ein Dyfodol 2018*, a oedd yn ceisio "cau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru"<sup>36</sup>, gyda'r goblygiad y byddai hyn yn gofyn am gynnydd sylweddol mewn swyddi.

<sup>35</sup> Disgrifiwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd, Her 1

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru (2018), [Ein Cymoedd Ein Dyfodol](#)

Paratôdd BE Group *Astudiaeth Tir Cyflogaeth yn 2019*<sup>37</sup>. Roedd hwn yn modelu'r dyhead 225 o swyddi y flwyddyn fel senario 'ar bolisi', sy'n cefnogi dyrannu 42ha o dir cyflogaeth yn y CDLI Newydd. Roedd hefyd yn modelu senario twf is, yn seiliedig ar y potensial o 1,500 o swyddi ychwanegol (100 o swyddi y flwyddyn) y gellid eu creu o ganlyniad i Ardal Fenter Glynebwy (a ail-frandiwyd yn ddiweddarach fel Cymoedd Technoleg) dros gyfnod y Cynllun.

### **Tystiolaeth ddiweddar o alw**

Ym mis Mawrth 2023, darparodd BE Group asesiad o effaith digwyddiadau economaidd ehangach ar sail tystiolaeth tir cyflogaeth Blaenau Gwent. Daeth hwn i'r casgliad bod "*argymhellion yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth yn dal yn briodol*" (ac eithrio mewn perthynas â safle penodol ym Mharc Busnes Tredegar). Yn yr asesiad hwn, nododd BE Group:

- Mae yna farchnad ar gyfer swyddfeydd lleol, yn enwedig i ddiwallu anghenion microfusnesau ac yn enwedig mewn swyddfeydd â gwasanaeth. Ond mae twf sylweddol yn annhebygol ym Mlaenau Gwent, o ystyried y crynodiad yng Nghaerdydd a Chasnewydd (sy'n debygol o fod yn barhaus er gwaethaf tueddiadau gweithio gartref ôl-Covid) a'r cynnig mewn lleoliadau cyfagos (e.e. Cwmbrân, Merthyr).
- Mae tystiolaeth o alw diwydiannol. Mae gan Flaenau Gwent arbenigedd cymharol yn y maes modurol, er bod hyn yn agored i ailstrwythuro byd-eang yn y sector, fel y gwelir yn y rhanbarth ehangach gyda chau gwaith Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac, yn lleol, y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â buddsoddiad sector modurol mawr gan TVR yn 2023. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn y sylfaen ddiwydiannol, er enghraifft mewn gweithgynhyrchu bwyd, fferylliaeth/technoleg feddygol ac ynni.
- Mae potensial mewn warysau a logisteg o gofio cysylltiad yr A465. Mae'r adroddiad yn nodi bod cwmp ymddangosiadol mewn cyflogaeth logisteg yn 2021, a oedd yn groes i ganfyddiadau cyffredinol (er iddo adlamu wedyn yn 2022, a dylid nodi bod data swyddogol un flwyddyn sy'n seiliedig ar arolygon yn aml yn gyfnewidiol mewn ardaloedd daearyddol bach). Fel y nodwyd uchod, mae'r gwelliannau i seilwaith yr A465 yn dal i fod yn gymharol ddiweddar, ac ni fyddem yn disgwyl i'r holl fuddion fod wedi'u gwireddu eto.

Fodd bynnag, amlygodd ymgynghoriad â'r awdurdod lleol ganfyddiadau o dwf sy'n dod i'r amlwg mewn microfusnesau, a adlewyrchwyd yn y galw am stoc ddiwydiannol lai y Cyngor ei hun. Cyfeiriwyd at gyfraddau cychwyn busnes cymharol uchel hefyd yn yr *Adolygiad Tir Cyflogaeth*. Mae'r galw, fel y gwelwyd drwy ymholiadau, yn uchel, yn enwedig am safleoedd diwydiannol, yn gysylltiedig â mynediad at yr A465. Cyfeiriwyd yn arbennig at rwyddineb mynediad i Ganolbarth Lloegr fel ysgogwr y galw, a nodwyd rhywfaint o dystiolaeth bod meddianwyr yn ystyried Blaenau Gwent fel lleoliad o gymharu â rhannau deheuol y rhanbarth oherwydd y pwysau ar yr M4 o amgylch Bryn Glas.

---

<sup>37</sup> BE Group (2019), [Adolygiad Tir Cyflogaeth Blaenau Gwent](#)

Yn fwy cyffredinol, mae gweithgynhyrchu (sef y sector lleol sy'n dal i fod amlycaf) wedi bod yn wydn yn ystod y blynyddoedd diwethaf (yn y bôn dim newid mewn cyflogaeth rhwng 2015-22) ac yn cynnwys rhywfaint o ehangu mewn busnesau presennol (e.e. 105 o swyddi newydd yn Yuasa Battery yng Nglynebwy yn 2021). O fewn sectorau blaenoriaeth PRC, mae presenoldeb mewn technoleg feddygol (sylwer, er enghraifft, ehangiad PCI Pharma yn Nhafarnbach yn 2022) a seiberddiogelwch (er enghraifft, Canolfan Cymhwysedd Technoleg Thales yng Nglynebwy). Mae'n gredadwy y gallai gweithgynhyrchu fod yn fwy gwydn nag y mae'r rhagolygon gwaelodlin yn ei awgrymu, os caiff yr uchelgeisiau sy'n gysylltiedig â'r Cymoedd Technoleg eu cyflwyno.

### **Cyfleodd twf mawr**

Yn y cyd-destun hwnnw, y prif leoliadau ar gyfer twf ym Mlaenau Gwent yw **Coridor Gogleddol Glynebwy** (gan gynnwys buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Rhyd-y-Blew) a datblygiad pellach y **Gweithfeydd** yng Nglynebwy.

Mae'r **Gweithfeydd** bellach wedi'i hen sefydlu, gyda mynediad rheilffordd wedi'i gwblhau cyn yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth, er bod lleiniau cyflogaeth allweddol yn parhau i fod ar gael ym Mharc Busnes y Cymoedd Technoleg a REGAIN2 ym Mharc Busnes Lime Avenue. Mae prif gynllun safle'r Gweithfeydd yn cael ei ddiweddarar ar hyn o bryd ar gyfer y CDLI Newydd a bydd tua 4ha o dir heb ei ddatblygu yn cael ei glustnodi ar gyfer cyflogaeth. Disgwylir i hyn gael ei wireddu yn y dyfodol agos.

O ran **seilwaith trafndiaeth**, mae cyflawniadau cyflenwi diweddar yn cynnwys cwblhau gwaith deuoli'r A465 o Frynmawr i Gilwern yn 2021 (gyda rhan olaf y gwelliannau i'r A465 ym Merthyr/RhCT yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd). Mae gwelliannau pellach i'r rhwydwaith rheilffyrdd wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau ychwanegol o Lynebwy i Gasnewydd (yn ogystal â'r gwasanaeth presennol i Gaerdydd Canolog) o ddechrau 2024. O ystyried bod y buddsoddiadau sylweddol hyn yn dal i fod yn gymharol ddiweddar, ni fydd y buddion cyflogaeth llawn wedi dod i'r amlwg eto yn y data.

### **Buddsoddiad mawr ar lefel ranbarthol**

Yn ogystal, mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar hyn o bryd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru a Chronfa Buddsoddi Ehangach Bargaen Ddinesig PRC a chynlluniau wedi'u targedu fel Menter y Cymoedd Gogleddol<sup>38</sup>. Er nad yw hyn o reidrydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn

---

<sup>38</sup> Wedi'i lansio ym mis Chwefror 2024, mae Menter y Cymoedd Gogleddol gwerth £50 mliwn i ysgogi twf yn is-ranbarth Cymoedd Gogleddol PRC. Bydd hyn yn cynnwys chwe Phartner Awdurdod Lleol: Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen a Phen-y-bont ar Ogwr. Bydd y rhaglen yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith o'r radd flaenaf, y cysylltedd digidol sydd ar flaen y gad ac yn ysgogi twristiaeth; annog buddsoddiad preifat, creu swyddi a hybu ffyniant, gan adael sylfeini cryf a fydd yn y pen draw yn gwneud y rhanbarth yn wydn, yn llai niweidiol i'r amgylchedd ac yn fwy cystadleuol.

datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin.

O ystyried buddsoddiadau 'hysbys' i'w gwneud drwy'r Fargen Ddinesig ac ymyriadau posibl eraill gan y sector cyhoeddus mewn twf economaidd yn awgrymu bod potensial ar gyfer tua 1,600 o swyddi ychwanegol y flwyddyn ar draws y rhanbarth, er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn. Mae cydbwysu'r rhain fesul awdurdod lleol yn awgrymu bod sgôp ar gyfer tua 87 o swyddi y flwyddyn ym Mlaenau Gwent<sup>39</sup>.

## Nodi lefel resymol o dwf

Mae tystiolaeth o swyddi'n cael eu creu a diddordeb buddsoddwyr ym Mlaenau Gwent yn ddiweddar, ac mae buddsoddiadau rhanbarthol yn debygol o gael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, dylid edrych ar hyn yng nghyd-destun colli cyflogaeth dros amser, a rhagolygon gwaelodlin cymharol wan (ar gyfartaledd).

Byddai cyflawni'r dyhead polisi yn golygu gwrthdroi'r duedd hirdymor yn sylweddol iawn, ac mae'n cynnwys rhai tybiaethau sy'n ymwneud â llai o allgymudo a chyfraddau gweithgarwch uwch sydd y tu allan i bamedrau 'galw am lafur' yr astudiaeth hon.

Fodd bynnag, mae'r senario twf is a fodelwyd yn yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth, o 1,500 o swyddi (100 o swyddi y flwyddyn) yn seiliedig ar fuddsoddiad tebygol sy'n gysylltiedig â'r Cymoedd Technoleg. Er mwyn cyflawni hyn, byddai'n dal angen gwrthdroi'r duedd tuag at golli swyddi yn sector gweithgynhyrchu cymharol fawr Blaenau Gwent (gan nodi gwytnwch diweddar, wedi'i osod yn erbyn pwysau strwythurol sylweddol, yn enwedig mewn meysydd megis y diwydiant modurol), neu dwf uwch mewn sectorau eraill (o'r rhain mae tystiolaeth gymedrol yn ddiweddar). Ond mae **100 o swyddi y flwyddyn** yn ymddangos yn rhesymol fel lefel debygol o dwf a arweinir gan alw.

Dylid nodi, er bod 100 o swyddi y flwyddyn yn ymddangos yn gredadwy, a bod 'llwybr' i gyflawni hyn yn seiliedig ar y paramedrau a ystyriwyd yn y comisiwn hwn, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: mae amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno cymryd i ystyriaeth (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd) ac, fel y nodwyd, mae'r awdurdod lleol wedi nodi targed dyheadol uwch i lywio'r CDLI Newydd. Nid yw'r papur hwn chwaith yn seiliedig ar yr ystod iawn o ddadansoddiadau a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

---

<sup>39</sup> Yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch lleoliad prosiect (lle mae hyn wedi'i ddiffinio'n ofodol) a dosbarthiad cyflogaeth dangosol sectoraidd.

# Pen-y-bont ar Ogwr

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Mae'r proffil ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod ychydig yn wahanol, gyda thwf cyflym rhwng 2003 a 2007, crebachiad yn ystod yr argyfwng ariannol a sefyllfa (net) mwy sefydlog wedi hynny<sup>40</sup>.

**Tabl 5: Newid mewn swyddi, 1999-2019**

	Pen-y-bont ar Ogwr		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	1,076	1.2	4,226	0.6
Newid 2009-2019	-29	0.0	4,288	0.6
Newid 1999-2019	523	0.9	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	64,941		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar ddeinameg sectoraidd cyn-bandemig yn y farchnad swyddi. Gwelodd y 2000au cynnar golledion sylweddol mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda'r sector yn crebachu o tua 12,300 o swyddi ym 1999 i 8,500 yn 2009. O ganlyniad, gostyngodd cyfran gweithgynhyrchu o'r cyfanswm cyflogaeth o 23% i 13% dros y degawd. Ers hynny, mae cyflogaeth yn y sector wedi sefydlogi, gyda chynnydd bach mewn swyddi rhwng 2009 a 2019 (er na fydd hyn yn cyfrif am gollu tua 1,700 o swyddi yn ffatri Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a gaeodd yn 2020). Gwrthbwyswyd colledion gweithgynhyrchu ym mlynnyddoedd cynnar y mileniwm gan dwf cryf mewn gwasanaethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, er bod twf yn y meysydd hyn wedi gostwng ers hynny.

**Tabl 6: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019, swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-382	15	-183
Adeiladu	153	-85	34
Trafnidiaeth a dosbarthu	32	22	27
Cyfanwerthu a manwerthu	193	-7	93

<sup>40</sup> Er bod ansefydlogrwydd o flwyddyn i flwyddyn: nid yw colli 29 o swyddi'r flwyddyn dros gyfnod 2009-19 yn adlewyrchu taflwybr cyson ar i lawr.

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gwybodaeth a chyfathrebu	100	96	98
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	493	-115	189
Gwasanaethau cyhoeddus	619	-52	284
Arall	-129	79	-25
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,076</b>	<b>-29</b>	<b>523</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel waelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae'r ystod ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 62 a 187 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 145 (ar y blaen i gyfradd twf swyddi yn y cyfnod 2009-19).

**Tabl 7: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Pen-y-bont ar Ogwr	PRC
Cambridge Econometrics	187	3,023
Experian	187	2,520
Oxford Economics	62	1,773
Cyfartaledd	145	2,439

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Nododd trafodaeth flaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC cyfan), wedi'i wrthbwysu gan dwf parhaus mewn gweithgareddau gwasanaeth. Er gwaethaf gostyngiad mewn cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon gwaelodlin yn rhagweld cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n gyson â'r duedd tymor hwy:

**Tabl 8: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	Pen-y-bont ar Ogwr, cyfanswm swyddi, 2022	Pen-y-bont ar Ogwr, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	8,195	-100	-675
Adeiladu	4,235	20	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	2,708	7	99
Cyfanwerthu a manwerthu	9,167	18	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	2,449	34	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	10,052	66	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	20,029	68	914
Arall	8,106	32	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>69,941</b>	<b>145</b>	<b>2,439</b>

Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW

Dylid nodi bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng y tri rhagolwg gwaelodlin yng nghyfansoddiad twf y sector. Er enghraifft, mae Oxford Economics yn rhagweld twf arafach na'r ddau arall mewn gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes, ac mae Experian yn rhagweld twf cryfach mewn gwybodaeth a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae consensws cyffredinol ar draws y rhagolygon ar faint y dirywiad gweithgynhyrchu, yn wahanol i'r darlun ar draws De Cymru, lle mae mwy o wahaniaeth<sup>41</sup>.

Gellir cymharu'r rhagolygon gwaelodlin hyn â rhagolygon blaenorol a gomisiynwyd fel rhan o'r *Astudiaeth Sail Tystiolaeth Economaidd* yn 2019<sup>42</sup>. Defnyddiodd hon ragolygon Experian, a oedd yn rhagweld 2,400 o swyddi ychwanegol rhwng 2018 a 2033 (h.y. 160 o swyddi y flwyddyn). Gall rhagamcanion ar gyfer y dyfodol amrywio'n sylweddol rhwng y tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn, ac mae'r rhagolygon cynharach hyn wedi dyddio braidd. Ond mae

<sup>41</sup> Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill PRC, mae gan Oxford Economics safbwynt mwy pesimistaidd na Cambridge Econometrics neu Experian ar y rhagolygon gweithgynhyrchu.

<sup>42</sup> Peter Brett Associates (2019), [Astudiaeth Sylfaen Tystiolaeth Economaidd Pen-y-bont ar Ogwr](#)

cymharu'r gwahanol ragolygon gwaelodlin yn awgrymu rhywfaint o gonsensws, er bod angen eu triongli â ffynonellau data eraill.

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn fwrdeistref sirol mewn lleoliad da, sy'n elwa ar ei phellter cyfartal o Gaerdydd ac Abertawe a'i lleoliad ar yr M4 a Phrif Linell De Cymru. Mae'r *Cynllun Datblygu Lleol* yn disgrifio patrwm anheddiad Pen-y-bont ar Ogwr yn nhermau saith ardal benodol: tref Pen-y-bont ar Ogwr; Pencoed i'r dwyrain; Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chorneli i'r gorllewin, gyda chysylltiadau cryf â Chastell-nedd Port Talbot; Porthcawl a'r arfordir; 'Porth y Cymoedd' ychydig i'r gogledd o'r M4; Maesteg a Chwm Llynfi; a Chwm Garw ac Ogwr<sup>43</sup>.

Fel y nodwyd uchod, yn hanesyddol mae cyfeiriadedd gweithgynhyrchu wedi bod i'r economi, sydd wedi cynnwys rhai cyflogwyr mawr iawn (megis Ford a Sony). Mae hyn wedi gweld rhywfaint o ailstrwythuro yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ochr yn ochr ag ehangu cyfleoedd yn y sector gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch economaidd wedi'i leoli yn y de-ddwyrain, o amgylch Pen-y-bont ar Ogwr, Pencoed a Choridor yr M4, sydd hefyd yn cynnwys y prif leoliadau ar gyfer twf yn y dyfodol, er bod y CDLI Newydd yn nodi'r angen am gyfleoedd economaidd ychwanegol yng Nghymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, gan adlewyrchu rhai o'r crynodiadau o anfantais yn yr ardaloedd hyn.

Fel y nodwyd uchod, cymysg fu perfformiad diweddar. Yn ogystal â'r colledion yn Ford, cyhoeddodd Zimmer Biomet ei fod yn cau yn 2023, gan golli tua 530 o swyddi. Mae'n debygol hefyd y bydd effeithiau yn sgil ailstrwythuro Tata ym Mhort Talbot: mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod tua 500 o staff yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er y bydd yna hefyd gysylltiadau cadwyn gyflenwi.

### Strategaeth economaidd a tharged swyddi

Mabwysiadwyd Strategaeth Economaidd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2022. Mae hon yn cynnwys uchelgais i Ben-y-bont ar Ogwr "*gyflawni ei photensial economaidd trwy sicrhau gweithlu medrus iawn, seilwaith cysylltedd cryf a diwylliant busnes ffyniannus, tra'n diwallu anghenion cymdeithasol ehangach ei holl bobl a hynny mewn modd cynaliadwy*"<sup>44</sup>. Mae'n diffinio pedair 'colofn' strategaeth (cymorth busnes a datblygu'r gweithlu, cysylltedd a seilwaith, y sector cyhoeddus a'r economi sylfaenol a'r economi carbon isel).

Mae'r *Strategaeth Economaidd* hefyd yn cynnwys targed o 7,500 o swyddi i'w cynnwys ar ddyraniadau tir cyflogaeth mawr yn y CDLI. Mae'r targed hwn yn seiliedig ar adolygiad o ragamcanion cyflogaeth a nodwyd yn y *Diweddariad ar y Sail Dystiolaeth Economaidd 2021*, a

---

<sup>43</sup> CBS Pen-y-Bont ar Ogwr, [Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-33: Doqfen ymgynghori Adneuo](#)

<sup>44</sup> Perform Green/ CBS Pen-y-Bont ar Ogwr (2022), [Strategaeth Economaidd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr](#)

ystyriodd ragolygon gwaelodlin Experian cynharach ar gyfer 2018 ochr yn ochr â goblygiadau cau gwaith Ford, a datblygodd senario mudo a oedd yn rhagweld y gallai'r strategaeth twf gefnogi 7,500 o bobl gyflogedig ychwanegol dros gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn trosi'n darged 'ar bolisi' o 500 o swyddi y flwyddyn.

## Cyfleoedd ar gyfer twf

### *Cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r prif safleoedd cyflogaeth a galw diwydiannol*

Mae cyflawni'r prif safleoedd a nodir yn y CDLI yn elfen allweddol o'r Strategaeth Economaidd. Diffinnir lleoliadau allweddol fel: **Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr** i'r de o ganol y dref, ac yn cynnwys rhan o hen safle ffatri Sony; **Ystad Ddiwydiannol Waterton**, hefyd i'r de o ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac sy'n cynnwys gweithrediadau gweithgynhyrchu a logisteg yn bennaf; **Brocastell**, safle datblygu strategol i'r de o Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru; **Parc Technoleg Pencoed**; a hen safle Ford.

Daeth dadansoddiad diweddar o'r farchnad ddiwydiannol leol i'r casgliad bod "*y farchnad yn gryf, gyda'r ystod o denantiaid cenedlaethol yn y cyffiniau yn tystio i hyn.... ond mae ansawdd y stoc sydd ar gael yn yr ardal yn gymysg ar y cyfan, gyda thenantiaid weithiau'n cytuno i adeiladau o safon is nag y byddent efallai'n eu dewis fel arall*". Er bod colli cyflogwyr rhyngwladol mawr fel Sony, Bayer a Ford wedi gadael bwlch, daeth i'r casgliad y byddai datblygiad diwydiannol ychwanegol yn debygol o gael croeso mawr gan fuddsoddwyr lleol a mewnfuddsoddwyr<sup>45</sup>.

Nododd swyddogion fod anghydbwysedd ar hyn o bryd rhwng y swyddi posibl y gallai'r prif safleoedd strategol eu cyflawni a'r cyflawni *gwirioneddol*. Dywedwyd bod cryn ddiddordeb gan ddarpar feddianwyr, yn enwedig ar gyfer defnydd diwydiannol, ond bod y rhain yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg cyflenwad, er bod safleoedd ar gael yn ddamcaniaethol. Dywedwyd bod hyn yn gysylltiedig â materion capasiti rhwydwaith pŵer, yn ogystal â thensiwn rhwng dymuniad tirfeddianwyr y sector cyhoeddus i ddal allan am ddefnyddiau gwerth uwch mewn sectorau strategol yn erbyn y galw presennol yn y tymor byrrach.

Dywedodd swyddogion fod y galw am safleoedd ac adeiladau yn bennaf yn ddiwydiannol ac yn amrywiol, gydag ymholiadau diweddar yn ymwneud â gweithgynhyrchu dodrefn, batris ceir a gweithrediad ailgylchu, ymhlith eraill. Er bod gweithgynhyrchu yn parhau i ddarparu'r prif gynhaliaeth ar gyfer y galw, mae'n cael ei ddominyddu fwyfwy gan BBaChau. Mae rhywfaint o alw hefyd am logisteg, yn gysylltiedig â safle Pen-y-bont ar Ogwr ar yr M4, er bod y Cyngor yn cydnabod y lefelau is o swyddi y mae hyn yn debygol o'u creu. Adroddir am rywfaint o alw hefyd am ddefnydd stiwdio ffilm ar raddfa fawr (sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau sectoraidd PRC, ond eto gyda dwyseddau swyddi is).

---

<sup>45</sup> Cooke and Arkwright, dyfynwyd yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr (Rhagfyr 2021), [Prif Gynllun Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr](#)

Adroddodd y Cyngor hefyd fod galw mawr gan fusnesau bach lleol sy'n chwilio am le i fusnesau ddechrau ac ehangu, yn gyson â'r negeseuon mewn mannau eraill yn y rhanbarth. Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen ar ei stoc ei hun o adeiladau diwydiannol bach, sydd â lefel uchel o ddefnydd, yn enwedig ar hyd yr M4 (er yn llai felly yng nghymoedd Llynfi a Garw).

### **Cyfleodd eraill**

Y tu hwnt i ddatblygu diwydiannol a chyflawni dyraniadau tir cyflogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Strategaeth Economaidd yn cynnwys tri 'phrosiect mawr' arall. Y rhain yw:

- **Prif Gynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr**, sy'n ceisio adfywio'r arlwy manwerthu a hamdden yng nghanol y dref, gan gynnwys adleoli Coleg Pen-y-bont ar Ogwr i ganol y dref ac ailddatblygu'r ardal o amgylch y gorsafoedd trenau a bysiau<sup>46</sup>. Dylid nodi y teimlir bod y galw am swyddfeydd canol tref yn wan ar y cyfan, er bod nifer o leoliadau llwyddiannus ar gyrion y dref.
- **Porthcawl**, gan gynnwys prif gynllun Glannau Porthcawl sydd i'w gyhoeddi'n fuan, gyda'r potensial i gefnogi twf cyflogaeth pellach ym maes hamdden a lletygarwch.
- **Neuadd y Dref Maesteg**, prosiect adfywio penodol. Ynndo'i hun, nid yw hyn yn debygol o fod yn gynhyrchydd cyflogaeth mawr, ac mae'r cwmpas ar gyfer twf yn y Cymoedd yn llawer is nag mewn mannau eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

### **Buddsoddiadau adfywio sector cyhoeddus**

Ar hyn o bryd mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru, Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chynlluniau strategol eraill megis y Parth Buddsoddi o amgylch Casnewydd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin. Mae hyn yn cynnwys Menter y Cymoedd Gogleddol a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyfywedd mewn cyflwyno safleoedd allweddol, ac a fydd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr<sup>47</sup>.

Mae ychwanegu potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil sectoraidd buddsoddiadau penodol yn awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 161 o swyddi y flwyddyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr (306 pe

---

<sup>46</sup>

<sup>47</sup> PRC (Mawrth 2022), [Seeding a Northern Valleys Initiative](#)

baent yn ychwanegol at y waelodlin a nodir uchod). Dylid, fodd bynnag, ystyried hyn yn dybiannol.

## Nodi lefel resymol o dwf

Mae'r trosolwg hwn yn dangos y potensial i greu cyflogaeth, er bod hynny o fewn cyd-destun ailstrwythuro parhaus. Yn gwyno:

- Mae rhagolygon **gwaelodlin** yn awgrymu twf o tua **145 o swyddi y flwyddyn** (o fewn ystod o rhwng **187 a 62**). Comisiynwyd gwaelodlin Experian hefyd yn 2021, a arweiniodd at **133 o swyddi y flwyddyn** yn 2018-33.
- Yn ystod y **deng mlynedd cyn y pandemig**, collwyd cyfartaledd o **29 o swyddi y flwyddyn**. Ond dros gyfnod o 20 mlynedd, bu cynnydd o 523, sy'n adlewyrchu'r dirywiad gweithgynhyrchu mawr yn y blynyddoedd diwethaf.
- **Targed swyddi** presennol y Cyngor yn y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu yw **500 o swyddi y flwyddyn**, targed 'ar bolisi' sy'n seiliedig ar dwf tybiedig yn y gweithlu.

Mae triogli'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth hyn yn awgrymu y byddai'n rhesymol rhagweld twf uwchlaw'r waelodlin. O gymryd cyfartaledd y waelodlin, mae'r duedd 20 mlynedd a tharged y Cyngor yn cynhyrchu 389 o swyddi y flwyddyn, sef yn fras tua **400 o swyddi y flwyddyn**. Pe bai hyn yn cael ei gyflawni, byddai'n debygol o awgrymu gwrthdroad rhannol o golli cyflogaeth gweithgynhyrchu (efallai yng nghyd-destun y ffocws yn y strategaeth ranbarthol ar weithgynhyrchu uwch, ac ymdrech i fynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau cyflenwad sy'n atal galw sy'n hysbys).

Dylid nodi, er bod tua 400 o swyddi y flwyddyn yn rhesymol a bod 'llwybr' i'w gyflawni, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghori fesul safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

# Caerffili

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Dros y cyfnod cyfan, adlewyrchwyd y darlun hwn yng Nghaerffili, a welodd golled gychwynnol o swyddi yn y 2000au cynnar, twf tan yr argyfwng ariannol, cwmp hyd at 2013 a dychweliad i dwf wedi hynny.

**Tabl 9: Newid mewn swyddi, 1999-2019 (cyfartaledd rhagamcanion CE/ Experian/ Oxford)**

	Caerffili		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	315	0.5	4,226	0.6
Newid 2009-2019	410	0.7	4,288	0.6
Newid 1999-2019	362	0.6	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	64,706		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar y ddeinameg o ran sectorau yn y farchnad swyddi. Gostyngodd cyflogaeth gweithgynhyrchu yn eithaf sydyn yn y 2000au cynnar, gyda thua 4,500 o swyddi yn cael eu colli rhwng 1999 a 2009. O ganlyniad, gostyngodd cyfran gweithgynhyrchu o'r cyfanswm cyflogaeth o 29% i 19% dros y ddegawd, patrwm sy'n gyson â rhannau eraill o Dde Cymru. Ers hynny, mae cyflogaeth yn y sector wedi sefydlogi, gyda thwf net yn y degawd dilynol: ar hyn o bryd mae gan Gaerffili gyfran fwy o gyflogaeth mewn gweithgynhyrchu nag unrhyw ardal awdurdod lleol PRC arall<sup>48</sup>. Gwelodd gwasanaethau cyhoeddus dwf cyflym yn y 2000au cynnar cyn disgyn yn ôl yn ystod cyni, gyda gwasanaethau'r sector preifat a gwasanaethau proffesiynol yn tyfu'n gryf yn ystod y cyfnod.

**Tabl 10: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019 (cyfartaledd amcangyfrifon CE/ Experian/ Oxford), swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-455	130	-162
Adeiladu	-103	-54	-79

<sup>48</sup> Mae gan Gaerffili gyniferydd lleoliad gweithgynhyrchu o 2.6, sy'n golygu bod cyfran y sector o gyflogaeth yn y fwrdeistref sirol 2.6 gwaith yn fwy na'i chyfran yn economi Prydain Fawr yn gyffredinol. SYG (2022), BRES.

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Trafnidiaeth a dosbarthu	55	45	50
Cyfanwerthu a manwerthu	91	89	90
Gwybodaeth a chyfathrebu	18	29	23
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	242	161	201
Gwasanaethau cyhoeddus	615	-135	240
Arall	-145	143	-1
<b>Cyfanswm</b>	<b>315</b>	<b>410</b>	<b>362</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Noder nad yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel waelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni, a nododd trafodaethau blaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol. Fodd bynnag, mae'r ystod ar gyfer Caerffili yn eithaf eang, rhwng twf o 167 o swyddi y flwyddyn a cholled net o 81, gyda thwf cyfartalog o 66 – llawer is na'r gyfradd twf hanesyddol.

**Tabl 11: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Caerffili	PRC
Cambridge Econometrics	167	3,023
Experian	113	2,520
Oxford Economics	-81	1,773
Cyfartaledd	66	2,439

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, rhagwelir gostyngiad mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC yn ei gyfanrwydd), wedi'i wrthbwysu gan dwf parhaus mewn gweithgareddau gwasanaeth, gyda'r sector cyfanwerthu a manwerthu yn sefydlog. Er gwaethaf y gostyngiad mewn cyflogaeth yn y

blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon gwaelodlin yn rhagweld cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, yn gyson â'r duedd tymor hwy:

**Tabl 12: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	Caerffili, cyfanswm swyddi, 2022	Caerffili, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	11,872	-107	-675
Adeiladu	4,410	5	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	1,881	5	99
Cyfanwerthu a manwerthu	7,859	11	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	906	5	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	12,494	61	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	16,577	56	914
Arall	8,638	30	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>64,369</b>	<b>66</b>	<b>2,439</b>

Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW

Dylid nodi bod amrywiaeth mawr rhwng y tri rhagolwg gwaelodlin yng nghyfansoddiad twf y sector. Mae Oxford Economics yn rhagweld crebachiad mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu sydd bron i wyth gwaith yn fwy na'r lefel a ragwelwyd gan Experian (colled net o 212 o swyddi y flwyddyn, o gymharu â 27), yn ogystal â chrebachiad mewn gwasanaethau cyhoeddus (o gymharu â'r twf cryf a ragwelwyd gan y ddau ragolwg arall).

Gellir cymharu'r rhagolygon gwaelodlin hyn â dau ymarfer rhagweld galw am lafur pellach a gomisiynwyd yn y blynyddoedd diwethaf:

- Defnyddiodd *Adolygiad Tir Cyflogaeth* Caerffili, a gwblhawyd yn 2021, ragolygon gan Oxford Economics, a oedd yn rhagweld colled net o 1,355 o swyddi rhwng 2020 a 2035 (h.y. colled o 90 o swyddi y flwyddyn), yn bennaf oherwydd gostyngiad sydyn mewn gweithgynhyrchu (ac i raddau llawer llai gweinyddiaeth gyhoeddus) wedi'i wrthbwysu gan dwf mewn gwasanaethau busnes ac iechyd<sup>49</sup>.

<sup>49</sup> BE Group (Tachwedd 2021), [Adolygiad Tir Cyflogaeth CBS Caerffili](#)

- Comisiynwyd set gynharach o ragolygon hefyd gan Oxford Economics i lywio'r *Astudiaeth Cyflogaeth Rhanbarthol Mwy na Lleol*, a baratowyd ar ran Caerffili ac awdurdodau Gwent cyfagos yn 2019/20<sup>50</sup>. Roedd y rhain yn rhagweld colled net o 175 o swyddi y flwyddyn rhwng 2018 a 2040, eto wedi'i ysgogi gan weithgynhyrchu.

Mae rhagolygon Oxford yn gyson yn eu barn am grebachu net dros amser, er eu bod wedi dod ychydig yn fwy 'optimistaidd' dros gyfnodau olynol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi'r amrywiad gyda'r tai rhagamcanu eraill: mae rhagolygon Oxford hefyd yn rhagweld twf yn y tymor byr ac yna crebachiad, gan adlewyrchu'r tybiaethau demograffig o fewn y model. Mae hyn yn amlygu i ba raddau y mae rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn amrywio rhwng tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn, a'r angen i'w hystyried ar y cyd â mathau eraill o dystiolaeth.

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

### Prif leoliadau ar gyfer twf

Mae'r strategaeth ddatblygu a nodir yn y CDLI presennol yn diffinio bwrdeistref sirol Caerffili fel un sy'n cynnwys tair ardal eang: Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd (yn ymestyn yn fras i'r de o'r A465 ac yn cynnwys Rhymni a Bargoed); 'Coridor Cysylltiadau'r Gogledd' yng nghanol y fwrdeistref sirol, sy'n cynnwys Ystrad Mynach, Coed-duon a Threcelyn); a Choridor Cysylltiadau Deheuol, sy'n cynnwys tref Caerffili a Rhisga<sup>51</sup>. Oddi mewn i'r rheini mae nifer o brif leoliadau hysbys ar gyfer twf (gan gynnwys y rhai sy'n cael eu datblygu ond nad ydynt eto wedi cyflawni eu potensial llawn o ran twf cyflogaeth).

### **Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd**

Mae Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig drwy welliannau i'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd, sy'n dal i fynd rhagddynt. Yn 2020, paratowyd *Prif Gynllun Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd*, sy'n ceisio adeiladu ar y buddsoddiad hwn i "ategu a chryfhau cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal". Mae hyn yn cynnwys datblygu swyddogaeth cyflogaeth strategol ar gyfer Rhymni, ei sefydlu fel 'porth i'r Cymoedd', a cheisio ategu menter y Cymoedd Technoleg ym Mlaenau Gwent cyfagos<sup>52</sup>. Mae'r ardal yn cynnwys ystâd ddiwydiannol sylweddol (Ystad Ddiwydiannol Blaenau'r Cymoedd) yn Rhymni, gyda'r potensial i elwa ar welliannau i seilwaith yr A465 a lle i ehangu. Yn fwy cyffredinol, mae'r prif gynllun hefyd yn amlygu tystiolaeth o alw am unedau newydd ac unedau llai.

<sup>50</sup> BE Group (Mawrth 2020), *Astudiaeth Cyflogaeth Rhanbarthol Mwy na Lleol*

<sup>51</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2010), [Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 2021](#), tud.26

<sup>52</sup> CBS Caerffili (Tachwedd 2020), [Prif Gynllun Ardal Adfywio Blaenau'r Cymoedd](#)

### **Coridor Cysylltiadau Gogleddol**

Mae Coridor Cysylltiadau Gogleddol yn cynnwys lleoliadau diwydiannol mwyaf bwrdeistref sirol Caerffili, gyda chysylltiadau da rhwng y dwyrain a'r gorllewin ar hyd yr A472 tuag at Gwmbrân/Pont-y-pŵl a Phontypridd.

Mae lleoliadau mwy ar gyfer twf yn cynnwys **Parc Busnes Oakdale**, sef y dyraniad cyflogaeth mwyaf yn y fwrdeistref sirol ar hyn o bryd. Wedi'i leoli ar hen safle pwll glo dros gyfres o lwyfandiroedd datblygu, mae Oakdale ar hyn o bryd yn gartref i nifer o gynhyrchwyr mawr, gan gynnwys General Dynamics, ThermoFisher Scientific a BBI Solutions. Mae tir yn dal i fod ar gael, gyda thystiolaeth o ddi-ddordeb gan feddianwyr, ac mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn seilwaith. Yn *Adroddiad Mwy na Lleol 2020* nodwyd Parc Busnes Oakdale fel 'safle cyflogaeth strategol a argymhellir' o arwyddocâd rhanbarthol<sup>53</sup>. Mae lleoliadau cyflogaeth mawr eraill yn y Coridor Cysylltiadau Gogleddol yn cynnwys **Pen-y-fan** yng Nghroespenmaen (sy'n agos at lwyfandir Oakdale ac yn ategu ato, gyda thir ar gyfer ehangu posibl); a pharc swyddfeydd **Tredomen** ger Ystrad Mynach.

### **Coridor Cysylltiadau Deheuol**

Yn rhan ddeheuol y fwrdeistref sirol, mae llai o safleoedd mawr ar gyfer twf cyflogaeth, gydag *Adroddiad Monitro Blynyddol 2022* yn nodi bod "mae'r tir sydd ar gael ym Masin Caerffili yn gyfyngedig iawn. Er bod rhywfaint o gyfle i ailddatblygu ar ystadau diwydiannol presennol, mae diffyg unrhyw safleoedd arwyddocaol ar gyfer twf cyflogaeth yn bryder o safbwynt strategol a hirdymor"<sup>54</sup>.

### **Canol trefi**

Yn draddodiadol, mae cyflogaeth yn nhref Caerffili wedi'i dosbarthu'n eithaf eang, gan adlewyrchu datblygiad parciau busnes ar hen safleoedd mwyngloddio a safleoedd diwydiannol eraill. Fodd bynnag, mae polisi 'canol trefi yn gyntaf' y Cyngor wedi arwain at brif gynllun ar gyfer tref Caerffili, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ei harlwy diwylliannol a masnachol, gyda lle i dyfu cyflogaeth yn y sectorau lletygarwch a thwristiaeth. Wrth ymyl y gyfnewidfa drafnidiaeth newydd yn nhref Caerffili mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu Canolfan Hamdden a Lles yn agos at ganol y dref, gan gynyddu amrywiaeth defnydd yn y dref.

### **Buddsoddiadau adfywio sector cyhoeddus**

Ar hyn o bryd mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru, Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chynlluniau strategol eraill megis y Parth Buddsoddi o amgylch Casnewydd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn

<sup>53</sup> BE Group (Mawrth 2020), *Astudiaeth Cyflogaeth Rhanbarth Mwy na Lleol*, tud 130

<sup>54</sup> CBS Caerffili (2022), *Adroddiad Monitro Blynyddol 2022*, tud.30

datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin.

O berthnasedd arbennig i Fwrdeistref Sirol Caerffili, mae buddsoddiadau allweddol yn cynnwys:

- **Menter y Cymoedd Gogleddol** a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyfywedd yn ymwneud â chyflwyno safleoedd allweddol<sup>55</sup>, a'r **Gronfa Safleoedd Strategol**, sydd â'r nod o gefnogi hap-ddatblygiadau mewn mannau cyflogaeth.
- Buddsoddiad sylweddol yn y **diwydiant lled-ddargludyddion cyfansawdd** yng Nghasnewydd. Er bod 'craidd' hyn y tu allan i'r fwrdeistref sirol, mae cysylltiadau swyddogaethol rhwng Caerffili, Casnewydd a Chaerdydd yn gryf, a dylai fod cysylltiadau â photensial gweithgynhyrchu ehangach y fwrdeistref sirol<sup>56</sup>.
- Y **Metro**, a fydd yn darparu gwasanaethau gwell ar reilffordd Cwm Rhymni, gyda phedwar trêrn yr awr rhwng Caerdydd a Rhymni a mwy o ddibynadwyedd. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo'n dda ar welliannau i reilffordd Glynebwy (trwy Rhisga a Threcelyn), gan ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i Gasnewydd, yn ogystal ag i Gaerdydd. Er bod buddsoddiad yn y Metro yn aml yn cael ei ystyried yn bennaf o fudd i drigolion gan ddarparu gwell mynediad at gyfleoedd gwaith yng Nghaerdydd, dylai fod sgôp ar gyfer mwy o weithgarwch economaidd yn lleol, yn enwedig o amgylch y prif groesffyrdd trafniadaeth, ac yn nhref Caerffili ategir buddsoddiad y Metro gan Brosiect Cyfnewidfa Caerffili, a fydd yn gwella hygrychedd lleol.

Mae ychwanegu potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil sectoraidd buddsoddiadau penodol yn awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 173 o swyddi y flwyddyn ym mwrdeistref sirol Caerffili (239 pe baent yn ychwanegol at y waelodlin a nodir uchod). Dylid, fodd bynnag, ystyried hyn yn dybiannol<sup>57</sup>.

### **Safbwyntiau ehangach ynghylch galw**

Adroddodd swyddogion awdurdodau lleol lif cyson o ymholiadau buddsoddi. Mae'r rhain yn bennaf yn adlewyrchu cyfeiriadedd gweithgynhyrchu traddodiadol bwrdeistref sirol Caerffili,

---

<sup>55</sup> PRC (Mawrth 2022), [Menter Hadu y Cymoedd Gogleddol](#)

<sup>56</sup> Yn yr un modd, y ffocws strategol ar dechnoleg feddygol/ gwyddorau bywyd, sydd hefyd â phresenoldeb (yn ymwneud â gweithgynhyrchu yn bennaf) yng Nghaerffili.

<sup>57</sup> Datblygwyd senario arall hefyd a oedd yn addasu ar gyfer colli llai o swyddi (o gymharu â'r waelodlin mewn gweithgynhyrchu, a thwf uwch i adlewyrchu'r duedd hanesyddol ddiweddar mewn gwasanaethau busnes a phroffesiynol. Arweiniodd hyn at 256 o swyddi'r flwyddyn yn CBS Caerffili, er ei bod yn debygol o bod rhywfaint o gyfrif dwbl o'r buddsoddiadau rhanbarthol posibl o fewn hyn.

gan ddangos, er gwaethaf y farn negyddol yn y rhagolygon gwaelodlin, bod yna'n dal botensial twf sylweddol. Fodd bynnag, nododd swyddogion wendidau o fewn y sector, gan nodi ei fod yn "gymharol lafur ddwys" a thraddodiadol, ac efallai'n dal i ddibynnu ar gostau datblygu a llafur isel. Gallai hyn gyflwyno her hirdymor o ran datgarboneiddio a'r gallu i wrthsefyll newid economaidd ehangach. Serch hynny, mae'r fwrdeistref sirol yn darparu ar gyfer nifer o fusnesau gweithgynhyrchu uwch, gydag ymholiadau diweddar gan gwmnïau technoleg feddygol a fferyllol.

Dywedwyd bod y galw yn gryf gan gwmnïau llai oedd yn chwilio am le i fusnesau ddechrau a thyfu, gan adlewyrchu safbwyntiau tebyg a fynegwyd mewn awdurdodau eraill yn y Cymoedd. Nododd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth pa mor gyflym yr oedd unedau diwydiannol llai modern yn cael eu llenwi ar safle Tŷ Du Llywodraeth Cymru i'r de o Nelson, gan nodi "y gallai graddfa'r diddordeb a ddangoswyd yn Nhŷ Du fod wedi cyflawni tair gwaith lefel yr arwynebedd llawr a ddarperir ar y safle"<sup>58</sup>. O stoc eiddo CBS Caerffili ei hun, mae tua 90% wedi'u meddiannu, ac mae cyfraddau meddiannaeth tebyg ar eiddo a reolir gan Busnes mewn ffocws. Mae gan y fwrdeistref sirol hefyd gyfleusterau arbenigol ar gyfer busnesau llai yn y sector technoleg (er enghraifft, canolfan gydweithio ICE Cymru ar Barc Busnes Caerffili), sydd â'r potensial i dyfu yng nghydestun agosrwydd at Gaerdydd a thwf y sector yn rhanbarthol.

Gan adlewyrchu'r galw mawr am unedau llai, bu tuedd yn ddiweddar tuag at gaffael ac ailosod ffatrioedd mwy i'w trosi'n unedau llai. Yn ne a chanol y fwrdeistref sirol mae prosiectau fel y rhain wedi'u cyflwyno'n fasnachol a heb ymyrraeth gan y sector cyhoeddus, er bod rhai heriau hyfywedd o hyd ym Mlaenau'r Cymoedd.

## **Targed twf cyflogaeth a strategaeth twf economaidd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd**

### ***Targed swyddi***

Mae'r Cyngor wedi nodi targed swyddi ar gyfer 2020-35 o 3,876 (258 o swyddi y flwyddyn). Eglurir hyn yn y *Papur Tystiolaeth Cefndir Cyflogaeth*, sy'n datgan ei fod wedi'i seilio ar y cynnydd yn y boblogaeth oedran gweithio fyddai ei angen i gefnogi targed rhanbarthol PRC o 25,000 o swyddi ychwanegol<sup>59</sup>. Mewn geiriau eraill, y strategaeth yw cynyddu'r boblogaeth oedran gweithio, trwy fwy o gadw a mewnfudo nag a welwyd yn flaenorol, a fydd wedyn yn cefnogi cyflogaeth ychwanegol ac yn galluogi Bwrdeistref Sirol Caerffili i gyfrannu at dwf rhanbarthol. Mae'r targed felly yn llawer uwch na'r rhagolygon gwaelodlin.

### ***Strategaeth economaidd***

Mabwysiadwyd y strategaeth economaidd bresennol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, *Sail i Lwyddiant*, yn 2018. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys (inter alia), 'adeiladu economi mwy cadarn ac amrywiol' (SB1), 'Cefnogi twf economaidd ac arloesedd' (SB2), a 'Safleoedd

<sup>58</sup> BE Group (Tachwedd 2021), [Adolygiad Tir Cyflogaeth CBS Caerffili](#), tud.115

<sup>59</sup> CBS Caerffili (Hydref 2022), [PS14: Papur Tystiolaeth Gefndir Cyflogaeth](#)

*allweddol a Seilwaith ar gyfer cyfleoedd gwaith' (SB4). Mae'r olaf yn nodi "Mae'r galw am dir ar gyfer diwydiant yn parhau yn fwy na'r galw am leoliadau ar gyfer swyddfeydd. Felly mae'n ofynnol gwrthod safleoedd ac adeiladau gwaith o ansawdd gwael ac annog ailgylchu /ail ddatblygu hen stoc (yn arbennig tir sydd ym meddiant y sector preifat) er mwyn gwneud lle i adeiladau sydd yn fwy addas i gwrdd â gofynion modern"<sup>60</sup>. Mae strategaeth newydd yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd.*

Yn fwy diweddar, mae'r weledigaeth economaidd arfaethedig ar gyfer yr Ail CDLI Newydd yn ceisio cydbwysu cryfderau gweithgynhyrchu ag arallgyfeirio:

*"Bydd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn datblygu ei sylfaen gweithgynhyrchu hanesyddol i ddod yn ddewis naturiol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer cymysgedd amrywiol, cynhwysol a chydnerth o fusnesau, mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid â gogwydd lleol, drwy'r dulliau canlynol:*

- *Optimeiddio ei leoliad o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus ar lefelau rhanbarthol, lleol a chymunedol, tra'n cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau priffyrdd presennol ar gyfer busnes.*
- *Gwella'r hyblygrwydd a'r dewisiadau sydd ar gael i fusnesau trwy ddarparu a diogelu safleoedd sydd wedi eu lleoli'n briodol*
- *Sicrhau y darperir safleoedd ar gyfer defnyddiau cyflenwol, gan gynnwys tai a datblygiadau cysylltiedig â chanol trefi, trwy eu clustnodi yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd"*

### **Nodi lefel resymol o dwf**

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi darlun cymysg o ran twf cyflogaeth yn y dyfodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Yn gryno:

- Mae rhagolygon **gwaelodlin** yn awgrymu twf o tua **66 o swyddi y flwyddyn** (o fewn ystod eang o rhwng **167 a -81**). Mae amcanestyniadau gwaelodlin cynharach a brynwyd i lywio'r Adolygiad Tir Cyflogaeth a'r *Astudiaeth Mwy na Lleol* yn negyddol (mewn gwirionedd, yn fwy negyddol na'r mwyaf pesimistaidd o'r tri rhagolygon a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon).
- Yn y **deng mlynedd cyn y pandemig**, ar gyfartaledd crëwyd **410 o swyddi y flwyddyn**. Dros gyfnod o 20 mlynedd, mae hyn yn disgyn i 362, yn bennaf oherwydd colledion mewn gweithgynhyrchu.
- **Targed swyddi** presennol y Cyngor yn yr ail CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu yw **258 o swyddi y flwyddyn**, yn seiliedig ar dwf yn y boblogaeth er mwyn gallu cyflawni'r targed rhanbarthol o 25,000 o swyddi.

---

<sup>60</sup> CBS Caerffili (Gorffennaf 2018), [Sail i Lwyddiant: Strategaeth Adfywio 2018-2023](#)

- Y tu hwnt i'r niferoedd hyn, mae tystiolaeth o alw gan fuddsoddwyr, heb ei ddiwallu gan gyflenwad, yn enwedig mewn perthynas â chyflogwyr llai, ac mae lle i Gaerffili elwa ar fuddsoddiad ar raddfa ranbarthol nad yw wedi dwyn ffrwyth eto.

Nid oes llawer o gonsensws ar draws ffigurau gwaelodlin a hanesyddol. Fodd bynnag, mae triongli'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth hyn yn awgrymu y byddai'n rhesymol rhagweld twf uwchlaw'r waelodlin. O gymryd pwynt canol rhwng yr amcangyfrif gwaelodlin cyfartalog (66 o swyddi y flwyddyn) a'r duedd hanesyddol deng mlynedd (410) mae'n cynhyrchu **238 o swyddi y flwyddyn**, sydd bron yn union yr un fath â'r enillion tybiannol o'r Fargen Ddinesig a buddsoddiad rhanbarthol ac sydd yn cyd-fynd yn fras â tharged yr ail CDLI Newydd. Pe bai hyn yn cael ei gyflawni, mae'n debyg y byddai'n awgrymu gwytnwch gweithgynhyrchu parhaus, ac ymdrech i fynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau cyflenwad sy'n atal galw sy'n hysbys. Gallai hefyd awgrymu buddiannau pellach o welliannau i'r seilwaith trafndiaeth nag sy'n weladwy yn y data ar hyn o bryd.

Dylid nodi, er bod tua 238 o swyddi y flwyddyn yn rhesymol a bod 'llwybr' i'w gyflawni, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghoriad safle wrth safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

# Caerdydd

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Gwelodd Caerdydd dwf cyson uwch na gweddill y rhanbarth drwy gydol y cyfnod hwn. O ganlyniad, cododd cyfran y ddinas o gyfanswm nifer y swyddi yn y rhanbarth o 29% yn 1999 i 32% yn 2009 a 33% yn 2019. Er gwaethaf cwmp yn niferoedd swyddi yn 2020, bu adlam cryf hefyd ar ôl y pandemig

**Tabl 13: Newid mewn swyddi, 1999-2019**

	Caerdydd		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	3,191	1.6	4,226	0.6
Newid 2009-2019	2,046	0.9	4,288	0.6
Newid 1999-2019	2,618	1.3	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	247,724		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar ddeinameg sectoraidd cyn-bandemig yn y farchnad swyddi. Roedd gweithgarwch gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrif am bron i hanner cyfanswm y twf net ym 1999-2009. Parhaodd yn ysgogwr twf sylweddol yn y degawd dilynol, er ar gyfradd arafach. Mae gwasanaethau'r sector preifat hefyd wedi ehangu: gan edrych ar ddata mwy gronynnog nag a gyflwynwyd yn Nhabl 2 ar gyfer y cyfnod ers 2015, gwelodd y sectorau gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant ac eiddo tiriog lefelau uchel o dwf: mae'r rhain i gyd yn sectorau sy'n weddol 'or-gynrychioliedig' yng Nghaerdydd. Tyfodd llety a gwasanaeth bwyd yn gryf hefyd<sup>61</sup>.

Mae hyn wedi'i wrthbwysio gan golledion sylweddol mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda'r sector yn crebachu o tua 16,000 o swyddi ym 1999 i lai na 10,000 yn 2019 (gyda haneru yng

<sup>61</sup> Roedd y cyniferyddion lleoliad\* yn 2022 ar gyfer y sectorau hyn fel a ganlyn: Gwybodaeth a chyfathrebu: 1.1; cyllid ac yswiriant: 2.3; eiddo tiriog: 1.1. Y sectorau mwy eraill lle mae Caerdydd wedi'i 'gorgynrychioli' yn gymharol oedd gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (2.0), addysg (1.2), y celfyddydau, adloniant a hamdden (1.3) a 'gweithgareddau gwasanaeth eraill' (1.4), y mae pob un ohonynt wedi gweld twf cyflogaeth ers 2015. (\* mae cyniferydd y lleoliad (LQ) yn fesur o grynodiad cymharol. Mae sectorau ag LQ o fwy nag 1 yn cyfrif am gyfran fwy o gyfanswm cyflogaeth Caerdydd nag y maent ym Mhrydain Fawr yn ei chyfanrwydd).

nghyfran y sector o gyfanswm cyflogaeth o 8% i 4%). Gwelodd trafndiaeth a logisteg, adeiladu a gweithgarwch manwerthu a chyfanwerthu hefyd ostyngiad mewn cyflogaeth yn y degawd hyd at 2019, gan wrthdroi rhai enillion blaenorol.

**Tabl 14: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019, swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-538	-68	-303
Adeiladu	287	-258	15
Trafnidiaeth a dosbarthu	202	-205	-2
Cyfanwerthu a manwerthu	318	-117	101
Gwybodaeth a chyfathrebu	39	332	185
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	1,271	701	986
Gwasanaethau cyhoeddus	1,562	828	1,195
Arall	53	839	446
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,191</b>	<b>2,046</b>	<b>2,618</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel gwaelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae ystod Caerdydd rhwng 1,233 a 1,340 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 1,300. Er bod consensws rhesymol ar draws y niferoedd hyn, maent yn sylweddol is na'r cyfraddau twf hanesyddol 10 ac 20 mlynedd.

**Tabl 15: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Caerdydd	PRC
Cambridge Econometrics	1,327	3,023
Experian	1,233	2,520
Oxford Economics	1,340	1,773

	Caerdydd	PRC
Cyfartaledd	1,300	2,439

Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW

Nododd trafodaeth flaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol. Fel y gwelir yn Nhabl 3, mae'r cyfartaledd yn rhagweld y bydd Caerdydd yn cyfrif am tua 53% o gyfanswm y twf swyddi yn y rhanbarth rhwng 2025 a 2040. Bydd hyn yn golygu y bydd ei chyfran o'r holl swyddi yn y rhanbarth yn parhau i gynyddu, i 35 % yn 2040.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad pellach mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC yn ei gyfanrwydd), wedi'i wrthbwyso gan dwf cryf parhaus mewn gwasanaethau<sup>62</sup>:

**Tabl 16: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	Caerdydd, cyfanswm swyddi, 2022	Caerdydd JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	9,726	-101	-675
Adeiladu	11,525	68	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	5,711	17	99
Cyfanwerthu a manwerthu	26,809	89	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	13,524	47	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	68,030	553	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	75,199	335	914
Arall	37,200	292	624
Cyfanswm	247,724	1,300	2,439

Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW

Er bod y rhagolygon yn cyd-fynd yn fras â niferoedd swyddi cyffredinol, mae rhywfaint o amrywiaeth yng nghyfansoddiad twf y sector. Er enghraifft, mae Oxford Economics yn rhagweld

<sup>62</sup> Gan gynnwys lletygarwch, hamdden a'r celfyddydau ac adloniant, sydd wedi'u cynnwys yn 'Arall'

crebachiad llawer mwy llym mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, wedi'i wrthbwysu gan dwf cryfach mewn adeiladu, cyfanwerthu a manwerthu a gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol.

Gellir cymharu'r rhagolygon gwaelodlin hyn â rhagamcanion cynharach a ddefnyddiwyd i lywio *Astudiaeth Tir Cyflogaeth ac Adeiladau* (ELPS) Caerdydd, a gwblhawyd yn 2022<sup>63</sup>. Defnyddiodd hwn ddwy set o ragolygon gwaelodlin:

- Roedd Oxford Economics yn rhagweld cyfanswm twf cyflogaeth o 21,100 rhwng 2021 a 2036 (h.y. 1,094 o swyddi y flwyddyn), gyda thwf wedi'i grynhoi'n arbennig mewn gwasanaethau iechyd, gweinyddol a phroffesiynol a manwerthu, a gyda chrebachiad parhaus mewn gweithgynhyrchu.
- Roedd Experian yn rhagweld twf o 45,500 o swyddi dros yr un cyfnod (2,347 o swyddi y flwyddyn). Roedd y dosbarthiad o ran sector i raddau helaeth yr un fath â'r hyn a broffiliwyd gan Oxford, er gyda thwf cryfach ar draws y rhan fwyaf o sectorau, yn enwedig iechyd, addysg, gwasanaethau proffesiynol a llety a gwasanaeth bwyd, a chrebachiad llai mewn gweithgynhyrchu.

Yn seiliedig ar y rhagolygon hyn, cynhaliodd yr ELPS gyfres o senarios, gan addasu ar gyfer rhagdybiaethau twf sector amgen. Rhoddodd hyn ystod o rhwng 1,300 a 3,100 o swyddi y flwyddyn rhwng 2021-36.

Yn amlwg, mae amrywiad mawr o fewn y senarios hyn a'r amcanestyniadau diweddarach a gomisiynwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae hyn yn dangos i ba raddau y mae amcanestyniadau y dyfodol yn amrywio rhwng tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn, ac yn dangos yr angen i driongli data rhagolygon gyda ffynonellau eraill o wybodaeth.

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

Caerdydd yw'r prif hyb economaidd a lleoliad cyflogaeth ar gyfer De Cymru ac mae'n hyb pwysig ar gyfer llywodraeth, y cyfryngau, addysg a diwylliant. Mae'r rôl hon wedi ehangu yn y blynyddoedd diwethaf, fel y mae cyfran gynyddol y ddinas o gyflogaeth ranbarthol yn ei awgrymu, ac mae Caerdydd yn gyrchfan cyflogaeth bwysig i weithwyr ar draws PRC. Nododd yr ELPS fod Caerdydd wedi perfformio'n dda yn economaidd dros y 15 mlynedd hyd at 2022, gan ragori ar y targed twf swyddi o 2,000 o swyddi y flwyddyn a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol. O ganlyniad, roedd yr ELPS o'r farn "*ar sail ei rôl fel hyb economaidd, prifddinas a'i pherfformiad hanesyddol cryf, ei bod yn briodol cynllunio ar gyfer ei thwf parhaus, yn enwedig o ystyried y seilwaith arfaethedig presennol a buddsoddiadau eraill*".

---

<sup>63</sup> Hardisty Jones Associates (Gorffennaf 2023), *Astudiaeth Tir ac Adeiladau Cyflogaeth Caerdydd*

## Prif leoliadau strategol ar gyfer twf

Lansiodd Cyngor Caerdydd strategaeth economaidd, *Adeiladu Mwy a Gwell Swyddi*, yn 2019. Nododd hon gyfleoedd sectoraidd sy'n gysylltiedig â thwf gwasanaethau ariannol a thechnoleg ariannol, seiberddiogelwch a 'thechnoleg reoleiddio', lled-ddargludyddion cyfansawdd, diwydiannau creadigol a chyfryngau, a gwyddorau bywyd, y mae pob un ohonynt yn berthnasol i'r blaenoriaethau a nodir yng *Nghynllun Economaidd a Diwydiannol Rhanbarthol PRC*<sup>64</sup>.

Mewn termau gofodol, nododd *Adeiladu Mwy a Gwell Swyddi* bum blaenoriaeth, yn gysylltiedig â chanol y ddinas, Bae Caerdydd, Dwyrain Caerdydd, 'Coridor Gwybodaeth' gogleddol a chyfleoedd sy'n gysylltiedig ag arlwy chwaraeon a diwylliannol y ddinas. Er i strategaeth economaidd arall gael ei mabwysiadu wedyn i gefnogi adferiad o'r pandemig Covid-19, mae'r blaenoriaethau gofodol eang yn *Adeiladu Mwy a Gwell Swyddi* yn parhau i fod yn berthnasol, ac mae cyfleoedd allweddol y ddinas wedi'u nodi isod o dan y pum pennawd blaenoriaeth.

### Canol y ddinas

Prif ffocws datblygiadau newydd yng nghanol y ddinas yw **Rhaglen Gwella Canol Caerdydd (CCEP)**, sy'n canolbwyntio ar gyflwyno cyfres o safleoedd mawr, sy'n gysylltiedig â'r rhaglen o gapasiti, cyfnewidfeydd a gwelliannau i'r parth cyhoeddus i orsaf Caerdydd Canolog a elwir yn Metro Canolog.

Mae camau cyflawni cynharach wedi cyflwyno datblygiadau o amgylch y Sgwâr Canolog, gan gynnwys BBC Cymru, CThEM ac adeiladau Legal and General. Mae datblygiad defnydd cymysg Cwr y Ddinas ger Sgwâr Callaghan hefyd ar y gweill.

Mae datblygiadau yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar dwf cyflogaeth yn cynnwys:

**Tabl 17: Datblygiad yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Wella Canol Caerdydd**

Cynllun	Disgrifiad	Swyddi posibl <sup>65</sup>	Statws
Cwr y Gamlas	Ailddatblygu Arena Motorpoint a'r ardal rhwng Teras Bute a Ffordd Churchill i greu datblygiad defnydd cymysg (preswyl / swyddfeydd / gwesty / Bwyd a Brecwast).	7,400	Gwaith parth cyhoeddus cychwynnol wedi'i gwblhau; datblygiad masnachol heb ei symud ymlaen eto
Cwr y Ddinas	Swyddfeydd/gwesty/llety myfyrwyr ar Stryd Tyndall	10,200	Ar y gweill; rhan wedi'i chwblhau

<sup>64</sup> Cyngor Caerdydd (2019), [Cyhoeddi strategaeth economaidd Caerdydd](#) (datganiad i'r wasg)

<sup>65</sup> Yn seiliedig ar gyfrifiad dwysedd swyddi, ac yn ymwneud â chapasiti ar gyfer swyddi a letyir. Niferoedd swyddi Cyngor Caerdydd (Chwefror 2023), *Diweddariad Gwella Canol Caerdydd*, wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf. Ni fwriedir iddynt nodi cyflogaeth ychwanegol net i'r ddinas.

Cynllun	Disgrifiad	Swyddi posibl <sup>65</sup>	Statws
Cei Canolog	Cynllun defnydd cymysg ar hen safle Bragdy Brains i'r de-orllewin o'r Orsaf Ganolog	1,700	Ar y gweill
Sgwâr Callaghan	Datblygu'r darn olaf o dir yn Sgwâr Callaghan, i'r de o'r Orsaf Ganolog	3,700	Heb ei ddatblygu eto
Yr Arglawdd	Cynllun defnydd cymysg yn Heol Dumballs, rhwng yr Orsaf Ganolog a Butetown; tua 54,000 metr sgwâr o safle busnes	5,600	Heb ei ddatblygu eto
Tŷ Titan	Datblygiad pellach yn Ocean Park, i'r de-ddwyrain o ganol y ddinas	1,100	Heb ei ddatblygu eto

*Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd (Chwefror 2023), Diweddariad Gwella Canol Caerdydd*

Er mai amcangyfrifon o gapasiti yw'r ffigurau swyddi sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn, yn hytrach nac amcangyfrifon o nifer y swyddi 'ychwanegol net' sy'n debygol o gael eu creu, maent yn rhoi syniad o raddfa'r twf posibl sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, wrth i ardal fusnes graidd y ddinas ymestyn i'r de o'r rheilffordd.

### ***Bae Caerdydd***

Y prosiect adfywio strategol allweddol ym Mae Caerdydd yw ailddatblygu **Glanfa'r Iwerydd**, sy'n cynnwys arena dan do newydd â 15,000 o seddi (i'w darparu fel rhan o'r cam cyntaf), gwesty, amwynderau diwylliannol a swyddfeydd, yn ogystal â hyb trafniadaeth newydd wedi'i gysylltu i ehangiad y Metro (gweler isod).

### ***Dwyrain Caerdydd***

Y datblygiad arfaethedig mawr yn nwyrain y ddinas yw **Llynnoedd Hendre**, ardal fusnes arfaethedig i'r de o Barc Busnes presennol Llaneirwg. Dywedir bod gan hwn y potensial i greu tua 6,000 o swyddi newydd, a'r bwriad yw ymgorffori gorsaf **Parcfordd Caerdydd** newydd rhwng Caerdydd Canolog a Chasnewydd. Cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar gyfer y Parcfordd a Llynnoedd Hendre yn 2021; er bod Cyngor Caerdydd wedi penderfynu cymeradwyo cais Parcfordd yn 2022, mae gwrandawladau pellach yn mynd rhagddynt i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi Llywodraeth Cymru.

### ***Gogledd Caerdydd***

Mae datblygiad sylweddol wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf gyda chyflwynid campws newydd Prifysgol Caerdydd ar Heol Maendy. Ymhellach i'r gogledd, y cyfle mawr sydd eto i'w symud ymlaen yw datblygiad **Ymyl Caerdydd**, campws ymchwil a datblygu 11 hectar ar hen safle GE yn Fferm y Fforest (Cyffordd 32 yr M4). Mae'r safle'n cynnig potensial i feddianwyr gwyddor

bywyd, gan gydnabod cryfderau Caerdydd yn y maes hwn (a datblygiadau meddygol mawr yn y cyffiniau, gan gynnwys buddsoddiad presennol yn ysbwyto canser arbenigol Felindre gerllaw).

### **Cyfleoedd eraill**

Ochr yn ochr â'r lleoliadau twf craidd hyn, gosododd *Adeiladu Mwy a Gwell Swyddi* bumed blaenoriaeth, sef "parhau â'n dadeni chwaraeon a diwylliannol". Er bod hyn yn amlwg yn ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer Glanfa'r Iwerydd ac adfywio canol y ddinas, y cyfle datblygu ychwanegol allweddol yw cwblhau'r **Pentref Chwaraeon Rhyngwladol** i'r de o Ffordd Ferry. Prynodd y Cyngor y safle yn 2022 i gyflymu datblygiad, gyda'r nod o "*gwblhau atyniad hamdden i gefnogi Bae Caerdydd fel prif gyrchfan hamdden*"<sup>66</sup>, gyda chysylltiadau trafndiaeth gwell ar draws gweddill y Bae ac i ganol y ddinas. O safbwynt cyflogaeth, mae'r prif gyfleoedd yn debygol o fod mewn gweithgareddau hamdden a lletygarwch.

Mae twf cyflogaeth mewn mannau eraill yn y ddinas yn debygol o fod fesul cam. Fodd bynnag, bydd swyddi gwasanaeth hefyd yn gysylltiedig ag ehangu sefyllfa breswyl Caerdydd, megis yn yr estyniad trefol mawr i ogledd-orllewin y ddinas.

### **Buddsoddiad trafndiaeth strategol**

Mae'r datblygiadau mawr a nodir uchod wedi'u cysylltu'n annatod â buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith trafndiaeth, y mae datblygu **Metro De Cymru** yn greiddiol iddo, sy'n cynnwys rhaglen o welliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd presennol a chynlluniau ar gyfer estyniadau pellach. Bydd y Metro yn gwella'n fawr fynediad i ganol dinas Caerdydd o'r Cymoedd, gan gynyddu ei hyfywedd a'i atyniad fel gyrchfan i gymudwyr. Mae prosiectau allweddol sy'n berthnasol i Gaerdydd yn cynnwys:

- Metro Canolog, fel y disgrifir uchod, yn darparu mwy o gapasiti rheilffyrdd a chyfnewidfa drafnidiaeth, yng nghanol adfywiad ehangach ochr ddeheuol canol y ddinas
- Amllder safonol y Metro rhwng Caerdydd Canolog a Phontypridd (h.y. drwy'r Waun Ddyfal, Llandaf a Radur), gwell amlderau ar Reilffordd Rhymini a threnau uniongyrchol o'r Cymoedd i Fae Caerdydd
- Gorsafoedd ychwanegol wedi'u cynllunio yn Butetown a Heol Crwys (yn ogystal â'r orsaf Parcffordd newydd yn Nwyrain Caerdydd ar y brif lein)

Yn ogystal, mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer cam cyntaf cyswllt tram **Cledrau Croesi Caerdydd** o Gaerdydd Canolog i Fae Caerdydd trwy Sgwâr Callaghan, gan gyfrannu at gyflawni prif gynllun Glanfa'r Iwerydd.

Gan edrych i'r tymor hwy, mae cynlluniau helaeth ar gyfer ehangu seilwaith trafndiaeth y ddinas, gan gynnwys ymestyn Cledrau Croesi i Stryd Pierhead a thu hwnt, gorsafoedd

---

<sup>66</sup> Cyngor Caerdydd (Gorffennaf 2023), [Adroddiad Cabinet: Pentref Chwaraeon Rhyngwladol](#)

ychwanegol (e.e. yn Gabalfa a Melin Trelai) a gwelliannau i reilffyrdd y Ddinas a Coryton. Mae'r buddsoddiad hwn mewn trafndiaeth yn rhan bwysig o strategaeth economaidd ehangach y ddinas, yn ogystal â'r rhanbarth cyfan<sup>67</sup>.

### **Ffynonellau buddsoddi rhanbarthol**

Ar hyn o bryd mae rhaglen sylweddol o waith sector cyhoeddus ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn ogystal â chyflawni'r rhwydwaith Metro a ddisgrifiwyd uchod, mae hyn yn cynnwys Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chynlluniau strategol eraill megis y Parth Buddsoddi o amgylch Casnewydd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynnyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgrifio y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin. Mae buddsoddiadau allweddol sy'n arbennig o berthnasol i dwf yng Nghaerdydd yn cynnwys Metro Canolog a'r rhaglenni hynny sy'n canolbwyntio ar sectorau sy'n ymwneud â diwydiannau twf allweddol y ddinas.

Mae ychwanegu potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil sectoraidd buddsoddiadau penodol yn awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 256 o swyddi y flwyddyn yng Nghaerdydd (1,556 pe baent yn ychwanegol at y waelodlin a nodir uchod). Dylid, fodd bynnag, ystyried hyn yn dybiannol.

### **Safbwyntiau ehangach ynghylch galw**

Nododd yr ELPS fod y defnydd o swyddfeydd wedi'i grynhoi ym meysydd technoleg, y cyfryngau a thelathrebu, gwasanaethau busnes, gwasanaethau cyhoeddus, addysg ac iechyd ac yswiriant a chyllid, yn gyson â'r sectorau twf a nodwyd yn y strategaeth. Yn gysylltiedig â'r meysydd cryfder hyn, cyhoeddodd PwC hefyd fuddsoddiad mawr mewn canolfan technoleg a seiberddiogelwch yn y ddinas, a allai gefnogi tua 1,000 o swyddi<sup>68</sup>. Y tu hwnt i ddefnyddiau swyddfa 'confensiynol', tynnodd yr ELPS sylw hefyd at dwf yn y galw am fannau gweithio hyblyg, gan nodi er enghraifft twf Tramshed Tech yn Grangetown.

Wedi'i gynhyrchu yn syth ar ôl y pandemig Covid, adroddodd yr ELPS rywfaint o ofal gan y farchnad, gan nodi penderfyniadau datblygwyr ar y pryd i ohirio rhai cynlluniau, ac ansicrwydd ynghylch dyfodol y galw mewn lleoliadau ar y cyrion, megis Porth Caerdydd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad mwy diweddar o farchnad canol y ddinas yn nodi dychweliad i amsugniad net

---

<sup>67</sup> Cyngor Caerdydd (dim dyddiad), [Papwr Gwyn Trafndiaeth Caerdydd: Newid sut rydym yn symud o gwmpas dinas sy'n tyfu](#)

<sup>68</sup> [PwC](#), Hydref 2023

cadarnhaol yn 2022 a 2023, a chyfraddau swyddi gwag ar gyfer stoc swyddfeydd Gradd A yn gostwng<sup>69</sup>.

Nododd yr ELPS hefyd fod galw cynyddol am lety diwydiannol ysgafn a warysau o ansawdd da, gan ddweud bod “*y stoc bresennol yn anaddas i’r pwrpas a bod yr asedau a feddiannir ar hyn o bryd yn agos at ddiwedd eu hoes*”. Nododd yr astudiaeth y galw mwyaf am unedau llai (llai na 3,000 troedfedd sgwâr), gan gydnabod y rhwystrau a gyflwynir gan dwneli Bryn Glas i atyniad gweithrediadau dosbarthu mwy yn y ddinas.

### Targed twf cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Nodir targed swyddi presennol y Cyngor yn y Strategaeth a Ffeirir fel 32,000 o swyddi rhwng 2021 a 2036 (h.y. 2,153 o swyddi y flwyddyn). Mae hyn yn seiliedig ar senario a arweinir gan anheddau, yn seiliedig ar gyflawni 1,600 o gartrefi’r flwyddyn dros gyfnod y Cynllun, a fyddai’n cynrychioli cynnydd yn nifer y tai a gwblhawyd dros y degawd blaenorol.

## Nodi lefel resymol o dwf

Mae’r trosolwg hwn yn dangos twf cyflogaeth diweddar cryf yng Nghaerdydd a rhagolygon cadarnhaol ar gyfer y dyfodol:

- Mae rhagolygon **gwaelodlin** yn awgrymu twf o tua **1,300 o swyddi y flwyddyn** (o fewn ystod o rhwng **1,233 a 1,340**). Er bod y rhain yn cyd-fynd yn fras, mae dau ragolwg gwaelodlin a gomisiynwyd yn flaenorol ar gyfer yr EPLS yn rhagweld twf o 1,094 a 2,347 o swyddi y flwyddyn.
- Mae **senarios wedi’u haddasu** a wnaed ar gyfer yr ELPS yn 2021, yn rhoi ystod o rhwng **1,300 a 3,100** o swyddi y flwyddyn
- Yn y **deng mlynedd cyn y pandemig**, crëwyd **2,046 o swyddi y flwyddyn** ar gyfartaledd. Dros gyfnod o 20 mlynedd, y cyfartaledd oedd **2,618**, yn rhannol oherwydd twf cyflogaeth uwch yn y sector cyhoeddus yn y 2000au cynnar.
- Targed swyddi presennol y Cyngor yn y CDLI Newydd newydd yw **2,153 o swyddi y flwyddyn**, yn seiliedig ar senario a arweinir gan anheddau.

Mae tystiolaeth hefyd o gyflenwad cryf o gynlluniau mawr yn yr arfaeth sy’n debygol o greu gweithgaredd cyflogaeth ychwanegol dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhai datblygiadau sydd ar y gweill, ond na fyddant wedi creu swyddi ychwanegol yn y data eto. Er i bandemig Covid-19 gael effaith sylweddol ar economi Caerdydd, o ystyried ei gogwydd at weithgareddau swyddfa

---

<sup>69</sup> Savills (Chwefror 2024), *Rhaglen Gwella Canol Caerdydd: Astudiaeth Codi Gwerth Tir Ehangach*

yng nghanol y ddinas a'r economi hamdden, mae tystiolaeth o ddychwelyd i hyder ac mae data swyddogol diweddar yn dangos twf cyflogaeth o tua 5% rhwng 2020 a 2022<sup>70</sup>.

Mae triongli'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth hyn yn awgrymu y byddai'n rhesymol rhagweld twf uwchlaw'r waelodlin. I gael amcangyfrif rhesymol, y pwynt canol rhwng y duedd hanesyddol deng mlynedd a chyfartaledd senarios twf yr ELPS (sy'n addasu ar gyfer rhagdybiaethau sectoraidd gwahanol) yw **2,173**, sydd yn ei hanfod yn gyson â tharged swyddi'r Cyngor.

Dylid nodi, er bod tua 2,173 o swyddi y flwyddyn yn rhesymol a bod 'llwybr' i'w gyflawni, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghori fesul safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

---

<sup>70</sup> SYG, BRES

# Merthyr Tudful

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Mae'r data hanesyddol yn dynodi twf llawer cryfach ym Merthyr yn ystod y 2000au cynnar er, gan fod Merthyr yn fwrdeistref fach, mae'r data swyddi yn tueddu i fod yn eithaf cyfnewidiol, gydag amrywiadau blynyddol sy'n fach mewn termau absoliwt yn cael effaith fawr ar gyfraddau newid dros amser. Gwelodd y taflwybr dros amser gynnydd sydyn yn y 2000au cynnar, gan ddisgyn ar ôl y gwmp ariannol a chodi'n arafach wedi hynny.

**Tabl 18: Newid mewn swyddi, 1999-2019**

	Merthyr Tudful		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	412	1.9	4,226	0.6
Newid 2009-2019	46	0.2	4,288	0.6
Newid 1999-2019	229	1.0	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	25,649		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar ddeinameg sectoraidd cyn-bandemig yn y farchnad swyddi. Gwelodd y 2000au cynnar golledion sylweddol mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda'r sector yn crebachu o tua 4,200 o swyddi ym 1999 i 3,400 yn 2009. O ganlyniad, gostyngodd cyfran gweithgynhyrchu cyfanswm cyflogaeth o 20% i 14% dros y degawd. Ers hynny, mae cyflogaeth yn y sector wedi sefydlogi rhywfaint, er bod y crebachiad araf yn parhau.

Yn y 2000au cynnar, gwrthbwyswyd y colledion hyn gan dwf cryf mewn gweithgarwch manwerthu a chyfanwerthu a gan ehangiad cryf iawn mewn cyflogaeth gwasanaethau cyhoeddus, yn rhannol gysylltiedig o bosibl ag adleoli rhai o weithgareddau Llywodraeth Cymru o Gaerdydd i Barc Busnes Rhydycar, er bod gwasanaethau cyhoeddus wedi crebachu rhywfaint yn yr ail ddegawd:

**Tabl 19: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019, swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-79	-18	-49
Adeiladu	-44	29	-7

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Trafnidiaeth a dosbarthu	42	0	21
Cyfanwerthu a manwerthu	121	-1	60
Gwybodaeth a chyfathrebu	89	15	52
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	42	38	40
Gwasanaethau cyhoeddus	256	-86	85
Arall	-15	65	25
<b>Cyfanswm</b>	<b>412</b>	<b>46</b>	<b>229</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel gwaelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae'r ystod ar gyfer Merthyr Tudful rhwng 38 a 76 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 61 (ychydig yn uwch na chyfradd twf swyddi gwirioneddol yn y cyfnod 2009-19).

**Tabl 20: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Merthyr Tudful	PRC
Cambridge Econometrics	76	3,023
Experian	67	2,520
Oxford Economics	38	1,773
Cyfartaledd	61	2,439

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Nododd trafodaeth flaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad pellach mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC yn ei

gyfanwydd), wedi'i wrthbwysu gan dwf parhaus mewn gweithgareddau gwasanaeth, gyda'r sector cyfanwerthu a manwerthu yn aros yn sefydlog. Er gwaethaf gostyngiad mewn cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon gwaelodlin yn rhagweld cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, yn gyson â'r duedd tymor hwy:

**Tabl 21: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	Merthyr, cyfanswm swyddi, 2022	Merthyr, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	2,294	-28	-675
Adeiladu	1,297	1	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	697	1	99
Cyfanwerthu a manwerthu	3,876	15	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	1,281	8	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	3,234	26	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	9,172	23	914
Arall	3,001	14	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>25,482</b>	<b>61</b>	<b>2,439</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Dylid nodi bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng y tri rhagolwg gwaelodlin yng nghyfansoddiad twf y sector. Er enghraifft, mae Oxford Economics yn rhagweld crebachiad llawer mwy llym mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu wedi'i wrthbwysu gan dwf cryfach mewn gwasanaethau cyhoeddus, tra bod Experian a Cambridge Econometrics yn rhagweld twf uwch mewn manwerthu a chyfanwerthu a gwasanaethau busnes a phroffesiynol.

Nid oes unrhyw ragolygon gwaelodlin amgen a brynwyd yn ddiweddar ar gyfer Merthyr. Y rhai diweddaraf oedd set o ragolygon a baratowyd gan Cambridge Econometrics yn 2017 i lywio'r *Adolygiad Tir Cyflogaeth*. Roedd y rhain yn rhagweld twf swyddi o 2,137 rhwng 2016 a 2031 (h.y. 142 o swyddi y flwyddyn). Mae hyn yn sylweddol uwch nag unrhyw un o'r rhagolygon mwy diweddar, er y dylid nodi bod y rhagolygon economaidd cyffredinol yn fwy optimistaidd bryd hynny. Roedd y darlun cyffredinol o ran sectorau yn dangos colled barhaus cyflogaeth mewn gweithgynhyrchu, wedi'i wrthbwysu gan dwf gwasanaeth (yn enwedig gwasanaeth

cyhoeddus). Mae'r amrywiadau hyn yn amlygu'r graddau y mae amcanestyniadau'r dyfodol yn amrywio rhwng y tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn a phwysigrwydd eu triongli â ffynonellau data eraill.

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

### Targed twf cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Nodir targed swyddi presennol y Cyngor yn y Cynllun Datblygu Lleol fel 1,877 o swyddi rhwng 2016 a 2031 (h.y. 125 o swyddi y flwyddyn). Mae hyn yn is na'r model 'galw am lafur' a ddefnyddiwyd yn y rhagolygon gan Cambridge Econometrics a amlinellwyd uchod, ac mae'n seiliedig ar gynnydd tybiedig ym mhoblogaeth y fwrdeistref, gan adlewyrchu'r tai a gwblhawyd yn hanesyddol.

Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cyngor yn nodi mai cyfyngedig fu'r cynnydd o ran datblygu safleoedd cyflogaeth wedi'u neilltuo i gyrraedd y targed hwn (er bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2023 yn nodi ei bod yn annhebygol y caiff safleoedd cyflogaeth mawr eu cyflawni ar gyflymder cyson)<sup>71</sup>.

### Buddsoddiad mawr wedi'i gynllunio a buddsoddiad posibl

Mae pedwar prif safle wedi'u dynodi yn y CDLI Newydd, gyda datblygiad yn dal i ddod i'r amlwg:

**Tabl 22: Safleoedd cyflogaeth mawr**

Safle	Disgrifiad
Ardal Adfywio Strategol Hoover, Pentrebach	Datblygiad defnydd cymysg mawr ar hen safle ffatri Hoover, wedi'i gysylltu i'r orsaf Metro sydd wedi'i gwella ym Mhentrebach. Yn cynnwys 1.5 hectar o dir cyflogaeth ar hen faes parcio ffatri Hoover, yn agos at Barc Busnes Triongl presennol.
Heol Melin yr Afr	Safle 14.75ha (net) yn Nowlais, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys cynigion ar gyfer cyfleuster ailgylchu plastigion mawr.
Tir i'r de o Ystad Ddiwydiannol Merthyr Tudful	Safle 11.3ha (net) ym Mhentrebach, yn darparu estyniad i'r parc diwydiannol presennol.
Ffos-y-Fran	Hen bwll glo brig mawr 18.85ha i'r dwyrain o'r A4060. Daeth gweithrediadau mwyngloddio i ben ym mis Tachwedd 2023; nododd ELR

<sup>71</sup> CBS Merthyr Tudful (Hydref 2023), [Cynllun Datblygu Lleol Newydd: Trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol](#). Sylwer bod y 1,877 o swyddi yn cael eu defnyddio fel targed monitro, gyda'r goblygiad bod y rhain i gyd yn swyddi dosbarth B. Fodd bynnag, bydd llawer o swyddi'n cael eu creu mewn swyddi nad ydynt yn rhai dosbarth B, ac ni fydd pob un yn cael eu creu ar safleoedd ac adeiladau newydd. Felly mae cysylltu'r targed yn uniongyrchol â chyflawni swyddi dosbarth B ar safleoedd a gwblhawyd yn awgrymu bod twf swyddi a ragwelir yn y fwrdeistref yn gyffredinol yn sylweddol uwch na 125 y flwyddyn.

Safle	Disgrifiad
	2018 fod lle ar gyfer defnyddiau cyflogaeth ar y safle (a rhywfaint o ddiddordeb cynnar gan feddianwyr) er y nodwyd y bydd yn cymryd peth amser i'w ddatblygu ar ôl i'r cloddio ddod i ben.

*Ffynhonnell: Adolygiad Tir Cyflogaeth; CDLI Newydd*

### Ffynonellau twf cyflogaeth posibl eraill

Mewn ymgynghoriad, nododd swyddogion y Cyngor fod y rhan fwyaf o ymholiadau ar gyfer safleoedd diwydiannol. Yn gyffredinol, mae hyn ar gyfer unedau llai nag a oedd yn gyffredin yn y gorffennol, yn bennaf yn yr ystod 3,000 - 10,000 troedfedd sgwâr. Er bod rhai ymholiadau yn ymwneud ag unedau mwy, ystyrir bod y rhan fwyaf o'r galw (a thwf cyflogaeth) yn dod gan gwmnïau bach lleol sydd am ehangu. Mae hyn yn adlewyrchu safbwyntiau tebyg mewn mannau eraill yn y Cymoedd, o alw cynhenid cryf ar y cyfan am fannau i ehangu, nad sydd bob amser yn cael ei fodloni gan y farchnad. Fodd bynnag, bu diddordeb masnachol mewn datblygu adeiladau newydd i ddiwallu'r galw hwn, er enghraifft, gyda chyflwyniad unedau newydd yn llwyddiannus ar Ystad Ddiwydiannol Pant yn Nowlais.

Mae mynediad i'r A470 a'r A465 yn cael ei weld fel ysgogwr allweddol yn y defnydd o fannau diwydiannol, a gallai'r gwelliannau presennol i ffordd Blaenau'r Cymoedd helpu i gyflymu hyn.

Y tu hwnt i weithgareddau o 'fath diwydiannol', nodwyd mai ychydig o alw sydd am ddefnydd swyddfeydd confensiynol ym Merthyr, er bod gan lety â gwasanaeth o ansawdd uwch, megis canolfan fusnes Orbit yn Rhydycar, gyfraddau meddiannaeth uwch. Nodwyd hefyd y potensial ar gyfer twf cyflogaeth yn y dyfodol mewn perthynas â:

- Gweithgarwch creadigol a digidol. Yn hanesyddol, nid yw Merthyr wedi cael llawer o bresenoldeb yn y maes hwn, er y nodwyd bod sylfaen greadigol yn dechrau datblygu'n 'organig', gydag ambell gwmni gemau yn lleoli yn y dref a diddordeb datblygwyr mewn datblygu mannau gwaith creadigol. Er bod hyn yn debygol o fod yn eithaf bach o ran cyflogaeth, gallai ddatblygu dros amser ac ychwanegu at amrywiaeth y sylfaen gyflogaeth.
- Lletygarwch, twristiaeth a'r 'economi gyda'r nos'. Mae Merthyr yn ganolfan isranbarthol ar gyfer y Cymoedd Gogleddol, gyda chrynodeiad o gyfleusterau hamdden, dysgu a chyfleusterau eraill yng nghanol y dref (e.e. Coleg Merthyr Tudful a chanolfan gelfyddydau Red House), ac mae gan y Cyngor amcan strategol i ddatblygu cyfleoedd nad ydynt yn rhai manwerthu yng nghanol y dref<sup>72</sup>.

Ffynhonnell sylweddol arall o dwf cyflogaeth yn y dyfodol yw'r economi iechyd. Mae gan Ferthyr eisoes gyfran uchel o gyflogaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol<sup>73</sup>, gyda rhagolygon twf

<sup>72</sup> Gweler er enghraifft, Cyngor Celfyddydau Cymru [Straeon Research], [Datblygu Rhwydwaith Ddiwylliannol i Ferthyr Tudful](#)

<sup>73</sup> Gyda chyniferydd lleoliad o 1.7, sy'n golygu bod cyflogaeth yn y sector 1.7 gwaith cyfran y sector o gyflogaeth ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol

cryf. Mae'r fwrdeistref yn cynnwys rhai cyfleusterau iechyd isranbarthol yn ogystal â lleol (e.e. Ysbyty'r Tywysog Siarl), a bu buddsoddiad diweddar ym Mharc Iechyd Prifysgol integredig Keir Hardie.

### **Buddsoddiadau adfywio sector cyhoeddus**

Ar hyn o bryd mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru, Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chynlluniau strategol eraill megis y Parth Buddsoddi o amgylch Casnewydd, a buddsoddiad lleol fel cyllid y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi ar gyfer canol tref Merthyr. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin. Yn arbennig o berthnasol i Ferthyr Tudful, mae hyn yn cynnwys Menter y Cymoedd Gogleddol a gymeradwywyd yn ddiweddar, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyfywedd wrth gyflwyno safleoedd allweddol<sup>74</sup>; a buddsoddiad yn y Metro, a fydd yn gwella amllder a dibynadwyedd y rheilffyrdd rhwng Merthyr, Pontypridd a Chaerdydd.

Mae ychwanegu potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil sectoraidd buddsoddiadau penodol yn awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 58 o swyddi y flwyddyn ym Merthyr (119 pe baent yn ychwanegol at y waelodlin a nodir uchod). Dylid, fodd bynnag, ystyried hyn yn dybiannol<sup>75</sup>.

### **Nodi lefel resymol o dwf**

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi darlun gweddol gadarnhaol o dwf cyflogaeth ym Merthyr:

- Mae rhagolygon **gwaelodlin** yn awgrymu twf o tua **61 o swyddi y flwyddyn** (o fewn ystod o rhwng **38 a 76**).
- Yn y **deng mlynedd cyn y pandemig**, crëwyd **46 o swyddi y flwyddyn** ar gyfartaledd. Dros gyfnod o 20 mlynedd, mae hyn yn codi i 229, er bod hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sydyn mewn cyflogaeth gwasanaethau cyhoeddus ar ddechrau'r 2000au.

---

<sup>74</sup> PRC (Mawrth 2022), [Menter Hadu y Cymoedd Gogleddol](#)

<sup>75</sup> Datblygwyd senario pellach hefyd a oedd yn addasu ar gyfer colli llai o swyddi (o gymharu â'r waelodlin mewn gweithgynhyrchu, a thwf uwch i adlewyrchu'r duedd hanesyddol ddiweddar mewn gwasanaethau busnes a phroffesiynol. Arweiniodd hyn at 121 o swyddi'r flwyddyn ym Merthyr.

- **Targed swyddi** presennol y Cyngor o fewn y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu yw **125 o swyddi y flwyddyn**, yn deillio o gynnydd tybiedig yn y boblogaeth.

Mae rhai buddsoddiadau yn digwydd ym Merthyr a allai, dros amser, arwain at fwy o alw am gyflogaeth. Nid yw effeithiau rhai o'r rhain yn hysbys eto: er enghraifft, nid yw gwelliannau ffordd Blaenau'r Cymoedd wedi'u cwblhau eto, nid yw effaith buddsoddiad y Metro wedi dwyn ffrwyth eto, ac nid yw safle cyfleoedd cyflogaeth strategol mawr y fwrdeistref yn Ffos-y -Fran wedi'i gyflawni eto. Mae hyn hefyd yn wir am fuddsoddiadau'r Fargen Ddinesig sy'n dod i'r amlwg.

Mae triongli'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth hyn yn awgrymu y byddai'n rhesymol rhagweld twf cymedrol uwchlaw'r waelodlin. Mae tua **120 o swyddi y flwyddyn** yn cyd-fynd yn fras â tharged swyddi'r CDLI Newydd ac mae'n cynrychioli cynnydd ar y waelodlin a'r duedd hanesyddol ddiweddar. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r cyfrifiad dangosol sy'n seiliedig ar effeithiau posibl buddsoddiad rhanbarthol 'hysbys'.

Dylid nodi, er bod tua 120 o swyddi y flwyddyn yn rhesymol a bod 'llwybr' i'w gyflawni, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghori fesul safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

# Sir Fynwy

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Mae Sir Fynwy hefyd wedi gweld twf cymharol gryf, sef dwywaith y gyfradd ranbarthol yn y degawd yn arwain at yr argyfwng ariannol, ac ar yr un gyfradd â gweddill PRC yn y degawd dilynol:

**Tabl 23: Newid mewn swyddi, 1999-2019**

	Sir Fynwy		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	454	1.2	4,226	0.6
Newid 2009-2019	269	0.6	4,288	0.6
Newid 1999-2019	362	0.9	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	43,840		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar ddeinameg sectoraidd cyn-bandemig yn y farchnad swyddi. Gwelodd y 2000au cynnar golledion mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda'r sector yn crebachu o tua 5,100 o swyddi yn 1999 i 3,500 yn 2009. Roedd hyn yn gyson â'r darlun ar draws De Cymru, er bod y gyfran gweithgynhyrchu gymharol fach o gyflogaeth yn Sir Fynwy yn golygu bod y sir yn llai agored i drawsnewidiad na'i chymdogion. Ers hynny, mae cyflogaeth yn y sector wedi sefydlogi, gyda chynnydd cymedrol mewn cyflogaeth. Mae'r colledion hyn mewn gweithgynhyrchu wedi'u gwrthbwyso gan dwf cyflogaeth yn y sector gwasanaethau, er gwaethaf rhywfaint o grebachu yn y sector cyhoeddus a gweithgarwch manwerthu a chyfanwerthu yn fwy diweddar.

**Tabl 24: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019, swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-164	28	-68
Adeiladu	127	58	92
Trafnidiaeth a dosbarthu	-49	59	5
Cyfanwerthu a manwerthu	157	-112	22
Gwybodaeth a chyfathrebu	35	15	25

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	99	59	79
Gwasanaethau cyhoeddus	267	-35	116
Arall	-17	193	88
<b>Cyfanswm</b>	<b>454</b>	<b>269</b>	<b>362</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel waelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcrain.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae'r ystod ar gyfer Sir Fynwy rhwng 67 a 198 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 130 (tua hanner cyfradd twf swyddi yn y cyfnod 2009-19).

**Tabl 25: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Sir Fynwy	PRC
Cambridge Econometrics	198	3,023
Experian	67	2,520
Oxford Economics	126	1,773
Cyfartaledd	130	2,439

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Nododd trafodaeth flaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad pellach mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC yn ei gyfanrwydd), wedi'i wrthbwysu gan dwf parhaus mewn gweithgareddau gwasanaeth (gan gynnwys lletygarwch, a gyfrifir o dan 'Arall' yn Nhabl 4 isod). Er gwaethaf gostyngiad mewn cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon gwaelodlin yn rhagweld cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n gyson â'r duedd tymor hwy (yn ogystal â thwf cymedrol mewn manwerthu a chyfanwerthu):

**Tabl 26: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	Sir Fynwy, cyfanswm swyddi, 2022	Sir Fynwy, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	3,701	-33	-675
Adeiladu	3,772	12	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	1,804	7	99
Cyfanwerthu a manwerthu	6,674	10	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	1,340	4	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	7,085	44	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	11,738	40	914
Arall	7,725	47	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>43,840</b>	<b>130</b>	<b>2,439</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Dylid nodi bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng y tri rhagolwg gwaelodlin yng nghyfansoddiad twf y sector. Er enghraifft, mae Oxford Economics yn rhagweld crebachiad llawer mwy llym mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, tra bod Cambridge Econometrics yn rhagweld twf cyflymach mewn gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes a lletygarwch.

Gellir cymharu'r rhagolygon gwaelodlin hyn â thri ymarfer rhagweld galw am lafur pellach a gomisiynwyd yn y blynyddoedd diwethaf:

- Defnyddiodd *Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir Fynwy*, a gwblhawyd yn 2022, ragolygon gan Oxford Economics, a oedd yn rhagweld 406 o swyddi ychwanegol net rhwng 2018 a 2033 (h.y. 27 o swyddi y flwyddyn)<sup>76</sup>. Rhagwelwyd colledion mewn gweithgynhyrchu, adeiladu, amaethyddiaeth ac eiddo tiriog (ac i raddau llai, cyfleustodau, cyllid ac yswiriant, addysg ac iechyd), gyda'r twf cryfaf mewn llety a gwasanaeth bwyd; celfyddydau, adloniant a hamdden; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth; gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; a chyfanwerthu a manwerthu.

<sup>76</sup> BE Group (Tachwedd 2022), [Diweddariad Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir Fynwy](#), tud.103

- Cwblhawyd iteriad blaenorol o'r ELR yn 2021. Roedd hwn hefyd yn defnyddio rhagolygon Oxford Economics, a oedd yn rhagweld 497 o swyddi ychwanegol (33 o swyddi y flwyddyn), gyda'r un cydbwysedd cyffredinol o ran setoriau ran sectorau.
- Comisiynwyd set gynharach o ragolygon hefyd gan Oxford Economics i lywio'r *Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol Mwy na Lleol*, a baratowyd ar ran Sir Fynwy ac awdurdodau Gwent cyfagos yn 2019/20<sup>77</sup>. Roedd hyn yn rhagweld colled net o 374 o swyddi yn Sir Fynwy rhwng 2018 a 2040 (h.y. -17 o swyddi y flwyddyn), gyda'r golled yn cael ei hysgogi'n bennaf gan weithgynhyrchu (er gyda thwf mewn deg o'r 19 sector o fewn y rhagolwg, yn enwedig proffesiynol, gwyddonol a gwasanaethau technegol, y celfyddydau, adloniant a hamdden, adeiladu, a gwasanaethau gweinyddol a chymorth).

Mae amrywiad eithaf sylweddol rhwng y rhagolygon hyn, sy'n dangos y graddau y mae rhagamcanion y dyfodol yn amrywio rhwng y tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn, ac yn amlygu'r angen i'w hystyried ar y cyd â mathau eraill o dystiolaeth.

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

### Uchelgais strategol

#### *Targed swyddi*

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi nodi targed swyddi o 6,240 (h.y. 416 o swyddi y flwyddyn) dros gyfnod y CDLI Newydd 2018-33, sy'n sylweddol uwch na'r waelodlin. Nodir hyn fel Polisi S1 yn *Strategaeth a Ffefrir* yn yr ail CDLI Newydd<sup>78</sup>.

Mae'r targed swyddi hwn yn seiliedig ar strategaeth twf sy'n ceisio lleihau lefelau allgymudo ac 'ail-gydbwysu' proffil demograffig y sir yng nghyd-destun tuedd tuag at boblogaeth oedran gweithio sy'n crebachu<sup>79</sup>. Mae'r targed swyddi yn cyd-fynd ag un o nifer o senarios sy'n cael eu llywio gan ddemograffeg a gyflwynwyd mewn papur tystiolaeth ddemograffig, sy'n cynnwys addasiad i ganiatáu ar gyfer mewnfudo uwch o Fryste a De Swydd Gaerloyw (yn seiliedig ar brofiad dros y pum mlynedd flaenorol) a gostyngiad mewn mudo allan yn seiliedig ar uchelgais i ddenu cyflogaeth newydd ac i annog pobl i weithio'n agosach at adref<sup>80</sup>.

Mae *Adolygiad Tir Cyflogaeth 2022* yn ystyried y targed swyddi fel senario 'ar bolisi', "*wedi'i ysgogi trwy ymyriadau polisi i gefnogi twf tai a chyflogaeth er mwyn cyflawni canlyniad uwchlaw'r hyn a ragolygir yn seiliedig ar barhad o dueddiadau*"<sup>81</sup>. Mae'r ELR yn dadansoddi hyn fesul sector, gan ddefnyddio data gwaelodlin a swyddogol Oxford Economics, gyda rhai

<sup>77</sup> BE Group (Mawrth 2020), [Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol Mwy na Lleol](#)

<sup>78</sup> Cyngor Sir Fynwy (Rhagfyr 2022), [Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy: Strategaeth a Ffefrir](#)

<sup>79</sup> *Strategaeth a Ffefrir*, tud.30

<sup>80</sup> Edge Analytics (Tachwedd 2021), *Sir Fynwy: Diweddaru Tystiolaeth y CDLI Newydd*

<sup>81</sup> BE Group (Tachwedd 2022), [Diweddariad Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir Fynwy](#), tud.vi

addasiadau yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad leol (gan gynnwys darlun mwy cadarnhaol ar gyfer gweithgynhyrchu ac adeiladu)<sup>82</sup>.

### **Strategaeth economaidd**

Mae'r targed o 6,240 o swyddi wedi'i drosi'n 'amcan allweddol' yn *Strategaeth Economi, Cyflogaeth a Sgiliau* Sir Fynwy a fabwysiadwyd yn ddiweddar <sup>83</sup>. Mae'r Strategaeth yn disgrifio Sir Fynwy fel un sy'n cynnig "*economi gwerth uchel, medrus, amrywiol a gwydn iawn, yn gweithio i'w llawn allu, gan ddenu buddsoddiad i gefnogi ei diwylliant entrepreneuriaidd cryf*". Cefnogir hyn ymhellach gan dystiolaeth ehangach o berfformiad economaidd cymharol gryf Sir Fynwy, gyda'r sir wedi'i hasesu fel yr ail ardal fwyaf cystadleuol yng Nghymru (ar ôl Caerdydd) ym Mynegai Cystadleurwydd 2023 <sup>84</sup>.

Wrth amlinellu cyfleoedd a heriau'r sir, mae *Strategaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau* yn nodi:

- **Mae cyflogau trigolion yn uchel**, o gymharu â gweddill PRC a chymdogion yn Lloegr. Mae enillion yn y gweithle hefyd yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol, er bod y gwahaniaeth yn llai amlwg, gyda'r goblygiad bod allgymudo i swyddi â chyflogau uwch, yn enwedig i Gaerdydd, Bryste a De Swydd Gaerloyw.
- Gan adlewyrchu cyflogau cyfartalog uchel, mae'r **proffil galwedigaethol yn canolbwyntio ar alwedigaethau proffesiynol, rheoli a thechnegol**. Mae cymwysterau gweithlu hefyd yn uwch nag yn PRC a chymdogion yn Lloegr.
- Fodd bynnag, **mae'r boblogaeth yn heneiddio**, gan godi pryderon am gynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r rôl y mae'r farchnad dai yn ei chwarae yn hyn, o ystyried fforddiadwyedd isel, a'r angen am "*swyddi ychwanegol, gwerth uchel i ddenu pobl iau ac i ail-gydbwyso proffil oedran Sir Fynwy*".

Mae'r dadansoddiad hwn yn cefnogi strategaeth twf cyffredinol y sir. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Strategaeth yn nodi pedair blaenoriaeth ar gyfer twf economaidd cynaliadwy:

- **'Sir Fynwy fywiog, wyrddach'**, gan gynnwys ffocws ar gefnogi bywiogrwydd canol trefi'r sir, cefnogi arallgyfeirio gwledig a'r trawsnewid i sero net a gwella profiad ymwelwyr i sicrhau twf cynaliadwy yn y sector lletygarwch.
- **'Sir Fynwy decach a mwy llwyddiannus'**, drwy annog mwy o gyfleoedd am swyddi fel yr amlygwyd uchod a gweithredu i wella datblygiad sgiliau a chyflogaeth.

---

<sup>82</sup> Sylwer fod yr ELR yn cyfeirio at senario 'ar bolisi' o 6,420 o swyddi (428 y flwyddyn), yn hytrach na 6,240

<sup>83</sup> Cyngor Sir Fynwy (2022), *Strategaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau*, tud.38

<sup>84</sup> Prifysgol Caerdydd/ Ysgol Fusnes Nottingham (2023), [UK Competitiveness Index](#)

- **‘Sir Fynwy ffyniannus, uchelgeisiol’**, gan gynnwys cymorth ar gyfer cynyddu entrepreneuriaeth, galluogi busnesau i ehangu a manteisio ar y sectorau hynny y mae gan Sir Fynwy a PRC gryfderau cymharol ynddynt.
- **‘Sir Fynwy gyda chysylltiadau da sy’n denu buddsoddiad busnes’**, trwy gysylltedd digidol a thrafnidiaeth gwell ac argaeledd tir ac eiddo cyflogaeth.

### **Cyfleoedd ar gyfer twf cyflogaeth**

Mae Sir Fynwy wedi bod yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn sicrhau twf cyson, cynyddol o fewn economi amrywiol sy’n canolbwyntio ar BBaChau, gyda chryfderau mewn lletygarwch a’r economi ymwelwyr ac mewn gwasanaethau proffesiynol a busnes. Mae’r olaf yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cynnydd parhaus mewn gweithio gartref, yn gysylltiedig â mynediad cymharol hawdd at ganolfannau mwy gerllaw.

### **De Sir Fynwy a Choridor yr M4**

Mae’r rhan fwyaf o’r prif leoliadau ar gyfer twf yn ne’r sir, wedi’u cysylltu gan agosrwydd at yr M4 ac ardaloedd o dwf tai o amgylch cymunedau Cas-gwent, Cil-y-coed a Glannau Hafren ac wedi’u hategu gan uchelgeisiau am Ganolfan Sgiliau newydd yn yr ardal. Mae’r ardal hefyd yn elwa o’i lleoliad i’r dwyrain o dwneli Bryn Glas, sy’n cael ei ystyried yn ddeniadol, yn enwedig i weithredwyr logisteg. Mae safleoedd allweddol yn cynnwys:

- Crynhoad o safleoedd mawr o amgylch **Magwyr**, gan gynnwys:
  - **Parc Ewro Gwent:** Nodwyd hwn yn astudiaeth *Mwy na Lleol Gwent* fel safle strategol o bwys rhanbarthol ar gyfer defnydd diwydiannol a logisteg. Mae’r safle ar y ffin rhwng Casnewydd a Sir Fynwy, gyda rhan Casnewydd wedi’i adeiladu arno i raddau helaeth. Mae’r safle wedi’i glustnodi yn y CDLI mabwysiedig, ac mae gan ran ogleddol y clustnodiad presennol ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad B1, B2 a B8. Fodd bynnag, bydd angen goresgyn materion risg llifogydd ac ecoleg er mwyn datblygu.
  - **Quay Point:** safle ymgeisiol 19.6ha ychydig i’r gorllewin o Fagwyr ac i’r gogledd-ddwyrain o Barc Ewro Gwent (gyda 13.76ha o dir heb ei ddatblygu). Mae rhan o’r safle wedi’i ddefnyddio drwy ehangu bragdy presennol InBev, ond mae’n bosibl bod 10.6ha i’w ddatblygu mewn lleoliad amlwg ar yr M4.
  - **Cymru’n Un (Gorllewin):** safle 4ha gyferbyn â bragdy InBev a gerllaw parc busnes presennol Cymru’n Un y Dwyrain. Mae datblygiad warysau cychwynnol bron wedi’i gwblhau, gan greu tua 300 o swyddi.
- Fferm Bradbury yng Nghrug (rhan o glustnodiad safle strategol arfaethedig **Dwyrain Cil-y-coed** yn y CDLI Newydd sy’n cael ei ddatblygu), gyda sgôp ar gyfer defnyddiau cyflogaeth fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg.
- Tir o amgylch Cyffordd 2 yr M48 yng **Nghas-gwent**, ger Ystâd Ddiwydiannol bresennol Newhouse Farm, gyda lle ar gyfer logisteg a defnyddiau nad ydynt yn rhai dosbarth B.

### **Gweddill Sir Fynwy**

Mewn mannau eraill yn y sir, mae'r cwmpas ar gyfer buddsoddiad mawr yn cael ei gyfyngu'n fwy gan ffactorau amgylcheddol a chysylltedd. Mae'r cyfleoedd mawr yn cynnwys datblygiad cyflogaeth a gynigir yn y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys rhan o'r safle strategol arfaethedig yn **Nwyrain y Fenni** (na phenderfynwyd ar ei faint eto), a chyfleoedd datblygu posibl yn **Nhrefynwy** a **Rhaglan**, gan gynnwys unedau llai a allai gefnogi'r galw yng ngogledd y sir.

### **Buddsoddiadau adfywio sector cyhoeddus**

Ar hyn o bryd mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru, Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chynlluniau strategol eraill megis y Parth Buddsoddi o amgylch Casnewydd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin.

Mae ychwanegu potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil sectoraidd buddsoddiadau penodol yn awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 48 o swyddi y flwyddyn yn Sir Fynwy (cyfanswm o 178 pe baent yn ychwanegol at y waelodlin a nodir uchod). Dylid, fodd bynnag, ystyried hyn yn dybiannol. Mae datblygiadau yng Nghasnewydd yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol i Sir Fynwy, o ystyried pa mor agos yw'r Parth Buddsoddi (er nad yw'r swyddi a ragwelir yn hysbys eto) a'r twf sy'n gysylltiedig ag ehangu'r sector lled-ddargludyddion cyfansawdd.

### **Safbwyntiau ehangach ynghylch galw**

Tynnodd swyddogion y Cyngor sylw at alw mawr am safleoedd diwydiannol o'i gymharu â'r cyflenwad sydd ar gael. Cydnabuwyd hyn hefyd yn yr ELR, a welodd ychydig iawn o unedau ar gael a oedd yn fwy na 500 metr sgwâr. Er gwaethaf pa mor ddeniadol yw Coridor yr M4 ar gyfer datblygiad diwydiannol, amlygodd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r ELR gyfyngiadau hyfywedd wrth gyflwyno datblygiad newydd. Gwelwyd bod y galw am swyddfeydd yn llawer gwannach na diwydiannol, o ystyried y newid diweddar mewn arferion gwaith ac absenoldeb lleoliad swyddfeydd sefydledig yn y sir, er y nodwyd y gallai cyfleusterau o fath 'hyb gwaith' fod yn ddeniadol yn y trefi marchnad.

## Nodi lefel resymol o dwf

Mae'r trosolwg hwn yn dangos patrwm ychydig yn wahanol o ddatblygiad economaidd yn Sir Fynwy o'i gymharu â gweddill y rhanbarth, gan adlewyrchu natur wledig y sir yn bennaf a'r graddau y mae'n elwa o gysylltiadau â Swydd Gaerloyw, Swydd Henffordd a Bryste, yn ogystal â rhannau eraill o PRC. Yn gyffredinol, mae'r economi'n perfformio'n dda ac mae wedi cynnal twf swyddi cadarnhaol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda thystiolaeth y gallai twf yn y dyfodol gael ei gyfyngu gan gyflenwad llafur.

- Mae rhagolygon **gwaelodlin** yn awgrymu twf o tua **130 o swyddi y flwyddyn** (o fewn ystod o rhwng **67 a 198**). Mae'r rhain yn fwy cadarnhaol na'r rhagamcanion gwaelodlin cynharach a brynwyd i lywio iteriadau 2021 a 2022 o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth, a ragwelodd 27 a 32 o swyddi y flwyddyn yn y drefn honno.
- Yn y **deng mlynedd cyn y pandemig**, crëwyd **269 o swyddi y flwyddyn** ar gyfartaledd. Dros gyfnod o 20 mlynedd, mae hyn yn codi i 362.
- **Targed swyddi** presennol y Cyngor o fewn y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu yw **416 o swyddi y flwyddyn**, sy'n cael ei gyflwyno fel senario 'ar bolisi', yn seiliedig ar amcanestyniad demograffig sy'n tybio mwy o fudo i mewn a llai o allgymudo.

Mae amrywiaeth sylweddol rhwng y targed swyddi a'r waelodlin (er ei bod yn werth nodi'r gwahaniaeth rhwng y rhagolygon gwaelodlin diweddaraf a chynharaf, hyd yn oed wrth gymharu rhagamcanion Oxford Economics).

Ar gyfer 'rhagdybiaeth resymol' o fewn cyd-destun polisi-niwtral, rydym yn rhagdybio'r taflwybr hanesyddol deng mlynedd o tua **270 o swyddi y flwyddyn**. Fodd bynnag, gallai twf cyson gyda sylfaen busnesau bach Sir Fynwy ychwanegu at hyn – fel wrth gwrs y gallai sicrhau mudo i mewn cadarnhaol o fewn strategaeth twf y sir. **Felly ni ddylid ystyried hwn fel 'terfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghori fesul safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

# Casnewydd

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Mae'r darlun yng Nghasnewydd wedi bod yn llai cyson: yn dilyn twf ar ddechrau'r mileniwm, gwelwyd crebachu hirfaith yn nifer y swyddi rhwng 2006 a 2013. Yn dilyn hynny, mae perfformiad wedi bod yn llawer cryfach, gyda dychweliad sydyn i dwf. Felly mae'r duedd hanesyddol 20 mlynedd yn cuddio dau daflwybr gwahanol, fel y dengys Tabl 1:

**Tabl 27: Newid mewn swyddi, 1999-2019**

	Casnewydd		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	-196	-0.2	4,226	0.6
Newid 2009-2019	816	1.0	4,288	0.6
Newid 1999-2019	310	0.4	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	87,024		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar ddeinameg sectoraidd cyn-bandemig yn y farchnad swyddi. Gwelodd y 2000au cynnar golledion sylweddol mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda'r sector yn crebachu o tua 17,000 o swyddi ym 1999 i 9,000 yn 2009, gan gynnwys colli tua 1,300 o swyddi gyda chynhyrchu dur yn Llanwern yn dod i ben yn 2001. O ganlyniad, fe wnaeth cyfran gweithgynhyrchu o gyfanswm cyflogaeth ostwng o 21% i 12% dros y degawd. Ers hynny, mae cyflogaeth yn y sector wedi sefydlogi rhywfaint, er bod gostyngiad parhaus i tua 8,000 o swyddi erbyn 2019.

Mae'r colledion hyn mewn gweithgynhyrchu wedi'u gwrthbwysu gan dwf mewn meysydd megis trafndiaeth a logisteg, cyllid a gwasanaethau proffesiynol a busnes. Gwelodd y 2000au hefyd dwf cryf mewn gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys tua 1,000 o staff o ganlyniad i adleoli'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i Gasnewydd yn 2005)<sup>85</sup>.

<sup>85</sup> Er bod y tabl yn dangos gostyngiad sydyn mewn gwasanaethau ariannol, proffesiynol a busnes ym 1999-2009, mae hyn yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y swyddi yn 2008/09, a gafodd eu hadennill yn rhannol yn y flwyddyn ganlynol.

**Tabl 28: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019, swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-787	-125	-456
Adeiladu	-78	-17	-47
Trafnidiaeth a dosbarthu	17	243	130
Cyfanwerthu a manwerthu	142	29	85
Gwybodaeth a chyfathrebu	33	-99	-33
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	-239	501	131
Gwasanaethau cyhoeddus	686	1	344
Arall	31	280	155
<b>Cyfanswm</b>	<b>-196</b>	<b>816</b>	<b>310</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel waelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae'r ystod ar gyfer Casnewydd rhwng 157 a 460 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 331, sy'n cyd-fynd yn fras â'r duedd hanesyddol 20 mlynedd.

**Tabl 29: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Casnewydd	PRC
Cambridge Econometrics	375	3,023
Experian	460	2,520
Oxford Economics	157	1,773
Cyfartaledd	331	2,439

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Nododd trafodaeth flaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad pellach mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC yn ei gyfanrwydd), wedi'i wrthbwyso gan dwf parhaus mewn gweithgareddau gwasanaeth. Er gwaethaf gostyngiad mewn cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon gwaelodlin yn rhagweld cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, sy'n gyson â'r duedd tymor hwy:

**Tabl 30: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	Casnewydd, cyfanswm swyddi 2022	Casnewydd, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	8,030	-61	-675
Adeiladu	3,375	2	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	4,673	29	99
Cyfanwerthu a manwerthu	11,433	16	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	2,444	5	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	21,782	122	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	23,862	148	914
Arall	11,425	70	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>87,024</b>	<b>331</b>	<b>2,439</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Dylid nodi bod rhywfaint o amrywiaeth rhwng y tri rhagolwg gwaelodlin yng nghyfansoddiad twf y sector. Er enghraifft, mae Oxford Economics yn rhagweld crebachiad sydyn mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (colli 151 o swyddi y flwyddyn)<sup>86</sup>, tra bod Experian yn rhagweld twf cymedrol

<sup>86</sup> Nid yw'r rhagolygon gwaelodlin yn ddigon gronynnog i nodi tueddiadau is-sector. O fewn y sector gweithgynhyrchu, nodir bod tystiolaeth o dwf mewn rhai is-sectorau 'gwerth uwch' (gweler isod); yn gyffredinol, mae crebachiad cyflogaeth dros amser wedi digwydd yn rhannol oherwydd ymadawiad rhannol rhai sectorau traddodiadol (e.e. dur) ac yn rhannol oherwydd cynnydd mewn cynhyrchiant – sylwer fod allbwn gweithgynhyrchu rhanbarthol wedi codi dros amser mewn termau real, hyd yn oed wrth i gyflogaeth ostwng yn sylweddol.

yn y sector (13 swydd y flwyddyn). Mae disgwyliadau Experian o ran twf mewn trafndiaeth a dosbarthu a gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn uwch, gan ysgogi disgwyliadau twf uwch yn gyffredinol.

Gellir cymharu'r rhagolygon gwaelodlin hyn â dwy set arall o amcanestyniadau a baratowyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

- Ar gyfer *Adolygiad Tir Cyflogaeth Casnewydd*, a gwblhawyd yn 2022, cafwyd set o ragolygon gan Oxford Economics<sup>87</sup>. Roedd y rhain yn rhagweld colli 1,241 o swyddi rhwng 2021 a 2036 (h.y. -83 o swyddi y flwyddyn). Roedd hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan golledion mewn gweithgynhyrchu a gweinyddiaeth gyhoeddus, wedi'i wrthbwysu'n rhannol gan enillion mewn gwasanaethau iechyd, gweinyddol a chymorth, gwasanaethau proffesiynol a gwyddonol a lletygarwch.
- Ar gyfer yr *Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol Mwy na Lleol*, a gwblhawyd yn 2020 ac sy'n cwmpasu pum awdurdod Gwent, roedd Oxford Economics yn rhagweld twf o 3,384 yng Nghasnewydd yn 2018-40 (h.y. 154 o swyddi y flwyddyn)<sup>88</sup>. Paratowyd y rhagolygon hyn cyn y pandemig ac maent bellach wedi dyddio braidd (ac yn adlewyrchu rhagolygon byd-eang mwy optimistaidd ar y cyfan). Fodd bynnag, roedd y dosbarthiad sectoraidd eang yn gyson, gyda cholledion mawr mewn gweithgynhyrchu ac enillion mawr mewn gweinyddiaeth a chymorth iechyd a busnes.

Mae'r amrywiadau hyn mewn niferoedd swyddi cyffredinol yn amlygu'r graddau y mae rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn amrywio rhwng y tai rhagamcanu ac yn ôl blwyddyn y comisiwn ac yn dangos pwysigrwydd eu hystyried ochr yn ochr â ffynonellau gwybodaeth eraill.

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

Mae poblogaeth Casnewydd wedi tyfu'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf. Mae o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol ac yn elwa o'i lleoliad rhwng Bryste a Chaerdydd, gyda mynediad da at y rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd strategol. Mae ganddi hefyd stoc helaeth o safleoedd cyflogaeth mawr, gan gynnwys parciau busnes aml-feddianaeth megis Pentref Busnes Langstone a Celtic Springs, a safleoedd a feddiannir gan gyflogwyr sengl mawr (e.e. y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Mae'r ddinas wedi dod yn ganolfan bwysig ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â thechnoleg. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys y sector **lled-ddargludyddion cyfansawdd**, a nodir fel cryfder rhanbarthol strategol ac a angorir yng Nghasnewydd gan gwmnïau megis Nexperia (a brynwyd yn ddiweddar gan Vishay Intertechnology), IQE a KLA, yn ogystal â gan y Catapult Compound Semiconductor Applications cenedlaethol. Mae gan Gasnewydd hefyd bresenoldeb cynyddol mewn **gwyddor data** a seiberddiogelwch, gan gynnwys Academi Seiberddiogelwch Genedlaethol Prifysgol De Cymru a hyb seiberddiogelwch Airbus. Y tu hwnt i'r sector technoleg,

---

<sup>87</sup> BE Group (Chwefror 2022), [Adolygiad Tir Cyflogaeth Cyngor Dinas Casnewydd](#)

<sup>88</sup> BE Group (Mawrth 2020), *Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol Mwy na Lleol*. Roedd hyn yn cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen, yn ogystal â Chasnewydd.

mae gweithgarwch logisteg hefyd wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn gysylltiedig â lleoliad agos i'r M4 y ddinas.

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r weledigaeth a'r strategaeth economaidd gyffredinol, lleoliadau allweddol ar gyfer twf cyflogaeth, cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y Fargen Ddinesig a'r Parth Buddsoddi a safbwyntiau galw ehangach.

### **Strategaeth economaidd a tharged swyddi'r CDLI Newydd**

Mae Cyngor y Ddinas wrthi'n datblygu strategaeth economaidd newydd. O berthnasedd i dwf economaidd yn y dyfodol, mae *Strategaeth a Ffefrir* y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn nodi gweledigaeth o "*Ddinas strategol arwyddocaol a fydd yn cyfrannu at dwf cenedlaethol Cymru*", a "*Dinas sy'n ffynnu'n economaidd sy'n cefnogi ac yn denu busnes a diwydiant o bob maint, yn enwedig lle maent yn canolbwyntio ar arferion cynaliadwy, arloesol sy'n arwain yn dechnolegol, sy'n cyfrannu at feithrin gweithlu medrus a hyblyg*"<sup>89</sup>.

O ran twf cyflogaeth yn y dyfodol, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn gosod nod o 8,640 o swyddi rhwng 2021 a 2036 (h.y. 576 o swyddi y flwyddyn). Mae hyn yn deillio o strategaeth twf a arweinir gan anheddau sy'n seiliedig ar gyfraddau cyflawni yn y deng mlynedd cyn y pandemig, gyda'r nod o gefnogi twf parhaus.

### **Lleoliadau allweddol ar gyfer twf cyflogaeth**

#### ***Canol Dinas Casnewydd***

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi bod canol dinas Casnewydd wedi wynebu heriau yn y blynyddoedd diwethaf, yn gysylltiedig â'r newidiadau strwythurol yn y sector manwerthu sy'n effeithio ar lawer o ganolfannau. Fodd bynnag, argymhellodd yr *Astudiaeth Mwy na Lleol* y dylid cydnabod lle blaenllaw canol y ddinas o fewn isranbarth Gwent, gan nodi bod ganddi'r crynodiad uchaf o gyfleusterau 'uwch'<sup>90</sup>. Nododd hefyd fod ganddi'r potensial i gefnogi swyddfeydd Gradd A ychwanegol, pwynt a gydnabuwyd hefyd mewn adroddiad ar y farchnad eiddo masnachol a gwblhawyd ar gyfer Llywodraeth Cymru tua'r un pryd<sup>91</sup>. Nododd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth rai arwyddion cadarnhaol ar gyfer buddsoddi yng nghanol y ddinas, yn enwedig yng ngoleuni'r galw cynyddol am fannau gweithio hyblyg ar raddfa lai, er yn nodi pa mor agored yw hynny i benderfyniadau meddianwyr unigol<sup>92</sup>.

Yng nghanol y ddinas, mae cyfleoedd ar gyfer twf wedi'u canolbwyntio'n arbennig o amgylch **Porth y Gogledd**, gan gynnwys yr ardal o amgylch yr orsaf. Nodwyd hyn ym Mhrif Gynllun Canol

---

<sup>89</sup> Cyngor Dinas Casnewydd (Hydref 2023), [Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd: Strategaeth a Ffefrir](#), tud.15

<sup>90</sup> BE Group (2020), *Astudiaeth Mwy na Lleol*, tud.132

<sup>91</sup> SQW (2020), [Commercial Property: Market analysis and potential interventions](#)

<sup>92</sup> E.e. penderfyniad Admiral i adael ei swyddfeydd yng nghanol y ddinas yng ngoleuni arferion gwaith ôl-Covid

y Ddinas 2018, gyda chyfleoedd wedi'u hamlygu'n arbennig mewn perthynas â'r sector technoleg. Mae buddsoddiad diweddar yng nghanol dinas Casnewydd yn cynnwys Gorsaf Arloesedd Tramshed Tech a'r rhaglen 'Croesawu â Chymorth' gysylltiedig a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddwyr technoleg rhyngwladol. I'r de o ganol y ddinas, bydd datblygiad **Ardal Wybodaeth Casnewydd** yn gweld ehangu presenoldeb Prifysgol De Cymru, ynghyd â champws canol dinas newydd ar gyfer Coleg Gwent a chynnig hamdden ehangach.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu **Cynllun Creu Lleodedd** ar gyfer canol y ddinas. Y cynnig yw, y tu hwnt i rai o'r arwyddion marchnad tymor byr a amlygwyd yn yr ELR, y dylai canol y ddinas allu manteisio ar ei chysylltedd rheilffordd, cysylltiadau Metro posibl a'r sector technoleg sy'n tyfu i ddarparu ar gyfer gweithgaredd economaidd ychwanegol, gwerth uwch, gan atgyfnerthu (a chael ei atgyfnerthu gan) rôl canol y ddinas fel cyrchfan manwerthu a hamdden.

### **Safleoedd strategol**

Nododd yr *Astudiaeth Mwy na Lleol* ddeg 'safle cyflogaeth strategol' yn isranbarth Gwent, gyda hanner ohonynt yng Nghasnewydd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl isod:

**Tabl 31: Safleoedd cyflogaeth strategol yng Nghasnewydd**

Safle	Disgrifiad
Dyffryn / Parc Imperial	Mae Parc Imperial a safle 38.5ha cyfagos Dyffryn wedi'u lleoli yng ngorllewin Casnewydd, i'r de o'r A48. Mae Parc Imperial yn cynnwys y gwneuthurwr lled-ddargludyddion cyfansawdd IQE a'r Catapult Compound Semiconductor Applications; o fewn y sector hwn, mae KLA hefyd wedi datblygu gwaith ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu newydd ar y safle, sydd hefyd yn cynnwys gweithrediadau canolfan ddata mawr gyda lle i ehangu.
I'r dwyrain o Queensway Meadows	Safle 27ha gyda photensial ar gyfer defnydd logisteg
Solutia	Safle 40ha yn agos i weithrediad gweithgynhyrchu cemegau Eastman i'r de o ganol dinas Casnewydd, gyda lle i'r cwmni ehangu yn y dyfodol.
Parc Busnes Celtic	Parc logisteg a diwydiannol 29.5ha ar hen safle gwaith dur Llanwern, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan St Modwen
Europort Gwent	Safle 16ha yn agos i ardal gyflogaeth bresennol ac yn ymestyn i Sir Fynwy, gyda sgôp ar gyfer logisteg ar raddfa fwy a gweithgarwch diwydiannol arall.

*Ffynhonnell: Astudiaeth Mwy na Lleol Gwent; ELR Casnewydd*

Yn ogystal, yn ddiweddar cyhoeddodd Porthladdoedd ABP 'brif gynllun' newydd ar gyfer **Porthladd Casnewydd**, sy'n rhan o gyfres o strategaethau datblygu ar gyfer ei holl ddaliadau

porthladdoedd yn Ne Cymru<sup>93</sup>. Ar hyn o bryd, mae'r porthladd yn gweithredu fel hyb dur, metelau ac ailgylchu; mae'r prif gynllun yn rhagweld y caiff ei ddatblygu fel "porthladd logisteg diwydiannol wedi'i ddatgarboneiddio" a "hyb twf glân". Mae hyn yn cynnwys sgôp ar gyfer cynhyrchu hydrogen a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y Porthladd, yn ogystal â sgôp ar gyfer cyfleusterau cynhyrchu newydd a'r cyfle i ddarparu ar gyfer cychod mwy

### **Bargen Ddinesig, Parth Buddsoddi a buddsoddiad cyhoeddus arall**

Ar hyn o bryd mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru, Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin.

Yng Nghasnewydd, mae buddsoddiadau sylweddol presennol ac arfaethedig yn cynnwys:

- Parhau i fuddsoddi yn y **sector lled-ddargludyddion cyfansawdd** a gweithgareddau cysylltiedig. Y buddsoddiad gwerth £38 miliwn yn natblygiad ffatri newydd IQE ym Mharc Imperial oedd yr ymyriad mawr cyntaf drwy Gronfa Buddsoddi Ehangach PRC. Ategwyd hyn wedyn gan amrywiaeth o fentrau eraill i ddatblygu'r sector, gan gynnwys o UK Research and Innovation, gyda'r nod o adeiladu 'clwstwr'. Mae dadansoddiad diweddar o dwf cyflogaeth yn y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd yn amcangyfrif twf cyflogaeth net o 2% yng Nghymru rhwng 2021 a 2023: gyda'r cwmnïau mawr (Nexperia, IQE, KLA) i gyd wedi'u lleoli yng Nghasnewydd<sup>94</sup>.
- Yr **Ardal Fuddsoddi** newydd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023. Mae hwn yn becyn gwerth £160 miliwn o gymhellion treth seiliedig ar safle a buddsoddiad mewn seilwaith a gynlluniwyd i ddenu cyflogaeth gwerth uwch ac arloesedd. Mae 'Ardal Buddsoddi Caerdydd-Casnewydd' yn cynnwys cynnig diwydiannol sy'n ymwneud â'r sector lled-ddargludyddion cyfansawdd, sy'n adlewyrchu crynodiad Casnewydd o weithgarwch diwydiannol ac ymchwil a datblygu a sylfaen ymchwil Caerdydd, gyda lle i adfywio asedau eiddo presennol Llywodraeth y DU yn y Swyddfa Ystadegau ac Eiddo Deallusol Gwladol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu gweledigaeth y Parth Buddsoddi.

Mae ychwanegu potensial cyflogaeth buddsoddiadau rhanbarthol a gefnogir gan PRC a ffynonellau cyhoeddus eraill yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil sectoraidd buddsoddiadau penodol yn

---

<sup>93</sup> ABP (Chwefror 2024), [Porthladdoedd y Dyfodol: Casnewydd](#)

<sup>94</sup> CSCConnected/ Prifysgol Caerdydd (Chwefror 2024), [Adroddiad Blynyddol: Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn Ne Cymru](#)

awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 262 o swyddi y flwyddyn yng Nghasnewydd (593 pe baent yn ychwanegol at y waelodlin a nodir uchod). Dylid, fodd bynnag, ystyried hyn yn dybiannol.

Ar wahân, roedd yr ELR yn cynnwys rhagolwg galw am lafur 'ar bolisi' a oedd yn gysylltiedig â chyflawni targed swyddi PRC. Deilliodd hyn o hen ragamcanion gwaelodlin Oxford Economics o 2021, gydag addasiadau'n cael eu gwneud fesul sector ar gyfer y prosiectau hynny a oedd yn debygol o gael eu cefnogi drwy'r Fargen Ddinesig. Roedd hyn yn creu 7,397 o swyddi ychwanegol rhwng 2021 a 2036 (h.y. 493 o swyddi y flwyddyn). Er bod hyn yn is na'r targed swyddi seiliedig ar anheddau a gynhwysir yn y Strategaeth a Ffefrir, mae'n sylweddol uwch na'r waelodlin.

### **Safbwyntiau ehangach ynghylch galw**

Mewn ymgynghoriad, roedd swyddogion awdurdodau lleol o'r farn bod y rhagolygon ar gyfer economi Casnewydd yn gryf, gan adlewyrchu cyfuniad o gyfleoedd yn y sectorau technoleg a amlygwyd uchod ac effeithiau cadarnhaol tebygol twf yng Nghaerdydd a Bryste ar Gasnewydd. Amlygodd yr Adroddiad Monitro Blyneddol diweddaraf gynnydd da wrth ddatblygu tir cyflogaeth o flaen y targed, gyda chyfanswm twf cyflogaeth hefyd o flaen targed y CDLI. Gwelodd yr ymgynghoriad busnes fel rhan o'r ELR rywfaint o dyndra yn y farchnad lafur, gyda'r ymatebwyr yn nodi heriau o ran recriwtio'r gweithlu.

O ran teimlad y farchnad, nododd yr ELR y canlynol:

- Rhagolygon ar gyfer twf ym maes **logisteg**, gyda disgwyl i'r farchnad ymateb i fwy o sicrwydd yn dilyn canslo Ffordd Liniaru'r M4, a'r galw yn debygol o ganolbwyntio i'r dwyrain o Fryn Glas. Fodd bynnag, nododd yr ELR rhagolygon gwannach ar gyfer Casnewydd nag ar gyfer Avonmouth/ M5 o ran denu gweithrediadau ar raddfa fwy.
- Galw **diwydiannol** cryf, gan gynnwys am ganolfannau data, a "*lefel gadarnhaol o alw mwy lleol gyda diddordeb brwd mewn unedau llai 2,000 – 5,000 troedfedd sgwâr*", sy'n adlewyrchu'r darlun ar draws De Cymru.
- Marchnad fywiog ar gyfer **swyddfeydd** y tu allan i'r dref, ac "arwyddion cadarnhaol", yng nghanol y ddinas, er gwaethaf safle eilaidd canol y ddinas o gymharu â Chaerdydd a Bryste.

### **Nodi lefel resymol o dwf**

Mae'r trosolwg hwn yn dangos economi gyffredinol gryf yng Nghasnewydd, gyda rhagolygon cadarnhaol ar gyfer twf. Yn gryno:

- Mae rhagolygon **gwaelodlin** yn awgrymu twf o tua **331 o swyddi y flwyddyn** (o fewn ystod o rhwng **157 a 460**). Mae'r rhain yn cymharu â rhagolwg gwaelodlin o **215** o swyddi y flwyddyn a baratowyd i lywio'r Adolygiad Tir Cyflogaeth.

- Yn y **deng mlynedd cyn y pandemig**, crëwyd **816 o swyddi y flwyddyn** ar gyfartaledd. Dros gyfnod o 20 mlynedd, mae hyn yn disgyn i **310**, gydag enillion diweddarach yn gwrthbwysio crebachiad yng nghyfanswm cyflogaeth yn y 2000au cynnar.
- **Targed swyddi** presennol y Cyngor yn y CDLI Newydd sy'n cael ei ddatblygu yw **576 o swyddi y flwyddyn**, sy'n seiliedig ar senario seiliedig ar anheddau. Yn ogystal, datblygwyd **senario 'ar bolisi'** fel rhan o'r ELR, yn seiliedig ar gyfran bosibl y ddinas o ymyriadau Bargen Ddinesig PRC, a oedd yn cynhyrchu **493 o swyddi y flwyddyn**. Roedd dull tebyg a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymarfer hwn yn awgrymu bod potensial ar gyfer **593** o swyddi y flwyddyn.

Mae buddsoddiadau sylweddol hefyd yn digwydd yng Nghasnewydd a allai, dros amser, arwain at fwy o alw am gyflogaeth. Mae rhai o'r rhain yn arwyddocaol yn rhanbarthol, ac mae'n werth nodi aliniad agos (er enghraifft) y Parth Buddsoddi, y Fargen Ddinesig a buddsoddiad UKRI i ddarparu dull cydgysylltiedig ar gyfer datblygu diwydiant twf o bwysigrwydd rhanbarthol.

Mae triogli'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth hyn yn awgrymu y byddai'n rhesymol rhagweld twf uwchlaw'r waelodlin. Gan gymryd cyfartaledd y waelodlin, y tueddiadau hanesyddol deng mlynedd ac ugain mlynedd a tharged y Cyngor a senario 'twf Bargen Ddinesig' yw **509 o swyddi y flwyddyn**.

Dylid nodi, er bod tua 509 o swyddi y flwyddyn yn rhesymol a bod 'llwybr' i'w gyflawni, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghori fesul safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

# Rhondda Cynon Taf

## Ystyried y duedd hanesyddol

Yn yr 20 mlynedd yn arwain at y pandemig, gwelodd PRC gynnydd cyson yn nifer y swyddi. Gwelodd Rhondda Cynon Taf dwf hefyd, er yn arafach o lawer. Fodd bynnag, yn ystod y degawd wedi'r argyfwng ariannol gwelwyd twf swyddi cryfach nag yn y 2000au cynnar, a thyfodd y stoc amcangyfrifedig o swyddi hefyd yn 2019-22, er gwaethaf y dirywiad economaidd a achoswyd gan Covid-19.

**Tabl 32: Newid mewn swyddi, 1999-2019**

	Rhondda Cynon Taf		PRC	
	JPA	CAGR, %	JPA	CAGR, %
Newid 1999-2009	68	0.1	4,226	0.6
Newid 2009-2019	235	0.3	4,288	0.6
Newid 1999-2019	151	0.2	4,257	0.6
Rhagamcaniad cyfanswm swyddi 2022	92,952		739,285	

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. CAGR = cyfradd twf blynyddol cyfansawdd. JPA = swyddi y flwyddyn*

Mae Tabl 2 yn edrych yn agosach ar ddeinameg sectoraidd cyn-bandemig yn y farchnad swyddi. Gwelodd y 2000au cynnar golledion sylweddol mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu, gyda'r sector yn crebachu o tua 21,000 o swyddi ym 1999 i 12,000 yn 2009. O ganlyniad, gostyngodd cyfran gweithgynhyrchu y cyfanswm cyflogaeth o 25% i 14% dros y degawd. Ers hynny, mae cyflogaeth yn y sector wedi sefydlogi rhywfaint, er gyda chrebachiad parhaus i tua 11,000 o swyddi erbyn 2019. Mae'r colledion hyn mewn gweithgynhyrchu wedi'u gwrthbwyso gan dwf mewn meysydd megis gwasanaethau gweinyddol a chymorth, gweithgareddau sy'n ymwneud â lletygarwch a (dros y tymor hwy) gwasanaethau cyhoeddus.

**Tabl 33: Newid mewn swyddi fesul sector, 1999-2019, swyddi y flwyddyn**

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gweithgynhyrchu	-897	-120	-509
Adeiladu	-22	64	21
Trafnidiaeth a dosbarthu	187	-85	51
Cyfanwerthu a manwerthu	93	47	70
Gwybodaeth a chyfathrebu	24	38	31

	1999-2009	2009-2019	1999-2019
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	332	196	264
Gwasanaethau cyhoeddus	394	-133	130
Arall	-43	225	91
<b>Cyfanswm</b>	<b>68</b>	<b>235</b>	<b>151</b>

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW. Nid yw colofnau yn gwneud union gyfanswm oherwydd talgrynnu yn yr amcangyfrifon sectoraidd*

## Nodi lefel waelodlin twf

Gan edrych i'r dyfodol, tri rhagolwg, gan Cambridge Econometrics, Experian ac Oxford Economics, ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023. Yn y tymor byr (hyd at 2025) mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y rhagolygon, gan adlewyrchu ansicrwydd yng ngoleuni canlyniad hir pandemig Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn 2022, blwyddyn olaf o ddata 'real' yn y model rhagolwg) a'r argyfwng ynni wedi hynny a'r gwrthdaro yn Wcráin.

Yn y tymor hwy, rhwng 2025 a 2040, mae mwy o gonsensws ar lefel ranbarthol ynghylch nifer y swyddi y flwyddyn y gellir eu cyflawni. Mae'r ystod ar gyfer Rhondda Cynon Taf rhwng 104 a 313 o swyddi y flwyddyn, gyda chyfartaledd o 223 (ychydig yn is na chyfradd twf swyddi yn y cyfnod 2009-19).

**Tabl 34: Rhagolygon gwaelodlin (swyddi y flwyddyn, 2025-40)**

	Rhondda Cynon Taf	PRC
Cambridge Econometrics	313	3,023
Experian	253	2,520
Oxford Economics	104	1,773
Cyfartaledd	223	2,439

*Ffynhonnell: CE/ Experian/ Oxford Economics; dadansoddiad SQW*

Nododd trafodaeth flaenorol gyda SEWPG fod y cyfartaledd yn cynrychioli gwaelodlin resymol ar lefel ranbarthol.

O ddadansoddi'r rhagolygon gwaelodlin fesul grŵp sector cyffredinol, mae dirywiad pellach mewn cyflogaeth gweithgynhyrchu (yn gyson â'r darlun gwaelodlin ar gyfer PRC yn ei gyfanrwydd), wedi'i wrthbwyso gan dwf parhaus mewn gweithgareddau gwasanaeth, gyda'r sector cyfanwerthu a manwerthu yn aros yn sefydlog. Er gwaethaf gostyngiad mewn cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon gwaelodlin yn rhagweld cynnydd mewn gweithgareddau gwasanaethau cyhoeddus, yn gyson â'r duedd tymor hwy:

**Tabl 35: Dadansoddiad sectoraidd o'r rhagolwg gwaelodlin (yn seiliedig ar gyfartaledd y rhagolygon)**

	RhCT, cyfanswm swyddi, 2022	RhCT, JPA, 2025-40	PRC, JPA, 2025-40
Gweithgynhyrchu	11,373	-95	-675
Adeiladu	7,889	30	158
Trafnidiaeth a dosbarthu	3,526	18	99
Cyfanwerthu a manwerthu	14,821	0	164
Gwybodaeth a chyfathrebu	1,473	6	133
Gwasanaethau ariannol, busnes a phroffesiynol	12,751	69	1,022
Gwasanaethau cyhoeddus	28,751	126	914
Arall	12,481	69	624
<b>Cyfanswm</b>	<b>92,885</b>	<b>223</b>	<b>2,439</b>

Mae'r rhagolygon gwaelodlin hyn ychydig yn fwy 'optimistaidd' na'r rhagamcanion gwaelodlin a ddefnyddiwyd i gefnogi *Astudiaeth Tir Cyflogaeth Bro Morgannwg*, a gwblhawyd yn 2023<sup>121</sup>. Defnyddiodd hyn ragolygon a gomisiynwyd gan Oxford Economics, a ragwelodd gyfanswm twf cyflogaeth o 463 rhwng 2021 a 2036 (h.y. 31 o swyddi y flwyddyn), gyda thwf yn canolbwyntio ar iechyd, llety a bwyd a gwasanaethau proffesiynol a gwyddonol, wedi'i wrthbwysu gan grebachu mewn gweithgynhyrchu, gweinyddiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth a logisteg. Mae hyn yn amlygu i ba raddau y mae rhagamcanion y dyfodol yn amrywio rhwng tai rhafynegi ac yn ôl blwyddyn y comisiwn; nododd yr *Astudiaeth Tir Cyflogaeth* hefyd yr amrywiaeth rhwng twf rhagolwg gwaelodlin a phrofiad diweddar, fel y dengys y data uchod.

<sup>121</sup> BE Group (Mawrth 2023), [Astudiaeth Tir Cyflogaeth Bro Morgannwg](#)

## Rhagolygon ar gyfer twf yn y dyfodol

### Buddsoddiad mawr wedi'i gynllunio a buddsoddiad posibl

Ar hyn o bryd mae rhaglen fuddsoddi sylweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys darparu rhwydwaith Metro De Cymru, Cronfa Fuddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chynlluniau strategol eraill megis y Parth Buddsoddi o amgylch Casnewydd. Er nad yw hyn o reidrwydd yn 'ychwanegol' i'r waelodlin (gan fod buddsoddiad cyhoeddus wedi bod mewn datblygu economaidd yn y rhanbarth ers blynyddoedd lawer, ac y gellid yn rhesymol ddisgwyl y byddai hyn yn parhau mewn unrhyw senario), mae'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth ranbarthol a'r 'targed swyddi' o 25,000 sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig yn awgrymu bod llwybr at dwf uwchlaw'r waelodlin.

Ym Mro Morgannwg, mae nifer o fuddsoddiadau mawr wedi'u cynllunio (a buddsoddiadau sydd ar y gweill, ond nad ydynt eto wedi cyflawni eu llawn botensial o ran twf cyflogaeth). Mae'r rhain yn cynnwys:

### *Maes Awyr Caerdydd, Bro Tathan a Fferm Model*

Mae Bro Tathan yn safle 486 hectar ar hen dir y Weinyddiaeth Amddiffyn, ger Maes Awyr Caerdydd. Mae Polisi 10 *Cymru'r Dyfodol* yn cydnabod rôl strategol genedlaethol Maes Awyr Caerdydd, ac mae hefyd yn amlygu rôl Bro Tathan fel un sy'n cynnig ystod eang o safleoedd datblygu a llety busnes. Yn 2012, dynodwyd Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd ei hun gyda'i gilydd yn Ardal Fenter. Mae Bro Tathan yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac yn cael ei reoli ganddi, tra bod rhan o'r Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd mewn perchnogaeth luosog, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg a'r sector preifat<sup>122</sup>.

Ym **Mro Tathan**, mae'r prif feddianwyr presennol yn cynnwys y gwneuthurwr ceir Aston Martin Lagonda (gyda thua 700 o swyddi) a'r cwmnïau cynnal a chadw awyrennau Caerlav ac eCube Solutions, ynghyd â nifer o fusnesau eraill, technoleg a pheirianeg yn bennaf<sup>123</sup>.

Tra bod buddsoddiad masnachol sylweddol wedi dod ymlaen, bu rhai colledion swyddi oedd wedi'u cynllunio ym Mro Tathan, wrth i'r gweithgareddau amddiffyn ar y safle grebachu (er enghraifft, gydag adleoli ysgol hyfforddi'r Awyrlu yn ddiweddar)<sup>124</sup>. Fodd bynnag, mae cais cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer canolfan ddata 67,227 metr sgwâr ar blot olaf rhan ogleddol y safle, a disgwylir iddo greu 120 o swyddi. Ar draws safle Bro Tathan, gan gynnwys y tir sydd ar fin cael ei wagio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, mae asiantau Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif capasiti posibl (yn seiliedig ar ganiatadau presennol a safleoedd sy'n debygol o ddod

---

<sup>122</sup> Noder nad oes unrhyw gymhellion treth Ardaloedd Menter yn berthnasol i'r safle ar hyn o bryd, er ei fod yn parhau i fod yn flaenoriaeth buddsoddi gan Lywodraeth Cymru.

<sup>123</sup> Bro Tathan ([brotathan.wales](https://www.brotathan.wales)); BE Group (2023), *Astudiaeth Tir Cyflogaeth*

<sup>124</sup> Mae'r *Astudiaeth Tir Cyflogaeth* yn nodi gostyngiad a ragwelir o tua 1,200 ar y safle i tua 420 pan fydd yr Awyrlu yn gadael erbyn diwedd 2023/24.

ymlaen) ar gyfer tua 10,200 o swyddi dros gyfnod y CDLI Newydd hyd 2036<sup>125</sup>. Mae hyn hefyd yn debygol o gynnwys rhai gwasanaethau ychwanegol, yn ogystal â chyflogaeth ddiwydiannol<sup>126</sup>.

Dylid ystyried y niferoedd hyn yn ddangosol iawn: maent yn seiliedig ar arwynebedd llawr posibl a dwyseddau swyddi safonol, er bod dwyseddau swyddi mewn 'gweithgynhyrchu gwerth uchel' yn debygol o fod yn is nag mewn rhannau eraill o'r sector gweithgynhyrchu (er ar lefelau uwch o gynhyrchiant a chyflogau).

Yn ogystal, mae buddsoddiad wedi'i ymrwymo mewn Canolfan Technoleg Uwch newydd i'w darparu gan Goleg Caerdydd a'r Fro ar ran Maes Awyr Caerdydd o'r Ardal Fenter.

I'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd, mae **Model Farm** wedi bod yn destun cynigion blaenorol ar gyfer parc busnes 45 hectar. Mae'r ELS yn nodi bod diddordeb gan fuddsoddwyr o hyd mewn cyflawni hyn mewn cynllun a allai o bosibl ategu'r gweithgaredd a nodwyd yn gynharach ym Mro Tathan. Mae cais cynllunio ar gyfer y parc busnes ar hyn o bryd yn destun apêl cynllunio am fethu penderfynu.

### **Aberddawan**

Safle 198 hectar yw Aberddawan sydd wedi'i leoli i'r dwyrain o Faes Awyr Caerdydd a Bro Tathan, ac yn cynnwys gorsaf bŵer glo a ddatgomisiynwyd a chyfleusterau cysylltiedig, gyda mynediad rheilffordd. Yn 2022, fe'i prynwyd gan PRC Energy (cyfrwng at ddibenion arbennig sy'n eiddo i'r deg awdurdod lleol PRC), gan ddefnyddio cronfeydd y Fargen Ddinesig.

Mae Aberddawan yn cynnig nifer o gyfleoedd, o gofio'i chysylltiadau â'r grid trydan, mynediad rheilffordd a stoc o dir y gellir ei ddatblygu. Mae PRC yn disgrifio Aberddawan fel un sy'n cynnig y potensial i ddod yn "glwstwr gweithgynhyrchu di-garbon"<sup>127</sup>, gyda'r prif gynllun sy'n dod i'r amlwg yn nodi cwmpas ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag ynni, megis cynhyrchu pŵer adnewyddadwy a storio a gweithgynhyrchu batris, ochr yn ochr â defnyddiau cyflogaeth eraill<sup>128</sup>. Ar y cyfan, mae PRC yn amcangyfrif y gallai'r safle greu hyd at 5,000 o swyddi.

Er bod buddsoddiad mawr bellach wedi'i ymrwymo i'r safle a bod gwaith yn mynd rhagddo, mae gwybodaeth am gynhyrchu cyflogaeth yn y dyfodol yn parhau i fod ar lefel uchel, mae'r ystod o ddefnyddiau posibl yn eithaf eang a bydd y prosiect yn un hirdymor. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o alw am safleoedd mawr â chysylltiadau da sy'n addas ar gyfer gweithgynhyrchu

---

<sup>125</sup> Gohebiaeth gan Carney Sweeney i Gyngor Bro Morgannwg (Awst 2023)

<sup>126</sup> Mae'r ELS yn nodi'r diffyg darpariaeth gwasanaeth presennol ym Mro Tathan fel rhwystr posibl rhag denu buddsoddiad.

<sup>127</sup> Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (2022)

<sup>128</sup> The Urbanists/ PRC Energy (2023), The Leys, Aberddawan: Prif Gynllun [Drafft]

uwch carbon isel (gweler, er enghraifft, fuddsoddiad diweddar Jaguar Land Rover yn safle Gravity yng Ngwlad yr Haf ar gyfer cynhyrchu batris)<sup>129</sup>.

### ***Buddsoddiadau posibl mawr eraill***

Y tu hwnt i'r ddau gynllun hyn sydd o arwyddocâd rhanbarthol, mae buddsoddiadau mawr eraill sydd â'r potensial i greu cyflogaeth ychwanegol sylweddol yn cynnwys:

- **Datblygiad gerllaw Renishaw:** Cwmni datblygu a gweithgynhyrchu meddalwedd yw Renishaw, sy'n creu technoleg fanwl iawn ar gyfer mesureg a gofal iechyd. Ar hyn o bryd mae gan y cwmni ffatri a chyfleuster Ymchwil a Datblygu ar Gyffordd 34 yr M4 ger Hensol, sy'n cyflogi tua 650 o bobl. Yn 2022, cyhoeddodd Renishaw raglen ehangu ar safle Hensol, a fydd yn rhedeg tan ddiwedd 2024. Yn ogystal, mae caniatâd cynllunio sydd wedi dod i ben, sy'n destun cais am estyniad amser, ar gyfer datblygiad ar 50 hectar pellach, a allai o bosibl gefnogi'r gadwyn gyflenwi a gweithgarwch perthnasol arall. Mae'r ELS yn cyfeirio at sgôp ar gyfer "450-500" o swyddi ychwanegol o fewn y caniatadau presennol: nid yw graddfa'r swyddi a gynhyrchir ar y safle cyfagos yn glir, er bod y Cyngor yn adrodd bod dal diddordeb gan Renishaw i'w datblygu.
- **Datblygiadau yn y Barri:** Fel y nodwyd mewn manau eraill yn Ne Cymru, mae ABP yn ceisio cymryd agwedd fwy rhagweithiol at ddatblygu ei ddaliadau porthladd, gan gynnwys drwy eu defnyddio ar gyfer cyfleoedd diwydiannol carbon isel. Yn y Barri, mae *Gweledigaeth Porthladdoedd y Dyfodol* ABP yn cynnwys 'Hyb Twf Glân' ochr yn ochr â'r safle cemegau sy'n eiddo i Dow ac yn cynnwys gweithrediadau Dow a gweithgareddau cwmnïau cemegau eraill. Mae'r *Weledigaeth* yn disgrifio uchelgais i "*ailadeiladu lefelau gweithgaredd safle i'r defnyddiau dwysach a welwyd yn y 1970au, ond gyda ffocws ar weithgynhyrchu di-garbon neu garbon isel yn hytrach na phetrocemegol*", gyda lle i gynhyrchu ynni, mewnforio hydrogen a chyfleuster dal, defnyddio a storio carbon arfaethedig<sup>130</sup>.

Mae *Cynllun Buddsoddi* Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn amlygu ffocws cychwynnol ar y Barri, gan gynnwys trwy brosiectau i gyflwyno arloesi a lle i 'dyfu', yn gysylltiedig â'r strategaeth creu lleoedd ehangach ar gyfer y dref<sup>131</sup>.

- **Parc Bwyd De Ddwyrain Cymru:** Adroddir bod prinder unedau ffatri ar gyfer cynhyrchu bwyd, o fewn sector sydd wedi profi twf yn y blynyddoedd diwethaf<sup>132</sup>. O ganlyniad, mae sawl cynnig wedi'u datblygu yng Nghymru ar gyfer parciau cynhyrchu bwyd, ac mae

---

<sup>129</sup> Mae tystiolaeth hefyd o ymholiadau perthnasol yn y cyffiniau (e.e. diddordeb blaenorol British Volt ym Mro Tathan).

<sup>130</sup> ABP, [Future Ports Barry: Triggering a virtuous growth cycle for the town and Port](#)

<sup>131</sup> Cyngor Bro Morgannwg (2023), *Strategaeth a Chynllun Buddsoddi y tu allan i'r Trysorlys*

<sup>132</sup> Prifysgol Metropolitan Caerdydd, a ddyfynnir yn yr ELS

trafodaethau wedi'u datblygu mewn perthynas â chyfleuster parc busnes gwledig yn y Bont-faen. Mae'n bosibl y gallai hyn fod ar raddfa 'ranbarthol'<sup>133</sup>.

### **Targed twf cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

Yn seiliedig ar gyfraddau defnydd blynyddol cyfartalog ar gyfer 1996-2021, nododd yr ELS ofyniad tir o 67.8 hectar yn 2021-36. Roedd trosi hyn yn swyddi yn seiliedig ar dybiaethau dosbarth defnydd a dwyseddau cyflogaeth safonol yn rhoi capasiti amcangyfrifedig ar gyfer 5,338 o swyddi dros gyfnod y CDLI Newydd (h.y. 356 o swyddi y flwyddyn). Mae hyn wedi'i gynnwys fel 'targed' twf cyflogaeth yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd<sup>134</sup>.

### **Nodi lefel resymol o dwf**

Mae'r trosolwg o gyfleoedd mawr uchod yn dangos bod potensial sylweddol ar gyfer twf cyflogaeth o fewn y sir, a bod llawer o hyn yn debygol o gael ei ysgogi gan fuddsoddiadau strategol ar raddfa ranbarthol, yn ogystal â thwf cynyddol. Er mai megis dechrau y mae rhai o'r datblygiadau hyn o hyd (er enghraifft, efallai na wyddys am beth amser beth fydd natur y gwaith o greu swyddi yn Aberddawan yn y pen draw), mae potensial am newid yn nhaflywybr cyflogaeth yn y Fro. Mae tystiolaeth hefyd fod twf cyflogaeth diweddar wedi bod yn gryfach nag y bu dros y tymor hwy, gyda chyflogaeth gweithgynhyrchu yn sefydlogi yn dilyn rhai colledion swyddi mawr yn y 2000au cynnar.

Mae hyn yn awgrymu y gallai twf cyflogaeth hyd at 2040 fod yn sylweddol uwch na'r waelodlin, sydd (ar gyfartaledd y tri rhagolwg) ond yn rhagweld hanner lefel y twf cyflogaeth a brofwyd yn y deng mlynedd hyd at y pandemig.

Mae penderfynu ar faint y twf posibl hwn yn heriol: fel y nodwyd uchod, mae dwyseddau cyflogaeth mewn rhai gweithgareddau gweithgynhyrchu uwch yn debygol o fod yn is nag a dybiwyd yn hanesyddol, ac ni fydd yr holl dwf cyflogaeth yn cael ei gyflawni yn y cyfnod hyd at 2040. Fodd bynnag:

- Mae'r amcangyfrif ar sail capasiti a nodwyd yn yr ELS a thuedd hanesyddol deng mlynedd (2009-2019) yn awgrymu bod potensial ar gyfer tua 350 o swyddi y flwyddyn (346 a 356 yn y drefn honno)
- Mae ychwanegu potensial cyflogaeth y buddsoddiadau rhanbarthol hynny a gefnogir gan PRC a buddsoddiad cyhoeddus rhanbarthol arall yn awgrymu bod lle ar gyfer tua 1,600 o swyddi y flwyddyn dros y waelodlin ar draws y rhanbarth. Er y dylid ystyried hyn yn ddangosol iawn, mae dosraniad bras fesul awdurdod lleol sy'n rhoi cyfrif am leoliad a phroffil

---

<sup>133</sup> Mae'r ELS yn nodi trafodaethau blaenorol ag awdurdodau lleol mewn manau eraill yn PRC, ac yn awgrymu y gallai maint parc bwyd yn y Bont-faen fod tua 3.2ha.

<sup>134</sup> Cyngor Bro Morgannwg (2023), [Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Strategaeth a Ffefrir](#). Gweler Polisi SP1, tud.63

sectoraidd buddsoddiadau penodol yn awgrymu bod *potensial* ar gyfer tua 368 o swyddi y flwyddyn yn y Fro (238 dros y waelodlin)<sup>135</sup>.

Ymddengys ei bod yn rhesymol tybio bod twf yn y dyfodol yn debygol o fod yn gyfartal neu'n fwy na'r taflwybr hanesyddol diweddar a'r dadansoddiad yn yr ELS, gan nodi bod yr ELS o gyfnod diweddar. O ystyried buddsoddiad rhanbarthol posibl, a gan nodi peth gofal ynghylch amseriad a dwysedd swyddi'r prosiectau mawr, **mae twf o tua 370 o swyddi y flwyddyn yn debygol o fod yn rhesymol**. Mae'n bosibl hefyd y bydd hyn yn golygu gwrthdroi rhywfaint ar y duedd hanesyddol tuag at golledion yn y sector gweithgynhyrchu, o ystyried ffocws y buddsoddiad posibl ym Mro Tathan ac mewn mannau eraill.

Dylid nodi, er bod 370 o swyddi y flwyddyn yn rhesymol a bod 'llwybr' clir i'w gyflawni, **nid yw'n 'derfyn uchaf'**: er enghraifft, efallai y bydd amcanion polisi ehangach y mae'r awdurdod lleol yn dymuno eu hystyried (megis yr angen am fwy o gyflogaeth leol i gefnogi lefelau uwch o weithgarwch economaidd). Nid yw chwaith yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth ac ymgynghori fesul safle a fyddai'n cael eu hystyried mewn astudiaeth fanwl ar lefel leol.

---

<sup>135</sup> Datblygwyd senario arall hefyd a oedd yn addasu ar gyfer colli llai o swyddi (o gymharu â'r waelodlin) mewn gweithgynhyrchu, a thwf uwch i adlewyrchu'r duedd hanesyddol ddiweddar mewn gwasanaethau busnes a phroffesiynol. Arweiniodd hyn at 426 o swyddi'r flwyddyn, er ei bod yn debygol y bydd y buddsoddiadau rhanbarthol posibl yn cael eu cyfrif ddwywaith yn hyn.

## **Atodiad 3: Allbynnau Senario Awdurdod POPGROUP**

## Blaenau Gwent

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	67,014	72,230	5,216	7.8%	488	31,242	34,132	2,889	9.2%	30,242	32,801	2,558	8.5%	20,756	22,512	1,756	8.5%	98	1.03	100	1,800
Twf Swyddi Gwaelodlin	67,014	67,175	161	0.2%	234	31,242	31,419	177	0.6%	30,242	30,194	-49	-0.2%	20,756	20,723	-33	-0.2%	-2	1.03	-2	-34
Hirdymor Twf y Gorffennol	67,014	66,610	-404	-0.6%	208	31,242	31,148	-94	-0.3%	30,242	29,933	-309	-1.0%	20,756	20,544	-212	-1.0%	-12	1.03	-12	-217
Tymor Byr Twf y Gorffennol	67,014	65,324	-1,690	-2.5%	152	31,242	30,222	-1,020	-3.3%	30,242	29,043	-1,199	-4.0%	20,756	19,933	-823	-4.0%	-46	1.03	-47	-844
LIC-2018	69,548	69,157	-391	-0.6%	219	32,468	32,076	-393	-1.2%	31,429	30,825	-605	-1.9%	21,571	21,156	-415	-1.9%	-23	1.03	-24	-425

## Pen-y-bont ar Ogwr

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	146,136	161,426	15,290	10.5%	1,294	70,490	78,648	8,158	11.6%	68,304	76,131	7,826	11.5%	60,859	67,832	6,973	11.5%	387	1.03	400	7,200
Twf Swyddi Gwaelodlin	146,136	152,105	5,969	4.1%	822	70,490	73,499	3,010	4.3%	68,304	71,147	2,843	4.2%	60,859	63,392	2,533	4.2%	141	1.03	145	2,615
Hirdymor Twf y Gorffennol	146,136	155,112	8,976	6.1%	973	70,490	75,145	4,656	6.6%	68,304	72,741	4,436	6.5%	60,859	64,812	3,953	6.5%	220	1.03	227	4,081
Tymor Byr Twf y Gorffennol	146,136	153,816	7,680	5.3%	911	70,490	73,985	3,495	5.0%	68,304	71,617	3,313	4.9%	60,859	63,811	2,952	4.9%	164	1.03	169	3,048

LIC-2018	147,892	157,328	9,436	6.4%	977	71,125	75,211	4,086	5.7%	68,920	72,805	3,885	5.6%	61,407	64,868	3,461	5.6%	192	1.03	199	3,574
----------	---------	---------	-------	------	-----	--------	--------	-------	------	--------	--------	-------	------	--------	--------	-------	------	-----	------	-----	-------

### Caerffili

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl d	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	176,130	184,164	8,034	4.6%	833	84,593	89,638	5,045	6.0%	81,632	86,590	4,958	6.1%	68,475	72,634	4,159	6.1%	231	1.03	238	4,284
Twf Swyddi Gwaelodlin	176,130	177,547	1,417	0.8%	501	84,593	85,934	1,341	1.6%	81,632	83,012	1,380	1.7%	68,475	69,633	1,158	1.7%	64	1.03	66	1,192
Hirdymor Twf y Gorffennol	176,130	178,970	2,840	1.6%	570	84,593	86,699	2,106	2.5%	81,632	83,751	2,119	2.6%	68,475	70,253	1,777	2.6%	99	1.03	102	1,831
Tymor Byr Twf y Gorffennol	176,130	171,687	-4,443	-2.5%	211	84,593	82,967	-1,626	-1.9%	81,632	80,146	-1,486	-1.8%	68,475	67,229	-1,247	-1.8%	-69	1.03	-71	-1,284
LIC-2018	182,060	184,340	2,281	1.3%	354	87,553	88,490	938	1.1%	84,488	85,482	993	1.2%	70,871	71,704	833	1.2%	46	1.03	48	858

### Caerdydd

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl d	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	372,089	417,511	45,422	12.2%	1,464	195,381	227,192	31,811	16.3%	187,370	218,104	30,734	16.4%	228,214	265,647	37,433	16.4%	2,080	1.04	2,173	39,114
Twf Swyddi Gwaelodlin	372,089	396,237	24,148	6.5%	427	195,381	214,334	18,953	9.7%	187,370	205,761	18,390	9.8%	228,214	250,613	22,399	9.8%	1,244	1.04	1,300	23,405
Hirdymor Twf y Gorffennol	372,089	392,154	20,065	5.4%	209	195,381	211,740	16,359	8.4%	187,370	203,270	15,900	8.5%	228,214	247,580	19,366	8.5%	1,076	1.04	1,124	20,236

Tymor Byr Twf y Gorffennol	372,089	405,001	32,912	8.8%	804	195,381	218,480	23,100	11.8%	187,370	209,741	22,371	11.9%	228,214	255,461	27,248	11.9%	1,514	1.04	1,582	28,471
LIC-2018	368,090	386,861	18,771	5.1%	62	192,274	206,093	13,819	7.2%	184,391	197,850	13,459	7.3%	224,585	240,977	16,392	7.3%	911	1.04	952	17,128

### Merthyr Tudful

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynnyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynnyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	58,883	62,253	3,370	5.7%	266	27,998	30,292	2,294	8.2%	26,934	29,111	2,177	8.1%	25,991	28,091	2,101	8.1%	117	1.03	120	2,160
Twf Swyddi Gwaelodlin	58,883	60,204	1,321	2.2%	163	27,998	29,170	1,172	4.2%	26,934	28,032	1,098	4.1%	25,991	27,050	1,060	4.1%	59	1.03	61	1,090
Hirdymor Twf y Gorffennol	58,883	60,547	1,664	2.8%	181	27,998	29,358	1,360	4.9%	26,934	28,213	1,279	4.7%	25,991	27,225	1,234	4.7%	69	1.03	71	1,269
Tymor Byr Twf y Gorffennol	58,883	57,784	-1,099	-1.9%	44	27,998	27,798	-199	-0.7%	26,934	26,714	-219	-0.8%	25,991	25,779	-212	-0.8%	-12	1.03	-12	-218
LIC-2018	60,919	63,154	2,235	3.7%	164	28,724	30,001	1,277	4.4%	27,633	28,831	1,198	4.3%	26,665	27,821	1,156	4.3%	64	1.03	66	1,189

### Sir Fynwy

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynnyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynnyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	93,886	102,487	8,601	9.2%	970	48,148	52,852	4,704	9.8%	46,848	51,583	4,735	10.1%	45,666	50,282	4,616	10.1%	256	1.05	270	4,860
Twf Swyddi Gwaelodlin	93,886	98,151	4,265	4.5%	741	48,148	50,337	2,189	4.5%	46,848	49,129	2,281	4.9%	45,666	47,889	2,223	4.9%	124	1.05	130	2,341

Hirdymor Twf y Gorffennol	93,886	99,928	6,042	6.4%	835	48,148	51,360	3,212	6.7%	46,848	50,127	3,279	7.0%	45,666	48,863	3,196	7.0%	178	1.05	187	3,366
Tymor Byr Twf y Gorffennol	93,886	99,931	6,045	6.4%	834	48,148	51,191	3,043	6.3%	46,848	49,962	3,114	6.6%	45,666	48,702	3,035	6.6%	169	1.05	178	3,196
LIC-2018	95,489	100,492	5,004	5.2%	789	48,515	50,919	2,404	5.0%	47,205	49,697	2,491	5.3%	46,015	48,443	2,429	5.3%	135	1.05	142	2,557

### Casnewydd

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	161,506	175,044	13,538	8.4%	482	82,428	90,996	8,568	10.4%	78,719	87,083	8,364	10.6%	83,496	92,368	8,872	10.6%	493	1.03	509	9,162
Twf Swyddi Gwaelodlin	161,506	169,722	8,216	5.1%	220	82,428	87,934	5,506	6.7%	78,719	84,153	5,434	6.9%	83,496	89,260	5,764	6.9%	320	1.03	331	5,953
Hirdymor Twf y Gorffennol	161,506	174,168	12,662	7.8%	432	82,428	90,428	8,000	9.7%	78,719	86,540	7,821	9.9%	83,496	91,792	8,296	9.9%	461	1.03	476	8,567
Tymor Byr Twf y Gorffennol	161,506	184,381	22,875	14.2%	929	82,428	96,932	14,504	17.6%	78,719	92,764	14,045	17.8%	83,496	98,394	14,898	17.8%	828	1.03	855	15,385
LIC-2018	158,154	174,290	16,136	10.2%	600	79,384	88,583	9,199	11.6%	75,812	84,774	8,962	11.8%	80,413	89,919	9,506	11.8%	528	1.03	545	9,817

### RhCT

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	239,018	253,229	14,211	5.9%	1,176	113,311	122,724	9,414	8.3%	109,571	118,552	8,981	8.2%	80,345	86,930	6,585	8.2%	366	1.03	377	6,786

Twf Swyddi Gwaelodlin	239,018	246,497	7,479	3.1%	846	113,311	118,930	5,620	5.0%	109,571	114,886	5,315	4.9%	80,345	84,243	3,897	4.9%	217	1.03	223	4,016
Hirdymor Twf y Gorffennol	239,018	244,187	5,169	2.2%	728	113,311	117,578	4,268	3.8%	109,571	113,581	4,009	3.7%	80,345	83,285	2,940	3.7%	163	1.03	168	3,030
Tymor Byr Twf y Gorffennol	239,018	247,763	8,745	3.7%	974	113,311	119,683	6,372	5.6%	109,571	115,614	6,042	5.5%	80,345	84,776	4,431	5.5%	246	1.03	254	4,566
LIC-2018	242,784	252,418	9,634	4.0%	771	115,123	121,040	5,917	5.1%	111,324	116,925	5,601	5.0%	81,630	85,737	4,107	5.0%	228	1.03	235	4,232

### Torfaen

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			
Potensial Uwch Twf Swyddi	92,860	97,052	4,192	4.5%	433	45,488	48,262	2,774	6.1%	43,623	46,670	3,047	7.0%	42,467	45,433	2,966	7.0%	165	1.03	170	3,060
Twf Swyddi Gwaelodlin	92,860	93,279	419	0.5%	243	45,488	46,123	635	1.4%	43,623	44,601	978	2.2%	42,467	43,419	952	2.2%	53	1.03	55	982
Hirdymor Twf y Gorffennol	92,860	93,790	930	1.0%	268	45,488	46,408	920	2.0%	43,623	44,877	1,254	2.9%	42,467	43,687	1,220	2.9%	68	1.03	70	1,259
Tymor Byr Twf y Gorffennol	92,860	99,564	6,704	7.2%	569	45,488	49,496	4,008	8.8%	43,623	47,863	4,240	9.7%	42,467	46,594	4,128	9.7%	229	1.03	237	4,258
LIC-2018	94,111	97,585	3,474	3.7%	392	45,899	47,536	1,637	3.6%	44,017	45,967	1,950	4.4%	42,851	44,749	1,898	4.4%	105	1.03	109	1,959

### Bro Morganwg

Senario	Poblogaeth				Cyfartaledd Mudo Net Blynyddol	Llafurlu				Pobl Gyflogedig				Cyflogaeth (swyddi)					Swyddi Dwbl	Swyddi y flwyddyn	Twf Swyddi
	2022	2040	Newid	% Newid		2022	2040	Change	% Change	2022	2040	Newid	% Newid	2022	2040	Newid	% Newid	Cyfartaledd blynyddol			

Potensial Uwch Twf Swyddi	133,492	146,519	13,027	9.8%	1,001	67,590	75,582	7,993	11.8%	65,427	73,466	8,039	12.3%	51,963	58,348	6,385	12.3%	355	1.04	370	6,660
Twf Swyddi Gwaelodlin	133,492	137,313	3,821	2.9%	533	67,590	70,212	2,623	3.9%	65,427	68,246	2,820	4.3%	51,963	54,202	2,239	4.3%	124	1.04	130	2,336
Hirdymor Twf y Gorffennol	133,492	141,406	7,914	5.9%	736	67,590	72,532	4,943	7.3%	65,427	70,501	5,075	7.8%	51,963	55,993	4,030	7.8%	224	1.04	234	4,204
Tymor Byr Twf y Gorffennol	133,492	146,790	13,298	10.0%	1,008	67,590	74,996	7,406	11.0%	65,427	72,896	7,469	11.4%	51,963	57,895	5,932	11.4%	330	1.04	344	6,188
LIC-2018	135,617	146,527	10,910	8.0%	840	68,989	74,625	5,637	8.2%	66,781	72,536	5,755	8.6%	53,038	57,609	4,570	8.6%	254	1.04	265	4,767


# Atodiad 4: Nodyn Tybiaethau POPGROUP

## POPGROUP

Gan ddefnyddio technoleg rhagweld POPGROUP, mae pum senario twf wedi'u datblygu ar gyfer pob un o'r 10 awdurdod unedol sy'n rhan o PRC.


Cyfres o fodelau demograffig yw POPGROUP a ddefnyddir i gael rhagolygon poblogaeth, aelwydydd a gweithlu ar gyfer ardaloedd a grwpiau cymdeithasol. Model 'cydran carfan' yw'r prif fodel POPGROUP, sy'n galluogi i ragolygon poblogaeth seiliedig ar fewnbynnau a thybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo gael eu datblygu.

**Ffigur 1.1: Methodoleg Rhagamcanu Poblogaeth POPGROUP**



Mae'r model Rhagolygon Deilliannol yn cyd-fynd â'r model poblogaeth sy'n darparu model cyfradd aelodaeth ar gyfer rhagolygon aelwydydd ac anheddau a model cyfradd gweithgarwch economaidd ar gyfer rhagamcanion gweithlu a chyflogaeth.

**Ffigur 1.2: Methodoleg Rhagamcanu Rhagolygon Deilliannol**



## Diffiniad Senario

Y senario meincnod yw senario **Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018**, sy'n ailadrodd prif amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018.

Gan ddefnyddio'r cydrannau MYE diweddaraf o ddata newid (hyd at 2021/22), mae dwy senario 'tuedd amgen' wedi'u datblygu, gan ddefnyddio gwahanol hanesion mudo i raddodi tybiaethau twf yn y dyfodol ohonynt. Mae'r senarios **'Twf y Gorffennol'** hyn yn seiliedig ar barhad o hanes mudo tymor byr (5 mlynedd) a hirdymor (19 mlynedd). Yn y ddwy senario, mae'r addasiad UPC wedi'i gynnwys o fewn y proffil mudo rhyngwladol hanesyddol, gan mai dyma'r elfen o newid y mae UPC yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig ag ef.

Gan ddefnyddio'r rhagolygon swyddi a gynhyrchwyd gan SQW, mae dwy senario 'a arweinir gan gyflogaeth' wedi'u ffurfwedu (**Twf Swyddi Gwaelodlin** a **Thwf Swyddi Posibl Uwch**). Mewn senario a arweinir gan gyflogaeth, defnyddir y newid blynyddol mewn lefel cyflogaeth i gael proffil gweithlu a thwf poblogaeth, gan ddefnyddio tybiaethau allweddol yn ymwneud â chyfraddau gweithgarwch economaidd, diweithdra a chymudo. Defnyddir mudo mewnol (domestig) i gydbwysu twf poblogaeth a chyflogaeth; os yw'r boblogaeth breswyl yn annigonol o ran maint a strwythur i gefnogi'r twf cyflogaeth diffiniedig, bydd lefel uwch o fewnfudo net yn deillio. Defnyddiwyd tybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol 2001/02-2021/22, yn gyson â'r senario Hirdymor Twf y Gorffennol.

Gan fod POPGROUP yn defnyddio mesur cyflogaeth sy'n seiliedig ar bobl, i roi cyfrif am yr unigolion hynny sydd â mwy nag un swydd, mae addasiad 'swyddi dwbl' wedi'i gymhwyso i ragolygon swyddi SQW (3-5% ar draws awdurdodau PRC). O dan y rhagolwg **Twf Swyddi**

**Gwaelodlin**, mae twf cyflogaeth ar gyfartaledd yn 2,344 y flwyddyn (sy'n cyfateb i 2,439 o swyddi y flwyddyn). O dan y senario **Potensial Uwch Twf Swyddi**, mae twf cyflogaeth ar gyfartaledd yn 4,547 y flwyddyn (4,727 o swyddi y flwyddyn).

**Tabl 1.1: Diffiniad Senarios**

<b>Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018</b>	Dyblygu <i>prif</i> amcanestyniad Llywodraeth seiliedig ar 2018, gan ddefnyddio tystiolaeth hanesyddol o'r boblogaeth hyd at ei blwyddyn sylfaen yn 2018.
<b>Tuedd Tymor Byr Twf y Gorffennol</b>	Defnyddio blwyddyn sylfaen 2022, gyda thybiaethau mudo, ffrwythlondeb a marwolaethau wedi'u graddnodi o gyfnod hanesyddol 5 mlynedd (2017/18–2021/22). Mae'r addasiad UPC hanesyddol wedi'i gynnwys o fewn elfen mudo rhyngwladol yr MYE (2001/02–2020/21).
<b>Tuedd Hirdymor Twf y Gorffennol</b>	Defnyddio blwyddyn sylfaen 2022, gyda thybiaethau mudo wedi'u graddnodi o gyfnod hanesyddol 21 mlynedd (2001/02–2021/22), a ffrwythlondeb a marwolaethau o gyfnod hanesyddol 5 mlynedd (2017/18–2021/22). Mae'r addasiad UPC hanesyddol wedi'i gynnwys o fewn elfen mudo rhyngwladol yr MYE (2001/02–2020/21).
<b>Twf Swyddi Gwaelodlin</b>	Yn y senario hon a arweinir gan gyflogaeth, ysgogir twf yn y boblogaeth gan dwf mewn lefel cyflogaeth, sy'n deillio o ragolwg 'Gwaelodlin' PRC SQW, sy'n cyfateb i 2,439 o swyddi ychwanegol y flwyddyn. Mae targedau twf cyflogaeth yn cael eu cymhwyso o MYE 2022 ymlaen. Mae tybiaethau mudo, ffrwythlondeb a marwolaethau yn gyson â'r senario Hirdymor Twf y Gorffennol.
<b>Potensial Uwch Twf Swyddi</b>	Yn y senario hon a arweinir gan gyflogaeth, ysgogir twf yn y boblogaeth gan dwf mewn lefel cyflogaeth, sy'n deillio o ragolwg 'Twf' PRC SQW, sy'n cyfateb i 4,727 o swyddi ychwanegol y flwyddyn. Mae targedau twf cyflogaeth yn cael eu cymhwyso o MYE 2022 ymlaen. Mae tybiaethau mudo, ffrwythlondeb a marwolaethau yn gyson â'r senario Hirdymor Twf y Gorffennol.

## Mewnbynnau Senario a Thybiaethau

### *Poblogaeth*

Ym mhob un o'r senarios **Twf y Gorffennol** a **Thwf Swyddi**, blwyddyn sylfaen yr amcanestyniad yw MYE 2022 SYG, wedi'i dadgyfuno yn ôl blwyddyn sengl oed a rhyw. O 2022 ymlaen, mae cyfrifiadau poblogaeth y dyfodol yn cael eu hamcangyfrif yn ôl blwyddyn sengl o oedran a rhyw, gan ddefnyddio'r tybiaethau diffiniedig ar ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo fel yr amlinellir isod.

Yn senario **Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018**, mae blwyddyn sylfaen y boblogaeth (2018) a'r taflwybr twf wedi hynny yn cael eu tynnu'n uniongyrchol o'r prif amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol swyddogol ar gyfer pob un o'r 10 awdurdod.

### ***Genedigaethau a Ffrwythlondeb***

Yn senario **Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018**, cymhwysir cyfrifiadau genedigaethau a ragamcanir o'r flwyddyn sylfaen 2018 i sicrhau cysondeb â'r amcanestyniadau swyddogol.

Yn y senarios **Twf y Gorffennol a Thwf Swyddi**, mae amserlen cyfradd ffrwythlondeb ardal-benodol ac oedran-benodol (ASFR) yn deillio o hanes 5 mlynedd data genedigaethau hanesyddol (2017/18–2021/22). Ar y cyd â'r 'boblogaeth mewn risg' (h.y. pob menyw rhwng 15 a 49 oed), mae'r tybiaethau ASFR yn darparu'r sail ar gyfer cyfrifo genedigaethau ym mhob blwyddyn o 2022 ymlaen. Dros y cyfnod rhagweld, caiff yr ASFR ei addasu i adlewyrchu'r gyfradd newid flynyddol yn y tybiaethau ffrwythlondeb hirdymor ym Mhrif Amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018.

### ***Marwolaethau***

Yn senario **Llywodraeth Cymru-2018**, mae cyfrifiadau rhagamcanol o farwolaethau yn ôl grŵp oedran a rhyw 5 mlynedd yn cael eu cymhwyso o'r flwyddyn sylfaen 2018 i sicrhau cysondeb â'r rhagamcanion swyddogol.

Yn y senarios **Twf y Gorffennol a Thwf Swyddi**, mae amserlen cyfradd marwolaethau ardal-benodol ac oedran-benodol (ASMR) yn deillio o hanes 5 mlynedd data marwolaethau hanesyddol yn ôl rhyw (2017/18-2021/22). Ar y cyd â'r 'boblogaeth mewn risg' (h.y. cyfanswm y boblogaeth), mae'r tybiaethau ASMR hyn yn rhoi'r sail ar gyfer cyfrifo marwolaethau ym mhob blwyddyn o'r cyfnod rhagweld. Dros y cyfnod rhagweld caiff yr ASMR ei addasu i adlewyrchu'r gyfradd newid flynyddol yn y tybiaethau marwolaethau hirdymor ym Mhrif Amcanestyniad Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2018.

### ***Mudo Mewnol***

Yn senario **Llywodraeth Cymru-2018**, mae cyfrifiadau rhagamcanol o fudo mewnol a mudo allan yn ôl grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw yn cael eu cymhwyso o'r flwyddyn sylfaen 2018 i sicrhau cysondeb â'r rhagamcanion swyddogol.

O dan y senarios **Twf y Gorffennol**, mae amserlen cyfradd mudo ardal ac oedran-benodol (ASMigR) yn deillio o nifer diffiniedig o flynyddoedd o ddata mudo mewnol hanesyddol, sydd wedyn yn pennu nifer y mudo mewnol a'r mudo allan yn y dyfodol ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun. Ar gyfer senario **Tuedd Tymor Byr Twf y Gorffennol**, mae hyn yn deillio o bum mlynedd o ddata hanesyddol (2017/18–2021/22) ac ar gyfer senario **Tuedd Hirdymor Twf y Gorffennol**, mae hyn yn deillio o'r un mlynedd ar hugain lawn o ddata hanesyddol. (2001/02–2021/22).

Yn y senarios **Twf Swyddi**, mae tybiaethau mudo mewnol yn gyson â senario Tuedd Hirdymor Twf y Gorffennol.

### ***Mudo Rhyngwladol***

Yn senario **Llywodraeth Cymru-2018**, caiff cyfrifiadau rhagamcanol o fewnfudo ac allfudo rhyngwladol yn ôl grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw eu cymhwysu o flwyddyn sylfaen 2018 i sicrhau cysondeb â'r rhagamcanion swyddogol.

O dan y senarios **Twf y Gorffennol**, mae cyfrifiadau mewnfudo ac allfudo rhyngwladol yn y dyfodol wedi deillio o nifer diffiniedig o flynyddoedd o ddata mudo mewnol hanesyddol. Ar gyfer senario **Tuedd Tymor Byr Twf y Gorffennol**, mae hyn yn deillio o bum mlynedd o ddata hanesyddol (2017/18–2021/22) ac ar gyfer senario **Tuedd Hirdymor Twf y Gorffennol**, mae hyn yn deillio o'r un mlynedd ar hugain lawn o ddata hanesyddol. (2001/02–2021/22). Mae rhestr o gyfraddau ASMigR yn deillio o'r hanes mudo perthnasol ac yn cael ei defnyddio i ddsbarthu'r cyfrifon yn y dyfodol yn ôl blwyddyn sengl.

Yn y senarios **Twf Swyddi**, mae tybiaethau mudo rhyngwladol yn gyson â senario Tuedd Hirdymor Twf y Gorffennol.

### **Llafurlu a Chyflogaeth**


Ym mhob senario, mae cyfraddau gweithgarwch economaidd, cyfradd ddiweithdra a chymhareb gymudo yn pennu'r cysylltiad rhwng twf poblogaeth a chyflogaeth. Yn y senarios tueddiadau a swyddogol (Llywodraeth Cymru), cymhwysir y tybiaethau hyn at y taflwybr twf poblogaeth i bennu maint y gweithlu preswyl a lefel cyflogaeth yn yr ardal. Mewn senario a arweinir gan gyflogaeth, defnyddir y tybiaethau hyn i bennu lefel y gweithlu a'r twf yn y boblogaeth sydd ei angen i gefnogi'r lefel ddiffiniedig o gyflogaeth.

### ***Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd***

Cyfraddau gweithgarwch economaidd yw cyfran y boblogaeth sy'n cymryd rhan weithredol yn y gweithlu, naill ai'n gyflogedig neu'n ddi-waith ac yn chwilio am waith. Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd yn ôl grŵp oedran pum mlynedd (16-89 oed) a rhyw wedi deillio o ystadegau'r Cyfrifiad ar gyfer pob un o'r awdurdodau PRC.

Rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021 bu gostyngiad mewn gweithgarwch economaidd ar gyfer dynion a menywod ym mhob grŵp oedran o dan 55 oed yn PRC. Mae'r gostyngiad yn y grŵp oedran 16-19 ar draws dynion a menywod yn debygol o fod yn gysylltiedig â chyfran uwch o'r grŵp oedran hwn yn aros mewn addysg/hyfforddiant y tu hwnt i 16 oed. Yn y grwpiau oedran 55+ ar gyfer dynion a menywod, fe wnaeth cyfraddau gweithgarwch economaidd gynyddu rhwng 2011 a 2021, yn enwedig ar gyfer menywod, oherwydd bod pobl yn ymdeol yn hwyrach a menywod yn aros yn y gweithlu am gyfnod hwy.

**Ffigur 1.3: Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd**



Ffynhonnell: SYG, OBR 2018

Er bod y newidiadau hyn, i ryw raddau, i'w disgwyl, mae'n bwysig nodi'r effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael (ac yn parhau i'w chael) ar gyfraddau cyfranogiad y gweithlu. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi nodi y bu cynnydd mewn anweithgarwch economaidd yn ystod y pandemig, yn enwedig ymhlith grwpiau oedran myfyrwyr<sup>136</sup>. Gwelwyd y duedd hon hefyd ar draws yr oeddrannau iau (h.y. nid myfyrwyr yn unig)<sup>137</sup>. Mae adroddiad yr OBR ym mis Tachwedd 2023 yn awgrymu bod y gostegiad hwn yn y cyfraddau cyfranogi yn debygol o barhau tan 2026 oherwydd salwch hirdymor ac ymddeoliad o fewn y grwpiau oedran hŷn, ond efallai y bydd y cyfraddau yn cynyddu i 2029.<sup>138</sup>

Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu y gallai'r ffordd yr ymatebodd pobl i gwestiynau'r Cyfrifiad ynghylch cyfranogiad y gweithlu fod wedi'i effeithio gan ffyrlo, a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 ac a ddaeth i ben ym mis Medi 2021. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod anghysondebau rhwng nifer y bobl a oedd yn uniaethu fel "I ffwrdd o'r gwaith dros dro" yng Nghyfrifiad 2021 a ffynonellau data gweinyddol eraill.<sup>139</sup>

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch pa mor gynrychioliadol yw cyfraddau gweithgarwch economaidd Cyfrifiad 2021 o'r lefelau cyfranogiad presennol, mae cyfraddau Cyfrifiad 2011 wedi'u cymhwyso yn y gwaith modelu. Er mwyn rhoi cyfrif am newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth yn y dyfodol, mae addasiadau wedi'u cymhwyso i'r cyfraddau gweithgarwch economaidd, yn unol â'r rhagolwg manwl seiliedig ar 2018 gan yr OBR, a gyflwynwyd yn ei adroddiad cynaliadwyedd cyllidol.<sup>140</sup>

O fewn dadansoddiad rhagolygon cyllidol diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, nid oes rhagolwg o'r cyfraddau gweithgarwch economaidd yn ôl oedran; mae'r dadansoddiad

<sup>136</sup>

<sup>137</sup>

<sup>138</sup> OBR Tachwedd 2023 [Economic and fiscal outlook – November 2023](#)

<sup>139</sup> ONS, Tachwedd 2023 [Labour market quality information for Census 2021](#).

<sup>140</sup> OBR Tachwedd 2018 [Adroddiad cynaliadwyedd cyllidol – Gorffennaf 2018](#)

diweddaraf o'r fath i'w gynnwys yn dod o 2018<sup>141</sup>. Yn adroddiad 2018, cyhoeddodd yr OBR ei ragolygon hirdymor ar gyfer y gweithlu, gan gynnwys newidiadau amcangyfrifedig i gyfraddau gweithgarwch economaidd oedran-benodol a rhyw-benodol. Cafodd y rhain eu llywio gan ragamcanion poblogaeth oedran-benodol a rhyw-benodol a chyfraddau gweithgarwch economaidd hanesyddol, tra hefyd yn rhoi ystyriaeth i oedran pensiwn y wladwriaeth sy'n codi a'i effaith ar gyfraddau gweithgarwch economaidd grwpiau oedran hŷn. Mae addasiadau wedi'u cymhwyso i bob grŵp oedran i ystyried y newidiadau hyn a ragwelwyd. Mae'r cyfraddau gweithgarwch economaidd yn 2040 gyda'r addasiadau hyn wedi'u cymhwyso hefyd i'w gweld yn **Error! Reference source not found.**

### **Diweithdra a Chymudo**

Mae'r berthynas rhwng trigolion cyflogedig a lefel cyflogaeth yn POGROUP yn cael ei phennu gan y gymhareb gymudo. Mae cymhareb gymudo o fwy na 1.00 yn dangos bod maint y gweithlu preswyl yn fwy na lefel y gyflogaeth sydd ar gael yn yr ardal, gan arwain at allgymudo net. Mae cymhareb gymudo o lai na 1.00 yn dangos bod cyflogaeth yn yr ardal yn fwy na maint y gweithlu, gan arwain at fewn-gymudo net.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei dadansoddiad ei hun o batrymau cymudo rhwng 2011 a 2022, gan ddefnyddio data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) gan SYG.<sup>142</sup> O'r ystadegau ar gyfanswm nifer y trigolion sy'n gweithio yn yr ardal (h.y. y gweithlu preswyl) a chyfanswm y bobl sy'n gweithio yn yr ardal (h.y. cyflogaeth), lluniwyd cymhareb gymudo ar gyfer pob un o'r 10 awdurdod. Mae'r cymarebau hyn yn sefydlog trwy gydol y cyfnod a ragwelir. Wedi'i gyfuno ar draws PRC, mae hyn yn awgrymu allgymudo net cyffredinol, gyda chymhareb o 1.04.

Mae'r gyfradd ddiweithdra yn pennu cyfran y bobl ddi-waith o fewn y boblogaeth economaidd weithgar. Mae cyfraddau diweithdra hanesyddol wedi dod o amcangyfrifon ar sail model y Swyddfa Ystadegau Gwladol (APS, 2023).

Mae'r gymhareb gymudo a'r tybiaethau cyfradd diweithdra ar gyfer pob un o'r awdurdodau wedi'u crynhoi isod.

**Tabl 1.2: Cymhareb Cymudo a Thybiaethau Cyfradd Diweithdra**

Ardal	Cyfradd Cymudo	Cyfradd Diweithdra
Blaenau Gwent	1.46	3.9%
Pen-y-bont ar Ogwr	1.12	3.2%
Caerffili	1.19	3.4%
Caerdydd	0.82	4.0%
Merthyr Tudful	1.04	3.9%
Sir Fynwy	1.03	2.4%

<sup>141</sup> OBR Tachwedd 2018 [Adroddiad cynaliadwyedd cyllidol – Gorffennaf 2018](#)

<sup>142</sup> [Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur](#)

Casnewydd	0.94	4.3%
Rhondda Cynon Taf	1.36	3.4%
Torfaen	1.03	3.3%
Bro Morgannwg	1.26	2.8%

**Turley Office**  
1 New York Street  
Manchester  
M1 4H  
T 0161 233 7676